# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 16/06/2015

Cynnwys Contents


1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog
1. Questions to the First Minister

2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
2. Business Statement and Announcement

3. Datganiad: Adroddiad Blynyddol ar y Rhaglen Lywodraethu
3. Statement: The Programme for Government Annual Report

4. Dadl Cyfnod 3 ar Fil Cymwysterau Cymru
4. Stage 3 Debate on the Qualifications Wales Bill

5. Dadl Cyfnod 4 ar Fil Cymwysterau Cymru
5. Stage 4 Debate on the Qualifications Wales Bill


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:29 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:29 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:29

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:29

# 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

# 1. Questions to the First Minister

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The first item this afternoon is questions to the First Minister, and question 1 is from Andrew R.T. Davies.

Yr eitem gyntaf y prynhawn yma yw cwestiynau i'r Prif Weinidog, a daw cwestiwn 1 gan Andrew R.T. Davies.

### Gofal i Gleifion Canol De Cymru

### Care for Patients in South Wales Central

13:29

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

*1. Pa gamau y mae'r Prif Weinidog yn eu cymryd i sicrhau bod cleifion yng Nghanol De Cymru yn cael gofal o safon uchel? OAQ(4)2340(FM)*

*1. What steps are being taken by the First Minister to ensure that patients in South Wales Central receive high standards of care? OAQ(4)2340(FM)*

13:29

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We've invested over £500 million extra in NHS Wales during 2014-16. As the latest national survey demonstrates, 91 per cent of people in Wales were satisfied with the care that they received from their GPs, and 92 per cent, with the care they received at their last appointment at an NHS hospital.

Rydym wedi buddsoddi dros £500 miliwn yn ychwanegol yn GIG Cymru yn ystod 2014-16. Fel y mae'r arolwg cenedlaethol diweddaraf yn ei ddangos, roedd 91 y cant o bobl yng Nghymru yn fodlon â'r gofal a gawsant gan eu meddygon teulu, a 92 y cant yn fodlon â'r gofal a gawsant yn eu hapwyntiad diwethaf mewn ysbyty GIG.

13:30 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, First Minister, for that answer. Obviously, today's news, pointing out that Cardiff and Vale University Local Health Board—which is one of the health boards that covers my South Wales Central region—is in debt to the tune of £26 million, is of deep concern. This is the second year, I believe, that this situation has happened, despite, in fairness, extra money being made available by the Minister for Finance and Government Business. If this situation isn't rectified, it could have dramatic repercussions for healthcare, going forward, in the Cardiff and Vale area. What actions are the Government undertaking to work with the health board, to make sure that such a large overspend is managed within resource, and that there is no direct impact on care within the Cardiff and Vale health board area?

Diolch, Brif Weinidog, am yr ateb yna. Yn amlwg, mae newyddion heddiw, sy'n nodi bod Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro—un o'r byrddau iechyd sy'n gwasanaethu fy rhanbarth i Canol De Cymru—mewn dyled o £26 miliwn, yn destun pryder mawr. Hon yw'r ail flwyddyn, rwy'n credu, i'r sefyllfa hon ddigwydd, er gwaethaf, a bod yn deg, y ffaith bod Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth wedi darparu arian ychwanegol. Oni chaiff y sefyllfa hon ei chywiro, gallai achosi ôl-effeithiau sylweddol i ofal iechyd, yn y dyfodol, yn ardal Caerdydd a'r Fro. Pa gamau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i weithio gyda'r bwrdd iechyd, i sicrhau bod gorwariant mor fawr yn cael ei reoli o fewn adnoddau, ac nad yw'n effeithio'n uniongyrchol ar ofal yn ardal bwrdd iechyd Caerdydd a'r Fro?

13:30 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

We know that NHS overspends are not unique to Wales; I think in England over £800 million of a deficit has been identified. Nevertheless, it's important to work with the LHBs, in order to deal with their financial issues. Of course, as he has pointed out, now they're expected to work within a three-year financial framework, we'll continue to work with them, and with other local health boards, in order to make sure that they deliver the services that people would expect, within the budget that they've been set.

Rydym yn gwybod nad yw gorwariant y GIG yn unigryw i Gymru; rwy'n meddwl bod diffyg ariannol o dros £800 miliwn wedi'i nodi yn Lloegr. Serch hynny, mae'n bwysig gweithio gyda'r Byrddau Iechyd Lleol i ymdrin â'u materion ariannol. Wrth gwrs, fel y mae ef wedi'i nodi, mae disgwyl iddynt weithio o fewn fframwaith ariannol tair blynedd erbyn hyn, a byddwn yn parhau i weithio gyda hwy, a gyda byrddau iechyd lleol eraill, i sicrhau eu bod yn darparu'r gwasanaethau y byddai pobl yn eu disgwyl, o fewn y gyllideb a osodwyd ar eu cyfer.

13:31 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, last week, I visited the exhibition of the great work done by our nutritionists, which includes their excellent eight-week course to combat obesity—Foodwise for Life. On that course, 71 per cent of them lost weight, by an average of 3 kg, 77 per cent ate more fruit and veg, and over 90 per cent ate less sugary and high-fat food. Will you join me in congratulating these fantastic nutritionists for the wonderful work they're doing on delivering prudent healthcare?

Brif Weinidog, yr wythnos diwethaf, ymwelais â'r arddangosfa o'r gwaith gwych a wneir gan ein maethegwyr, sy'n cynnwys eu cwrs wyth wythnos ardderchog i ymdrin â gordewdra—Bwyta'n Dda am Oes. Ar y cwrs hwnnw, llwyddodd 71 y cant ohonynt i golli pwysau, 3 kg ar gyfartaledd, roedd 77 y cant yn bwyta mwy o ffrwythau a llysiau, ac roedd dros 90 y cant yn bwyta llai o fwydydd sy'n cynnwys llawer o siwgr a braster. A wnewch chi ymuno â mi i longyfarch y maethegwyr gwych hyn am y gwaith ardderchog y maent yn ei wneud i ddarparu gofal iechyd doeth?

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, I would. I wish I could say that from the basis of personal experience—sadly not. I know that Foodwise for Life is one of many excellent community food initiatives, developed under the Nutrition Skills for Life programme, building capacity in the community workforce. We know that what it does is it equips participants with the nutrition knowledge that they need in order to manage their own situation, which is important. We know that it's quite common for people to go on diets, and then they lose weight, and, if it's not sustained, they put weight back on again. This is a far more sustainable way of informing people of what they need to do in order to lose weight.

Gwnaf. Byddwn yn hoffi gallu dweud hynny ar sail profiad personol—ond yn anffodus ni allaf. Gwn fod Bwyta'n Dda am Oes yn un o lawer o fentrau bwyd cymunedol rhagorol a ddatblygwyd o dan y rhaglen Sgiliau Maeth am Oes, i feithrin gallu yn y gweithlu cymunedol. Rydym yn gwybod mai'r hyn y mae'n ei wneud yw arfogi cyfranogwyr â'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt am faeth er mwyn gallu rheoli eu sefyllfa eu hunain, ac mae hynny'n bwysig. Rydym yn gwybod ei bod yn eithaf cyffredin i bobl fynd ar ddiet, ac yna byddant yn colli pwysau, ac, os na fyddant yn ei gynnal, byddant yn ennill pwysau unwaith eto. Mae hon yn ffordd llawer mwy cynaliadwy o roi gwybod i bobl beth mae angen iddynt ei wneud er mwyn colli pwysau.

13:32 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, a key component of care is, obviously, the quality of the ambulance service, and you'll be aware of concerns that I raised in the past about the ambulance service in the Rhondda Cynon Taf area. Will you join me in congratulating the really positive progress that is now being made as a result of meetings between myself and the Assembly Member for Rhondda constructively engaging with the Welsh Ambulance Services NHS Trust and Cwm Taf University Local Health Board, and the significant improvements that are now being shown, which, hopefully, will continue? Will you join me in congratulating the ambulance trust, and also all the staff who are involved in that, and, hopefully, there'll be further progress?

Brif Weinidog, un elfen allweddol ar ofal yw, yn amlwg, ansawdd y gwasanaeth ambiwlans, a byddwch yn ymwybodol o'r pryderon a godais yn y gorffennol am y gwasanaeth ambiwlans yn ardal Rhondda Cynon Taf. A wnewch chi ymuno â mi i longyfarch y cynnydd cadarnhaol iawn sydd bellach yn cael ei wneud o ganlyniad i gyfarfodydd lle bûm i ac Aelod Cynulliad y Rhondda yn ymgysylltu'n adeiladol ag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf, a'r gwelliannau sylweddol sydd i'w gweld yn awr, a fydd, gobeithio, yn parhau? A wnewch chi ymuno â mi i longyfarch yr ymddiriedolaeth ambiwlans, a hefyd yr holl staff sy'n ymwneud â hynny, a bydd cynnydd pellach, gobeithio?

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, I would. I convened two meetings with those working in the ambulance sector, and made it very, very clear that we needed to see improvements in the ambulance response times, and, in fairness, they've responded to that. In the Cwm Taf area, that's been particularly marked—the best performance since January 2012, and a 30 per cent improvement on December. We now look forward to the full evaluation of the pilot work that's being done in Cwm Taf, to see how that example could be spread out across Wales.

Gwnaf. Galwais ddau gyfarfod gyda'r bobl sy'n gweithio yn y sector ambiwlans, gan ei gwneud yn glir iawn, iawn bod angen inni weld gwelliannau mewn amseroedd ymateb ambiwlansys, ac, er tegwch, maent wedi ymateb i hynny. Yn ardal Cwm Taf, bu hynny'n amlwg iawn—y perfformiad gorau ers mis Ionawr 2012, a gwelliant o 30 y cant oddi ar fis Rhagfyr. Rydym nawr yn edrych ymlaen at y gwerthusiad llawn o'r gwaith arbrofol sy'n cael ei wneud yng Nghwm Taf, i weld sut y gellid lledaenu'r enghraifft honno ledled Cymru.

13:33 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I'm sure you will be aware of the high standards of cardiac care witnessed by Healthcare Inspectorate Wales during their recent unannounced visit to Prince Charles Hospital. In particular, they noted that extra staff were employed during the early evenings, so that patients and their families could share information and discuss concerns. What lessons can the Welsh Government take from this to ensure that this standard of care becomes the norm across the Welsh NHS?

Brif Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch yn ymwybodol o'r safonau uchel o ofal y galon a welodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn ystod eu hymweliad dirybudd diweddar ag Ysbyty'r Tywysog Siarl. Yn benodol, roeddent yn nodi bod staff ychwanegol yn cael eu defnyddio yn gynnar yn y nosweithiau, fel y gallai cleifion a'u teuluoedd rannu gwybodaeth a thrafod pryderon. Pa wersi y gall Llywodraeth Cymru eu dysgu o hyn i sicrhau bod y safon hon o ofal yn dod y norm ar draws y GIG yng Nghymru?

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, spreading a good example is important within the Welsh NHS. It's good to see the response to what was, of course, an unannounced visit. I'd like to congratulate the cardiac team on their efforts to listen and, of course, to respond to what patients were saying to them, and, indeed, relatives. I know that work has been done in terms of changing rotas. I think it is important that other health boards learn from what has happened in Prince Charles, because it seems that it's simple changes that have made a great difference, and it's important that other health boards see what's been done there, in order to learn from that experience.

Wel, mae lledaenu esiampl dda yn bwysig o fewn y GIG yng Nghymru. Mae'n braf gweld yr ymateb i'r ymweliad hwn a oedd, wrth gwrs, yn ddirybudd. Hoffwn longyfarch y tîm cardiaidd ar eu hymdrechion i wrando ac, wrth gwrs, i ymateb i'r hyn yr oedd cleifion yn ei ddweud wrthynt, ac, yn wir, perthnasau. Gwn fod gwaith wedi ei wneud o ran newid rotâu. Credaf ei bod yn bwysig bod byrddau iechyd eraill yn dysgu o'r hyn sydd wedi digwydd yn Tywysog Siarl, oherwydd mae'n ymddangos mai newidiadau syml sydd wedi gwneud gwahaniaeth mawr, ac mae'n bwysig bod byrddau iechyd eraill yn gweld beth sydd wedi'i wneud yno, er mwyn dysgu o'r profiad hwnnw.

## Gwasanaethau Rhewmatoleg (Sir Benfro)

## Rheumatology Services (Pembrokeshire)

13:34 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyflwr gwasanaethau rhewmatoleg yn ysbytai sir Benfro? OAQ(4)2338(FM)*

*2. Will the First Minister make a statement on the state of rheumatology services at hospitals in Pembrokeshire? OAQ(4)2338(FM)*

13:35

**Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I understand that there have previously been difficulties in recruitment in rheumatology in Pembrokeshire, which did lead to some delays with some patients receiving treatment. The health board has now recruited its full establishment: in other words, two consultants, one staff grade and a qualified nursing team.

Deallaf y bu anawsterau recriwtio ym maes rhewmatoleg yn Sir Benfro yn y gorffennol, a bod hynny wedi arwain at rywfaint o oedi cyn i rai cleifion gael triniaeth. Mae'r bwrdd iechyd bellach wedi recriwtio ei weithlu llawn: mewn geiriau eraill, dau ymgynghorydd, un graddfa staff a thîm nyrsio cymwysedig.

Senedd.tv Fideo Video

13:35

**Angela Burns** Bywgraffiad Biography

First Minister, we have a terrible legacy of queues at Withybush Hospital for the provision of rheumatology services. The recruitment exercise that's been undertaken leaves no wriggle room for sickness or maternity. In fact, we're now down again to two part-time consultants and very long queues. Will you work with the Minister for Health and Social Services to make sure that health boards—I know they can't possibly legislate for every single eventuality that may occur, but there are some fairly obvious ones such as a pregnancy—take steps to recruit people, because these waiting lists that people who are in severe pain with rheumatoid arthritis are having to undergo are beyond belief?

Brif Weinidog, mae gennym etifeddiaeth ofnadwy o giwiau yn Ysbyty Llwynhelyg i gael gwasanaethau rhewmatoleg. Nid yw'r ymarfer recriwtio a wnaethpwyd yn gadael dim hyblygrwydd ar gyfer salwch neu famolaeth. Yn wir, rydym bellach i lawr eto i ddau ymgynghorydd rhan-amser a chiwiau hir iawn. A wnewch chi weithio gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau bod byrddau iechyd—gwn nad yw'n bosibl iddynt allu paratoi ar gyfer pob un posibilrwydd a allai ddigwydd, ond mae rhai'n eithaf amlwg megis beichiogrwydd—yn cymryd camau i recriwtio pobl, oherwydd mae'r rhestrau aros hyn sy'n wynebu pobl sydd mewn poen difrifol ag arthritis gwynegol yn anhygoel?

Senedd.tv Fideo Video

13:36

**Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, it's important that the local health board has in place the staff needed to administer the anti-TNF drugs that deal with rheumatoid arthritis. Some of those drugs are self-administered; some are not. Clearly, where there needs to be administration of the drug within the hospital setting, then there needs to be at least a nursing team in place who can administer that drug, and the local health board, as far as I'm aware, have put in place a team to deal with that. The Member is shaking her head. I will investigate the points that she has made to see whether the situation is still current, or whether there are difficulties there and, of course, I will write back to her with any further information that I have.

Ydy, mae'n bwysig bod gan y bwrdd iechyd lleol y staff sydd eu hangen i roi'r cyffuriau gwrth-TNF sy'n ymdrin ag arthritis gwynegol. Mae rhai o'r cyffuriau hynny'n cael eu rhoi gan y claf ei hun; ceir eraill nad ydynt. Yn amlwg, pan fo angen rhoi'r cyffur yn yr ysbyty, mae angen, o leiaf, tîm nyrsio sy'n gallu rhoi'r cyffur hwnnw, ac mae'r bwrdd iechyd lleol, cyn belled ag y gwn i, wedi sefydlu tîm i ymdrin â hynny. Mae'r Aelod yn ysgwyd ei phen. Byddaf yn ymchwilio i'r pwyntiau y mae wedi'u gwneud i weld a yw'r sefyllfa'n dal i fod yn gyfredol, ynteu a oes anawsterau yno ac, wrth gwrs, byddaf yn ysgrifennu yn ôl ati gydag unrhyw wybodaeth bellach fydd gennyf.

Senedd.tv Fideo Video

13:36

**Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Er bod yna recriwtio wedi digwydd ers y llynedd yn Ysbyty Llwynhelyg, sydd wedi gwella pethau mewn rhan o sir Benfro, nid yw'r sefyllfa drwy Hywel Dda gystal ag y dylai fod. Er enghraifft, mae yna ymgynghorydd wedi'i benodi i weithio rhwng Bronglais a Glangwili, sydd hefyd yn gwasanaethu pobl sir Benfro, ond nid oes gan yr ymgynghorydd hwnnw gyfrifiadur, swyddfa na staff cynorthwyol. Felly, mae pobl yn dal i ddioddef wrth aros ar gyfer triniaeth ar gyfer 'rheumatoid arthritis'. Felly, a wnewch chi wneud yn siŵr nid yn unig fod yr un ymgynghorydd hwnnw ar gael mewn un ysbyty, ond bod cleifion ar draws y sir yn cael gwasanaeth yn y tri ysbyty sy'n gwasanaethu sir Benfro yn gyfan?

Although recruitment has taken place since last year in Withybush Hospital, which has improved things in parts of Pembrokeshire, the situation is throughout Hywel Dda isn't as it should be. For example, a consultant has been appointed to work between Bronglais and Glangwili, which also serves the people of Pembrokeshire, but that consultant doesn't have a computer, doesn't have an office and doesn't have any support staff. Therefore, people are still suffering long waits for rheumatoid arthritis treatment. Therefore, will you ensure not only that that one consultant is available in that one hospital, but that patients across the county have access to services in the three hospitals serving Pembrokeshire as a whole?

Senedd.tv Fideo Video

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae hwnnw'n bwysig, wrth gwrs, ond o'r hyn rwy'n ei ddeall, ar ddiwedd mis Ebrill, roedd 800 o bobl yn sefyll am wasanaethau rhewmatoleg dros Hywel Dda, a 40 o'r rheini wedi aros am fwy na 26 o wythnosau. Mae'n bwysig dros ben, wrth gwrs, i sicrhau bod pobl yn cael eu gweld cyn gynted ag sy'n bosibl er mwyn sicrhau eu bod nhw'n gallu cael y driniaeth sydd ei heisiau arnyn nhw. Mae'n bwysig, gyda'r driniaeth hon, fod pobl yn gallu cael y driniaeth yn weddol gyflym er mwyn cael y lles mwyaf ohoni.

That is important, of course, but as I understand it, at the end of April, there were 800 people waiting for rheumatology services across the whole of Hywel Dda, and 40 of those had been waiting more than 26 weeks. It is extremely important, of course, to ensure that people are seen as soon as possible to ensure they can receive the treatment they require. It is very important, with this treatment, that people are able to access the treatment fairly quickly in order to get the maximum benefit from it.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from the party leaders. First this afternoon is the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau. Yn gyntaf y prynhawn yma mae arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

13:38 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, yesterday, you told your press conference that the departure of the Welsh Government property adviser, Mr Goldstone, was a mutual decision not to renew his contract in April and that it was unrelated to the allegations around Ideoba. Last night, Mr Goldstone contradicted your version of events. He claims that it was his decision and that his departure was entirely related to the ongoing question marks around his role with this particular company's application to the Welsh Government. Who is telling the truth, First Minister?

Brif Weinidog, ddoe, dywedasoch wrth eich cynhadledd i'r wasg fod ymadawiad cynghorydd eiddo Llywodraeth Cymru, Mr Goldstone, yn benderfyniad gan y ddwy ochr i beidio ag adnewyddu ei gontract ym mis Ebrill ac nad oedd a wnelo hynny ddim â'r honiadau ynglŷn ag Ideoba. Neithiwr, roedd Mr Goldstone yn gwrth-ddweud eich fersiwn chi o ddigwyddiadau. Mae'n honni mai ei benderfyniad ef ydoedd a bod ei ymadawiad yn gwbl gysylltiedig â'r marciau cwestiwn parhaus ynglŷn â'i swyddogaeth gyda chais y cwmni penodol hwn i Lywodraeth Cymru. Pwy sy'n dweud y gwir, Brif Weinidog?

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

What I said yesterday was correct.

Roedd yr hyn a ddywedais ddoe yn gywir.

13:38 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, there clearly is a difference of opinion here. In particular Mr Goldstone's events clearly contradict the points that you made to your press conference yesterday. He is on record as saying that:

Brif Weinidog, mae gwahaniaeth barn yma, yn amlwg. Yn benodol, mae disgrifiad Mr Goldstone yn gwrth-ddweud yn glir y pwyntiau a wnaethoch i'ch cynhadledd i'r wasg ddoe. Mae ef wedi dweud ar goedd:

'I regret that this issue has been raised.'

Rwy'n gresynu bod y mater hwn wedi cael ei godi.

These are his direct words, these are.

Ei eiriau uniongyrchol ef yw'r rhain.

'This has meant I had no alternative but to cease working for the Welsh Government.'

Mae hyn wedi golygu nad oedd gen i ddim dewis ond rhoi'r gorau i weithio i Lywodraeth Cymru.'

First Minister, he has said quite clearly that his leaving of the Welsh Government is because of the actions and advice that he gave the Welsh Government in relation to this particular application. Why is his recollection of events so different from your recollection of events?

Brif Weinidog, mae wedi dweud yn eithaf clir ei fod wedi gadael Llywodraeth Cymru oherwydd y camau gweithredu a'r cyngor a roddodd i Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r cais penodol hwn. Pam mae ei atgof ef o ddigwyddiadau mor wahanol i'ch atgof chi o ddigwyddiadau?

13:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is a fact that his contract came to an end at the end of April. He may feel that that was a factor in terms of his future, but as far as we are concerned, his contract came to an end naturally.

Mae'n ffaith bod ei gontract wedi dod i ben ddiwedd mis Ebrill. Efallai ei fod ef yn teimlo bod hynny'n ffactor o ran ei ddyfodol, ond cyn belled ag yr ydym ni yn y cwestiwn, daeth ei gontract i ben yn naturiol.

Senedd.tv Fideo Video

13:39 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Well, First Minister, I've have a letter from the Permanent Secretary here, which was sent to me on 8 June, answering six different questions that I put about Mr Goldstone's employment. It indicates that he clearly is still in the employment of the Welsh Government. So, it does seem as though the left hand doesn't know what the right hand is doing in this whole sorry episode. It is also the case that there is an issue around the advice that Mr Goldstone has given the Welsh Government. I'll quote him again:

Wel, Brif Weinidog, rwyf wedi cael llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol yma, a anfonwyd ataf ar 8 Mehefin, sy'n ateb chwe gwahanol gwestiwn a ofynnais am gyflogaeth Mr Goldstone. Mae'n dangos ei fod yn amlwg yn dal yn gyflogedig gan Lywodraeth Cymru. Felly, mae'n ymddangos nad yw'r llaw chwith yn gwybod beth mae'r llaw dde'n ei wneud drwy gydol y stori anffodus hon. Mae hefyd yn wir bod pryder ynglŷn â'r cyngor y mae Mr Goldstone wedi'i roi i Lywodraeth Cymru. Dyfynnaf ef unwaith eto:

Senedd.tv Fideo Video

'I have now spoken at length with the minister and also with Mick McGuire'.

Rwyf bellach wedi siarad yn helaeth gyda'r gweinidog a hefyd gyda Mick McGuire'.

He's talking about the application—

Mae'n sôn am y cais—

'and it is clear to me that although I am not doubting the motives of those who are sponsoring [the company], nevertheless, this is not currently a project in my opinion for support by Welsh government'.

ac mae'n amlwg i mi, er nad wyf yn amau cymhellion y rhai sy'n noddi [y cwmni], serch hynny, nid yw hwn yn fy marn i yn brosiect a ddylai gael cefnogaeth llywodraeth Cymru ar hyn o bryd'.

First Minister, for him to arrive at that decision when he has no capacity to advise the Minister over this particular issue, as he's a property consultant employed on property matters, means that he is bound to have had access to Government papers in support of this particular bid. Can you confirm that he has not had sight of those papers? If he has had sight, will you investigate how he came across those papers?

Brif Weinidog, mae'r ffaith ei fod wedi gwneud y penderfyniad hwnnw pan nad oes ganddo unrhyw allu i gynghori'r Gweinidog ynglŷn â'r mater arbennig hwn, gan ei fod yn ymgynghorydd eiddo a gyflogir ar faterion eiddo, yn golygu ei bod yn rhaid ei fod wedi cael gweld papurau'r Llywodraeth o blaid y cais penodol hwn. A allwch chi gadarnhau nad yw wedi gweld y papurau hynny? Os yw wedi eu gweld, a fyddwch yn ymchwilio i sut y cafodd weld y papurau hynny?

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

He would not be entitled to see those papers as part of the job that he held. It is the case that his contract came to an end in April. Regardless of whatever he may have said, the reality is that the Minister took a different course in any event. From the leader of the opposition's point of view, I heard on Friday that he was sending me a letter with regard to various breaches of the ministerial code. I've not yet had it, so if it is a matter of great emergency for him, we are now some five days on and still no letter's been received.

Ni fyddai ganddo hawl i weld y papurau hynny yn rhan o'r swydd y bu ynddi. Mae'n wir bod ei gontract wedi dod i ben ym mis Ebrill. Waeth beth y mae wedi'i ddweud, y gwir amdani yw bod y Gweinidog wedi dilyn trywydd gwahanol beth bynnag. O safbwynt arweinydd yr wrthblaid, clywais ddydd Gwener ei fod yn anfon llythyr ataf ynglŷn â gwahanol achosion o dorri'r cod gweinidogol. Nid wyf eto wedi ei gael, felly os yw hyn yn fater o frys mawr iddo, mae bellach rhyw bum diwrnod wedi mynd heibio, ac nid oes llythyr wedi dod i law.

Senedd.tv Fideo Video

13:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to questions from the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn nawr at gwestiynau gan arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

Senedd.tv Fideo Video

13:41 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. First Minister, what would you regard as an acceptable wait for orthopaedic surgery at the Princess of Wales Hospital in Bridgend?

Diolch, Lywydd. Brif Weinidog, beth fyddech chi'n ei ystyried yn amser aros derbyniol am lawdriniaeth orthopedig yn Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr?

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It depends on the nature of the surgery, and it depends on the needs of the particular individual.

Mae'n dibynnu ar natur y llawdriniaeth, ac mae'n dibynnu ar anghenion yr unigolyn penodol.

13:41 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, the reality of the situation for people at the Princess of Wales is that current waiting times are in excess of 70 weeks for elective orthopaedic work. A constituent of mine who has been waiting for a knee replacement was told in May 2014 that the waiting list was 52 weeks. I have now been informed by the health board that she will now have to wait in excess of 70 weeks for a routine knee replacement. Why have you let waiting times for elective surgery get so out of hand?

Wel, gwirionedd y sefyllfa i bobl sydd yn Ysbyty Tywysoges Cymru yw bod yr amseroedd aros presennol dros 70 wythnos i gael gwaith orthopedig dewisol wedi'i wneud. Ym mis Mai 2014, dywedwyd wrth etholwraig imi sydd wedi bod yn aros am ben-glin newydd bod y rhestr aros yn 52 wythnos. Rwyf bellach wedi cael fy hysbysu gan y bwrdd iechyd y bydd yn rhaid iddi’n awr aros mwy na 70 wythnos am ben-glin newydd. Pam yr ydych chi wedi gadael i amseroedd aros am lawdriniaeth ddewisol fynd cymaint allan o reolaeth?

13:42 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, I would have to see the letter to understand more of the case that she is referring to before I can comment. What I can say is we have put extra money, as I mentioned in the answer I gave to the question some moments ago from the leader of the opposition, into the Welsh NHS. Nevertheless, if she has a constituency issue she wishes to raise, I will, of course, examine that.

Wel, byddai'n rhaid imi weld y llythyr i ddeall mwy am yr achos y mae’n cyfeirio ato cyn y gallaf roi sylwadau. Yr hyn y gallaf ei ddweud yw ein bod wedi rhoi arian ychwanegol, fel y dywedais yn yr ateb a roddais i'r cwestiwn rai munudau’n ôl gan arweinydd yr wrthblaid, i mewn i'r GIG yng Nghymru. Serch hynny, os oes ganddi fater etholaethol yr hoffai ei godi, gwnaf, wrth gwrs, archwilio hynny.

13:42 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The letter is here, Minister. I’m happy to hand it over. It says: as a result, waiting times are currently in excess of 70 weeks for elective surgery. First Minister, if only it were just my constituent, but it’s not an isolated case. In fact, your own Government’s published figures paint the true picture. Across Wales, the number of people waiting over 40 weeks—that’s 10 months—for orthopaedic and trauma surgery has doubled to over 5,000 in just one year. There has been a fourfold increase in the number of cardiac patients waiting more than 40 weeks to start treatment, and a near ninefold increase in the number of Welsh children forced to wait over 40 weeks for paediatric surgery. When will you wake up to this reality and ensure Welsh patients don’t have to wait that long for surgery?

Mae'r llythyr yma, Weinidog. Rwy'n fodlon iawn ei roi ichi. Mae'n dweud: o ganlyniad, mae amseroedd aros ar hyn o bryd yn fwy na 70 wythnos am lawdriniaeth ddewisol. Brif Weinidog, nid dim ond fy etholwr i sydd yn y sefyllfa hon; ceir llawer o achosion tebyg. Yn wir, mae ffigurau cyhoeddedig eich Llywodraeth eich hun yn paentio’r darlun cywir. Ledled Cymru, mae nifer y bobl sy'n aros dros 40 wythnos—mae hynny'n 10 mis—am lawdriniaeth orthopedig a thrawma wedi dyblu i dros 5,000 mewn blwyddyn yn unig. Bu cynnydd pedwarplyg yn nifer y cleifion cardiaidd sy'n aros mwy na 40 wythnos i ddechrau triniaeth, a chynnydd o bron naw gwaith cymaint yn nifer y plant yng Nghymru a gafodd eu gorfodi i aros dros 40 wythnos am lawdriniaeth bediatrig. Pryd y gwnewch chi ddeffro i’r realiti hwn a sicrhau nad oes yn rhaid i gleifion yng Nghymru aros mor hir am lawdriniaeth?

13:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

First of all, she makes no reference to demand, and the fact that demand keeps on increasing. That is something that we are dealing with. That is a situation that is true in England and Scotland as it is in Wales. She mentions the fact that she has a letter in front of her. I've got no reason to doubt it. Unfortunately, I can't read from this distance backwards and upside down. Nevertheless, if she provides me with that letter, I'd be more than happy to investigate the circumstances that her constituent complains of.

Yn gyntaf oll, nid yw hi'n cyfeirio o gwbl at y galw, a'r ffaith bod y galw'n cynyddu drwy'r amser. Mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn ymdrin ag ef. Mae honno'n sefyllfa sy'n wir yn Lloegr ac yn yr Alban fel y mae yng Nghymru. Mae hi'n sôn am y ffaith bod ganddi lythyr o'i blaen. Nid oes gen i unrhyw reswm i amau hynny. Yn anffodus, ni allaf ddarllen o'r pellter hwn am yn ôl a wyneb i waered. Serch hynny, os gwnaiff hi roi'r llythyr hwnnw imi, byddaf yn fwy na pharod i ymchwilio i'r amgylchiadau y mae ei hetholwr yn cwyno amdanynt.

Senedd.tv Fideo Video

13:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn yn awr at arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

Senedd.tv Fideo Video

13:44 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Diolch, Lywydd. Two years ago, First Minister, you made a promise to this Chamber that the target for treating patients diagnosed with cancer via the urgent route would be met from October 2013. Was that target met?

Diolch, Lywydd. Ddwy flynedd yn ôl, Brif Weinidog, gwnaethoch addewid i'r Siambr hon y byddai'r targed ar gyfer trin cleifion sydd wedi cael diagnosis o ganser drwy'r llwybr brys yn cael ei gyrraedd erbyn mis Hydref 2013. A gafodd y targed hwnnw ei gyrraedd?

Senedd.tv Fideo Video

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

No, but nevertheless it's a figure that's better than England. The reason for that is that our target is more ambitious than the English target. England's target is far, far less ambitious than ours, and we perform better than England with regard to cancer treatment. Have we reached our target?

Naddo, ond serch hynny, mae'r ffigur yn well nag un Lloegr. Y rheswm am hynny yw bod ein targed yn fwy uchelgeisiol na tharged Lloegr. Mae targed Lloegr yn llawer, llawer llai uchelgeisiol na'r un sydd gennym ni, ac rydym yn perfformio'n well na Lloegr o ran triniaeth canser. A ydym ni wedi cyrraedd ein targed?

Senedd.tv Fideo Video

13:44 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

First Minister—

Brif Weinidog—

Senedd.tv Fideo Video

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

No, I haven't finished yet. Have we reached our target? No, but our targets are ambitious and we do better compared with what happens across the border.

Na, nid wyf wedi gorffen eto. A ydym ni wedi cyrraedd ein targed? Naddo, ond mae ein targedau'n uchelgeisiol ac rydym yn gwneud yn well o'i gymharu â'r hyn sy'n digwydd dros y ffin.

Senedd.tv Fideo Video

13:44 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

I really would not advise you to start comparing your record on waiting times with England or Scotland, particularly for example on crucial diagnosis tests. The truth is that target wasn't met, and performance against that measure has actually declined since October 2013. I'd like to turn to the ambulance service, First Minister—you've already mentioned this. This time last year, the health Minister made another promise that targets would be met within a few months. How's that promise going?

Ni fyddwn wir yn eich cynghori i ddechrau cymharu eich hanes o amseroedd aros â Lloegr na'r Alban, yn enwedig, er enghraifft, o ran profion diagnosis hanfodol. Y gwir yw na chafodd y targed hwnnw ei gyrraedd, a bod perfformiad yn erbyn y mesur hwnnw wedi gwaethygu mewn gwirionedd ers mis Hydref 2013. Hoffwn droi at y gwasanaeth ambiwlans, Brif Weinidog—rydych wedi crybwyll hyn eisoes. Yr adeg hon y llynedd, gwnaeth y Gweinidog iechyd addewid arall y byddai targedau'n cael eu cyrraedd o fewn ychydig fisoedd. Sut y mae'r addewid hwnnw'n dod yn ei flaen?

Senedd.tv Fideo Video

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It's improving. The target's not been met yet, it's true, but we are close to it, and things have much improved since Christmas—that much is true. With regard to cancer treatment, I'm not going to allow her to get away with that, as the reality is that people in Wales have access to cancer treatment more quickly; demand has increased and we've managed to deal with that; people have access to NICE-approved drugs more quickly; and we spend more on cancer treatment per head in Wales than is the case in England. Scotland doesn't publish half of these figures, which is why, of course, Scotland doesn't get compared to us.

Mae'n gwella. Nid yw'r targed wedi ei gyrraedd eto, mae hynny'n wir, ond rydym yn agos ato, ac mae pethau wedi gwella llawer ers y Nadolig—mae hynny'n wir. O ran triniaeth canser, nid wyf am ganiatáu iddi ddweud hynny, oherwydd y gwirionedd yw bod pobl yng Nghymru'n cael triniaeth canser yn gyflymach; mae'r galw wedi cynyddu ac rydym wedi llwyddo i ymdopi â hynny; mae pobl yn gallu cael gafael ar gyffuriau wedi'u cymeradwyo gan NICE yn gyflymach; ac rydym yn gwario mwy ar driniaeth canser fesul pen yng Nghymru na sy'n digwydd yn Lloegr. Nid yw'r Alban yn cyhoeddi hanner y ffigurau hyn, a dyna pam, wrth gwrs, nad yw'r Alban yn cael ei chymharu â ni.

13:45 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There have been improvements in the ambulance service, First Minister, you're right, and the workforce should be commended for those improvements, but we have established that your Government has missed those two particular targets—you've broken those promises. I'd like you to commit to meeting one target by the end of this year. At the moment, there are 123 children waiting for paediatric surgery, and they've been waiting for more than 36 weeks; that's 12 per cent of the entire list. Three and a half years ago, there wasn't a single child waiting longer than 36 weeks. You were once able to meet this target, back in December 2011, and so that shows what can be done, and the conditions that were in place at that time saw you able to achieve that. So, it should be possible to identify how that target was met in the past and what you need to do in order to achieve it again. So, will you commit now, this afternoon, to ensuring that, by the end of this year—by the end of 2015—not a single child is waiting longer than 36 weeks for paediatric surgery?

Bu gwelliannau yn y gwasanaeth ambiwlans, Brif Weinidog, rydych yn iawn, a dylid canmol y gweithlu am y gwelliannau hynny, ond rydym wedi sefydlu bod eich Llywodraeth wedi methu'r ddau darged penodol hynny—rydych wedi torri'r addewidion hynny. Hoffwn ichi ymrwymo i gyrraedd un targed erbyn diwedd y flwyddyn hon. Ar hyn o bryd, mae 123 o blant yn aros am lawdriniaeth bediatrig, ac maent wedi bod yn aros ers mwy na 36 wythnos; mae hynny'n 12 y cant o'r rhestr gyfan. Dair blynedd a hanner yn ôl, nid oedd unrhyw blentyn yn aros mwy na 36 wythnos. Roeddech yn arfer gallu cyrraedd y targed hwn, yn ôl ym mis Rhagfyr 2011, ac felly mae hynny'n dangos yr hyn y gellir ei wneud, a dan yr amodau a oedd yn bodoli ar y pryd roeddech yn gallu cyflawni hynny. Felly, dylai fod yn bosibl nodi sut y cafodd y targed hwnnw ei gyrraedd yn y gorffennol a'r hyn y mae angen ichi ei wneud er mwyn ei gyrraedd eto. Felly, a wnewch chi ymrwymo nawr, y prynhawn yma, i sicrhau, erbyn diwedd y flwyddyn hon—erbyn diwedd 2015—nad oes unrhyw blentyn yn aros mwy na 36 wythnos am lawdriniaeth bediatrig?

13:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, I can certainly give my commitment to ensuring that that figure drops. As she will know, we have already committed extra money to the NHS. We wait to see, of course, what the Chancellor will say on 8 July with regard to extra resources. As far as Wales is concerned, we'll have to wait and see about that. But, it is clear to us that we want to ensure that the waiting times continue to be driven downwards. We've seen a great improvement in the ambulance response time, we expect to see an improvement in referral-to-treatment times, and we expect to see people have the service that they would want to see.

Wel, gallaf yn sicr roi fy ymrwymiad i sicrhau y bydd y ffigur hwnnw'n disgyn. Fel y bydd hi'n gwybod, rydym eisoes wedi ymrwymo arian ychwanegol i'r GIG. Rydym yn aros i weld, wrth gwrs, beth fydd y Canghellor yn ei ddweud ar 8 Gorffennaf ynglŷn ag adnoddau ychwanegol. Cyn belled ag y mae Cymru dan sylw, bydd yn rhaid inni aros i weld ynglŷn â hynny. Ond, mae'n amlwg i ni ein bod yn awyddus i sicrhau bod yr amseroedd aros yn dal i gael eu gyrru at i lawr. Rydym wedi gweld gwelliant mawr mewn amser ymateb ambiwlansys, rydym yn disgwyl gweld gwelliant mewn amseroedd atgyfeirio hyd at driniaeth, ac rydym yn disgwyl gweld pobl yn cael y gwasanaeth y byddent eisiau ei weld.

13:47 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Broken promises. Broken promises.

Addewidion wedi'u torri. Addewidion wedi'u torri.

13:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, the reality is, the national survey said that the vast majority of people in Wales are happy with the NHS care that they get. So, there's no point trying to present the NHS as in some way in Wales doing particularly badly—[Interruption.]

Wel, y gwir yw, dywedodd yr arolwg cenedlaethol fod y mwyafrif helaeth o bobl Cymru'n fodlon â'r gofal GIG y maent yn ei gael. Felly, does dim pwynt ceisio cyflwyno'r GIG fel pe byddai Cymru'n gwneud yn arbennig o wael mewn rhyw ffordd— [Torri ar draws.]

Senedd.tv Fideo Video

13:47 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Order. Order.

Trefn. Trefn.

Senedd.tv Fideo Video

13:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We have our challenges; that much is true. But the reality is that we are putting more money than ever into the Welsh NHS, it's treating more patients than ever, and we will continue to devote the resources that are required for NHS services in Wales.

Mae gennym ein heriau; mae hynny'n wir. Ond y gwir amdani yw ein bod yn rhoi mwy o arian nag erioed i mewn i'r GIG yng Nghymru, mae'n trin mwy o gleifion nag erioed, a byddwn yn parhau i neilltuo'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer gwasanaethau'r GIG yng Nghymru.

Senedd.tv Fideo Video

13:48 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move back to questions on the paper, and question 3 is Suzy Davies.

Rydym nawr yn symud yn ôl at gwestiynau ar y papur, a Suzy Davies sydd â chwestiwn 3.

Senedd.tv Fideo Video

13:48 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Diolch, Lywydd, and good afternoon, First Minister.

Diolch, Lywydd, a phrynhawn da, Brif Weinidog.

Senedd.tv Fideo Video

## Cadwyni Cyflenwi Ynni

## Energy Supply Chains

**Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

*3. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod y cyfleoedd gorau ar gael i gadwyni cyflenwi ynni yng Nghymru? OAQ(4)2331(FM)*

*3. What is the Welsh Government doing to ensure the best opportunities for energy supply chains in Wales? OAQ(4)2331(FM)*

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We are committed to maximising the economic benefits arising from energy projects across the whole supply chain, and we're working with developers and Welsh businesses to promote awareness and engagement as far as the opportunities that will arise.

Rydym wedi ymrwymo i wneud y mwyaf o'r manteision economaidd sy'n deillio o brosiectau ynni ar draws y gadwyn gyflenwi gyfan, ac rydym yn gweithio gyda datblygwyr a busnesau yng Nghymru i hybu ymwybyddiaeth ac ymgysylltu o ran y cyfleoedd a ddaw i'r amlwg.

Senedd.tv Fideo Video

13:48 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer. Awareness and engagement are very helpful, and we've actually heard directly from the project developers of the Swansea bay tidal lagoon, of course, how they've been speaking to businesses and colleges and identifying supply chain opportunities. What I'd like to know is how Welsh Government itself is identifying gaps in that supply chain and helping home-grown businesses fill that gap. So, how is Welsh Government helping the creation of new businesses, which can be part of the Swansea bay story, obviously, but, more importantly, on the front foot—the obvious choice, if you like—for those tidal lagoons that will be built in the future?

Diolch am yr ateb yna. Mae ymwybyddiaeth ac ymgysylltu'n ddefnyddiol iawn, ac mewn gwirionedd rydym wedi clywed yn uniongyrchol gan ddatblygwyr prosiect morlyn llanw bae Abertawe, wrth gwrs, sut y maent wedi bod yn siarad â busnesau a cholegau a nodi cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi. Yr hyn yr hoffwn ei wybod yw sut y mae Llywodraeth Cymru ei hun yn nodi bylchau yn y gadwyn gyflenwi honno ac yn helpu busnesau Cymru i lenwi'r bwlch hwnnw. Felly, sut y mae Llywodraeth Cymru'n helpu i greu busnesau newydd, a all fod yn rhan o stori bae Abertawe, yn amlwg, ond, yn bwysicach, ar y droed flaen—y dewis amlwg, os mynnwch—ar gyfer y morlynnoedd llanw hynny a gaiff eu hadeiladu yn y dyfodol?

Senedd.tv Fideo Video

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, the first thing, of course, is we still await the UK Government's commitment to pay the money required—the strike price—for the Swansea bay tidal lagoon. It's true to say that the permission has been given but, at the moment, we don't even know whether the money will be on the table, and we need that very soon as far as the UK Government is concerned. I can say that, under Resource Efficient Wales, we provide a specific supply chain programme to supply the energy efficiency and renewable energy supply chains in Wales. That programme's delivered through the Energy Saving Trust, and the main focus of the programme is to increase the capacity and skills of the supply chain in Wales, to ensure that they're aware of emerging opportunities and, of course, to enable them to participate fully in the market.

Wel, y peth cyntaf, wrth gwrs, yw ein bod yn dal i aros am ymrwymiad Llywodraeth y DU i dalu'r arian sydd ei angen—y pris taro—am forlyn llanw bae Abertawe. Mae'n wir dweud bod y caniatâd wedi ei roi ond, ar hyn o bryd, nid ydym hyd yn oed yn gwybod a fydd yr arian ar y bwrdd, ac mae ei angen arnom yn fuan iawn cyn belled ag y mae Llywodraeth y DU dan sylw. Gallaf ddweud, o dan Cymru Effeithlon, ein bod yn darparu rhaglen benodol i'r gadwyn gyflenwi i gyflenwi'r cadwyni cyflenwi effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Darperir y rhaglen honno drwy'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, a phrif bwyslais y rhaglen yw cynyddu gallu a sgiliau'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru, i sicrhau eu bod yn ymwybodol o gyfleoedd sy'n dod i'r amlwg ac, wrth gwrs, eu galluogi i gymryd rhan lawn yn y farchnad.

13:49 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, you just mentioned there improvement of skills. One of the great opportunities of these supply chains is actually the development of apprenticeships within those organisations to develop the skills here in Wales. What are you doing to have discussions with these energy supply chains to develop apprenticeship schemes in those companies so we can have a skilled workforce for the future?

Brif Weinidog, rydych newydd sôn am wella sgiliau. Un o gyfleoedd mawr y cadwyni cyflenwi hyn mewn gwirionedd yw datblygu prentisiaethau o fewn y sefydliadau hynny i ddatblygu'r sgiliau yma yng Nghymru. Beth ydych chi'n ei wneud i gael trafodaethau â'r cadwyni cyflenwi ynni hyn i ddatblygu cynlluniau prentisiaeth yn y cwmnïau hynny fel y gallwn gael gweithlu medrus ar gyfer y dyfodol?

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I think it's fair to say that the further education colleges have risen to the challenge. I know that Coleg Menai, for example, was providing skills some years ago, actually, when Wylfa B was being proposed—it was ahead of the game. If I can come back to the programme I mentioned earlier, it started in October and it supported 377 businesses via workshops and webinars, training and other events. Through the programme, 81 businesses were assisted to gain a qualification, accreditation or certification, up to the end of last month. So, much work has been done in order to provide businesses with the skills that they need and, of course, to make sure they have the skilled workforce that they need, as well.

Wel, rwy'n meddwl ei bod yn deg dweud bod y colegau addysg bellach wedi codi i'r her. Gwn fod Coleg Menai, er enghraifft, yn darparu sgiliau rai blynyddoedd yn ôl, mewn gwirionedd, pan oedd Wylfa B yn cael ei gynnig—roeddent wedi achub y blaen. Os caf droi'n ôl at y rhaglen y soniais amdani'n gynharach, dechreuodd ym mis Hydref, a chefnogodd 377 o fusnesau drwy gyfrwng gweithdai a gweminarau, hyfforddiant a digwyddiadau eraill. Drwy'r rhaglen, cafodd 81 o fusnesau gymorth i ennill cymhwyster, achrediad neu ardystiad, hyd at ddiwedd y mis diwethaf. Felly, mae llawer o waith wedi'i wneud i roi'r sgiliau i fusnesau sydd eu hangen arnynt ac, wrth gwrs, i sicrhau bod ganddynt y gweithlu medrus sydd ei angen arnynt, yn ogystal.

13:50 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Mae yna swyddi, wrth gwrs, yn y gadwyn gyflenwi arbed ynni hefyd, ac mae gwaith gan Brifysgol Caerdydd ar ran Atal Anhrefn Hinsawdd Cymru wedi dangos y gellid creu hyd at 20,000 o swyddi yn y sector benodol yna. A wnewch chi, felly, sicrhau bod mynd i'r afael â hynny yn fwy o flaenoriaeth i'ch Llywodraeth chi, oherwydd mae e, wrth gwrs, yn dod â buddiannau economaidd drwy greu swyddi, buddiannau amgylcheddol drwy leihau allyriadau carbon, a buddiannau cymdeithasol drwy daclo tlodi tanwydd?

There are jobs, of course, in the energy efficiency supply chain also, and work by Cardiff University on behalf of Stop Climate Chaos Cymru shows that up to 20,000 jobs could be created in that particular sector. Will you therefore ensure that tackling that issue is a greater priority for your Government, because, of course, it brings economic benefits by creating jobs, it brings environmental benefits by reducing carbon emissions, and it brings social benefits by tackling fuel poverty?

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae hynny'n iawn. Mae gennym record dda ynglŷn â Nyth ac Arbed ac mae llawer o bobl wedi cael lles o achos hynny. Rydym ni'n gwybod bod llawer o bobl wedi gweld lleihad yn eu biliau ynni dros y misoedd a'r blynyddoedd diwethaf, ac mae'r rhaglenni hynny wedi bod yn bwysig dros ben; rydym ni'n deall hynny. Ynglŷn â'r dyfodol, rydym ni'n wastad yn moyn sicrhau, wrth gwrs, fod unrhyw raglen sy'n helpu pobl i arbed ynni yn un sy'n effeithiol ac yn un sy'n helpu'r nifer fwyaf o bobl â phosibl.

That much is true. We have a very good record with Nest and Arbed, and many people have benefited because of these schemes. I know that many people have seen a reduction in their energy bills over the past months and years, and those programmes have been a part of that. As regards the future, we will always wish to ensure that any programme that helps people to save energy is effective and helps as many people as possible.

13:51 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, although the planning consent has been given for the Swansea bay tidal lagoon, they are still waiting for consents in terms of compulsory purchase orders and connection to the grid. What discussions have the Welsh Government had with the applicants in relation to that particular issue and the impact that waiting for those consents will have on the timetable that they are working to?

Brif Weinidog, er bod y caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer morlyn llanw bae Abertawe, maent yn dal i aros am ganiatâd o ran gorchmynion prynu gorfodol a chysylltiad â'r grid. Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda'r ymgeiswyr ynglŷn â'r mater penodol hwnnw a'r effaith y bydd aros am y caniatâd hwnnw'n ei chael ar yr amserlen y maent yn gweithio iddi?

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, this is not a matter that is devolved, in the main. The go-ahead in terms of the permission was given by the English—the Whitehall—department. He will know that we take a different view as to where these powers should lie. My concern at the moment is that I want to see the UK Government put the money on the table. That hasn't happened yet. It's all very well giving permission for something, but it's important, now, that an agreement is reached on the strike price so that the project can actually go ahead.

Wel, wrth gwrs, nid yw hwn yn fater sydd wedi'i ddatganoli, ar y cyfan. Rhoddwyd y sêl bendith o ran y caniatâd gan yr adran yn Lloegr—yn Whitehall. Bydd ef yn gwybod bod ein barn ni'n wahanol ynglŷn â lle y dylai'r pwerau hyn fod. Fy mhryder i ar hyn o bryd yw yr hoffwn weld Llywodraeth y DU yn rhoi'r arian ar y bwrdd. Nid yw hynny wedi digwydd eto. Mae'n ddigon hawdd rhoi caniatâd i rywbeth, ond mae'n bwysig, nawr, ein bod yn cyrraedd cytundeb ar y pris taro fel y gellir bwrw ymlaen â'r prosiect mewn gwirionedd.

## Cyfraddau Ailgylchu Gwastraff y Cartref

## Household Recycling Rates

13:52 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyfraddau ailgylchu gwastraff y cartref yng Nghymru? OAQ(4)2332(FM)*

*4. Will the First Minister make a statement on household recycling rates in Wales? OAQ(4)2332(FM)*

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. We are No. 1 in the UK and are fourth in Europe. As a result, we are saving 25 per cent more carbon than England and Northern Ireland, and I am confident that the 2025 targets will be met.

Gwnaf. Ni yw Rhif 1 yn y DU ac rydym yn bedwerydd yn Ewrop. O ganlyniad, rydym yn arbed 25 y cant yn fwy o garbon na Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac rwy'n hyderus y byddwn yn cyrraedd targedau 2025.

13:52 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. I was grateful that your Government waived fines to local authorities in my region recently because, obviously, householders can ill afford the burden of those at this time. But I query the credibility of the statement that that waiver was on the basis of a commitment to improve when the situation in Cardiff is that household recycling rates have fallen by 5 per cent a year for the past two years in a row. The council now, rather than reintroducing education programmes and community programmes, like the Get it Out for Cardiff scheme that worked very well in the past, is now introducing punitive measures such as limiting households to three stripy bags a fortnight, regardless of how many people live there. Residents in central Cardiff, particularly in Cathays and Adamsdown, where there's a high density of population, are worried that this will lead to an increase in fly-tipping. Wouldn't you agree with me that what we need to see is an increase in the number of education programmes that really work in encouraging communities to recycle more?

Diolch, Brif Weinidog. Roeddwn yn ddiolchgar bod eich Llywodraeth wedi hepgor dirwyon i awdurdodau lleol yn fy rhanbarth i yn ddiweddar oherwydd, yn amlwg, mae'n anodd i ddeiliaid tai fforddio baich y rheini ar hyn o bryd. Ond rwy'n cwestiynu hygrededd y datganiad bod yr hepgoriad hwnnw'n seiliedig ar ymrwymiad i wella; y sefyllfa yng Nghaerdydd yw bod cyfraddau ailgylchu aelwydydd wedi gostwng 5 y cant y flwyddyn am y ddwy flynedd ddiwethaf yn olynol. Mae'r cyngor yn awr, yn hytrach nag ailgyflwyno rhaglenni addysg a rhaglenni cymunedol, fel y cynllun Gwaredu'r Gwastraff a weithiodd yn dda iawn yn y gorffennol, nawr yn cyflwyno mesurau cosbol fel cyfyngu aelwydydd i dri bag streipiog bob pythefnos, ni waeth faint o bobl sy'n byw yno. Mae trigolion yng nghanol Caerdydd, yn enwedig yn Cathays ac Adamsdown, lle mae dwysedd y boblogaeth yn uchel, yn poeni y bydd hyn yn arwain at gynnydd mewn tipio anghyfreithlon. Oni fyddech chi'n cytuno â mi mai'r hyn y mae angen ei weld yw cynnydd yn nifer y rhaglenni addysg sydd wir yn gweithio wrth annog cymunedau i ailgylchu mwy?

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

First of all, the figures that I have don't support what she has just said—that there has been a decline year-on-year for two years. There has been, indeed, a decline, from a 52.2 per cent recycling rate to 49.7 per cent in 2013-14. But, in all the years before that, the rate was increasing; it was at 34.5 per cent, for example, in 2008-09. I think it's right to say that local authorities must make sure that they recycle, reuse and compost as much as possible and avoid the risk of fly-tipping. Now, I know it was suggested—not by her party, but by other parties in the Chamber—that we as a Government had some kind of policy of reducing the number of black bag collections, for example. We have no such policy; it is a matter for local authorities to determine that. Local authorities have different methods by which they collect materials for recycling, but what is crucial is that they are able to maximise the amount that they recycle and also to avoid the risk of fly-tipping—that much is true.

Yn gyntaf oll, nid yw'r ffigurau sydd gennyf yn ategu'r hyn y mae hi newydd ei ddweud—y bu gostyngiad flwyddyn ar ôl blwyddyn am ddwy flynedd. Yn wir, mae gostyngiad wedi bod, o gyfradd ailgylchu 52.2 y cant i 49.7 y cant yn 2013-14. Ond, yn yr holl flynyddoedd cyn hynny, roedd y gyfradd yn cynyddu; roedd yn 34.5 y cant, er enghraifft, yn 2008-09. Rwy'n meddwl ei bod yn deg dweud bod yn rhaid i awdurdodau lleol wneud yn siŵr eu bod yn ailgylchu, ailddefnyddio a chompostio cymaint â phosibl, ac osgoi'r perygl o dipio anghyfreithlon. Nawr, rwy'n gwybod yr awgrymwyd—nid gan ei phlaid hi, ond gan bleidiau eraill yn y Siambr—ein bod ni fel Llywodraeth wedi defnyddio rhyw fath o bolisi o leihau nifer y casgliadau bagiau du, er enghraifft. Nid oes gennym bolisi o'r fath; mater i awdurdodau lleol yw'r penderfyniad hwnnw. Mae awdurdodau lleol yn defnyddio gwahanol ddulliau o gasglu defnyddiau i'w hailgylchu, ond yr hyn sy'n hollbwysig yw eu bod yn gallu ailgylchu cymaint â phosibl, a hefyd yn gallu osgoi'r risg o dipio anghyfreithlon—mae cymaint â hynny'n wir.

13:54 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the First Minister join me in congratulating Swansea council on improving recycling rates? Swansea increased its recycling performance by 5 per cent in a year according to the last published figures.

A wnaiff y Prif Weinidog ymuno â mi i longyfarch cyngor Abertawe ar wella cyfraddau ailgylchu? Cynyddodd perfformiad ailgylchu Abertawe gan 5 y cant mewn blwyddyn yn ôl y ffigurau a gyhoeddwyd ddiweddaraf.

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, I would. And I think it's worth noting that, at the start of the last decade, recycling rates in Wales were round about 4 per cent. The reality was that we had a large number of landfill sites and it was a bit easy simply to dispose of waste there rather than taking recycling and reuse seriously. The picture has changed enormously since that time and, as I say, we're now in a position of being one of the leading countries in Europe when it comes to recycling.

Gwnaf. Ac rwy'n meddwl ei bod yn werth nodi, ar ddechrau'r degawd diwethaf, mai tua 4 y cant oedd cyfraddau ailgylchu yng Nghymru. Y gwir amdani oedd bod gennym nifer fawr o safleoedd tirlenwi ac roedd braidd yn hawdd gwaredu gwastraff yno yn hytrach na chymryd ailgylchu ac ailddefnyddio o ddifrif. Mae'r darlun wedi newid yn aruthrol ers hynny ac, fel y dywedais, y sefyllfa nawr yw mai ni yw un o'r gwledydd mwyaf blaenllaw yn Ewrop o ran ailgylchu.

13:55 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, there are councils that have failed to meet their recycling targets but have not had the fines levied against them for their failure. Will you and your Minister reconsider this decision not to implement the option of fining councils for this failure and consider the message that it sends to councils that have invested in meeting those targets that your Government has set? Indeed, my own council in Conwy is leading the way and is an example of best and innovative practice. Surely there is more that your Minister could be doing, perhaps by working with councils like Conwy, which are leading the way and achieving these targets.

Brif Weinidog, mae rhai cynghorau wedi methu â chyrraedd eu targedau ailgylchu, ond nid ydynt wedi gorfod talu'r dirwyon am eu methiant. A wnewch chi a'ch Gweinidog ailystyried y penderfyniad hwn i beidio â defnyddio'r dewis o ddirwyo cynghorau am y methiant hwn ac ystyried y neges y mae'n ei hanfon at gynghorau sydd wedi buddsoddi mewn cyrraedd y targedau hynny y mae eich Llywodraeth wedi'u gosod? Yn wir, mae fy nghyngor fy hun yng Nghonwy ar flaen y gad ac yn enghraifft o arfer gorau arloesol. Siawns y gallai eich Gweinidog fod yn gwneud mwy, efallai drwy weithio gyda chynghorau fel Conwy, sy'n arwain y ffordd ac yn cyrraedd y targedau hyn.

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, there are four local authorities that failed to meet the recycling targets. They have satisfied us that they will improve their performance and that they will meet future targets. So, it would be counter-productive, certainly at this stage, to impose penalties, and we don't propose to reopen that issue at this stage, but, if local authorities do continue to miss targets in the future, then, of course, fines will become inevitable.

Wel, mae pedwar awdurdod lleol wedi methu â chyrraedd y targedau ailgylchu. Maent wedi ein bodloni y byddant yn gwella eu perfformiad ac y byddant yn cyrraedd y targedau yn y dyfodol. Felly, byddai'n wrthgynhyrchiol, yn sicr ar hyn o bryd, i'w cosbi, ac nid ydym yn bwriadu ailagor y mater hwnnw ar hyn o bryd, ond, os yw awdurdodau lleol yn parhau i fethu targedau yn y dyfodol, yna, wrth gwrs, bydd dirwyon yn dod yn anochel.

13:56 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, mae'n dda iawn clywed y newyddion da ynglŷn â lefelau ailgylchu gwastraff drwy Gymru, ond oni fyddai hi'n fanteisiol i gael safonau cenedlaethol, oherwydd y gwirionedd yw bod dulliau ailgylchu yn amrywio o awdurdod i awdurdod? Rydw i'n ailgylchu gydag awdurdod Caerdydd a gydag awdurdod Caerfyrddin, ac mae'n ddau yn gwneud gwaith da ond mewn ffyrdd gwahanol. Onid oes yna le i gael canolfannau ailgylchu ar y cyd, yn enwedig ar ffiniau awdurdodau lle mae pobl yn gorfod mynd â'u deunydd i ganolfannau i'w ailgylchu?

First Minister, it's good to hear the positive news on the levels of waste recycling throughout Wales, but wouldn't it be beneficial to have national standards in place, because the fact of the matter is that the methods of recycling vary from authority to authority? I recycle with the authorities in Cardiff and in Carmarthenshire, and both do good work but in different ways. Isn't there scope to have recycling centres working jointly, particularly on the borders of authorities where people have to take materials to centres for recycling?

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae hynny'n digwydd, wrth gwrs, mewn rhai rhannau o Gymru. Mae'n bosib, er enghraifft, ym Mhen-y-bont ar Ogwr, i fynd i safleoedd lle mae yna sawl ffordd o sicrhau eich bod yn ailgylchu pethau, o fatris i fetel, coed, poteli, ac yn y blaen. Felly, mae'n hollol bosib i wneud hynny ym Mhen-y-bont, ac nid wyf yn gweld, felly, pam na fyddai hynny'n gallu bod yn fwy cyson ar draws Cymru'n gyfan gwbl.

Well, that does happen, of course, in some parts of Wales. For example, in Bridgend, it is possible to visit sites where there are numerous ways of ensuring that you recycle things, from batteries to metal, wood, bottles and so on. It's quite possible to do that in Bridgend, so I don't see why that couldn't be more consistent throughout the whole of Wales.

### Diwygio Fformiwla Barnett

### The Reform of the Barnett Formula

13:57 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cynnal gyda Llywodraeth y DU ynghylch diwygio fformiwla Barnett? OAQ(4)2329(FM)*

*5. What discussions has the First Minister held with the UK Government regarding the reform of the Barnett formula? OAQ(4)2329(FM)*

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

No formal discussions with regard to the reform of the formula; many discussions with regard to the Barnett floor. But, I have made it clear, certainly to the Secretary of State for Wales that, really, the Barnett formula has had its day and that it is time now to reform the Barnett formula and provide fair funding for Wales. That is not mutually exclusive with the issue of the funding floor. The two can run together.

Dim trafodaethau ffurfiol ynghylch diwygio'r fformiwla; llawer o drafodaethau ynghylch y llawr Barnett. Ond, rwyf wedi'i gwneud yn glir, yn sicr i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, nad yw fformiwla Barnett, mewn gwirionedd, yn addas bellach a'i bod yn bryd erbyn hyn i ddiwygio fformiwla Barnett a darparu cyllid teg i Gymru. Nid yw hynny'n golygu na ellir codi mater y llawr ariannu. Gellir trafod y ddau gyda'i gilydd.

13:57 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank the First Minister for that response? Does the First Minister agree with me that there is an unfairness in the Treasury acting as judge and jury in deciding whether capital schemes have a Barnett consequential? Does the First Minister also agree with me that we need an independent arbitration service to decide when the two Governments cannot agree?

A gaf fi ddiolch i'r Prif Weinidog am yr ymateb yna? A yw'r Prif Weinidog yn cytuno â mi ei bod yn annheg bod y Trysorlys yn gweithredu fel barnwr a rheithgor wrth benderfynu a oes swm canlyniadol Barnett ar gyfer cynlluniau cyfalaf? A yw'r Prif Weinidog hefyd yn cytuno â mi bod arnom angen gwasanaeth cyflafareddu annibynnol i benderfynu pan na all y ddwy Lywodraeth gytuno?

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, we do, of a fashion. The dispute resolution process in the joint ministerial committee is a way of resolving these disputes. For example, there was a dispute over whether the Olympics attracted a consequential. Northern Ireland took that forward on behalf of the three administrations, and we were successful. The problem is that, if there is no conclusion, the ultimate arbiter is still the Treasury. There is no real process in terms of there being an independent body that acts as the arbiter in these circumstances, and there should be. The Member is absolutely right—it cannot be right that, where there is a dispute between the Treasury and the devolved administrations, the Treasury is on one side of the argument and is also the judge. That certainly is not a situation that can persist for the future.

Wel, mae gennym un, mewn ffordd. Mae'r broses datrys anghydfodau yn y pwyllgor gweinidogol ar y cyd yn ffordd o ddatrys yr anghydfodau hyn. Er enghraifft, bu anghydfod ynghylch pa un a oedd y Gemau Olympaidd yn denu swm canlyniadol. Cymerodd Gogledd Iwerddon yr awenau ar ran y tair gweinyddiaeth bryd hynny, ac roeddem yn llwyddiannus. Y broblem yw, os nad oes casgliadau, mai'r canolwr yn y pen draw yw'r Trysorlys yn dal i fod. Nid oes proses wirioneddol o ran corff annibynnol sy'n gweithredu fel y canolwr dan yr amgylchiadau hyn, a dylai fod. Mae'r Aelod yn hollol gywir—ni all fod yn iawn, pryd y ceir anghydfod rhwng y Trysorlys a'r gweinyddiaethau datganoledig, bod y Trysorlys ar un ochr i'r ddadl a hefyd yn farnwr. Yn sicr, nid yw honno'n sefyllfa a all barhau yn y dyfodol.

13:59 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the UK Government has given a welcome commitment to a Barnett floor, which you've mentioned in answer to Mike Hedges. Clearly, a Barnett floor is of major importance as the economy starts to pick up and funding increases, to avoid the convergence with the regions of England. Can you update us on any discussions you've had as to how the Barnett floor will be calculated? Also, have you done any work in terms of how much Wales is currently underfunded by your assessment vis-à-vis what we would be getting if it was a needs-based formula?

Brif Weinidog, mae Llywodraeth y DU wedi rhoi ymrwymiad i lawr Barnett sydd i'w groesawu, fel yr ydych newydd sôn amdano wrth ateb Mike Hedges. Yn amlwg, mae llawr Barnett yn bwysig iawn wrth i'r economi ddechrau gwella ac wrth i gyllid gynyddu, er mwyn osgoi cydgyfeirio â rhanbarthau Lloegr. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am unrhyw drafodaethau yr ydych wedi'u cael ynghylch sut y caiff y llawr Barnett ei gyfrifo? Hefyd, a ydych chi wedi gwneud unrhyw waith o ran faint mae Cymru wedi'i thangyllido ar hyn o bryd yn ôl eich asesiad chi o ran faint y byddem yn ei gael pe byddai'n fformiwla seiliedig ar anghenion?

13:59

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, first of all, there have been many discussions. The finance Minister had a discussion only yesterday with the Chief Secretary to the Treasury about this very point. We know through Holtham that the underfunding was about £300 million at that stage, possibly less now. But, whilst we welcome the commitment towards the funding floor—and that will be of assistance to Wales—the UK Government cannot escape the need to reform Barnett as a formula. It is now 36 years old; it is not fit for purpose as far as Wales is concerned; and whilst the movement on the floor is welcome, and that can proceed regardless of other circumstances, it's time for Barnett to be reformed.

Wel, yn gyntaf oll, bu llawer o drafodaethau. Cafodd y Gweinidog Cyllid drafodaeth ddoe ddiwethaf â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ynghylch yr union bwynt hwn. Rydym yn gwybod drwy Holtham bod y tangyllido tua £300 miliwn bryd hynny, a'i fod efallai'n llai erbyn hyn. Ond, er ein bod yn croesawu'r ymrwymiad tuag at y llawr cyllido—a bydd o gymorth i Gymru—ni all Llywodraeth y DU ddianc rhag y ffaith bod angen diwygio Barnett fel fformiwla. Mae'n 36 mlwydd oed erbyn hyn; nid yw'n addas i'w diben cyn belled ag y mae Cymru dan sylw; ac er bod croeso i'r cynnig ynglŷn â'r llawr, ac y gellir bwrw ymlaen â hynny heb ystyried amgylchiadau eraill, mae'n bryd diwygio Barnett.

14:00

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rydych chi'n dweud, Brif Weinidog, fod fformiwla Barnett wedi dod i ddiwedd y daith ac nad yw'n 'fit for purpose' fel rydych chi'n ei ddweud. A ydych chi'n barod i ymddiheuro, felly, i bobl Cymru fod Llywodraeth Lafur y Deyrnas Unedig wedi methu ariannu Cymru'n deg pan oedd hi mewn Llywodraeth yn San Steffan?

You say, First Minister, that the Barnett formula has come to the end of the road and is not fit for purpose, as you say. Are you willing to apologise to the people of Wales, therefore, that the UK Labour Government had failed to fund Wales fairly when it was in Government in Westminster?

14:00

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, yn gyntaf i gyd, nid yw'r amgylchiadau'r un peth. Fel bydd e'n gwybod yn nêt, mae'r sefyllfa ynglŷn â Barnett wedi gwaethygu dros y blynyddoedd. Mae'n wir i ddweud bod y sefyllfa wedi gwaethygu yn ystod y Llywodraeth Lafur—mae hynny'n wir i ddweud—ond mae pethau wedi mynd llawer yn waeth ers hynny. Rŷm ni'n awr mewn sefyllfa lle mae 36 o flynyddoedd wedi mynd heibio ers i Barnett gael ei sefydlu; mae'r amser wedi dod nawr i gael fformiwla newydd ar draws y Deyrnas Unedig. Nid yw hynny'n meddwl bod yn rhaid anghofio am y llawr—mae hynny'n bwysig am nawr—ond nid wyf yn credu bod neb yn gallu dadlau yn synhwyrol y dylai Barnett aros fel y mae am flynyddoedd i ddod.

Well, first of all, the circumstances aren't the same. As he knows full well, the situation regarding Barnett has deteriorated over the years. It's true to say that the situation did worsen during the Labour Government—that is true to say—but things have got much worse since. We're now in a situation where 36 years have lapsed since the establishment of Barnett and it's time now to have a new formula for the whole of the United Kingdom. I'm not saying that we have to forget the floor—that's important for now—but I don't believe that anybody can argue sensibly that Barnett should remain for years to come.

14:01

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would agree with you that the Barnett formula is well past its sell-by date. We currently have an incoherent and unfair system where the UK Government is adding new layers to it by pushing ahead with the Smith Commission, despite any robust or transparent process for fair funding.

Byddwn yn cytuno â chi bod fformiwla Barnett wedi gweld ei dyddiau gorau ers talwm. Ar hyn o bryd mae gennym system anhrefnus ac annheg lle mae Llywodraeth y DU yn ychwanegu haenau newydd ati drwy fwrw ymlaen â Chomisiwn Smith, er gwaethaf unrhyw broses gadarn neu dryloyw ar gyfer ariannu teg.

The Bingham Centre for the Rule of Law's recent 'A Constitutional Crossroads' report, which was presented here in the Assembly last week, highlights the need for an independent body like a UK finance commission, so that everybody is clear about what formula is going to be fair across the United Kingdom. What is your opinion about the need for a UK finance commission, similar to that we have in Australia, and is this something that you're able to promote in your discussions with the UK Government?

Mae adroddiad diweddar Canolfan Bingham ar gyfer Rheolau'r Gyfraith 'A Constitutional Crossroads', a gafodd ei gyflwyno yma yn y Cynulliad yr wythnos diwethaf, yn tynnu sylw at yr angen am gorff annibynnol fel comisiwn cyllid i'r DU, fel bod pawb yn glir ynglŷn â pha fformiwla fydd yn deg ar draws y Deyrnas Unedig. Beth yw eich barn chi am yr angen am gomisiwn cyllid i'r DU, yn debyg i'r hyn sydd gennym yn Awstralia, ac a yw hyn yn rhywbeth y gallwch ei hyrwyddo yn eich trafodaethau gyda Llywodraeth y DU?

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I entirely agree. It is something that I've promoted in the past in joint ministerial councils. We can't have a situation where there is no proper objectivity or independence with regard to financial disputes between the devolved administrations and Whitehall. It's good enough for Australia; the problem is, of course, that Whitehall is very much stuck in its ways and very staid when it comes to imaginative solutions to keep the UK together. We see this with regard to finance; we see this with regard to the cack-handed way in which they deal with Scotland; and there needs to be far more imagination and far more understanding of the nature of twenty-first century Britain from Whitehall in order to make sure that the issues of finance and the issues, generally, of the constitution are actually recognised and dealt with.

Rwyf yn cytuno'n llwyr. Mae'n rhywbeth yr wyf wedi'i hyrwyddo yn y gorffennol mewn cynghorau gweinidogol ar y cyd. Ni allwn fod mewn sefyllfa lle nad oes gwrthrychedd priodol nac annibyniaeth o ran anghydfodau ariannol rhwng y gweinyddiaethau datganoledig a Whitehall. Mae'n ddigon da i Awstralia; y broblem yw, wrth gwrs, ei bod yn anodd newid arferion Whitehall a'u bod yn bwyllog iawn o ran atebion â dychymyg y tu ôl iddynt i gadw'r DU gyda'i gilydd. Rydym yn gweld hyn ym maes cyllid; rydym yn gweld hyn yn y ffordd drwsgl y maent yn ymdrin â'r Alban; ac mae angen llawer mwy o ddychymyg a llawer mwy o ddealltwriaeth o natur Prydain yr unfed ganrif ar hugain yn Whitehall er mwyn gwneud yn siŵr bod y materion cyllid a materion cyffredinol y cyfansoddiad yn cael eu cydnabod ac yr ymdrinnir â hwy mewn gwirionedd.

### Gwelyau yn Ysbytai Ynys Môn

### Hospital Beds in Ynys Môn

14:03 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y ddarpariaeth o welyau yn ysbytai Ynys Môn? OAQ(4)2345(FM)*

*6. Will the First Minister make a statement on the provision of hospital beds in Ynys Môn? OAQ(4)2345(FM)*

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Rwy'n disgwyl i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion pobl Ynys Môn. Mae hyn yn cynnwys darparu gwelyau ysbyty lle mai'r farn yw bod eu hangen am resymau clinigol. [Torri ar draws.]

I expect Betsi Cadwaladr University Local Health Board to provide services that meet the needs of the people of Ynys Môn. This includes the provision of hospital beds, where deemed to be clinically necessary. [Interruption.]

Mae rhywun, rwy'n credu, yn mynd i ddihuno lan cyn bo hir.

I believe somebody's going to wake up before long.

14:03 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rwyf i wedi codi pryderon o'r blaen yn y Siambr am golli gwelyau yn Ysbyty Penrhos Stanley yng Nghaergybi. Rwyf hefyd wedi codi pryderon am y penderfyniad i ddad-gomisynu gofal dwys henoed eiddil eu meddwl yng Nghartref Sant Tysilio yn Llanfairpwll ar amser pan nad oes yna gapasiti EMI ar gael yn Ynys Môn. Tybed a ydy'r Prif Weinidog yn ymwybodol bod ward Glasmor yn Ysbyty Penrhos Stanley wedi cau fel ward EMI bum mlynedd yn ôl ac wedi cael ei ddefnyddio am gyfnod wedyn fel storfa. Mi oedd yna gynllun i ddefnyddio rhai o'r gwelyau yno fel gwelyau gofal dros y gaeaf diwethaf, ond ni wnaeth hynny ddigwydd. Mi fyddai'r gwelyau EMI yma, pe bai nhw ar gael rŵan, yr union fath o adnodd a fyddai'n tynnu'r pwysau oddi ar Gyngor Sir Ynys Môn a bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr yn yr argyfwng presennol. Onid ydy hyn yn brawf arall o'r diffyg cynllunio strategol sy'n digwydd ar hyn o bryd a'r angen am integreiddio gofal iechyd a gofal cymdeithasol?

I have raised concerns in the past in the Chamber about the loss of beds in Ysbyty Penrhos Stanley in Holyhead. I've also raised concerns about the decision to decommission intensive care for the elderly mentally infirm in the San Tysilio Nursing Home in Llanfairpwll at a time when there is no EMI capacity available on Ynys Môn. I wonder whether the First Minister is aware that the Glasmor ward in Ysbyty Penrhos Stanley closed as an EMI ward five years ago and has been used for a period as a storeroom. There was a plan to use some of the beds there as care beds over the last winter, but that didn't happen. These EMI beds, if they were available now, would be the exact kind of resource that would take the pressure off Isle of Anglesey County Council and the Betsi Cadwaladr health board in the current crisis. Isn't this proof again of the lack of strategic planning currently happening and the need to integrate health and social care?

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rwy'n gwybod, ynglŷn ag Ysbyty Penrhos Stanley, fod yna rai gwelyau yn fanna sy'n delio â phobl hŷn, ond gwelyau meddygol cyffredinol yw'r rheini. Mae tua 37 o welyau ar gael yn fanna. Wrth gwrs, mae yna welyau yn Ysbyty Cefni, yn Llangefni, sydd yn delio â phobl hŷn sydd â phroblemau seiciatrig. Ynglŷn â'r sefyllfa yn Sant Tysilio, rwy'n gwybod bod cyngor Ynys Môn a'r bwrdd yn gweithio gyda'i gilydd, a gyda'r preswylwyr a'u tylwyth, er mwyn sicrhau bod ganddyn nhw ofal, yn y pen draw, sydd yn berthnasol iddyn nhw. Felly, mae'r cyngor a'r bwrdd iechyd yn gweithio gyda'i gilydd yn barod, fel y dylen nhw, ac mae hynny'n dangos pa mor bwysig ydyw i wasanaethau cymdeithasol weithio gyda'r bwrdd iechyd.

I know, as regards Ysbyty Penrhos Stanley, that there are some beds available there that can deal with elderly people, but they are general medical beds. There are about 37 beds available there. Of course, there are beds at Cefni Hospital, in Llangefni, which deals with elderly people with psychiatric problems. As regards the situation at Sant Tysilio, I know that Ynys Môn council and the board are working together, and with the residents and their families, in order to ensure that they ultimately have the care that is appropriate for them. So, the council and the health board are already working together, as they should, and it demonstrates how important it is for social services to work with the health board.

Senedd.tv Fideo Video

14:05 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

First Minister, do you accept that the record-breaking cuts that your Government has imposed upon the Welsh NHS is one of the reasons that health boards in north Wales and elsewhere across the country have a challenge in ensuring that there are adequate beds available for the patients in those areas? If you do accept that, what action will you take to resolve the situation?

Brif Weinidog, a ydych chi'n derbyn bod y toriadau mwyaf erioed y mae eich Llywodraeth wedi eu gosod ar y GIG yng Nghymru yn un o'r rhesymau pam mae byrddau iechyd yn y gogledd ac mewn mannau eraill ledled y wlad yn wynebu her i sicrhau bod digon o welyau ar gael i'r cleifion yn yr ardaloedd hynny? Os ydych yn derbyn hynny, pa gamau y byddwch yn eu cymryd i ddatrys y sefyllfa?

Senedd.tv Fideo Video

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, I do not accept this endless nonsense of record-breaking cuts. I challenge you to produce the figures to back up the nonsense—[Interruption.] Can I remind him that his party, that he is so proud to be a member of, took £50 million out of the Welsh budget—[Interruption.] No warning, in-year, £50 million; £50 million out of the Welsh health service, taken by his party. What will we see his party doing next? [Interruption.]

Wel, nid wyf yn derbyn y lol ddiddiwedd hon ynglŷn â'r toriadau mwyaf erioed. Rwy'n eich herio i ddangos ffigurau i ategu'r lol—[Torri ar draws.] A gaf i ei atgoffa bod ei blaid ef, y mae mor falch o fod yn aelod ohoni, wedi cymryd £50 miliwn allan o gyllideb Cymru—[Torri ar draws.] Dim rhybudd, yn ystod y flwyddyn, £50 miliwn; £50 miliwn allan o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, wedi'i gymryd gan ei blaid ef. Beth welwn ni ei blaid yn ei wneud nesaf? [Torri ar draws.]

Senedd.tv Fideo Video

14:06 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Order.

Trefn.

Senedd.tv Fideo Video

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Selling RBS shares for £7 billion—[Interruption.]

Gwerthu cyfranddaliadau RBS am £7 biliwn—[Torri ar draws.]

Senedd.tv Fideo Video

14:06 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Order. Order.

Trefn. Trefn.

Senedd.tv Fideo Video

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That's enough to run the Welsh NHS pretty much for one year. [Interruption.]

Mae hynny cystal â bod yn ddigon i redeg y GIG yng Nghymru am flwyddyn. [Torri ar draws.]

Senedd.tv Fideo Video

14:06 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Order.

Trefn.

Senedd.tv Fideo Video

14:06

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We have to run the Welsh NHS and take no lessons from those people who are trying to strangle it. [Interruption.]

Mae'n rhaid i ni redeg y GIG yng Nghymru a pheidio â chymryd unrhyw wersi gan y bobl hynny sy'n ceisio ei dagu. [Torri ar draws.]

Senedd.tv Fideo Video

14:06

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Order. Whatever is going on this afternoon? Now, I've got quite a loud voice—[Interruption.] Darren Millar. I've got quite a loud voice. It is magnified, and you are shouting so much you can't hear me. Now, please, will you restrain yourselves? I've lost track of where we are. Question 7 is from Mark Isherwood.

Trefn. Beth ar y ddaear sy'n mynd ymlaen y prynhawn yma? Nawr, mae gen i lais eithaf cryf—[Torri ar draws.] Darren Millar. Mae gen i lais eithaf cryf. Mae'n cael ei chwyddo, ac rydych chi'n gweiddi cymaint fel nad ydych yn gallu fy nghlywed i. Nawr, os gwelwch yn dda, a wnewch ymatal? Rwyf wedi colli golwg ar ble'r ydym ni arni. Daw cwestiwn 7 gan Mark Isherwood.

Senedd.tv Fideo Video

### Plant sydd â Nam ar y Lleferydd ac Iaith

### Children with Speech and Language Impairment

14:07

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

*7. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y ddarpariaeth ar gyfer plant sydd â nam ar y lleferydd ac iaith yng Nghymru? OAQ(4)2330(FM)*

*7. Will the First Minister provide an update on provision for children with speech and language impairment in Wales? OAQ(4)2330(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:07

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, we're committed to meeting the health, social care and educational needs of all children. Through Flying Start, of course, the extension of the pupil deprivation grant, and our legislative proposals for additional learning needs, we are ensuring that the needs of children with speech and language impairments will be met.

Gwnaf, rydym wedi ymrwymo i ddiwallu anghenion iechyd, gofal cymdeithasol ac addysgol pob plentyn. Drwy Dechrau'n Deg, wrth gwrs, ymestyn y grant amddifadedd disgyblion, a'n cynigion deddfwriaethol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, rydym yn sicrhau y byddwn yn diwallu anghenion plant â nam ar y lleferydd ac iaith.

Senedd.tv Fideo Video

14:07

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

How will you respond to a concern expressed by charities representing children and young people with speech, language and communication impairments in Wales that the recommendations of the 2008 evaluation of speech and language service pilots in Wales, which was provided for the Welsh Government, have not been followed up upon; that the Welsh Government hasn't followed up on the pilot programmes after they ended, despite accepting the recommendation that it would; that training has been sporadic; that communication forums didn't happen in many local authorities, and dropped off in Flintshire and Conwy and much more? I'd be very grateful if the Welsh Government would revisit the recommendations of the report and advise accordingly.

Sut y gwnewch chi ymateb i bryder a fynegwyd gan elusennau sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc â namau lleferydd, iaith a chyfathrebu yng Nghymru na wnaethpwyd dim byd i ddilyn argymhellion y gwerthusiad 2008 o wasanaethau arbrofol iaith a lleferydd yng Nghymru, a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru; nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwaith dilynol ar y rhaglenni arbrofol ar ôl iddynt ddod i ben, er iddi dderbyn yr argymhelliad i wneud hynny; bod hyfforddiant wedi bod yn ysbeidiol; na wnaeth fforymau cyfathrebu ddigwydd mewn llawer o awdurdodau lleol, a'u bod wedi lleihau yn Sir y Fflint a Chonwy a llawer mwy? Byddwn yn ddiolchgar iawn pe byddai Llywodraeth Cymru'n edrych eto ar argymhellion yr adroddiad ac yn cynghori yn unol â hynny.

Senedd.tv Fideo Video

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Health boards are responsible for planning and providing speech and therapy language services. All those services adhere to the Royal College of Speech and Language Therapists' clinical guidelines, and there are further guidelines from the National Institute for Health and Care Excellence for children with autistic spectrum disorders. Following initial assessment by a speech and language therapist, young people and parents are consulted and a care plan is designed, taking into account the best course of treatment and the wishes of the child. Nevertheless, the Member has raised an issue with regard to how matters have proceeded in the last few years, and I will write back to him with an answer with regard to that specific issue.

Byrddau iechyd sy'n gyfrifol am gynllunio a darparu gwasanaethau therapi iaith a lleferydd. Mae'r holl wasanaethau hynny'n cadw at ganllawiau clinigol Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd, ac mae canllawiau pellach gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal ar gyfer plant ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistig. Ar ôl asesiad cychwynnol gan therapydd iaith a lleferydd, ymgynghorir â phobl ifanc a rhieni a llunnir cynllun gofal, gan ystyried y math gorau o driniaeth a dymuniadau'r plentyn. Serch hynny, mae'r Aelod wedi holi am gynnydd o ran y materion hyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a byddaf yn ysgrifennu'n ôl ato i roi ateb am y mater penodol hwnnw.

14:08 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Deputy Minister for Health announced earlier this month that your Government will be investing an additional £1.25 million in high-tech equipment for people with communication problems. I understand that there will be jobs created as a matter of course. Can you tell me where these jobs will go? Will they go to areas where there are more problems with regard to speech issues, as Mark Isherwood has highlighted, or will they go into jobs across the board?

Cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Iechyd yn gynharach y mis hwn y bydd eich Llywodraeth yn buddsoddi £1.25 miliwn ychwanegol mewn offer uwch-dechnoleg i bobl â phroblemau cyfathrebu. Rwyf ar ddeall y bydd swyddi'n cael eu creu fel mater o drefn. A allwch chi ddweud wrthyf i ble y bydd y swyddi hyn yn mynd? A fyddant yn mynd i ardaloedd lle ceir mwy o broblemau o ran materion lleferydd, fel y mae Mark Isherwood wedi'i nodi, ynteu a fyddant yn mynd i mewn i swyddi ym mhob ardal?

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I would expect those services, and therefore the people who run those services, to be made available where those services are most required. So, while of course we were happy to announce the money that she has referred to, I don't think it would be right at this moment in time to say that final decisions have been made in terms of where people will be based in order to benefit in terms of jobs as a result of that technology. Perhaps if I asked the Minister to write to the Member with further details, that would help.

Byddwn yn disgwyl i'r gwasanaethau hynny, ac felly'r bobl sy'n cynnal y gwasanaethau hynny, fod ar gael lle mae mwyaf o angen am y gwasanaethau hynny. Felly, er ein bod, wrth gwrs, yn hapus i gyhoeddi'r arian y mae hi wedi cyfeirio ato, nid wyf yn meddwl y byddai'n iawn ar hyn o bryd i ddweud bod penderfyniadau terfynol wedi'u gwneud o ran lle y caiff pobl eu lleoli er mwyn elwa o ran swyddi yn sgil y dechnoleg honno. Efallai pe bawn yn gofyn i'r Gweinidog ysgrifennu at yr Aelod gyda manylion pellach, y byddai hynny'n helpu.

14:09 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, wrth ichi ystyried y sefyllfa ar draws Cymru, a gaf i ofyn ichi ystyried yn benodol y sefyllfa yn y gogledd? Mae'n siŵr eich bod chi'n ymwybodol bod gan tua 60 y cant o bobl o fewn y system cyfiawnder ieuenctid broblemau lleferydd, ond ar hyn o bryd, ar ôl i chi gael asesiad chwe wythnos yn y gogledd, mae'n rhaid i chi fynd ar restr. Mae yna broblemau difrifol yn y gogledd-ddwyrain, lle mae yna bedair swydd wag ar hyn o bryd. Felly, a gaf i ofyn i chi, wrth feddwl am y ffaith bod y bwrdd iechyd o dan fesurau arbennig ar hyn o bryd, edrych ar y meysydd yma lle mae yna broblemau penodol yn achosi poendod i rieni a phlant yn arbennig?

First Minister, as you consider the situation across Wales, may I ask you to specifically consider the situation in north Wales? I'm sure you're aware that some 60 per cent of people within the youth justice system have speech impairment problems, but at the moment, once you've had your six-week assessment in north Wales, you have to go on a waiting list. There are serious problems in the north-east where there are four vacant posts at present. Can I ask you, considering the fact that the health board is currently under special measures, to look at these particular areas where there are specific problems causing great anxieties to parents and children particularly?

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Fe ofynnaf i, wrth gwrs, i'r Gweinidog ystyried y sefyllfa ac i ysgrifennu yn ôl atoch chi.

I will ask the Minister of course to consider the situation and write back to you.

## Y Cynllun Datblygu Gwledig

## The Rural Development Plan

14:10 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd y cynllun datblygu gwledig ar gyfer 2014-2020? OAQ(4)2339(FM)*

*8. Will the First Minister make a statement on the importance of the rural development plan 2014-2020? OAQ(4)2339(FM)*

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The objective of the programme, of course, is to support rural Wales and in particular to assist its businesses and communities to become more resilient and competitive.

Amcan y rhaglen, wrth gwrs, yw cefnogi Cymru wledig ac yn benodol cynorthwyo ei busnesau a'i chymunedau i ddod yn fwy cystadleuol a chryfach.

14:11 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'd like to thank the First Minister very much for that response. In last week's evidence session to the Environment and Sustainability Committee by NFU Cymru, there was some discussion around nitrate vulnerable zones and the particular regulatory burden that falls on those who farm in them. The point was made by the representative that this would be one area where it would be particularly beneficial to have a Natural Resources Wales field force of officers who could actually work with farmers who are in those difficult areas to develop their businesses. As the First Minister will recall from his own tenure in the rural affairs portfolio, the roll-out of Tir Gofal was particularly successful because it enjoyed that level of support. First Minister, do you agree with me that there may be a case for revisiting that model and working with ministerial colleagues so as to bring that forward as part of the rural development plan?

Hoffwn ddiolch yn fawr i'r Prif Weinidog am yr ymateb yna. Yn sesiwn tystiolaeth yr wythnos diwethaf i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd gan NFU Cymru, cafwyd peth trafodaeth ynghylch parthau perygl nitradau a'r baich rheoliadol penodol sydd ar y bobl sy'n ffermio ynddynt. Gwnaeth y cynrychiolydd y pwynt y byddai hwn yn un maes lle byddai'n arbennig o fuddiol cael staff maes o swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru a allai weithio mewn gwirionedd gyda ffermwyr sydd yn yr ardaloedd anodd hynny i ddatblygu eu busnesau. Fel y bydd y Prif Weinidog yn ei gofio o'i ddaliadaeth ei hun yn y portffolio materion gwledig, roedd y broses o gyflwyno Tir Gofal yn arbennig o lwyddiannus gan ei fod wedi cael cymaint o gefnogaeth. Brif Weinidog, a ydych chi'n cytuno â mi y gallai fod achos dros edrych eto ar y model hwnnw a gweithio gyda chyd-Weinidogion i gyflwyno hynny yn rhan o'r cynllun datblygu gwledig?

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

One of the aims of the RDP is to ensure the sustainable management of natural resources and climate action, so it may be that there's scope there to provide some kind of assistance to farmers in the NVZs. I know that this is an issue that the farming industry is concerned with, despite the fact that NVZs are not widespread across Wales. Nevertheless, I know that there are issues for farmers who farm within them, and it may be that there is scope for more thought to be given to see whether funding might be possible for a project if it was brought together under the second limb of the RDP's aims.

Un o amcanion y cynllun datblygu gwledig yw sicrhau rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol a gweithredu ar yr hinsawdd, felly efallai fod yna gyfle i ddarparu rhyw fath o gymorth i ffermwyr yn y Parthau Perygl Nitradau. Gwn fod hwn yn fater y mae'r diwydiant ffermio'n poeni amdano, er nad yw Parthau Perygl Nitradau'n gyffredin ar hyd a lled Cymru. Serch hynny, rwy'n gwybod bod y ffermwyr sy'n ffermio ynddynt yn wynebu anawsterau, ac efallai fod lle i feddwl mwy ynglŷn ag a allai fod yn bosibl ariannu prosiect pe byddai wedi'i ddwyn ynghyd o dan ail gymal nodau'r Cynllun Datblygu Gwledig.

14:12 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm sure that you will agree with me, First Minister, that improving competitiveness must be an overarching objective of the new RDP. Can I ask how you will ensure that projects are adequately resourced to ensure high levels of participation, especially in how they deliver businesses to farms?

Rwy'n siŵr y gwnewch gytuno â mi, Brif Weinidog, bod yn rhaid i wella cystadleurwydd fod yn un o amcanion trosfwaol y Cynllun Datblygu Gwledig newydd. A gaf fi ofyn sut y byddwch yn sicrhau bod prosiectau'n cael digon o adnoddau i sicrhau lefelau uchel o gyfranogiad, yn enwedig yn y modd y maent yn darparu busnesau i ffermydd?

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We know from previous RDPs that they have been effective; Tir Gofal is one example of that. It's worth bearing in mind, of course, that the RDP is designed, yes, to help agriculture to become more competitive—that much is true—but it also goes much more widely than that, and it's important to get as much buy-in from businesses locally as possible. Tir Gofal did that: many, many local businesses were able to obtain contracts for small-scale work around farms, and that helped to sustain employment in the local economy. I think businesses are very much aware of the opportunities that the RDP presents, and I'd expect there to be a good response from businesses locally in terms of coming forward with proposals to benefit from the programme.

Rydym yn gwybod o Gynlluniau Datblygu Gwledig blaenorol eu bod wedi bod yn effeithiol; mae Tir Gofal yn un enghraifft o hynny. Mae'n werth cofio, wrth gwrs, bod y Cynllun Datblygu Gwledig wedi ei gynllunio, ie, i helpu amaethyddiaeth i fod yn fwy cystadleuol—mae hynny'n wir—ond mae hefyd yn llawer ehangach na hynny, ac mae'n bwysig bod busnesau lleol yn ei gefnogi cymaint â phosibl. Gwnaeth Tir Gofal hynny: roedd llawer iawn o fusnesau lleol yn gallu cael contractau ar gyfer gwaith ar raddfa fach o gwmpas ffermydd, a helpodd hynny gynnal cyflogaeth yn yr economi leol. Rwy'n meddwl bod busnesau'n ymwybodol iawn o'r cyfleoedd y mae'r Cynllun Datblygu Gwledig yn eu cyflwyno, a byddwn yn disgwyl ymateb da gan fusnesau lleol o ran cyflwyno cynigion i elwa ar y rhaglen.

Senedd.tv Fideo Video

### Y Setliad Ariannol

### The Financial Settlement

14:13 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

*9. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i wrthbwyso effaith y setliad ariannol diweddar gan Lywodraeth y DU? OAQ(4)2334(FM)*

*9. How is the Welsh Government going to offset the impact of the recent financial settlement from the UK Government? OAQ(4)2334(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We know that the recent announcement of in-year cuts of some £50 million is further evidence of the policies of the UK Government having a negative impact in Wales. We don't know on 8 July what the Chancellor will announce. We live in hope.

Rydym yn gwybod bod y cyhoeddiad diweddar am doriadau o tua £50 miliwn yn ystod y flwyddyn yn dystiolaeth bellach o effaith negyddol polisïau Llywodraeth y DU yng Nghymru. Nid ydym yn gwybod beth fydd y Canghellor yn ei gyhoeddi ar 8 Gorffennaf. Rydym yn byw mewn gobaith.

Senedd.tv Fideo Video

14:14 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

We live in hope, indeed, First Minister. 'We all need help sometimes' is the subject of an e-mail that many Members here have received over the last few days. During the recent general election, promises were made to protect the most vulnerable in our society. How, then, do you—other than living in hope—plan to protect and improve social services in coming years, given the scale of the cuts already announced, which you have rightly attacked the Conservative Government for? And when, Minister, will you tell the people of Wales that they are, as always, being sold short by the London Government?

Rydym yn byw mewn gobaith, yn wir, Brif Weinidog. 'Mae angen cymorth ar bob un ohonom weithiau' yw testun e-bost y mae llawer o Aelodau yma wedi'i gael dros y dyddiau diwethaf. Yn ystod yr etholiad cyffredinol diwethaf, gwnaethpwyd addewidion i amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Sut, felly, yr ydych chi—ar wahân i fyw mewn gobaith—yn bwriadu diogelu a gwella gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod, o ystyried maint y toriadau a gyhoeddwyd eisoes, yr ydych yn gywir wedi ymosod ar y Llywodraeth Geidwadol ynglŷn â hwy? A phryd, Weinidog, y byddwch chi'n ddweud wrth bobl Cymru eu bod, fel bob amser, yn cael cam gan Lywodraeth Llundain?

Senedd.tv Fideo Video

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I don't think that the creation of seven quangos on top of 22 local authorities is a good way to prioritise the spending of money either, so I think that he's on very, very dodgy ground there in terms of what he is suggesting. But I'll deal with the point that he raises. We are in the position where health and social services spending per head in Wales is 5 per cent higher than in England. We have shown that, even in difficult financial times, we have prioritised, and we have made sure that those who need services the most get those services, as evidenced by the spend per head that I've just mentioned.

Nid wyf yn credu bod creu saith cwango ar ben 22 awdurdod lleol greu yn ffordd dda o flaenoriaethu gwario arian ychwaith, felly rwy'n meddwl ei fod ef ar dir amheus iawn, iawn yn y fan yna o ran yr hyn y mae'n ei awgrymu. Ond rhof sylw i'r pwynt y mae'n ei godi. Rydym mewn sefyllfa lle mae gwariant ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol fesul pen yng Nghymru 5 y cant yn uwch nag yn Lloegr. Rydym wedi dangos, hyd yn oed mewn cyfnod ariannol anodd, ein bod wedi blaenoriaethu, ac rydym wedi gwneud yn siŵr bod y rhai sydd ag angen gwasanaethau fwyaf yn cael y gwasanaethau hynny, fel y dangosir gan y gwariant y pen yr wyf newydd sôn amdano.

Senedd.tv Fideo Video

14:15 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Will the First Minister not also agree that working with the UK Government to increase the economy to give everybody the security of a job would help everybody in Wales?

Oni wnaiff y Prif Weinidog gytuno hefyd y byddai gweithio gyda Llywodraeth y DU i gynyddu'r economi i roi sicrwydd swydd yn rhywbeth a fyddai'n helpu pawb yng Nghymru?

Senedd.tv Fideo Video

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Absolutely. That's why we were delighted yesterday to announce the excellent figures on inward investment—figures, of course, that are excellent in terms of jobs created, in terms of the number of projects brought to Wales, and we expect UKTI to confirm our figures and beyond when they publish those figures.

Wrth gwrs. Dyna pam yr oeddem yn falch iawn ddoe o gyhoeddi'r ffigurau ardderchog ar fewnfuddsoddiad—ffigurau, wrth gwrs, sy'n rhagorol o ran creu swyddi, o ran nifer y prosiectau a ddaeth i Gymru, ac rydym yn disgwyl i UKTI gadarnhau ein ffigurau a thu hwnt pan fyddant yn cyhoeddi'r ffigurau hynny.

I did see the comment of the Member opposite. It was praise—grudging praise, I grant him that, but he was able to offer praise when it was due. It shows that we as a Government take seriously the issue of job creation. We will go out and sell Wales. We will go out and make sure that investment comes into Wales. It is the exact opposite of the laissez faire, sit-down-and-do-nothing attitude of the Welsh Conservatives.

Gwelais sylw'r Aelod gyferbyn. Canmoliaeth ydoedd—canmoliaeth grintachlyd, rwy'n cyfaddef hynny, ond roedd yn gallu cynnig canmoliaeth pan oedd yn ddyledus. Mae'n dangos ein bod ni fel Llywodraeth yn cymryd o ddifrif y mater o greu swyddi. Byddwn yn mynd allan a gwerthu Cymru. Byddwn yn mynd allan ac yn gwneud yn siŵr bod buddsoddiad yn dod i mewn i Gymru. Dyna'r union wrthwyneb i agwedd laissez faire, eistedd i lawr a gwneud dim Ceidwadwyr Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:16 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

I appreciate, First Minister, that you're living in hope. May I suggest it's a faint one? Could you tell me whether your Government intends to take these cuts in-year, or whether you will be pushing those cuts into next year's budget? If you're intending on taking them this year, what discussions have you had with individual Ministers to see which departments will have to bear the burden of those in-year cuts?

Rwy'n sylweddoli, Brif Weinidog, eich bod yn byw mewn gobaith. A gaf i awgrymu mai gobaith gwan ydyw? A wnewch chi ddweud wrthyf a yw eich Llywodraeth yn bwriadu cymryd y toriadau hyn yn ystod y flwyddyn, ynteu a fyddwch chi'n gwthio'r toriadau hynny i mewn i gyllideb y flwyddyn nesaf? Os ydych yn bwriadu eu cymryd eleni, pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda Gweinidogion unigol i weld pa adrannau fydd yn gorfod ysgwyddo baich y toriadau yn ystod y flwyddyn hynny?

Senedd.tv Fideo Video

14:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

No decisions have been made yet. Of course, we wait to see what the so-called emergency budget will deliver on 8 July. That is bound to inform our thinking in terms of what our priorities should be with a shrinking budget.

Nid oes penderfyniadau wedi'u gwneud eto. Wrth gwrs, rydym yn aros i weld beth fydd y gyllideb argyfwng, fel y'i gelwir, yn ei ddarparu ar 8 Gorffennaf. Mae hynny'n siŵr o lywio ein meddyliau ynglŷn â beth ddylai ein blaenoriaethau fod gyda chyllideb sy'n crebachu.

Senedd.tv Fideo Video

14:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Thank you, First Minister.

Diolch, Brif Weinidog.

Senedd.tv Fideo Video

14:16 ## 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 2. Business Statement and Announcement

Y Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

### Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 2, which is the business statement. I call on the Minister, Jane Hutt.

Symudwn yn awr at eitem 2, sef y datganiad busnes. Galwaf ar y Gweinidog, Jane Hutt.

14:17 ### Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Diolch, Lywydd. There will be one change to report to the business statement for this week's business. The Minister for Public Services will make an urgent statement tomorrow on the future of local government in Wales.

Diolch, Lywydd. Bydd un newid i'w adrodd i'r datganiad busnes ar gyfer busnes yr wythnos hon. Bydd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yn gwneud datganiad brys yfory am ddyfodol llywodraeth leol yng Nghymru.

Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers available to Members electronically.

Mae busnes y tair wythnos nesaf fel y dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

14:17 ### William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Leader of the house, may I respectfully remind you of my urgent question and the responses of 11 November last? The catalyst for the tragic events in Argoed last November was probably ineffective prison service and mental health services liaison. Further investigation may highlight significant failings in the interaction not only between the prison service and the mental health services, but also failings in communication between those agencies and local authorities and accommodation providers. This is highlighted by the Argoed B&B having previously housed 10 sexual and violent offenders together with 16 and 17-year-olds without adequate support or supervision. In the past few years, 755 young people have been housed in such accommodation. It doesn't happen in England. Why does it happen in Wales? We need an urgent statement outlining how this practice may end.

Arweinydd y tŷ, a gaf fi eich atgoffa'n barchus o fy nghwestiwn brys a'r ymatebion ar 11 Tachwedd y llynedd? Yn ôl pob tebyg, y catalydd ar gyfer y digwyddiadau trasig yn Argoed fis Tachwedd diwethaf oedd cyswllt aneffeithiol rhwng y gwasanaeth carchardai a gwasanaethau iechyd meddwl. Gallai ymchwiliad pellach amlygu methiannau sylweddol yn y rhyngweithio, nid yn unig rhwng y gwasanaeth carchardai a'r gwasanaethau iechyd meddwl, ond hefyd fethiannau cyfathrebu rhwng yr asiantaethau hynny ac awdurdodau lleol a darparwyr llety. Mae hyn yn cael ei amlygu gan y ffaith bod llety gwely a brecwast Argoed cyn hynny wedi cartrefu 10 o droseddwyr rhyw a throseddwyr treisgar gyda phobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed heb gefnogaeth na goruchwyliaeth digonol. Yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae 755 o bobl ifanc wedi cael eu cartrefu mewn llety o'r fath. Nid yw'n digwydd yn Lloegr. Pam mae'n digwydd yng Nghymru? Mae arnom angen datganiad brys i amlinellu sut y gall yr arfer hwn ddod i ben.

14:18 ### Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I am aware of the Member's question in terms of the issues raised, which I think are going to be aired in a programme shortly—in the 'Week In, Week Out' programme. You do refer, of course, William Graham, to the tragic case of the killing at a B&B housing homeless people in Argoed, and I think it is important that we recognise the opportunities we have to support specifically our 16 to 17-year-olds, that we look at this in terms of the whole picture, and indeed at the role of local authorities in terms of allocating individuals at risk, which, of course, is the responsibility of local government. But, obviously, we have not yet seen the programme or its full content.

Rwy'n ymwybodol o gwestiwn yr Aelod o ran y materion a godwyd, a chredaf eu bod am gael eu darlledu mewn rhaglen cyn bo hir—ar y rhaglen 'Week In, Week Out'. Rydych chi'n cyfeirio, wrth gwrs, William Graham, at achos trasig y lladdiad mewn llety gwely a brecwast sy'n cartrefu pobl ddigartref yn Argoed, ac rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn cydnabod y cyfleoedd sydd gennym i gefnogi ein pobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed yn benodol, ein bod yn edrych ar hyn o safbwynt y darlun cyfan, ac yn wir ar swyddogaeth awdurdodau lleol o ran neilltuo unigolion sydd mewn perygl, gan, wrth gwrs, mai cyfrifoldeb llywodraeth leol yw hyn. Ond, yn amlwg, nid ydym eto wedi gweld y rhaglen na'i chynnwys yn llawn.

14:18 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, could I ask for two statements, please, from your colleague the Minister for transport? Firstly, earlier on this year, following a period of consultation, the Minister announced the results of her speed limits on trunk roads review. Subsequent to that announcement, there has been no communication with the community councils involved, and they are left none the wiser as to how the findings of that review will be progressed. That's very frustrating for those individuals who have sought to engage in that process and now have been left hanging loose, to all intents and purposes, on how those projects will be taken forward. An early indication from the Minister and better communication with those involved would be very welcome.

Weinidog, a gaf fi ofyn am ddau ddatganiad, os gwelwch yn dda, gan eich cydweithiwr y Gweinidog trafnidiaeth? Yn gyntaf, yn gynharach eleni, ar ôl cyfnod ymgynghori, cyhoeddodd y Gweinidog ganlyniadau ei hadolygiad o derfynau cyflymder ar gefnffyrdd. Yn dilyn y cyhoeddiad hwnnw, ni fu unrhyw gyfathrebu â'r cynghorau cymuned dan sylw, ac nid ydynt ddim callach ynglŷn â'r hyn a fydd yn cael ei wneud â chanfyddiadau'r adolygiad hwnnw. Mae hynny'n peri llawer o rwystredigaeth i'r unigolion hynny sydd wedi ceisio cymryd rhan yn y broses honno ac sydd nawr wedi cael eu gadael yn hongian yn rhydd, i bob pwrpas, ynghylch sut y byddwch yn bwrw ymlaen â'r prosiectau hynny. Byddai croeso mawr i neges gynnar gan y Gweinidog a gwell cyfathrebu gyda'r rhai sy'n cymryd rhan.

Secondly, Powys County Council is currently consulting on £500,000-worth of cuts to their transport budget. This will see the decimation of many bus routes in Brecon and Radnorshire, leaving some communities completely stranded. For instance, the people of Knighton could be left without any services, the town service in Llandrindod Wells will disappear and in Builth Wells will disappear and the village of Trecastle will be completely cut off. Will you ask your Minister to look at whether such cuts are in line with Welsh Government policy in promoting public transport and ensuring people of all ages are able to get out and about in their community, whether to travel to work opportunities or health appointments or simply to have the ability to meet up with friends or to do shopping?

Yn ail, mae Cyngor Sir Powys wrthi'n ymgynghori ar werth £500,000 o doriadau i'w gyllideb cludiant. Bydd hyn yn golygu llawer llai o lwybrau bysiau ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed, gan adael rhai cymunedau'n hollol ddigyswllt. Er enghraifft, gallai pobl Trefyclo gael eu gadael heb unrhyw wasanaethau, bydd gwasanaeth tref Llandrindod yn diflannu a bydd gwasanaeth tref Llanfair-ym-Muallt yn diflannu a chaiff pentref Trecastell ei ddatgysylltu'n llwyr. A wnewch chi ofyn i'ch Gweinidog edrych i weld a yw toriadau o'r fath yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru o ran hyrwyddo cludiant cyhoeddus a sicrhau bod pobl o bob oed yn gallu symud o gwmpas eu cymunedau, boed hynny i deithio i gyfleoedd gwaith neu apwyntiadau iechyd neu ddim ond i allu cwrdd â ffrindiau neu fynd i siopa?

14:21 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Kirsty Williams. In terms of the first question, I will ask the Minister for Economy, Science and Transport for an update on her review of speed limits on trunk roads, particularly referring to the queries from town and community councils in terms of their engagement and the timelines of that review.

Diolch yn fawr, Kirsty Williams. O ran y cwestiwn cyntaf, gofynnaf i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth am y wybodaeth ddiweddaraf am ei hadolygiad o derfynau cyflymder ar gefnffyrdd, gan gyfeirio'n benodol at y cwestiynau gan gynghorau tref a chymuned ynglŷn â'u hymgysylltiad ac amserlen yr adolygiad hwnnw.

In terms of your second point, it is, of course, a budgetary matter for Powys County Council, but, clearly, they have their responsibilities in terms of the provision of a public and integrated bus service. So, I'm sure that this is something that will come to attention in due course in terms of questions to the Minister on the matter.

O ran eich ail bwynt, wrth gwrs, mater cyllidebol i Gyngor Sir Powys yw hynny, ond, yn amlwg, mae ganddynt eu cyfrifoldebau o ran darparu gwasanaeth bws cyhoeddus ac integredig. Felly, rwy'n siŵr bod hyn yn rhywbeth a gaiff sylw maes o law o ran cwestiynau i'r Gweinidog am y mater.

14:21 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I'm pleased that the proposed Swansea tidal lagoon gained planning consent last week. The planned lagoon is incredibly popular with the people living in my constituency and also with Members representing the area, as you've probably noticed from the number of questions raised on it in recent weeks. I'm asking for a Government statement on the potential financial benefits to the Swansea city region of the tidal lagoon.

Weinidog, rwy'n falch bod morlyn llanw arfaethedig Abertawe wedi cael caniatâd cynllunio yr wythnos diwethaf. Mae'r morlyn a gynlluniwyd yn hynod boblogaidd ymysg y bobl sy'n byw yn fy etholaeth i, a hefyd ymysg Aelodau sy'n cynrychioli'r ardal, fel y mae'n debyg y byddwch wedi sylwi o'r nifer o gwestiynau a ofynnwyd amdano yn ystod yr wythnosau diwethaf. Rwy'n gofyn am ddatganiad gan y Llywodraeth am y manteision ariannol posibl i ddinas-ranbarth Abertawe o ganlyniad i'r morlyn llanw.

14:22 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, it is particularly as a result of the approval of the planning as a result of the deliberations of the Department of Energy and Climate Change, and, of course, the importance of how we—and then, as the First Minister said, we await the strike price. I think this could have significant benefits for the Welsh economy, if we can successfully develop the scheme.

Ie, mae hynny'n benodol o ganlyniad i gymeradwyaeth gynllunio o ganlyniad i drafodaethau'r Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd, ac, wrth gwrs, pa mor bwysig yw sut yr ydym—ac yna, fel y dywedodd y Prif Weinidog, rydym yn aros am y pris taro. Rwy'n credu y gallai hyn fod o fudd sylweddol i economi Cymru, os gallwn ddatblygu'r cynllun yn llwyddiannus.

14:22 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Two requests, please, Minister. Members may know, of course, that last week was National Blood Week. We were reminded of the importance of donating blood and how it saves lives. Unfortunately, I can't give blood because I had a transfusion 20 years ago, when the country was still very concerned about Creutzfeldt-Jakob disease. As screening has improved since that time, I wonder if the health Minister would consider bringing an update to the Chamber about any communications the Welsh Government has had with the UK Government about the rules preventing blood donation. I think the previous health Minister did bring something forward, but an update would be useful.

Dau gais, os gwelwch yn dda, Weinidog. Efallai fod aelodau'n gwybod, wrth gwrs, mai'r wythnos diwethaf oedd Wythnos Gwaed Genedlaethol. Cawsom ein hatgoffa o bwysigrwydd rhoi gwaed a sut y mae'n arbed bywydau. Yn anffodus, ni allaf roi gwaed oherwydd i mi gael trallwysiad 20 mlynedd yn ôl, pan oedd y wlad yn dal i fod yn bryderus iawn am glefyd Creutzfeldt-Jakob. Gan fod sgrinio wedi gwella ers yr adeg honno, tybed a fyddai'r Gweinidog iechyd yn ystyried cyflwyno diweddariad i'r Siambr am unrhyw gyfathrebu y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud gyda Llywodraeth y DU ynghylch y rheolau sy'n atal rhoi gwaed. Rwy'n meddwl bod y Gweinidog iechyd blaenorol wedi cyflwyno rhywbeth, ond byddai diweddariad yn ddefnyddiol.

Secondly, I think we were all pleased to hear the announcement of new funding for the development of talking and related psychological therapies for children and young people with relevant mental health problems. Students interested in training for this kind of work can only begin the relevant level of qualification when they reach 18, and often take up their studies part time at further education collages. I'd be grateful, therefore, if the Government would share any impact assessment it conducted to ensure that the cuts to post-19 further education would not adversely affect the health Minister's ambitions to increase the availability of talking therapies. Thank you.

Yn ail, rwy'n meddwl ein bod i gyd yn falch o glywed y cyhoeddiad am gyllid newydd i ddatblygu therapïau siarad a therapïau seicolegol cysylltiedig ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl perthnasol. Mae'n rhaid i fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn hyfforddiant ar gyfer y math hwn o waith aros tan eu bod yn 18 oed cyn dechrau cymhwyster ar y lefel berthnasol, ac yn aml byddant yn astudio'n rhan-amser mewn colegau addysg bellach. Byddwn yn ddiolchgar, felly, pe byddai'r Llywodraeth yn rhannu unrhyw asesiad o effaith a gynhaliwyd ganddi i sicrhau na fyddai'r toriadau i addysg bellach ôl-19 yn cael effaith andwyol ar uchelgais y Gweinidog iechyd i gynyddu faint o therapïau siarad sydd ar gael. Diolch.

14:23 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for those questions; in fact, I think that, last week, it was Peter Black who raised the question about National Blood Week. Also, I did say that I would ask the Minister for Health and Social Services to look at the matter further, in terms of the links to the UK Government ban—an end to the ban on men, particularly, giving blood. I think it is important that we do feed back, and the Minister will feed back on the outcomes of those discussions.

Diolch am y cwestiynau yna; a dweud y gwir, credaf mai Peter Black a ofynnodd y cwestiwn am Wythnos Gwaed Genedlaethol yr wythnos diwethaf. Hefyd, dywedais y byddwn yn gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol edrych ar y mater ymhellach, o ran y cysylltiadau â gwaharddiad Llywodraeth y DU—i ddiweddu'r gwaharddiad ar ddynion, yn arbennig, rhag rhoi gwaed. Credaf ei bod yn bwysig ein bod yn rhoi adborth, a bydd y Gweinidog yn rhoi adborth am ganlyniadau'r trafodaethau hynny.

On your second point, of course, it is an important opportunity that we now have this funding for those therapies, which are particularly relevant for young people. Of course, we have to make sure that that reaches them in any setting, particularly a learning setting such as further education.

O ran eich ail bwynt, wrth gwrs, mae'r ffaith bod yr arian hwn gennym nawr ar gyfer y therapïau hynny yn gyfle pwysig, sy'n arbennig o berthnasol i bobl ifanc. Wrth gwrs, mae'n rhaid inni wneud yn siŵr bod hynny yn eu cyrraedd mewn unrhyw leoliad, yn enwedig mewn lleoliad dysgu megis addysg bellach.

14:24 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you may be aware of a new planning application for the Creigiau quarry, requesting permission to blast in the direction of homes in the area. Now, local residents are understandably very concerned about the impact that might have on their ability to peacefully enjoy their homes in terms of dust and noise, but also traffic and other forms of disruption. There are also environmental concerns, as the quarry is home to a number of protected species. The minerals technical advice note 1 states that the policy is to ensure, and I quote:

'the best balance between environmental, economic and social considerations is struck'.

So, I'm wondering if I could request a statement from the Minister for Natural Resources on how he expects local authorities to respect this principle in practice and what reviews have taken place of the policy since this MTAN was first published in 2004.

Weinidog, efallai y byddwch yn ymwybodol o gais cynllunio newydd ar gyfer chwarel Creigiau, yn gofyn am ganiatâd i chwythu i gyfeiriad cartrefi yn yr ardal. Nawr, mae trigolion lleol yn ddealladwy yn bryderus iawn am yr effaith y gallai hynny ei chael ar eu gallu i fwynhau eu cartrefi mewn heddwch o ran llwch a sŵn, ond hefyd o ran traffig a mathau eraill o aflonyddwch. Ceir pryderon amgylcheddol hefyd, gan fod y chwarel yn gartref i nifer o rywogaethau a warchodir. Mae nodyn cyngor technegol mwynau 1 yn nodi mai'r polisi yw sicrhau, ac rwy'n dyfynnu:

'taro'r cydbwysedd gorau rhwng ystyriaethau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol'.

Felly, tybed a gaf i ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ynglŷn â sut y mae'n disgwyl i awdurdodau lleol barchu'r egwyddor hon yn ymarferol, a pha adolygiadau o'r polisi sydd wedi'u cynnal ers i'r MTAN hwn gael ei gyhoeddi gyntaf yn 2004.

14:25 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is an important matter that obviously affects many communities, and I think it's important that you look at 'Minerals Planning Policy Wales'. That needs to be, of course, read in conjunction with the technical advice note in terms of aggregates guidance. Clearly, this is an issue that will be brought forward by elected representatives in terms of looking at those policy statements.

Mae hwn yn fater pwysig sy'n amlwg yn effeithio ar lawer o gymunedau, ac rwy'n credu ei bod yn bwysig eich bod yn edrych ar 'Polisi Cynllunio Mwynau Cymru'. Mae angen ei ddarllen, wrth gwrs, ar y cyd â'r nodyn cyngor technegol o ran cyfarwyddyd agregau. Yn amlwg, mae hwn yn fater a gyflwynir gan gynrychiolwyr etholedig o ran edrych ar y datganiadau polisi hynny.

14:26 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Two issues, Minister: the first is that, last week, Jessica Morden, the MP for Newport East, managed to secure a debate in the House of Commons about the dangers of organophosphate poisoning, prompted by one of her constituents, who's been very badly affected. There are at least 500 members of the sheep-dip survivors group, and I wondered if it is possible to have a statement to find out how many of these people who may have been affected by sheep-dipping, which was compulsory between 1976 and 1992, may be in Wales and what efforts are being made to secure their medical records—given that there's some concern that medical records are disappearing—as they may be required if the UK Government were to set up a commission. So, it would be useful to know exactly what the size of the problem is in Wales, given that we have many, many sheep farmers.

The second issue is that, today, the Chief Medical Officer for England, Sally Davies, set up a review of the safety and efficacy of medicines, concerned about possible over-medication by doctors and an unhealthy link between clinical scientists and the industry that funds them. This relates to something that I've raised in the past around drug companies only publishing the research that actually paints their particular product in a positive light and not necessarily ones that indicate any counter-indications. I understand statins and Tamiflu have particular question marks, and I just wondered if it would be possible for the Minister of health to give us a statement on how this may impact on our prescribing policies.

Dau fater, Weinidog: y cyntaf yw, yr wythnos diwethaf, bod Jessica Morden, yr AS dros Ddwyrain Casnewydd, wedi llwyddo i sicrhau dadl yn Nhŷ'r Cyffredin am beryglon gwenwyn organoffosffad, a ysgogwyd gan un o'i hetholwyr, sydd wedi ei effeithio'n ddrwg iawn. Mae o leiaf 500 o aelodau o'r grŵp goroeswyr dip defaid, ac roeddwn i'n meddwl tybed a yw'n bosibl cael datganiad i gael gwybod faint o'r bobl hyn a allai fod wedi cael eu heffeithio oherwydd dipio defaid, a oedd yn orfodol rhwng 1976 a 1992, a allai fod yng Nghymru, a pha ymdrechion sy'n cael eu gwneud i sicrhau eu cofnodion meddygol—o gofio bod rhywfaint o bryder bod cofnodion meddygol yn diflannu—gan y gallai fod eu hangen pe byddai Llywodraeth y DU yn sefydlu comisiwn. Felly, byddai'n ddefnyddiol gwybod beth yn union yw maint y broblem yng Nghymru, o gofio bod gennym lawer iawn o ffermwyr defaid.

Yr ail fater yw bod Prif Swyddog Meddygol Lloegr, Sally Davies, heddiw wedi sefydlu adolygiad o ddiogelwch ac effeithiolrwydd meddyginiaethau, gan bryderu am or-feddyginiaethu posibl gan feddygon a chyswllt afiach rhwng gwyddonwyr clinigol a'r diwydiant sy'n eu hariannu. Mae hyn yn gysylltiedig â rhywbeth yr wyf wedi'i godi yn y gorffennol o gwmpas cwmnïau cyffuriau'n dewis gwaith ymchwil i'w gyhoeddi sy'n dangos eu cynnyrch penodol mewn modd cadarnhaol ac efallai'n gwrthod cyhoeddi rhai sy'n dynodi unrhyw wrth-arwyddion. Rwyf ar ddeall bod gan statinau a Tamiflu farciau cwestiwn arbennig, ac roeddwn yn meddwl tybed a fyddai'n bosibl i'r Gweinidog iechyd roi datganiad inni am sut y gallai hyn effeithio ar ein polisïau rhagnodi.

14:28 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Jenny Rathbone for that first question particularly around the very powerful feedback from Jessica Morden's bringing this issue, having campaigned for many years on behalf of constituents, to the fore last week. Clearly, we will liaise with the UK Government and, indeed, liaise in what ever way we can in terms of providing the information and the support that is needed and, indeed, in support of the very successful campaign that there's been in support of sheep-dip survivors in Wales particularly.

Diolch i Jenny Rathbone am y cwestiwn cyntaf yna, yn enwedig o ran yr adborth pwerus iawn i Jessica Morden yn dod â'r mater hwn, ar ôl ymgyrchu ers blynyddoedd lawer ar ran etholwyr, i'r amlwg yr wythnos diwethaf. Yn amlwg, byddwn yn cysylltu â Llywodraeth y DU ac, yn wir, yn cysylltu ym mha bynnag ffordd y gallwn o ran darparu'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen ac, yn wir, i gefnogi'r ymgyrch lwyddiannus iawn sydd wedi'i chynnal i gefnogi goroeswyr dipio defaid yng Nghymru yn enwedig.

I think your second point is a point that, as you say, you've brought to our attention before. It is a matter on which, of course, we have less power in terms of the ability of those drug companies to go ahead and not report all those results, but certainly it's something that I'm sure the Minister for health will be able to report on.

Rwy'n meddwl bod eich ail bwynt yn bwynt yr ydych, fel y dywedwch, wedi tynnu ein sylw ato o'r blaen. Mae'n fater lle mae gennym, wrth gwrs, lai o bŵer o ran gallu'r cwmnïau cyffuriau hynny i barhau i beidio â rhyddhau adroddiadau am yr holl ganlyniadau hynny, ond yn sicr mae'n rhywbeth yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog iechyd yn gallu adrodd amdano.

14:29 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, could I request a statement from the Minister for Economy, Science and Transport on proposed alterations to the Welshpool traffic system? I understand from Welshpool Town Council that there has been a reluctance from Welsh Government to meet to discuss concerns relating to pedestrian safety on the main trunk road, and there are also outstanding issues that haven't been addressed by the Welsh Government and the trunk road agency. I'd be grateful if you could encourage the Minister for transport to send one of her officials to the public meeting, which will be held on Monday, but I also believe a statement would be useful on the outcomes of the review, which was supposed to have taken place one year after the implementation of the new road layout.

Weinidog, a gaf fi ofyn am ddatganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth am newidiadau arfaethedig i system drafnidiaeth y Trallwng? Deallaf gan Gyngor Tref y Trallwng y bu amharodrwydd ar ran Llywodraeth Cymru i gyfarfod i drafod pryderon yn ymwneud â diogelwch cerddwyr ar y brif gefnffordd, ac mae materion hefyd nad ydynt wedi cael sylw gan Lywodraeth Cymru a'r asiantaeth cefnffyrdd. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech annog y Gweinidog trafnidiaeth i anfon un o'i swyddogion i'r cyfarfod cyhoeddus, a gynhelir ddydd Llun, ond rwyf hefyd yn credu y byddai datganiad yn ddefnyddiol am ganlyniadau'r adolygiad, a ddylid bod wedi'i gynnal flwyddyn ar ôl rhoi'r cynllun ffordd newydd ar waith.

14:29 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Obviously, I've responded already to Kirsty Williams on the issues around safety on trunk roads, in terms of the review. And I would suggest, on your particular issue, that you also take it up with the Minister directly.

Yn amlwg, rwyf eisoes wedi ymateb i Kirsty Williams am faterion yn ymwneud â diogelwch ar gefnffyrdd, o ran yr adolygiad. A byddwn yn awgrymu, ar eich mater penodol chi, eich bod hefyd yn ei godi gyda'r Gweinidog yn uniongyrchol.

14:30 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I'd like to echo Eluned Parrott's request to have a statement from the Welsh Government on whether there are any plans to review MTAN 1 aggregates guidance. When I met with residents in Glyncoch recently, there were huge concerns around the new proposal to extend Craig-yr-Hesg quarry. And, as Eluned Parrott has said, the guidance dates back to 2004. So, I would like to know if there are plans to review it, and ensure that this guidance is still fit for purpose.

Weinidog, hoffwn adleisio cais Eluned Parrott i gael datganiad gan Lywodraeth Cymru ynglŷn ag unrhyw gynlluniau i adolygu canllawiau MTAN 1 ar agregau. Pan gwrddais â thrigolion yng Nglyncoch yn ddiweddar, roedd pryderon mawr ynglŷn â'r cynnig newydd i ymestyn chwarel Craig-yr-Hesg. Ac, fel y dywedodd Eluned Parrott, mae'r canllawiau'n dyddio'n ôl i 2004. Felly, hoffwn wybod a oes cynlluniau i'w hadolygu, a sicrhau bod y canllawiau hyn yn dal i fod yn addas i'w diben.

14:30 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Christine Chapman for that question, following up my response to Eluned Parrott. The MTAN does continue to provide a robust and relevant framework for the effective planning of aggregate extraction. But we, of course, endeavour to keep all policy under review, and identify opportunities for updating. Of course, we have our regional aggregates working parties; they continue to monitor the aggregate demand and production, and will monitor development plans, to ensure adequate regional supply. But, of course, this also, as I said, does relate to safeguarding resources, and to regional technical statements that have to be produced. So, I think this is a matter where, clearly, there are planned visits to sites to check operations.

Diolch i Christine Chapman am y cwestiwn yna, i ddilyn fy ymateb i Eluned Parrott. Mae'r MTAN yn parhau i ddarparu fframwaith cadarn a pherthnasol i gynllunio cloddio agregau'n effeithiol. Ond rydym, wrth gwrs, yn ymdrechu i barhau i adolygu pob polisi, a chanfod cyfleoedd i'w diweddaru. Wrth gwrs, mae gennym ein gweithgorau agregau rhanbarthol; maent yn parhau i fonitro'r galw am agregau a'u cynhyrchu, a byddant yn monitro cynlluniau datblygu, er mwyn sicrhau cyflenwad rhanbarthol digonol. Ond, wrth gwrs, mae hyn hefyd, fel y dywedais, yn ymwneud ag adnoddau diogelu, ac â datganiadau technegol rhanbarthol y mae'n rhaid eu cynhyrchu. Felly, rwy'n credu bod hwn yn fater, yn amlwg, lle mae ymweliadau wedi'u cynllunio i safleoedd i wirio gweithrediadau.

14:31 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Nick Ramsay.

Nick Ramsay.

14:31 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I wonder whether we could have a statement—

Weinidog, tybed a allem ni gael datganiad—

14:31 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Nick Ramsay.

Nick Ramsay.

14:31 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm Nick Ramsay today, Mick. [Laughter.] I've lost my train of thought now.

Fi yw Nick Ramsay heddiw, Mick. [Chwerthin.] Rwyf wedi anghofio beth yr oeddwn am ei ddweud nawr.

Minister, to say the recent velothon ruffled a few feathers in south-east Wales would be an understatement. Thanks to the agreement that has been entered into, my constituents are facing, potentially, another four years of disruption.

Weinidog, ni fyddai dweud bod y velothon diweddar wedi codi gwrychyn rhai pobl yn y de-ddwyrain yn dod yn agos at gyfleu'r teimladau. Diolch i'r cytundeb yr ymrwymwyd iddo, mae fy etholwyr yn wynebu, o bosibl, pedair blynedd arall o darfu.

14:32 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Four days.

Pedwar diwrnod.

14:32 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A day for each year, for the next four years. Clearly, that's unacceptable. Last week I asked for a statement regarding how the Welsh Government deals with major sporting events. I wonder, if I could reiterate that statement, if you'd bring that forward. It's clearly not right that people should be disallowed from leaving their houses, without rolling roadblocks. Could you please look at this, and could we have a statement urgently to make sure that my constituents are not disrupted like this in future?

Diwrnod bob blwyddyn, am y pedair blynedd nesaf. Yn amlwg, mae hynny'n annerbyniol. Yr wythnos diwethaf, gofynnais am ddatganiad ynglŷn â sut y mae Llywodraeth Cymru'n ymdrin â digwyddiadau chwaraeon mawr. Tybed, pe byddwn yn cael ailadrodd y datganiad hwnnw, a fyddech yn ei ddwyn ymlaen. Mae'n amlwg nad yw'n iawn nad yw pobl yn gallu gadael eu tai, heb rwystrau ffyrdd symudol. A fyddech cystal ag edrych ar hyn, ac a gawn ni ddatganiad brys i wneud yn siŵr nad yw hyn yn tarfu ar fy etholwyr yn y modd hwn eto yn y dyfodol?

14:32 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, there will be, as I think the event organisers said, lessons to be learned from the velothon. But, also, overall, it was a major one-day cycling event, funds were raised for charity, showcasing Wales to the world, and many enjoying the velothon in full, and bringing a direct economic impact to Wales. But, clearly, this is one of many major sporting events, and I know the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism is taking on board those lessons to be learnt.

Wel, wrth gwrs, fe fydd, fel y credaf y dywedodd trefnwyr y digwyddiad, gwersi i'w dysgu oddi wrth y velothon. Ond, hefyd, ar y cyfan, roedd yn ddigwyddiad beicio undydd o bwys, cafodd arian ei godi at elusen, cafodd Cymru ei harddangos i'r byd, a bu llawer yn mwynhau'r velothon yn llawn, a daeth ag effaith economaidd uniongyrchol i Gymru. Ond, yn amlwg, mae hwn yn un o lawer o ddigwyddiadau chwaraeon mawr, a gwn fod y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yn ystyried y gwersi hynny y mae angen eu dysgu.

14:33 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I wonder if we could have time made available for a debate and also a statement on the Juncker investment plan. This is a €315 billion plan, of which there are a number of major Welsh projects identified, including €3 billion in respect of the metro. These could have significant impacts on the Welsh economy, and I think it's important that we actually start debating how we not only maximise access to that potential support, but also that we examine the engagement Welsh Government has with the European Union taskforce on investment.

Weinidog, tybed a allem gael amser wedi'i ddarparu ar gyfer dadl a hefyd ddatganiad am y cynllun buddsoddi Juncker. Mae hwn yn gynllun gwerth €315 biliwn, ac mae'n nodi nifer o brosiectau o bwys yng Nghymru, gan gynnwys €3 biliwn ar gyfer y metro. Gallai'r rhain gael effeithiau sylweddol ar economi Cymru, ac rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn dechrau trafod mewn gwirionedd sut yr ydym nid yn unig am sicrhau ein bod yn cael cymaint â phosibl o'r gefnogaeth honno, ond ein bod hefyd yn edrych ar ymgysylltiad Llywodraeth Cymru gyda thasglu'r Undeb Ewropeaidd ar fuddsoddi.

14:34 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Mick Antoniw. We are, of course, exploring the opportunities that the Juncker package does present to boost investment in infrastructure in Wales. I met Commissioner Katainen's cabinet in March, and we're in regular contact with counterparts at the European Commission, and with the European Investment Bank, and I intend to lay a written statement on my engagement with the Juncker investment plan in due course.

Diolch, Mick Antoniw. Rydym, wrth gwrs, yn edrych ar y cyfleoedd y mae'r pecyn Juncker yn eu cyflwyno i roi hwb i fuddsoddi mewn seilwaith yng Nghymru. Cyfarfûm â chabinet y Comisiynydd Katainen ym mis Mawrth, ac rydym mewn cysylltiad rheolaidd â chymheiriaid yn y Comisiwn Ewropeaidd, ac â Banc Buddsoddi Ewrop, a bwriadaf gyflwyno datganiad ysgrifenedig am ymgysylltiad â'r cynllun buddsoddi Juncker maes o law.

14:34 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

14:34

## 3. Datganiad: Adroddiad Blynyddol ar y Rhaglen Lywodraethu

## 3. Statement: The Programme for Government Annual Report

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to item 3, which is a statement by the First Minister on the programme for government annual report. First Minister.

Symudwn yn awr at eitem 3, sy'n ddatganiad gan y Prif Weinidog am adroddiad blynyddol y rhaglen lywodraethu. Brif Weinidog.

14:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Llywydd.

Diolch i chi, Lywydd.

I have today published the final programme for government annual report for this Assembly term. It's an opportunity for us to take stock of the big picture, and to reflect on where we are as a country, and what this Government has achieved. The wealth of robust information that's been gathered for this report shows that the overwhelming record of this Government is one of delivery, and that our policies are taking Wales forward and improving the lives of citizens across the country.

Heddiw, rwyf wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol y rhaglen lywodraethu derfynol ar gyfer tymor y Cynulliad hwn. Mae'n gyfle i ni bwyso a mesur y darlun mawr, ac i fyfyrio ar ble'r ydym ni fel gwlad, a beth mae'r Llywodraeth hon wedi'i gyflawni. Mae cyfoeth o wybodaeth gadarn sydd wedi'i chasglu ar gyfer yr adroddiad hwn yn dangos bod hanes llethol y Llywodraeth hon yn un o gyflawni, a bod ein polisïau yn mynd â Chymru yn ei blaen ac yn gwella bywydau dinasyddion ar draws y wlad.

Set out in the pages of our summary progress report, the account of progress on Government commitments and the detailed performance indicators are, together, example after example of successful delivery of the progressive agenda that this Government has been committed to since 2011.

Wedi'u nodi yn y tudalennau ar ein hadroddiad cynnydd cryno, mae'r hanes am gynnydd ar ymrwymiadau'r Llywodraeth a'r dangosyddion perfformiad manwl, gyda'i gilydd, yn enghraifft ar ôl enghraifft o gyflawni llwyddiannus y rhaglen flaengar y mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo iddi ers 2011.

Back in 2011, we put forward the most ambitious and comprehensive Government programme since devolution. That included 547 separate commitments covering the breadth of the public services that we are responsible for. The report shows that 95 per cent of our commitments have either been delivered, or are on track to be delivered.

Yn ôl yn 2011, cyflwynwyd rhaglen fwyaf uchelgeisiol a chynhwysfawr y Llywodraeth ers datganoli. Mae hynny'n cynnwys 547 o ymrwymiadau ar wahân yn cwmpasu ehangder y gwasanaethau cyhoeddus yr ydym yn gyfrifol amdanynt. Mae'r adroddiad yn dangos bod 95 y cant o'n hymrwymiadau naill ai wedi cael eu cyflawni, neu ar y ffordd i gael eu cyflawni.

All of our flagship 'five for a fairer future' commitments have been met in full, with 500 new community support officers on our streets, a doubling of Flying Start childcare provision, longer GP opening hours, Jobs Growth Wales exceeding its targets and our pledge on school spending growing over the five years of this term. This, Llywydd, is a remarkable achievement, and I pay tribute to the work of everyone involved in delivering our commitments whilst remaining true to the principles and values of Welsh public service, and in its best traditions.

Mae pob un o'n hymrwymiadau blaenllaw 'pump am ddyfodol tecach' wedi eu bodloni yn llawn, gyda 500 o swyddogion cymorth cymunedol newydd ar ein strydoedd, darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg wedi'i dyblu, oriau agor meddygon teulu wedi'u hymestyn, Twf Swyddi Cymru yn rhagori ar ei dargedau a'n haddewid ar wariant ysgol yn tyfu dros bum mlynedd y tymor hwn. Mae hyn, Lywydd, yn gyflawniad rhyfeddol, a thalaf deyrnged i waith pawb sy'n gysylltiedig â chyflawni ein hymrwymiadau gan aros yn driw i egwyddorion a gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, ac yn ei thraddodiadau gorau.

Llywydd, I set four overarching priorities for my Government on behalf of the people of Wales: on health and health services; educational attainment; growth and jobs; and supporting children, families and deprived communities. The annual report shows how, on each of these key priorities, we are focusing our resources in order to make a difference to people's lives.

Lywydd, gosodais bedair blaenoriaeth drosfwaol ar gyfer fy Llywodraeth ar ran pobl Cymru: ar iechyd a gwasanaethau iechyd; cyrhaeddiad addysgol; twf a swyddi; a chefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig. Dengys yr adroddiad blynyddol sut, ar bob un o'r blaenoriaethau allweddol hyn, yr ydym yn canolbwyntio ein hadnoddau er mwyn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl.

We are investing more in health than ever before, and we spend more per head on health and social services combined than in England, giving patients the right treatment, at the right time, and in the right place. Over 90 per cent of people who use our NHS are satisfied or very satisfied with the quality of treatment that they get, but we continually strive to improve our performance.

Rydym yn buddsoddi mwy mewn iechyd nag erioed o'r blaen, ac rydym yn gwario mwy fesul pen ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol wedi'u cyfuno nag yn Lloegr, gan roi'r driniaeth iawn i gleifion, ar yr adeg iawn, ac yn y lle iawn. Mae dros 90 y cant o bobl sy'n defnyddio ein GIG yn fodlon neu'n fodlon iawn gydag ansawdd y driniaeth y maent yn ei chael, ond rydym yn ymdrechu'n barhaus i wella ein perfformiad.

Llywydd, we are a pro-business Government, working closely with companies to create growth and jobs in every part of Wales. Inward investment is at its highest for decades, because investors know that they can rely on a supportive, agile Government and a skilled workforce. Gross value added per head is growing faster in Wales than many other parts of the UK, including London, demonstrating the confidence of the private sector here working in tandem with Government.

Lywydd, rydym yn Llywodraeth o blaid busnes, yn gweithio'n agos gyda chwmnïau i greu twf a swyddi ym mhob rhan o Gymru. Mae mewnfuddsoddiad ar ei uchaf ers degawdau, gan fod buddsoddwyr yn gwybod y gallant ddibynnu ar Lywodraeth gefnogol, ystwyth a gweithlu medrus. Mae gwerth ychwanegol crynswth y pen yn tyfu'n gyflymach yng Nghymru nag mewn llawer o rannau eraill o'r DU, gan gynnwys Llundain, gan ddangos hyder y sector preifat yma mewn gweithio ar y cyd â Llywodraeth.

Through innovative finance schemes, we've delivered £500 million and made a commitment to a further £1.9 billion of additional capital spending, which is improving everything from flood defences to the condition of our roads and providing a vital boost to business. We are also preparing for the first national tax powers in Wales for hundreds of years, which will give us new levers to improve our economy.

Drwy gynlluniau cyllid arloesol, rydym wedi cyflwyno £500 miliwn a gwneud ymrwymiad pellach o £1.9 biliwn o wariant cyfalaf ychwanegol, sy'n gwella popeth o amddiffynfeydd rhag llifogydd i gyflwr ein ffyrdd ac yn rhoi hwb hanfodol i fusnes. Rydym hefyd yn paratoi ar gyfer y pwerau trethu cenedlaethol cyntaf yng Nghymru ers cannoedd o flynyddoedd, a fydd yn rhoi liferi newydd i wella ein heconomi.

There is a new momentum in the education system in Wales, driven by our reforms, and focused on raising standards across the board. We have introduced rigour and challenge, whilst providing additional support for the pupils most in need with substantial extra resources. Standards are rising, but we are not letting up in the drive for improvement.

Mae momentwm newydd yn y system addysg yng Nghymru, wedi'i ysgogi gan ein diwygiadau, ac yn canolbwyntio ar godi safonau ar draws y bwrdd. Rydym wedi cyflwyno trylwyredd a her, gan ddarparu cefnogaeth ychwanegol ar yr un pryd ar gyfer y disgyblion sydd fwyaf mewn angen gydag adnoddau ychwanegol sylweddol. Mae safonau yn codi, ond nid ydym yn llaesu dwylo yn yr ymdrech i wella.

Llywydd, we are supporting children, families and deprived communities. Prevention and early intervention are central to our approach to tackling poverty, and our key programmes—including Communities First, Families First and Lift—are delivering results.

Lywydd, rydym yn cefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig. Mae atal ac ymyrraeth gynnar yn ganolog i'n dull o drechu tlodi, ac mae ein prif raglenni—gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf ac Esgyn—yn cyflawni canlyniadau.

But, responsible Government is not just about delivery in the here and now, vital though it is. It's also about looking towards the end of the decade and beyond, with a vision of the Wales that we want for the future.

Ond, nid yw Llywodraethu cyfrifol yn golygu darparu yn y presennol yn unig, er mor hanfodol yw hynny. Mae hefyd yn ymwneud ag edrych tuag at ddiwedd y ddegawd a thu hwnt, gyda gweledigaeth o'r Gymru yr ydym ei heisiau ar gyfer y dyfodol.

In working to deliver our goals, we've always looked to lay the foundations for longer-term success—an approach that we have embedded in the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2014. That Act will form the building blocks for a stronger, fairer, healthier and more prosperous society.

Wrth weithio i gyflawni ein nodau, rydym bob amser wedi ceisio gosod y sylfeini ar gyfer llwyddiant y tymor hwy—dull yr ydym wedi'i ymgorffori yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2014. Bydd y Ddeddf honno yn ffurfio blociau adeiladu ar gyfer cymdeithas gryfach, decach, iachach a mwy llewyrchus.

The ethos of this Government is that no-one in society should be left behind and that everyone is entitled to an equal chance to succeed. This thread runs through all those commitments made and implemented through this programme for government, through the 25 new laws we are on track to pass during this Assembly term, and through the work we are doing to shape the Wales of the future. We will continue to work towards making that vision a reality. I commend this programme for government to you as evidence of that, and as an example that even in the toughest financial circumstances, we are delivering for the people of Wales.

Ethos y Llywodraeth hon yw na ddylai unrhyw un mewn cymdeithas gael eu gadael ar ôl, a bod gan bawb hawl i gael cyfle cyfartal i lwyddo. Mae'r llinyn cyswllt hwn yn rhedeg drwy'r holl ymrwymiadau hynny a wnaed ac a weithredwyd trwy'r rhaglen lywodraethu hon, drwy'r 25 o gyfreithiau newydd yr ydym ar y trywydd i'w pasio yn ystod tymor y Cynulliad hwn, a thrwy'r gwaith yr ydym yn ei wneud i siapio Cymru'r dyfodol. Byddwn yn parhau i weithio tuag at wneud y weledigaeth honno yn realiti. Rwy'n cymeradwyo'r rhaglen lywodraethu hon i chi fel tystiolaeth o hynny, ac fel enghraifft ein bod yn cyflawni ar gyfer pobl Cymru, hyd yn oed yn yr amgylchiadau ariannol anoddaf.

14:39 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, thank you for your statement today, and in particular for highlighting how this will be the last statement on the programme for government. I well recall the first statement—666 pages. I appreciate you sent a lot of supporting paperwork; this is the brief executive summary of what is in the programme for government today, but I do note that the sunflower hasn't made it to the final statement. Because, in the first statement, there was a bright sunflower on the front of all the documentation, and I thought maybe that bright sunflower could've, obviously, offered a bright future for many of the policies that you were going to introduce as a Government. But, regrettably, much like the delivery unit that you talked much about in your opening remarks in 2011, and I dare say in 2012 and 2013, the delivery unit hasn't had a single mention in this afternoon's statement, and that surely is part of the lack of delivery on behalf of the Welsh Government, and, in particular, the lack of focus on outcomes—importantly, outcomes—for the policies that you have brought forward.

Brif Weinidog, diolch ichi am eich datganiad heddiw, ac yn arbennig am dynnu sylw at y ffaith mai hwn fydd y datganiad olaf ar y rhaglen lywodraethu. Rwy'n cofio'r datganiad cyntaf yn dda—666 o dudalennau. Rwy'n gwerthfawrogi eich bod wedi anfon llawer o waith papur ategol; dyma'r crynodeb gweithredol byr o'r hyn sydd yn y rhaglen lywodraethu heddiw, ond rwy'n nodi nad yw blodyn yr haul wedi cyrraedd y datganiad terfynol. Oherwydd, yn y datganiad cyntaf, roedd blodyn yr haul llachar ar flaen yr holl ddogfennau, ac roeddwn yn meddwl efallai y gallai blodyn yr haul llachar hwnnw fod wedi, yn amlwg, cynnig dyfodol disglair i lawer o'r polisïau yr oeddech yn mynd i'w cyflwyno fel Llywodraeth. Ond, yn anffodus, yn debyg iawn i'r uned gyflenwi yr oeddech yn siarad llawer amdani yn eich sylwadau agoriadol yn 2011, a mentraf ddweud yn 2012 a 2013, nid fu unrhyw sôn am yr uned gyflenwi yn natganiad y prynhawn yma, ac yn sicr mae hynny'n rhan o ddiffyg darpariaeth ar ran Llywodraeth Cymru, ac, yn benodol, y diffyg ffocws ar ganlyniadau—yn bwysig, canlyniadau—ar gyfer y polisïau yr ydych wedi'u dwyn ymlaen.

It is no wonder that so many Members' views and attention are drawn into health, because it is such a large part of what the Welsh Government spends and focuses its energies on. I think many people would be concerned to note that there's precious little response around ambulance response times and the actions you're taking to improve them after we've had a year of some of the most—well, not some of, the most appalling ambulance response times on record. There are one in seven people on a waiting list here in Wales. When you came into office, there were fewer than 200,000 people on a waiting list in Wales; there are no over 400,000 people on a waiting list. And, if you take the 36 weeks start date to treatment target, in April 2011, there were 5,844 patients waiting for that start time; today, April 2015, it is 22,753. I generally think that when you're talking about a programme for government, most people outside of politics really do want to know what you are going to be doing to deliver a strategy that will start lowering those numbers that people are seeing in those particular fields of waits. In particular, when we look at cancer times, A&E, paediatric, orthopaedic—you name it, you can take your choice, there are plenty of fields where this Government, over the last four years of its delivery, has not lived up to its reputation, which you were trying to map out when you were talking in the first programme for government statement, about the mantra of delivery. Well, I hope, in response to my question, you will be able to say how in the remaining time that your Government has, you will be tackling these key targets that people out in the country will measure the success or failure of your Government on.

Nid yw'n syndod bod barn a sylw cynifer o Aelodau yn cael eu hoelio ar iechyd, gan ei bod yn rhan mor fawr o'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn gwario ac yn canolbwyntio ei hegni arno. Rwy'n credu y byddai llawer o bobl yn awyddus i nodi bod llawer o ymateb gwerthfawr o gwmpas amseroedd ymateb ambiwlansys a'r camau yr ydych yn eu cymryd i'w gwella ar ôl gael blwyddyn o rai—wel, nid rhai, o'r amseroedd ymateb ambiwlansys mwyaf ofnadwy ar gofnod. Mae un o bob saith o bobl ar restr aros yma yng Nghymru. Pan wnaethoch chi gychwyn yn y swydd, roedd llai na 200,000 o bobl ar restr aros yng Nghymru; bellach mae mwy na 400,000 o bobl ar restr aros. Ac, os ydych yn cymryd y targed o 36 wythnos o ran y cyfnod rhwng y dyddiad cychwyn i ddyddiad y driniaeth, ym mis Ebrill 2011, roedd 5,844 o gleifion yn aros am yr amser cychwyn hwnnw; heddiw, Ebrill 2015, mae'n 22,753. Rwy'n meddwl yn gyffredinol pan fyddwch chi'n sôn am raglen lywodraethu, nid yw'r rhan fwyaf o bobl y tu allan i wleidyddiaeth wir eisiau gwybod beth yr ydych yn mynd i fod yn ei wneud i gyflawni'r strategaeth a fydd yn dechrau gostwng y niferoedd hynny y mae pobl yn eu gweld yn y meysydd aros penodol hynny. Yn benodol, pan fyddwn yn edrych ar amseroedd canser, damweiniau ac achosion brys, pediatrig, orthopedig—gallwch enwi unrhyw beth, fe gewch chi ddewis, mae digon o feysydd lle nad yw'r Llywodraeth hon, yn ystod y pedair blynedd diwethaf o'i gyflwyno, wedi cyfiawnhau ei henw da yr oeddech yn ceisio ei fapio pan oeddech yn siarad yn natganiad y rhaglen lywodraethu gyntaf, am y mantra o ddarparu. Wel, rwy'n gobeithio, wrth ymateb i fy nghwestiwn, y byddwch yn gallu dweud yn yr amser sy'n weddill gan eich Llywodraeth, sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r targedau allweddol hyn y bydd pobl allan yn y wlad yn mesur llwyddiant neu fethiant eich Llywodraeth arnynt.

In particular, I do want to draw the First Minister's attention—when he talks about GP opening times—to the Royal College of General Practitioners, which this year said that 35 per cent of adults were not able to get a GP appointment within seven days, while 54 per cent agreed that GP waiting times in Wales—these are their words, not my words—were in crisis, and those quotes are attributable to May 2015. So, when you're talking in your statement, clearly there is a dislocate between what your goal has been around GP opening times and what the Royal College of GPs are highlighting, and again, I'd be grateful if you could outline how there is that inconsistency in that particular area.

Yn benodol, rwyf am dynnu sylw'r Prif Weinidog—pan mae'n siarad am oriau agor meddygon teulu—at Goleg Brenhinol y Meddygon Teulu, a ddywedodd eleni fod 35 y cant o oedolion wedi methu â chael apwyntiad gyda meddyg teulu o fewn saith diwrnod, tra bod 54 y cant yn cytuno bod amseroedd aros meddygon teulu yng Nghymru—eu geiriau nhw yw'r rhain, nid fy ngeiriau i—mewn argyfwng, ac mae'r dyfyniadau hynny i'w priodoli i fis Mai 2015. Felly, pan ydych yn siarad yn eich datganiad, yn amlwg mae dryswch rhwng yr hyn fu eich nod o gwmpas amserau agor meddygon teulu a beth y mae Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu yn tynnu sylw ato, ac unwaith eto, byddwn yn ddiolchgar pe gallech amlinellu sut y ceir yr anghysondeb yn y maes penodol hwnnw.

When we move into education, it is important to reflect that this is a key starting stone on every person's road of life, whether they're going into employment, their choices, their life chances, and it is vital that we get the education system right here in Wales, and the routes open to people, whether they're academic or vocational, so that they can reach—. I agree entirely with your comments at the end of your statement, in particular, that no-one should be held back in reaching for their full attainment in life. But, regrettably, Estyn points out around numeracy, for example, and literacy, there are real issues. In around half of the schools, pupils struggle to use basic number techniques fluently. There's a real issue about career development for teachers within schools, and no coherent path about developing a career development path, so that teachers can embed best professional practice.

Pan fyddwn yn troi tuag at faes addysg, mae'n bwysig myfyrio ei bod yn fan cychwyn allweddol ar lwybr bywyd bob person, p'un a ydynt yn mynd i gyflogaeth, eu dewisiadau, eu cyfleoedd mewn bywyd, ac mae'n hanfodol ein bod yn cael y system addysg yn iawn yma yng Nghymru, a'r llwybrau yn agored i bobl, p'un a ydynt yn academaidd neu alwedigaethol, er mwyn iddynt allu cyrraedd—. Cytunaf yn llwyr â'ch sylwadau ar ddiwedd eich datganiad, yn arbennig, na ddylai unrhyw un gael ei ddal yn ôl wrth iddynt ymdrechu tuag at eu cyrhaeddiad llawn mewn bywyd. Ond, yn anffodus, mae Estyn yn tynnu sylw at broblemau gwirioneddol mewn cysylltiad â rhifedd, er enghraifft, a llythrennedd. Mewn tua hanner yr ysgolion, mae disgyblion yn ei chael hi'n anodd defnyddio technegau rhif sylfaenol yn rhugl. Mae problem wirioneddol am ddatblygu gyrfa i athrawon mewn ysgolion, ac nid oes unrhyw lwybr cydlynol o ran datblygu llwybr gyrfa, er mwyn i athrawon allu ymgorffori'r arferion proffesiynol gorau.

On modern languages, for example, First Minister, there's been a collapse in modern languages, and there doesn't seem to be any strategy from the Government to enhance the capacity of students to enable themselves to be able to use a modern language, which surely, if were developing a twenty-first century economy, is something we should be encouraging. That is why we've brought forward our tri-language policy, some two or three years ago, to show that where we do point out there are failures, we ultimately want to put solutions in place.

O ran ieithoedd modern, er enghraifft, Brif Weinidog, bu methiant mewn ieithoedd modern, ac ymddengys nad oes unrhyw strategaeth gan y Llywodraeth i wella gallu myfyrwyr i'w galluogi eu hunain i allu defnyddio iaith fodern, sydd yn sicr yn rhywbeth y dylem fod yn ei annog, os ydym yn datblygu economi unfed ganrif ar hugain. Dyna pam y cyflwynwyd ein polisi tair iaith, rhyw ddwy neu dair blynedd yn ôl, i ddangos lle'r ydym yn tynnu sylw at fethiannau, rydym am roi atebion ar waith y pen draw.

Furthermore, 22,000 pupils sitting GCSE in maths did not get a C grade or above in the last GCSEs. These are the targets, again, that parents and people who have a real interest in education want to see being met—these key goals—and from your statement today and your programme for government, there's no clear route to show how your Government is going to take this forward. In particular, when you look at the Programme for International Student Assessment results, the noble aspiration that the previous Minister had of getting Wales into the top 20 by 2016 has been dropped, and now we have this rather bland aspiration by 2020 to move to 500 points or more in the three categories. Again, there is widespread disbelief that the Government have the answers to actually achieve this, and I think some assurance from the First Minister would be welcome on that front.

Ar ben hynny, roedd 22,000 o ddisgyblion a oedd yn sefyll TGAU mewn mathemateg wedi methu â chael gradd C neu uwch yn y TGAU diwethaf. Rhain yw'r targedau, unwaith eto, y mae rhieni a phobl sydd â diddordeb gwirioneddol mewn addysg am weld yn cael eu cyrraedd—y nodau allweddol hyn—ac yn eich datganiad heddiw ac yn eich rhaglen lywodraethu, does dim llwybr clir i ddangos sut y mae eich Llywodraeth yn mynd i ddatblygu hyn. Yn benodol, pan edrychwch ar ganlyniadau'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr, mae'r dyhead nobl oedd gan y Gweinidog blaenorol o gael Cymru i mewn i'r 20 uchaf erbyn 2016 wedi cael ei ollwng, ac yn awr mae gennym y dyhead eithaf diflas hwn erbyn 2020 i symud i 500 pwynt neu fwy yn y tri chategori. Unwaith eto, mae yna anghrediniaeth eang bod gan y Llywodraeth yr atebion i gyflawni hyn mewn gwirionedd, ac rwy'n meddwl y byddai rhyw sicrwydd gan y Prif Weinidog i'w groesawu yn y maes hwnnw.

In the economy, you have unemployment. We have the second highest rate of unemployment in the UK. Thanks to the measures of the UK Government, thankfully, unemployment has been dropping across the whole of the UK, ultimately with 1,000 jobs a day being created across the UK between 2010 and 2015. Yes, it's important that Governments work together, but ultimately, our unemployment is still stubbornly higher than other parts of the United Kingdom. Again, I would ask, First Minister: where, at the end of your term, do you believe unemployment in Wales will factor in relation to other parts of the United Kingdom? In terms of your programme for government statement, we are unable to benchmark that, because obviously, your original programme for government didn't have any key targets to it, which was a complete flaw in the ability to measure the progress of this Government.

Yn yr economi, mae gennych ddiweithdra. Mae gennym y gyfradd uchaf ond un o ddiweithdra yn y DU. Diolch i fesurau Llywodraeth y DU, diolch byth, mae diweithdra wedi bod yn gostwng ar draws y DU gyfan, gyda 1,000 o swyddi yn cael eu creu bob dydd ar draws y DU rhwng 2010 a 2015. Ydy, mae'n bwysig bod Llywodraethau yn gweithio gyda'i gilydd, ond yn y pen draw, mae ein cyfraddau diweithdra yn dal i fod yn ystyfnig o uwch na rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Unwaith eto, byddwn yn gofyn, Brif Weinidog: lle, ar ddiwedd eich tymor, ydych chi'n credu y bydd diweithdra yng Nghymru o'i gymharu â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig? O ran eich datganiad rhaglen lywodraethu, nid ydym yn gallu meincnodi hynny, oherwydd yn amlwg, nid oedd unrhyw dargedau allweddol yn eich rhaglen lywodraethu wreiddiol, a oedd yn nam llwyr yn y gallu i fesur cynnydd y Llywodraeth hon.

You mentioned GVA and, in particular, Wales's ranking on GVA. When you look at the collapse in GVA over successive Labour Governments, it really didn't have much further to fall, ultimately, from the goal that was first set in 1999. We dropped down to under 70 per cent and we are now on 72 per cent. That is still well below where it should be. When you look at Northern Ireland at 75.7 per cent and Scotland at 94 per cent, there is still a huge amount of work to be done on GVA. We need assurances that, in the remaining time you have available, that upward trajectory will continue. Rather than celebrate a modest increase, we need to understand that you have put the measures in place for the next 10 months before the Assembly elections, so that a proper Government—a Conservative-led Government—can actually take over and ultimately deliver real economic growth, which this country of ours needs.

Soniasoch am GYC ac, yn arbennig safle, Cymru ar GYC. Pan edrychwch ar y cwymp mewn GYC dros Lywodraethau Llafur olynol, yn wir nid oedd ganddo lawer ymhellach i ddisgyn, yn y pen draw, o'r nod a osodwyd gyntaf ym 1999. Gwelwyd gostyngiad i dan 70 y cant ac rydym yn awr ar 72 y cant. Mae hynny'n dal i fod yn llawer is na'r lle y dylai fod. Pan edrychwch ar Ogledd Iwerddon ar 75.7 y cant a'r Alban ar 94 y cant, mae llawer iawn o waith i'w wneud ar GYC. Mae angen sicrwydd arnom, yn yr amser sydd gennych ar ôl, y bydd y llwybr ar i fyny hwnnw yn parhau. Yn hytrach na dathlu cynnydd cymedrol, mae angen i ni ddeall eich bod wedi rhoi mesurau ar waith ar gyfer y 10 mis nesaf cyn etholiadau'r Cynulliad, fel y gall Llywodraeth briodol—Llywodraeth a arweinir gan y Ceidwadwyr—gymryd drosodd mewn gwirionedd ac yn y pen draw gyflwyno twf economaidd real, sydd ei angen ar ein gwlad.

If I could just touch very briefly on rural affairs, I notice rural affairs don't feature at all in this programme for government. Think of the massive mind change that's going on in farmers' businesses and meeting the basic payment scheme. At the moment, the Minister has a consultation out over the area payment scheme that could devastate large swathes of agriculture. It was your Government that was dragged to the steps of the court in December and had to give ground because the policy you brought forward would have been thrown out by the courts. Yet in your programme for government, you seem to have given up on rural Wales. I note also, in the pictures on the front of your glossy document, there isn't one single picture of rural Wales on it. Is it a fact that your Government has given up on rural Wales? What assurances can you give that, ultimately, in the remaining time you have available, you do have some energy and you do have some ideas left?

Os caf gyffwrdd yn fyr iawn ar faterion gwledig, rwy'n sylwi nad yw materion gwledig yn ymddangos o gwbl yn y rhaglen lywodraethu hon. Meddyliwch am y newid meddwl anferth sy'n digwydd mewn busnesau ffermwyr a bodloni cynllun y taliad sylfaenol. Ar hyn o bryd, mae'r Gweinidog yn cynnal ymgynghoriad ar y cynllun taliadau arwynebedd a allai ddifrodi ystod fawr o amaethyddiaeth. Eich Llywodraeth chi gafodd ei llusgo at risiau'r llys ym mis Rhagfyr ac a fu raid ildio oherwydd byddai'r polisi a gyflwynwyd gennych wedi cael ei daflu allan gan y llysoedd. Eto i gyd yn eich rhaglen lywodraethu, ymddengys eich bod wedi rhoi'r gorau iddi o ran y Gymru wledig. Nodaf hefyd, yn y lluniau ar flaen eich dogfen sgleiniog, nad oes un llun o gwbl o gefn gwlad Cymru arni. A yw'n ffaith bod eich Llywodraeth wedi ymwrthod â'r Gymru wledig? Pa sicrwydd allwch chi ei roi, yn y pen draw, yn yr amser sydd ar gael i chi, bod gennych rywfaint o egni a rhai syniadau ar ôl?

14:47

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

If there's one thing I'd ask the leader of the opposition to do, it's to keep on suggesting to the people of Wales they might have a Conservative Government in Cardiff. Please, keep on doing that. I tell you what: that is, without any shadow of a doubt, the greatest electoral boost we could possibly have. So, I'm more than happy for him to keep on saying that. It will certainly galvanise voters not of his party, I can promise him that.

Os oes un peth byddwn i'n gofyn i arweinydd yr wrthblaid ei wneud, dal i awgrymu i bobl Cymru y gallai fod ganddynt Lywodraeth Geidwadol yng Nghaerdydd yw hynny. Os gwelwch yn dda, daliwch ati i wneud hynny. Ddywedai un peth: dyna, heb os nac oni bai, yw'r hwb etholiadol mwyaf y gallem o bosibl ei gael. Felly, rwy'n fwy na hapus iddo barhau i ddweud hynny. Bydd yn sicr yn ysgogi pleidleiswyr nad ydynt o'i blaid ef, gallaf addo hynny iddo.

Can I say—[Interruption.] Well, he revels in having 27 per cent of the vote, I know. There we are. Let him do that. As far as transparency—[Interruption.]

A gaf i ddweud—[Torri ar draws.] Wel, mae'n ymhyfrydu mewn cael 27 y cant o'r bleidlais, rwy'n gwybod. Dyna ni. Gadewch iddo wneud hynny. Cyn belled ag y mae tryloywder—[Torri ar draws.]

14:48

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Andrew R.T. Davies, you've already asked a whole range of questions. Let the First Minister answer. First Minister.

Andrew R. T. Davies, rydych eisoes wedi gofyn ystod gyfan o gwestiynau. Gadewch i'r Prif Weinidog ateb. Brif Weinidog.

14:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

As far as transparency is concerned, I don't think anyone could accuse us of being not transparent with the programme for government, but I think it's worth repeating the achievements that we have put in place once again. More than 95 per cent of the 547 commitments—and whether there'll be 547 in the future with future Governments is for them—have been delivered, and 25 Acts are on track to pass.

Cyn belled ag y mae tryloywder yn y cwestiwn, nid wyf yn credu y gallai unrhyw un ein cyhuddo ni o beidio â bod yn dryloyw gyda'r rhaglen lywodraethu, ond rwy'n meddwl ei fod yn werth ailadrodd y cyflawniadau yr ydym wedi'u rhoi ar waith unwaith eto. Mae mwy na 95 y cant o'r 547 o ymrwymiadau—ac mae p'un a fydd 547 yn y dyfodol gyda Llywodraethau'r dyfodol yn fater iddynt hwy—wedi cael eu cyflwyno, ac mae 25 Deddf ar y trywydd i basio.

Let's look at the 'five for a fairer future' commitments that we have: we've doubled Flying Start childcare provision, we've put 500 community support officers on the streets of Wales, we've created 17,000 opportunities through Jobs Growth Wales, and we've increased spending on Welsh schools by at least 1 per cent above the changes to our block in each of the five years of this Assembly. We have made it easier for people to get a GP appointment at a time convenient to them. Indeed, we know from the national survey that 91 per cent of people are satisfied with the care they get from their GPs. That is what the national survey, an objective survey, has demonstrated.

Gadewch i ni edrych ar yr ymrwymiadau sydd gennym o ran 'pump am ddyfodol tecach': rydym wedi dyblu darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg, rydym wedi rhoi 500 o swyddogion cymorth cymunedol ar strydoedd Cymru, rydym wedi creu 17,000 o gyfleoedd trwy Twf Swyddi Cymru, ac rydym wedi cynyddu gwariant ar ysgolion Cymru o leiaf 1 y cant yn uwch na'r newidiadau i'n bloc ym mhob un o bum mlynedd y Cynulliad hwn. Rydym wedi ei gwneud yn haws i bobl gael apwyntiad gyda meddyg teulu ar amser sy'n gyfleus iddyn nhw. Yn wir, rydym yn gwybod o'r arolwg cenedlaethol fod 91 y cant o bobl yn fodlon ar y gofal y maent yn ei gael gan eu meddygon teulu. Dyna beth y mae'r arolwg cenedlaethol, arolwg gwrthrychol, wedi ei ddangos.

In terms of some of the other issues that he raises, he is right to say that there are challenges in health. I'm not going to hide from that. We know that there are some areas of the health service where there has to be improvement, and it is absolutely important that that improvement continues over the next few months and beyond. Yes, it's true to say that we do better in terms of cancer treatment. Yes, it's true to say we spend more on health and social care in Wales. That is not to say that we do not want to see improvement in the health service; we absolutely do. That's why we've put the money in over the past two years in order to drive that improvement forward.

O ran rhai o'r materion eraill y mae'n eu codi, mae'n iawn i ddweud bod heriau ym maes iechyd. Dydw i ddim yn mynd i guddio oddi wrth hynny. Rydym yn gwybod bod rhai rhannau o'r gwasanaeth iechyd lle mae'n rhaid cael gwelliant, ac mae'n hollol bwysig bod y gwelliant yn parhau dros y misoedd nesaf a thu hwnt. Ydy, mae'n wir i ddweud ein bod yn gwneud yn well o ran triniaeth canser. Ydy, mae'n wir i ddweud ein bod yn gwario mwy ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Nid yw hynny'n golygu nad ydym am weld gwelliant yn y gwasanaeth iechyd; rydym wir am weld hynny. Dyna pam ein bod wedi rhoi'r arian i mewn dros y ddwy flynedd ddiwethaf er mwyn ysgogi'r gwelliant hwnnw.

When it comes to education, well, PISA is there, and PISA is uncomfortable; that is true. But PISA is being superseded by other developments. We know what's happening with the foundation phase. We know that there's been improvement year after year in GCSE results in Wales. We know, for example, that we have the literacy and numeracy tests that have been introduced in our schools now and, of course, the literacy and numeracy GCSEs, which will be sat by our pupils in the years to come. That's a sign of the commitment that we give to literacy and numeracy, and how important they are in the future.

Pan ddaw at addysg, wel, mae PISA yno, ac mae PISA yn anghyfforddus; mae hynny'n wir. Ond mae PISA yn cael ei ddisodli gan ddatblygiadau eraill. Rydym yn gwybod beth sy'n digwydd gyda'r cyfnod sylfaen. Rydym yn gwybod y bu gwelliant flwyddyn ar ôl blwyddyn mewn canlyniadau TGAU yng Nghymru. Rydym yn gwybod, er enghraifft, bod profion llythrennedd a rhifedd wedi eu cyflwyno yn ein hysgolion yn awr ac, wrth gwrs, y cymwysterau TGAU llythrennedd a rhifedd, a fydd yn cael eu sefyll gan ein disgyblion yn y blynyddoedd i ddod. Dyna arwydd o'r ymrwymiad yr ydym yn ei roi i lythrennedd a rhifedd, a pha mor bwysig ydyn nhw yn y dyfodol.

He mentions career development for teachers. It would be easier, I suppose, if this was devolved, if we were going to develop careers properly for teachers, but bear in mind that teachers' pay and conditions are not devolved. So, being able to deliver a coherent system of career development for teachers would require that in the future.

Mae'n sôn am ddatblygiad gyrfa i athrawon. Byddai'n haws, mae'n debyg, pe byddai hyn wedi ei ddatganoli, os ydym yn mynd i ddatblygu gyrfaoedd yn briodol ar gyfer athrawon, ond cofiwch nad yw tâl ac amodau athrawon wedi'u datganoli. Felly, byddai'n ofynnol cael hynny yn y dyfodol i allu darparu system gydlynol o ddatblygiad gyrfa i athrawon.

The other thing I have to say to him is this. He has made the point that he wishes to see the education system improve. Well, he wants to cut spending by 20 per cent. He cannot say on the one hand that he wants to see a better education system and yet cut spending by 20 per cent. That is not something you can hide away or use efficiency savings. That is fewer teachers, fewer classroom assistants, and fewer schools being built. Where are the schools being built under his party in England? They're not there. They are being built in Wales. He cannot say with any coherence and credibility that he wishes to see improvement in Welsh education when he wants to cut spending by a fifth. You just can't do it. The public are not stupid, and they will see through that.

Y peth arall y mae'n rhaid i mi ddweud wrtho yw hyn. Mae wedi gwneud y pwynt ei fod yn dymuno gweld y system addysg yn gwella. Wel, mae am dorri 20 y cant ar y gwariant. Nid yw'n gallu dweud ar y naill law ei fod am weld system addysg well ac eto dorri gwariant 20 y cant. Nid yw hynny'n rhywbeth y gallwch ei guddio neu ei gyflawni drwy ddefnyddio arbedion effeithlonrwydd. Mae hynny'n golygu llai o athrawon, llai o gynorthwywyr dosbarth, a llai o ysgolion yn cael eu hadeiladu. Lle mae ysgolion yn cael eu hadeiladu o dan ei blaid ef yn Lloegr? Dydyn nhw ddim yno. Maen nhw yn cael eu hadeiladu yng Nghymru. Nid yw'n gallu dweud gydag unrhyw gydlyniad a hygrededd ei fod yn dymuno gweld gwelliant mewn addysg Cymru pan mae eisiau torri gwariant gan un rhan o bump. Ni allwch wneud hynny. Nid yw'r cyhoedd yn dwp, a byddant yn gweld drwy hynny.

In terms of the economy, well, again, the narrative seems to be that anything that is improving is to the credit of the UK Government—

O ran yr economi, wel, unwaith eto, mae'n ymddangos mai'r naratif yw fod unrhyw beth sy'n gwella er credyd Llywodraeth y DU—

14:51 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Hear, hear.

Clywch, clywch.

14:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

[Continues.]—and anything that isn't is the fault of the Welsh Government. Well, he's just confirmed it. I'm glad that he's just done that. The reality is that the investment that is coming to Wales is as a result of work we've done: the fact that we've strengthened our offices around the world, working with UK Trade and Investment—that much is true—the fact that we've had trade missions around the world, some of them led by Ministers, and the fact that we been able to get investment, because of those trade missions, coming into Wales. There is £800 million into Tata from a visit I made to Mumbai, and similar investment after a visit to New Jersey in February. We cannot expect the world to come to us. It will not happen. We have to go out and sell ourselves to the world, and that's where we see the improvement in inward investment into Wales.

[Yn parhau.]—a bod unrhyw beth nad yw yn fai Llywodraeth Cymru. Wel, mae newydd ei gadarnhau. Dwi'n falch ei fod newydd wneud hynny. Y gwir amdani yw bod y buddsoddiad sydd yn dod i Gymru yn ganlyniad gwaith yr ydym wedi ei wneud: y ffaith ein bod wedi cryfhau ein swyddfeydd o gwmpas y byd, gan weithio gyda Masnach a Buddsoddi y DU—mae hynny'n wir—y ffaith ein bod wedi cael teithiau masnach ar draws y byd, rhai ohonynt dan arweiniad Gweinidogion, a'r ffaith ein bod wedi gallu cael buddsoddiad, oherwydd y teithiau masnach hyn, yn dod i mewn i Gymru. Mae £800 miliwn wedi dod i Tata o ganlyniad i ymweliad a wneuthum i Mumbai, a buddsoddiad tebyg ar ôl ymweld â New Jersey ym mis Chwefror. Ni allwn ddisgwyl i'r byd ddod atom ni. Ni fydd yn digwydd. Mae'n rhaid i ni fynd allan a gwerthu ein hunain i'r byd, a dyna lle y gwelwn y gwelliant mewn mewnfuddsoddi i Gymru.

In terms of unemployment, unemployment fluctuates. There was a time a few months ago when unemployment in Wales was lower than in England and lower than in London. Since that time, unemployment there has dropped more than in Wales. We expect, in time, that we will start to equalise in the future as well. What's important is that, if you look at recessions past, unemployment in Wales was always significantly higher than in the south-east of England, for example, and London, and we have come out of this recession much more quickly in Wales than would normally have been the case. That's because of the work that we've put in.

O ran diweithdra, mae diweithdra yn amrywio. Bu amser ychydig fisoedd yn ôl pan oedd diweithdra yng Nghymru yn is nag yn Lloegr ac yn is nag yn Llundain. Ers hynny, mae diweithdra yno wedi gostwng yn fwy nag yng Nghymru. Rydym yn disgwyl, mewn amser, y byddwn yn dechrau dod yn gyfartal yn y dyfodol hefyd. Yr hyn sy'n bwysig yw, os edrychwch ar ddirwasgiadau yn y gorffennol, roedd diweithdra yng Nghymru bob amser yn sylweddol uwch nag yn ne-ddwyrain Lloegr, er enghraifft, a Llundain, ac rydym wedi dod allan o'r dirwasgiad hwn yn llawer cyflymach yng Nghymru nag y byddai fel arfer wedi bod yn wir. Mae hynny oherwydd y gwaith yr ydym wedi ei wneud.

He talks about a collapse in GVA. Well, GVA's been increasing. There's been a substantial increase since 2009 particularly, and, in fact, we're outstripping the rest of the UK in terms of the increase in GVA per head. So, to suggest that GVA has gone down is not actually true. GVA has gone up in the past 15 years, although it's right to say that, in some other parts of the UK, it's gone up even further. But it would be wrong to suggest that, somehow, living standards, which is what people see GVA as representing, have gone down in Wales since that time.

Mae'n siarad am gwymp mewn gwerth ychwanegol crynswth. Wel, mae GYC wedi bod yn cynyddu. Bu cynnydd sylweddol ers 2009 yn arbennig, ac, yn wir, rydym yn curo gweddill y DU o ran y cynnydd mewn GYC fesul pen. Felly, nid yw awgrymu bod gwerth ychwanegol crynswth wedi gostwng mewn gwirionedd yn wir. Mae GYC wedi codi dros y 15 mlynedd diwethaf, er ei bod yn iawn i ddweud, mewn rhai rhannau eraill o'r DU, ei fod wedi mynd i fyny hyd yn oed ymhellach. Ond byddai'n anghywir i awgrymu, rywsut, bod safonau byw, sef yr hyn y mae GYC yn ei gynrychioli i bobl, wedi mynd i lawr yng Nghymru ers hynny.

He talks about rural affairs. Well, we have a strong and proud record when it comes to rural affairs, particularly when it comes to payments. We've always paid farmers on time. That hasn't been the case in the Department for Environment, Food and Rural Affairs. In the past, farmers have been kept waiting in DEFRA. We've always paid farmers on time. We have the rural development programme that's been published and the plan that accompanies it. Once again, that will be successful in terms of improving competitiveness on farms and in terms of improving the business prospects in rural areas.

Mae'n siarad am faterion gwledig. Wel, mae gennym record gref a balch pan ddaw at faterion gwledig, yn enwedig pan ddaw at daliadau. Rydym bob amser wedi talu ffermwyr yn brydlon. Nid yw hynny wedi bod yn wir yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Yn y gorffennol, mae ffermwyr wedi cael eu cadw yn aros gan DEFRA. Rydym bob amser wedi talu ffermwyr yn brydlon. Mae gennym y rhaglen datblygu gwledig sydd wedi'i chyhoeddi a'r cynllun sy'n mynd gyda hi. Unwaith eto, bydd hynny'n llwyddiannus o ran gwella cystadleurwydd ar ffermydd ac o ran gwella'r rhagolygon busnes mewn ardaloedd gwledig.

He talks about the area payment schemes. He knows full well that we are obliged to follow a particular direction because of the rules that come from the European Commission and the rules in terms of payments. The reality is you cannot get around that, and that is something that we have to put in place. He knows full well that the historic payments basis was never meant to last. It was put in place at a time to help farmers. It was never meant to be the case—I mean, all right, it may affect him personally, I don't know—but it was never meant to be the case that the system of headage payments was going to be in place for ever, because the basis on which those payments were made is now, what, 13 or 14 years old? It was never going to be the case. There has to be a new system put in place, and everybody else understands that. We haven't forgotten rural Wales at all because we know that, in common with all the citizens of Wales, the people in rural Wales want to see a good education system, which he would cut; they want to make sure that they have good local government services, which he would cut; they want to make sure that they have job opportunities and the creation of jobs, which he would cut by 30 per cent in the budget. So, the reality is that rural Wales, yes, needs the rural development plan and the support of this Government, and we look forward to providing that support on this and other issues up to May and beyond.

Mae'n sôn am y cynlluniau taliadau arwynebedd. Mae'n gwybod yn iawn bod yn rhaid i ni ddilyn cyfarwyddyd penodol oherwydd y rheolau a ddaw oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd a'r rheolau o ran taliadau. Y gwir yw na allwch osgoi hynny, ac mae hynny'n rhywbeth y mae'n rhaid inni ei roi ar waith. Mae'n gwybod yn iawn nad oedd y sail taliadau hanesyddol i fod i barhau. Cafodd ei roi ar waith ar adeg i helpu ffermwyr. Nid oedd hynny erioed i fod—rwy'n meddwl, iawn, gallai effeithio arno ef yn bersonol, nid wyf yn gwybod—ond nid oedd system o daliadau y pen erioed i fod i barhau am byth, oherwydd bod y sail ar gyfer gwneud y taliadau hynny bellach, yn beth, 13 neu 14 oed? Nid oedd byth yn mynd i fod yn wir. Mae rhaid rhoi system newydd ar waith, ac mae pawb arall yn deall hynny. Nid ydym wedi anghofio cefn gwlad Cymru o gwbl oherwydd ein bod yn gwybod, yn gyffredin â holl ddinasyddion Cymru, bod pobl yn y Gymru wledig am weld system addysg dda, y byddai ef yn ei thorri; maent yn awyddus i wneud yn siŵr eu bod yn cael gwasanaethau llywodraeth leol dda, y byddai ef yn eu torri; maent yn awyddus i wneud yn siŵr eu bod yn cael cyfleoedd swyddi a bod swyddi'n cael eu creu, byddai ef yn eu torri gan 30 y cant yn y gyllideb. Felly, y gwir amdani yw ie, mae angen y cynllun datblygu gwledig a chymorth y Llywodraeth hon ar y Gymru wledig, ac rydym yn edrych ymlaen at ddarparu'r cymorth hwnnw ar hyn a materion eraill hyd at fis Mai a thu hwnt.

14:55 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'd like to start by expressing my concerns about the usefulness of today's debate. It's far from ideal that we received the documents only in the last few hours. That said, I welcome any and every opportunity to scrutinise the Government's programme, and I will come to my questions shortly.

Hoffwn ddechrau drwy fynegi fy mhryderon ynghylch defnyddioldeb dadl heddiw. Nid yw'n ddelfrydol o bell ffordd ein bod ond wedi derbyn y dogfennau yn ystod yr ychydig oriau diwethaf yn unig. Wedi dweud hynny, rwy'n croesawu unrhyw a phob cyfle i graffu ar raglen y Llywodraeth, a dof at fy nghwestiynau yn fuan.

Now, the Government states that it is implementing most of its manifesto commitments. Isn't it telling that that needs to be stated, because I'm sure that most people would've expected a Government that has been in office for four years to have implemented what was in its manifesto? Many of the commitments listed as 'delivered' only actually amount to commitments to consult or simply to continue providing a routine public service—the normal business of Government.

Yn awr, mae'r Llywodraeth yn nodi ei bod yn gweithredu y rhan fwyaf o'i hymrwymiadau maniffesto. Onid yw'n arwyddocaol bod angen datgan hynny, oherwydd rwy'n siŵr y byddai'r rhan fwyaf o bobl wedi disgwyl i Lywodraeth sydd wedi bod yn y swydd am bedair blynedd fod wedi gweithredu'r hyn a oedd yn ei maniffesto? Mae llawer o'r ymrwymiadau a restrir fel rhai wedi'u 'cyflawni' ddim ond mewn gwirionedd yn gyfystyr ag ymrwymiadau i ymgynghori neu ddim ond i barhau i ddarparu gwasanaeth arferol i'r cyhoedd—busnes arferol Llywodraeth.

Now, I have many concerns about health, but I've got some specific concerns over specific commitments, especially those in relation to stroke services that now won't be delivered. Stroke is one of the top three causes of death in Wales, so my first question, on this, is: does the First Minister believe that there should now be a major focus on stroke services for the remainder of this term?

Yn awr, mae gennyf lawer o bryderon am iechyd, ond mae gen i rai pryderon penodol dros ymrwymiadau penodol, yn enwedig y rhai mewn perthynas â gwasanaethau strôc na fyddant yn awr yn cael eu darparu. Strôc yw un o'r tri phrif beth sy'n achosi i bobl farw yng Nghymru, felly fy nghwestiwn cyntaf, ar hyn, yw: a yw'r Prif Weinidog yn credu y dylid yn awr ganolbwyntio'n gryf ar wasanaethau strôc yn ystod gweddill y tymor hwn?

Furthermore, the Government's record on health isn't fully covered by this statement. We've had Tawel Fan, big problems with the health boards, and we've had problems with failed targets, which I mentioned earlier on. Does the First Minister accept that today's statement doesn't fully reflect the picture on what needs to be done in the health service? There's been lots of talk about the money going in, but you're not able, often, to show improvements for that. What steps can be taken, therefore, for the remainder of this term, on the matters that are outwith this statement that can result in improvements in health outcomes?

Ar ben hynny, nid yw record y Llywodraeth ar iechyd yn cael ei chwmpasu yn llawn gan y datganiad hwn. Rydym wedi cael Tawel Fan, problemau mawr gyda'r byrddau iechyd, ac rydym wedi cael problemau gyda thargedau wedi'u methu, fel y soniais yn gynharach. A yw'r Prif Weinidog yn derbyn nad yw datganiad heddiw yn adlewyrchu'n llawn y darlun o'r hyn sydd angen ei wneud yn y gwasanaeth iechyd? Cafwyd llawer o sôn am yr arian yn mynd i mewn, ond nid ydych yn gallu, yn aml, dangos gwelliannau ar gyfer hynny. Pa gamau y gellir eu cymryd, felly, am weddill y tymor hwn, ar y materion sydd y tu allan i'r datganiad hwn a all arwain at welliannau mewn canlyniadau iechyd?

On the economy, how does the First Minister envisage using the new tax powers to improve the economy? After all, GVA or GDP has hardly moved over the last 15 years. I was staggered to hear the First Minister complain that teachers' terms and conditions are not devolved. Labour opposed the devolution of teachers' terms and conditions in the recent St David's Day announcement. Is Labour now in favour of the devolution of terms and conditions?

O ran yr economi, sut mae'r Prif Weinidog yn rhagweld defnyddio'r pwerau treth newydd i wella'r economi? Wedi'r cyfan, prin y mae GYC neu Cynnyrch Domestig Gros wedi symud dros y 15 mlynedd diwethaf. Cefais fy syfrdanu o glywed y Prif Weinidog yn cwyno nad yw telerau ac amodau athrawon wedi'u datganoli. Gwrthwynebodd Llafur ddatganoli telerau ac amodau athrawon yn y cyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi diweddar. A yw Llafur bellach o blaid datganoli telerau ac amodau?

Now, I must raise the matter of Welsh-medium education. Plaid Cymru and the Government have agreed in the past on what I think is a very positive Welsh-medium education strategy. The education Minister has admitted that the 2015 targets for the Welsh-medium education strategy will be missed. Can we now, then, expect to see a Government statement explaining why those targets will be missed and what you intend to do to ramp up progress on Welsh-medium education?

Yn awr, rhaid i mi godi'r mater o addysg cyfrwng Cymraeg. Mae Plaid Cymru a'r Llywodraeth wedi cytuno yn y gorffennol ar yr hyn yr wyf yn meddwl sy'n strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg gadarnhaol iawn. Mae'r Gweinidog Addysg wedi cyfaddef y bydd targedau 2015 ar gyfer y strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn cael eu methu. A allwn ni yn awr, felly, ddisgwyl gweld datganiad gan y Llywodraeth yn egluro pam y bydd y targedau hynny yn cael eu methu a beth yr ydych yn bwriadu ei wneud i hybu cynnydd o ran addysg cyfrwng Cymraeg?

Finally, I'd like to ask about statistics and indicators in general. Why are we still forced to use GDP data from 2012 as latest data, and GVA from 2013? How can we be expected to hold your Government to account when you refuse to publish up-to-date statistics? Finally, how does your policy of refusing to publish up-to-date statistics reflect your stated commitment to being an open and transparent Government?

Yn olaf, hoffwn ofyn am ystadegau a dangosyddion yn gyffredinol. Pam yr ydym yn dal i orfod defnyddio data Cynnyrch Domestig Gros o 2012 fel data diweddaraf, a Gwerth Ychwanegol Crynswth o 2013? Sut y gellir disgwyl i ni ddal eich Llywodraeth i gyfrif pan ydych yn gwrthod cyhoeddi ystadegau cyfredol? Yn olaf, sut y mae eich polisi o wrthod cyhoeddi ystadegau cyfredol yn adlewyrchu eich ymrwymiad datganedig i fod yn Llywodraeth agored a thryloyw?

14:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We don't publish GDP data. They come from other sources. There is an issue—if we published our own GDP data, then people would start wondering whether GDP data were accurate. It's done through other objective bodies. I'm surprised she doesn't know that. We rely on others to provide those data. The point she makes in terms of out-of-date data is a fair one and this is something we're considering at the moment. For example, as we take tax-varying powers, it does become more crucial that we have up-to-date GDP data, and that is something that we're looking at at the moment. But certainly it's not a case of us not publishing them; we don't have them, because we're not provided with them on a more regular basis.

Nid ydym yn cyhoeddi data CDG. Mae'n dod o ffynonellau eraill. Mae problem—os ydym yn cyhoeddi ein data CDG ein hunain, yna byddai pobl yn dechrau meddwl tybed a oedd data CDG yn gywir. Mae'n cael ei wneud trwy gyrff gwrthrychol eraill. Rwy'n synnu nad yw'n gwybod hynny. Rydym yn dibynnu ar bobl eraill i ddarparu'r data hynny. Mae'r pwynt y mae hi'n ei wneud o ran bod y data wedi dyddio yn un teg ac mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn ei ystyried ar hyn o bryd. Er enghraifft, wrth i ni gymryd pwerau amrywio trethi, mae'n dod yn fwy hanfodol bod gennym ddata CDG cyfredol, ac mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn edrych arno ar hyn o bryd. Ond yn sicr nid yw'n fater nad ydym yn ei gyhoeddi; nid yw'r data gennym, oherwydd nad yw'n cael ei ddarparu inni ar sail fwy rheolaidd.

Scotland provides figures on a quarterly basis. It's not quite clear what methodology they use for those figures, but we do need to move towards a situation where the figures are provided more—[Interruption.] Make it up? No, we can't make the figures up—

Mae'r Alban yn darparu ffigurau ar sail chwarterol. Nid yw'n gwbl glir pa fethodoleg y maent yn ei defnyddio ar gyfer y ffigurau hynny, ond mae angen i ni symud tuag at sefyllfa lle mae'r ffigurau yn cael eu darparu yn fwy—[Torri ar draws.] Ei ffugio? Na, ni allwn ffugio'r ffigurau—

14:59 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Inaudible.]—Government to make it happen.

[Anghlywadwy.]—Llywodraeth i wneud iddo ddigwydd.

14:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

'Make it up', she says. No, no. We have to make sure and we are looking at ways of ensuring that. It will cost money to pay to make sure that the figures we have are more up to date, and they will need to be in place as the new tax powers come into place.

'Ei ffugio', meddai hi. Na, na. Mae'n rhaid i ni fod yn siŵr, ac rydym yn edrych ar ffyrdd o sicrhau hynny. Bydd yn costio arian i dalu i wneud yn siŵr bod y ffigurau sydd gennym yn fwy cyfredol, a bydd angen iddynt fod yn eu lle wrth i'r pwerau treth newydd gael eu sefydlu.

With regard to the tax powers that are on the table, well, the one that I suppose has the most potential is stamp duty land tax. That is an area that we're looking at in terms of how we can encourage more construction, of course, particularly in order to create jobs and to make it easier for people to have access to housing. That is something that we are very much looking at, and we know that, as a result of those tax-varying powers coming to Wales, we're then able to borrow, and, of course, the Minister has already made our position clear in terms of what borrowing we'll be looking at.

O ran y pwerau treth sydd ar y bwrdd, wel, yr un sydd â'r potensial mwyaf mae'n debyg yw treth dir y dreth stamp. Mae hwnnw'n faes yr ydym yn edrych arno o ran sut y gallwn annog mwy o adeiladu, wrth gwrs, yn enwedig er mwyn creu swyddi ac i'w gwneud hi'n haws i bobl gael mynediad at dai. Mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn edrych yn fanwl iawn arno, ac rydym yn gwybod, o ganlyniad i'r pwerau amrywio trethi sy'n dod i Gymru, y byddwn ni wedyn yn gallu benthyca, ac, wrth gwrs, mae'r Gweinidog eisoes wedi gwneud ein safbwynt yn glir o ran pa fath o fenthyca y byddwn yn edrych arno.

In terms of teachers' pay and conditions, it isn't the case that my party opposed the devolution of teachers'—[Interruption.] No, it isn't the case.

O ran tâl ac amodau athrawon, nid yw'n wir bod fy mhlaid yn gwrthwynebu datganoli tâl ac amodau athrawon—[Torri ar draws.] Na, nid yw'n wir.

15:00 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order.

Trefn.

15:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

It isn't the case that my party opposed the devolution of teachers' pay and conditions. It is right to say that we approach this with some caution because we don't want to be in a position where, for example, we have to administer teachers' pay and conditions without having received a proper transfer of resources in order to do it. That is the situation.

Nid yw'n wir bod fy mhlaid yn gwrthwynebu datganoli tâl ac amodau athrawon. Mae'n iawn i ddweud ein bod yn ymdrin â hyn gyda pheth gofal oherwydd nid ydym am fod mewn sefyllfa lle, er enghraifft, mae'n rhaid i ni weinyddu tâl ac amodau athrawon heb fod wedi derbyn trosglwyddiad priodol o adnoddau er mwyn gwneud hynny. Dyna'r sefyllfa.

With regard to Welsh-medium education, while the annual report for 2013-14 has illustrated the steps that we have taken in order to implement the strategy, it is right to say that we wanted to see more youngsters coming into Welsh-medium education. What we have done in terms of 'Bwrw mlaen' and in terms of Pethau Bychain will help, we hope, to ensure that people who are looking at Welsh-medium education for their children will feel more confident in order to be able to follow that for them.

O ran addysg cyfrwng Cymraeg, tra bod yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2013-14 wedi dangos y camau yr ydym wedi'u cymryd er mwyn gweithredu'r strategaeth, mae'n gywir dweud ein bod am weld mwy o bobl ifanc yn dod i mewn i addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd yr hyn yr ydym wedi'i wneud o ran 'Bwrw mlaen' ac o ran Pethau Bychain yn helpu, rydym yn gobeithio, i sicrhau y bydd pobl sy'n edrych ar addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant yn teimlo'n fwy hyderus er mwyn gallu dilyn y llwybr hwnnw ar eu cyfer.

In terms of the health issues that she mentioned, stroke services of course will remain a priority. We know, first of all, that the best thing to do with stroke is to make sure that people don't have a stroke in the first place, and to make sure that we improve people's lifestyles so that they don't then suffer a disabling stroke as a result of that, and, of course, making sure that people who have strokes are catered for within the health service and, indeed, within social services. I've mentioned before, as I did to the leader of the opposition, that we know that there are areas of improvement that are needed in health. We can see that from the statistics, and that's exactly what we intend to do over the course of the next few months and years, to ensure that that is done.

O ran y materion iechyd a grybwyllwyd ganddi, bydd gwasanaethau strôc, wrth gwrs, yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Rydym yn gwybod, yn gyntaf oll, mai'r peth gorau i'w wneud gyda strôc yw gwneud yn siwr nad yw pobl yn cael strôc yn y lle cyntaf, ac i wneud yn siŵr ein bod yn gwella ffyrdd o fyw pobl fel nad ydynt wedyn yn dioddef strôc sy'n anablu o ganlyniad i hynny, ac, wrth gwrs, gan wneud yn siŵr y darperir ar gyfer pobl sy'n cael strôc o fewn y gwasanaeth iechyd ac, yn wir, o fewn y gwasanaethau cymdeithasol. Rydw i wedi crybwyll o'r blaen, fel y gwneuthum i arweinydd yr wrthblaid, ein bod yn gwybod bod meysydd o welliant sydd eu hangen ym maes iechyd. Gallwn weld hynny o'r ystadegau, a dyna'n union yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud yn ystod yr ychydig fisoedd a'r blynyddoedd nesaf, er mwyn sicrhau bod hynny'n cael ei wneud.

In terms of the first point that she made—the final point that I'll deal with—it's the first time that I've heard a Government condemned for implementing its manifesto, which is what she did, in effect. She said, 'I would expect the Government to implement its manifesto'. Well, that's exactly what we've done, and I thank her for the praise that she's showered upon us.

O ran y pwynt cyntaf a wnaeth hi—y pwynt olaf y byddaf yn delio ag o—dyma'r tro cyntaf i mi glywed Llywodraeth yn cael ei chondemnio am weithredu ei maniffesto, sef yr hyn a wnaeth hi, i bob pwrpas. Dywedodd, 'Byddwn yn disgwyl i'r Llywodraeth weithredu ei maniffesto'. Wel, dyna'n union yr hyn yr ydym wedi ei wneud, ac yr wyf yn diolch iddi am y ganmoliaeth y mae wedi'i phentyrru arnom.

15:02 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Could I thank the First Minister for his statement this afternoon and for the 500-page doorstep that landed on my desk two hours ago? Every year, when we have this statement, Assembly Members ask that this data are provided earlier so that we can fully scrutinise them before we have this debate so that we can make the most of the time allotted for this item, but nothing changes. Four years down, it still arrives late. Of course, it's very difficult to use the figures that are already available on the Government's website. In anticipation of today, I did check out what was available on the Government's website yesterday. The latest data online for GP access, Presiding Officer, was from 2013; the achievement against cancer waiting times has not been updated since the first quarter of 2014; and ambulance response times—the category A calls—have not been updated on the Government's website since April 2014. Whilst I'm sure that the First Minister and his Government truly want to use this programme for government as a way of being held to account and demonstrating its delivery, the way it's gone about using the programme for government, I think, has just made us all a bit more sceptical, rather than actually achieving the Government's goal.

A gaf i ddiolch i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma ac am y stepen drws 500 tudalen a laniodd ar fy nesg ddwy awr yn ôl? Bob blwyddyn, pan ydym yn cael y datganiad hwn, mae Aelodau'r Cynulliad yn gofyn bod y data hwn yn cael ei ddarparu yn gynharach fel y gallwn graffu arno'n llawn cyn inni gael y ddadl hon, fel y gallwn fanteisio i'r eithaf ar yr amser penodedig ar gyfer yr eitem hon, ond nid oes dim yn newid. Bedair blynedd yn ddiweddarach, mae'n dal i gyrraedd yn hwyr. Wrth gwrs, mae'n anodd iawn defnyddio'r ffigurau sydd ar gael ar wefan y Llywodraeth eisoes. Gan ragweld heddiw, edrychais ar yr hyn a oedd ar gael ar wefan y Llywodraeth ddoe. Roedd y data diweddaraf ar-lein ar gyfer mynediad at feddyg teulu, Lywydd, yn dyddio o 2013; nid yw'r cyflawniad yn erbyn amseroedd aros canser wedi cael ei ddiweddaru ers chwarter cyntaf 2014; ac nid yw amseroedd ymateb ambiwlansys—y galwadau categori A—wedi cael eu diweddaru ar wefan y Llywodraeth ers mis Ebrill 2014. Er fy mod i'n siŵr bod y Prif Weinidog a'i Lywodraeth eisiau defnyddio'r rhaglen lywodraethu hon yn wir fel ffordd o gael eu dwyn i gyfrif a dangos yr hyn y mae wedi'i gyflawni, mae'r ffordd y mae'n mynd ati i ddefnyddio'r rhaglen lywodraethu, yn fy marn i, wedi ein gwneud ni i gyd ychydig yn fwy amheus, yn hytrach na chyrraedd nod y Llywodraeth mewn gwirionedd.

Could I turn to the issue of education? The programme for government states that,

A allai droi at fater addysg? Mae'r rhaglen lywodraethu yn nodi,

'In schools, our priorities are to improve standards in literacy and numeracy, and to reduce the impact of deprivation on educational achievement'.

'Ein blaenoriaethau ar gyfer ysgolion yw gwella safonau llythrennedd a rhifedd, a lleihau effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad addysgol'.

In the update today, the Government says that 48 out of the 49 education commitments are marked as 'delivered' or 'will be delivered'. So, according to the Government, everything in our education system is fine, A-okay and on track. But Estyn says something very different. Its last annual report, in January 2015, stated that standards in primary school that were inspected were declining. Now then, I can either take the Government's word that things are getting better, or I can take the independent view of the inspector. I know what I and my constituents will have greater faith in. The proportion of primary schools with 'good' or 'excellent' standards fell from seven in 10 to six in 10, and nearly four in 10 schools are now regarded by Estyn as only being adequate.

Yn y diweddariad heddiw, dywed y Llywodraeth bod 48 allan o 49 o ymrwymiadau addysg yn cael eu nodi fel rhai wedi'u 'cyflawni' neu 'byddant yn cael eu cyflawni'. Felly, yn ôl y Llywodraeth, mae popeth yn ein system addysg yn iawn, i'r dim ac ar y trywydd iawn. Ond mae Estyn yn dweud rhywbeth gwahanol iawn. Roedd ei adroddiad blynyddol diwethaf, ym mis Ionawr 2015, yn datgan bod safonau mewn ysgolion cynradd a arolygwyd yn dirywio. Nawr te, gallaf naill ai gymryd gair y Llywodraeth bod pethau'n gwella, neu gallaf gymryd safbwynt annibynnol yr arolygydd. Rwy'n gwybod beth y byddai gennyf i a fy etholwyr fwy o ffydd ynddo. Syrthiodd cyfran yr ysgolion cynradd gyda safonau 'da' neu 'ardderchog' o saith o bob 10 i chwech o bob 10, ac mae bron i bedair o bob 10 ysgol bellach yn cael eu hystyried gan Estyn yn ddigonol yn unig.

Maths continues to be highlighted as problematical, and then we come on to the Programme for International Student Assessment. Now, I note that the First Minister says that PISA has been superseded by the Government's own initiatives. Now, I agree that the Government has come up with lots and lots and lots of initiatives, but just because the initiative has been written and published in a glossy document, it doesn't mean that it's actually being accurately and productively implemented, and to say that PISA is superseded is, really, once again, to be massively complacent. First Minister, PISA allows us to judge ourselves not just because we publish these strategies, but as to how we're competing and comparing with other children across the world, and that is important, because our children will be competing with children across the world for job and employment opportunities. You might think that PISA is superseded, but I think that I want to make sure that Welsh children are catching up and are performing better than those people that they will need to compete against in the world of work when they leave our education system. So, you might not think that it's not worth while anymore, but I certainly do. And I would ask you, even though you think that it's not worth while, what your expectations are, First Minister, for the PISA assessment results this year. What will they say about Welsh education?

Mae mathemateg yn parhau i gael ei amlygu fel rhywbeth problematig, ac yna rydym yn dod ymlaen at y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr. Yn awr, rwy'n sylwi bod y Prif Weinidog yn dweud bod PISA wedi cael ei ddisodli gan fentrau'r Llywodraeth ei hun. Yn awr, rwy'n cytuno bod y Llywodraeth wedi dod creu llawer a llawer a llawer o fentrau, ond dim ond am fod y fenter wedi cael ei hysgrifennu a'i chyhoeddi mewn dogfen sgleiniog, nid yw'n golygu ei bod yn cael ei gweithredu'n gywir ac yn gynhyrchiol mewn gwirionedd, ac mae dweud bod PISA yn cael ei ddisodli, mewn gwirionedd, unwaith eto, yn aruthrol hunanfodlon. Brif Weinidog, mae PISA yn caniatáu i ni farnu ein hunain nid yn unig oherwydd ein bod yn cyhoeddi'r strategaethau hyn, ond o ran sut yr ydym yn cystadlu a chymharu â phlant eraill ar draws y byd, ac mae hynny'n bwysig, oherwydd bydd ein plant yn cystadlu gyda phlant ar draws y byd ar gyfer cyfleoedd swyddi a chyflogaeth. Efallai eich bod yn meddwl bod PISA yn cael ei ddisodli, ond rwy'n meddwl fy mod eisiau gwneud yn siŵr bod plant Cymru yn dal i fyny ac yn perfformio'n well na'r bobl hynny y bydd angen iddynt gystadlu yn eu herbyn yn y byd gwaith pan fyddant yn gadael ein system addysg. Felly, efallai eich bod yn credu nad yw'n werth chweil mwyach, ond yn sicr yr wyf i. A byddwn yn gofyn i chi, er nad ydych yn meddwl ei bod yn werth chweil, beth yw eich disgwyliadau, Brif Weinidog, am ganlyniadau asesiadau PISA eleni. Beth fyddant yn ei ddweud am addysg Cymru?

On school buildings, in the Government's documentation, a programme for government, it says that the Welsh Government will deliver on the twenty-first century schools capital programme, and there's a big 'D' next to it. Well, yes, it's delivered in the sense that twenty-first century schools exists—and I'd be the first to admit that there are schools across Wales, some in my own constituency, that have been rebuilt as a result of the twenty-first century schools programme—but to say that it has been delivered is to suggest that there isn't an issue with school buildings in Wales anymore, that we can tick that and that we can forget about it. But Estyn, again, goes on to say that, for the first time in carrying out their work, there has been an increase in the number of schools where poor building maintenance and security have had a negative effect on children's wellbeing. So, it's not delivered; it exists, it's work in progress, but it is absolutely irresponsible, I believe, of the Government to suggest that that problem is solved and has been sorted.

O ran adeiladau ysgolion, yn nogfennaeth y Llywodraeth, rhaglen lywodraethu, mae'n dweud y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni ar y rhaglen gyfalaf ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, ac mae 'C' fawr wrth ei ymyl. Wel, ie, mae'n cael ei chyflawni yn yr ystyr bod ysgolion yr unfed ganrif ar hugain yn bodoli—a fi fyddai'r cyntaf i gyfaddef bod ysgolion ar draws Cymru, rhai yn fy etholaeth i, sydd wedi eu hail-adeiladu o ganlyniad i raglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain—ond mae dweud ei bod wedi ei chyflawni yn awgrymu nad oes problem gydag adeiladau ysgolion yng Nghymru mwyach, y gallwn dicio hynny ac y gallwn anghofio am y peth. Ond mae Estyn, unwaith eto, yn mynd ymlaen i ddweud, am y tro cyntaf wrth gyflawni eu gwaith, y bu cynnydd yn nifer yr ysgolion lle mae cynnal a chadw adeiladau a diogelwch gwael wedi cael effaith negyddol ar les plant. Felly, nid yw wedi'i chyflawni; mae'n bodoli, mae'n waith ar y gweill, ond mae'n hollol anghyfrifol, yn fy marn i, i'r Llywodraeth awgrymu bod y broblem wedi'i hateb ac wedi'i datrys.

If I can come on to the issue of health, again, according to the programme for government, only three of the 111 commitments on health will not be delivered, but I have to say—I have to say—that if you took this document out and showed it to many patients and many people working in this service, they simply would not recognise this as their reality, and to put it out there, First Minister, in this way, I find, frankly, insulting to those people who are trying to deliver a service. This document says, with a big 'D' next to it, that you have delivered improvements for those suffering from dementia and their families. Well, in the wake of what we've seen over the last two weeks, I'm just staggered. It would have been slightly better if you'd have put your 'W'—'will be delivered'—but you say that dementia is being delivered. And I would ask you, First Minister, to come to my constituency and meet people—meet people who are caring for their relatives with dementia at home and talk to them about the reality of their lives and the daily struggle to continue to care for their relatives—the struggle that they face. You might think that it's delivered and that it's all been done, and that it's all sorted, but I can tell you, for those people, it's not. And I would ask you to please come—come and talk to them, because ,if you don't take my word for it, come and talk to the people who are doing it day in, day out, day in, day out; it's relentless. It's relentless, and the very few community services that exist are constantly under threat and they're constantly battling to keep them going.

Os gallaf ddod ymlaen at fater iechyd, unwaith eto, yn ôl y rhaglen lywodraethu, dim ond tri o'r 111 o ymrwymiadau ar iechyd na fydd yn cael eu darparu, ond rhaid i mi ddweud—mae'n rhaid i mi ddweud—pe byddech yn mynd â'r ddogfen hon allan ac yn ei dangos i lawer o gleifion a llawer o bobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth hwn, ni fyddent yn adnabod hyn fel eu realaeth nhw, ac mae ei rhoi allan yno, Brif Weinidog, yn y modd hwn, rwy'n ei ystyried, a dweud y gwir, yn sarhad ar y bobl hynny sy'n ceisio darparu gwasanaeth. Mae'r ddogfen yn dweud, gydag 'C' fawr wrth ei hymyl, eich bod wedi sicrhau gwelliannau ar gyfer y rhai sy'n dioddef o ddementia a'u teuluoedd. Wel, yn sgil yr hyn yr ydym wedi ei weld dros y pythefnos diwethaf, rwy'n synnu. Byddai wedi bod ychydig yn well pe byddech wedi rhoi eich 'B'—'bydd yn cael ei gyflawni'—ond yr ydych yn dweud bod dementia yn cael ei gyflawni. A byddwn yn gofyn i chi, Brif Weinidog, i ddod i fy etholaeth a chwrdd â phobl—cwrdd â phobl sy'n gofalu am eu perthnasau â dementia yn y cartref a siarad â nhw am realiti eu bywydau a'r frwydr ddyddiol i barhau i ofalu am eu perthnasau—y frwydr y maent yn eu hwynebu. Efallai y byddwch yn meddwl ei fod yn cael ei gyflawni a'i fod i gyd wedi'i wneud, a'i fod i gyd wedi cael ei ddatrys, ond gallaf ddweud wrthych, ar gyfer y bobl hynny, nid yw hyn yn wir. A byddwn yn gofyn i chi os gwelwch yn dda i ddod—dod i siarad â nhw, oherwydd, os nad ydych yn cymryd fy ngair i am hynny, dewch i siarad â'r bobl sy'n gwneud hynny ddydd ar ôl dydd, ddydd ar ôl dydd; mae'n ddi-baid. Mae'n ddi-baid, ac mae'r ychydig iawn o wasanaethau cymunedol sy'n bodoli o dan fygythiad yn gyson ac maen nhw'n brwydro yn gyson i'w cadw i fynd.

On ambulance response times, again, it has a big 'D' next to it. Are you seriously saying—? No, sorry, it's a 'W', not a 'D'; it's a 'W'—it will be delivered. What confidence do you have, First Minister, if you have been unable to deliver ambulance response times to category A calls in eight minutes during your tenure of Government, and what makes you think, if you could not do it in four years, that you will do it in the next eight or nine months? Because if you've got evidence to say that, I'd be very pleased to hear it.

O ran amseroedd ymateb ambiwlansys, unwaith eto, mae ganddo 'C' fawr wrth ei ymyl. A ydych chi'n dweud o ddifrif —? Na, mae'n ddrwg gennyf, 'B' ydyw, nid 'C'; 'B' ydyw—bydd yn cael ei gyflawni. Pa hyder sydd gennych, Brif Weinidog, os nad ydych wedi gallu cyflawni amseroedd ymateb ambiwlansys i alwadau categori A o fewn wyth munud yn ystod eich cyfnod mewn Llywodraeth, beth sy'n gwneud i chi feddwl, os nad oeddech yn gallu ei wneud mewn pedair blynedd, y byddwch yn ei wneud yn yr wyth neu naw mis nesaf? Oherwydd os oes gennych dystiolaeth i ddweud hynny, byddwn i'n falch iawn o'i chlywed.

On referral-to-treatment times, the document doesn't even try to pretend that the target is being met. If you actually read the document, it doesn't even try to pretend. So many of these things are based on assumption. Cancer:

Ar amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth, nid yw'r ddogfen hyd yn oed yn ceisio esgus bod y targed yn cael ei gyflawni. Os ydych mewn gwirionedd yn darllen y ddogfen, nid yw hyd yn oed yn ceisio esgus. Felly, mae llawer o'r pethau hyn wedi eu seilio ar dybiaeth. Canser:

'Provide every person diagnosed with cancer access to an identified key worker to support them and their families'.

Neilltuo gweithiwr allweddol i bob unigolyn â chanser, ar ôl iddo gael y diagnosis, i'w cefnogi nhw a'u teuluoedd.

'D'—delivered. And then it goes on to say that, in the January 2014 cancer survey, 59 per cent of patients confirmed that they were given details of a key worker. Well, the last time I looked, 59 per cent wasn't everyone, and therefore how can you have the audacity to write the document and say that is delivered? When—when will everybody have that, First Minister?

'C'—cyflawnwyd. Ac yna mae'n mynd ymlaen i ddweud, yn arolwg canser Ionawr 2014, y cadarnhaodd 59 y cant o gleifion eu bod wedi cael manylion am weithiwr allweddol. Wel, y tro diwethaf i mi edrych, nid oedd 59 y cant yn bawb, ac felly sut y gallwch chi fod mor hy ag ysgrifennu'r ddogfen a dweud ei fod yn cael ei gyflawni? Pryd—pryd y bydd pawb yn cael hynny, Brif Weinidog?

Presiding Officer, whether it be education, health, the economy, rural affairs, community safety, deaths on our roads going up in recent times, as your document says here, on every measure—every measure—there is a world of difference between what you think is happening in Wales and the reality of what is happening in Wales. First Minister, why do you think that is the case? Why do you think that the experience of people differs so much from what you believe your officials are telling you?

Lywydd, boed yn addysg, iechyd, yr economi, materion gwledig, diogelwch cymunedol, marwolaethau ar ein ffyrdd yn cynyddu yn ddiweddar, fel y mae eich dogfen yn dweud yma, ar bob mesur—pob mesur—mae byd o wahaniaeth rhwng yr hyn yr ydych chi'n feddwl sy'n digwydd yng Nghymru a realiti yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru. Brif Weinidog, pam ydych chi'n meddwl bod hynny'n wir? Pam ydych chi'n meddwl bod profiad pobl mor wahanol i'r hyn yr ydych yn credu y mae eich swyddogion yn ei ddweud wrthych?

15:11

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Let me start with what she said at the end, and that is that she implies that every single one of the commitments we have made is in some way worthless. That's what she said—that there is a story behind every single one of them that shows that they are not correct. Say that to those people who have benefited from Flying Start childcare. Say that to those people who have seen the CSOs on their streets that we have paid for. Say that to those people who benefited from Jobs Growth Wales that your party opposed. Say that to those who benefited from increases in school spending. Say that to those people who are now able to see a GP more easily than before. Say that to those people who have benefited from the 38,000 jobs that were created, safeguarded and assisted by us over the part 10 years. I do not accept what the leader of the Liberal Democrats has said with regard to these commitments, although she has pointed out areas where she's asked questions, and I'll answer those questions.

Gadewch i mi ddechrau gyda'r hyn a ddywedodd ar y diwedd, sef yr awgrym bod pob un o'r ymrwymiadau a wnaed gennym mewn rhyw ffordd yn ddi-werth. Dyna beth ddywedodd hi—bod stori y tu ôl i bob un ohonynt sy'n dangos nad ydynt yn gywir. Dywedwch hynny wrth y bobl hynny sydd wedi elwa o ofal plant Dechrau'n Deg. Dywedwch hynny wrth y bobl hynny sydd wedi gweld y Swyddogion Cymorth Cymunedol ar eu strydoedd yr ydym ni wedi talu amdanynt. Dywedwch hynny wrth y bobl hynny sydd wedi elwa ar Twf Swyddi Cymru yr oedd eich plaid yn ei wrthwynebu. Dywedwch hynny wrth y rhai sy'n cael budd o gynnydd mewn gwariant ar ysgolion. Dywedwch hynny wrth y bobl hynny sydd bellach yn gallu gweld meddyg teulu yn haws nag o'r blaen. Dywedwch hynny wrth y bobl hynny sydd wedi elwa o'r 38,000 o swyddi a gafodd eu creu, eu diogelu a'u cynorthwyo gennym ni dros y 10 mlynedd rhannol. Nid wyf yn derbyn yr hyn y mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol wedi'i ddweud o ran yr ymrwymiadau hyn, er ei bod wedi tynnu sylw at feysydd lle mae hi wedi gofyn cwestiynau, a byddaf yn ateb y cwestiynau hynny.

She talks of PISA, and the reality is that GCSEs are improving year after year, and they are more recent than PISA. Let me take her through some of the statistics. The final results for 2013-14 show that the percentage of 15-year-olds achieving the level 2 threshold in terms of GCSE grades A* to C, including Welsh or English first language and mathematics, is at an all-time high—an increase of 10 points since 2007-08. Her allegation that we are doing nothing is wrong. The difference in attainment between those who are and those who are not eligible for free school meals has been narrowing in the last three years, on average. Again, it shows that what she has said—that we are doing nothing—is wrong. As far as FE is concerned, we know that FE and apprenticeship success rates continue to improve, as both are achieving rates over 85 per cent. She says that we are sitting back and doing nothing, and are not interested in education. Well, let me tell her that the PISA results did highlight the importance of having an effective school improvement service in the middle tier. That work has been taken forward with the national model for regional working. We already have literacy and numeracy GCSEs that are being taken forward. We have the literacy and numeracy framework. We have the national support programmes. We have made sure that we have learned the lessons of PISA and put in place things to improve matters. And you see from the GCSE results year after year after year, for the past five years, those improvements. That is there for all to see.

Mae hi'n siarad am PISA, a'r realiti yw bod TGAU yn gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac maent yn fwy diweddar na PISA. Gadewch i mi fynd â hi drwy rai o'r ystadegau. Mae'r canlyniadau terfynol ar gyfer 2013-14 yn dangos bod canran y rhai 15 mlwydd oed sy'n cyrraedd y trothwy lefel 2 yn nhermau graddau TGAU A* i C, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg, ar ei lefel uchaf erioed— cynnydd o 10 pwynt ers 2007-08. Mae ei honiad nad ydym yn gwneud dim yn anghywir. Mae'r gwahaniaeth mewn cyrhaeddiad rhwng y rhai sydd a'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi bod yn culhau yn ystod y tair blynedd diwethaf, ar gyfartaledd. Unwaith eto, mae'n dangos bod yr hyn y mae wedi'i ddweud—nad ydym yn gwneud dim—yn anghywir. Cyn belled ag y mae AB yn y cwestiwn, rydym yn gwybod bod cyfraddau llwyddiant AB a phrentisiaeth yn parhau i wella, gan fod y ddau yn cyflawni cyfraddau dros 85 y cant. Mae hi'n dweud ein bod yn eistedd yn ôl a gwneud dim, ac nad oes gennym ddiddordeb mewn addysg. Wel, gadewch i mi ddweud wrthi bod y canlyniadau PISA wedi tynnu sylw at y pwysigrwydd o gael gwasanaeth gwella ysgolion effeithiol yn yr haen ganol. Mae'r gwaith hwnnw wedi cael ei gymryd ymlaen gyda'r model cenedlaethol ar gyfer gweithio rhanbarthol. Mae gennym eisoes TGAU llythrennedd a rhifedd sy'n cael eu dwyn ymlaen. Mae gennym y fframwaith llythrennedd a rhifedd. Mae gennym y rhaglenni cymorth cenedlaethol. Rydym wedi gwneud yn siŵr ein bod wedi dysgu gwersi PISA a sefydlu pethau i wella pethau. Ac rydych yn gweld y gwelliannau hynny o'r canlyniadau TGAU flwyddyn ar ôl blwyddyn ar ôl blwyddyn, dros y pum mlynedd diwethaf. Mae hynny yno i bawb gael gweld.

Now, in terms of twenty-first century schools, I'm not sure exactly what her complaint was. We didn't as a Government say that we would replace every single school in this term of the Assembly. I wish we could do that, but we know that we cannot. We have, however, built new schools the length and breadth of Wales at a time when her party, when it was in Government, delivered nothing of the sort in England. We have made that investment in the education of children in Wales in order that they have buildings that are fit for purpose. There's more to do; that much is correct. But we have delivered on what we promised we would do in this Assembly term.

Yn awr, o ran ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, nid wyf yn siŵr yn union beth oedd ei chŵyn. Doedden ni ddim yn dweud fel Llywodraeth y byddem yn newid bob ysgol yn nhymor hwn y Cynulliad. Byddwn yn hoffi pe gallem ni wneud hynny, ond gwyddom na allwn. Rydym, fodd bynnag, wedi adeiladu ysgolion newydd ar hyd a lled Cymru ar adeg pan na wnaeth ei phlaid hi, pan oedd mewn Llywodraeth, gyflwyno dim byd o'r fath yn Lloegr. Rydym wedi gwneud y buddsoddiad hwnnw mewn addysg plant yng Nghymru fel bod ganddynt adeiladau sy'n addas at y diben. Mae mwy i'w wneud; mae hynny'n gywir. Ond rydym wedi cyflawni'r hyn y gwnaethom addo y byddem yn ei wneud yn nhymor y Cynulliad hwn.

She talks about—I think 'insulting' was the word she used; it is 'insulting' to people, what we have published. Well, she talks about dementia, and she is right, of course; I've seen with my own eyes what dementia does to people. I've seen what happens when people have to care for somebody day in, day out, as they slowly lose their ability to know where they are, to know where they're talking to and even to know the names of the people they're talking to. So, I know what dementia does; I've seen it in my own family, and I know the real issues that surround dementia. She's right—she is right—to say that there needs to be proper care in place for those who are suffering from dementia, and that is something we continue to provide.

Mae hi'n siarad am—rwy'n meddwl mai 'sarhad' oedd y gair a ddefnyddiodd hi; ei fod yn 'sarhad' i bobl, yr hyn yr ydym wedi'i gyhoeddi. Wel, mae hi'n siarad am ddementia, ac mae hi yn iawn, wrth gwrs; rwyf wedi gweld â'm llygaid fy hun beth y mae dementia yn ei wneud i bobl. Rwyf wedi gweld beth sy'n digwydd pan mae'n rhaid i bobl ofalu am rywun ddydd ar ôl dydd, wrth iddynt yn araf golli eu gallu i wybod ble maen nhw, i wybod â phwy y maent yn siarad a hyd yn oed i wybod enwau'r bobl y maent yn siarad â nhw. Felly, rwy'n gwybod beth y mae dementia yn ei wneud; rwyf wedi ei weld yn fy nheulu fy hun, ac rwy'n gwybod y problemau gwirioneddol sy'n gysylltiedig â dementia. Mae hi'n iawn—mae hi yn iawn—i ddweud bod angen cael gofal priodol ar waith ar gyfer y rhai sy'n dioddef o ddementia, ac mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn parhau i'w ddarparu.

She draws on Tawel Fan. Tawel Fan was serious—a very serious issue. We know that; we don't downplay it. It was an exceptionally serious failing as far as patients and relatives were concerned, but we cannot take the example of one ward in one hospital from two years ago and say it is common across Wales. That isn't the case. The vast majority of people get the care that they need in hospital, but they were failed in Tawel Fan—let us be absolutely clear about that. However, that doesn't meant that they're being failed everywhere; that is insulting to the people who work in the NHS, saying that, apparently, whatever they do and wherever they are, they are not delivering a service.

Mae hi'n sôn am Tawel Fan. Roedd Tawel Fan yn ddifrifol—yn fater difrifol iawn. Rydym yn gwybod hynny; nid ydym yn ei fychanu. Roedd yn fethiant eithriadol o ddifrifol cyn belled ag y mae cleifion a pherthnasau yn y cwestiwn, ond ni allwn gymryd yr enghraifft o un ward mewn un ysbyty o ddwy flynedd yn ôl a dweud ei fod yn gyffredin ar draws Cymru. Nid yw hynny'n wir. Mae'r mwyafrif helaeth o bobl yn cael y gofal sydd ei angen arnynt yn yr ysbyty, ond cawsant eu siomi yn Tawel Fan—gadewch inni fod yn hollol glir am hynny. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu eu bod yn cael eu siomi ym mhob man; mae hynny'n sarhad â'r bobl sy'n gweithio yn y GIG, gan ddweud, yn ôl pob tebyg, beth bynnag y maent yn ei wneud a ble bynnag y maent, nid ydynt yn darparu gwasanaeth.

I'm very confident that ambulance response times will continue to improve. They are moving in the right direction—that much is true. I am confident that, of the commitments that we have put in place, we are transparent. I don't recall this being done by her party in London. I don't recall any programme for government, I don't recall any debates on it, I don't recall any commitments and I don't recall any transparency, beyond the fact that we know that the first thing they did was to increase tuition fees; we know that, at least, in terms of transparency. So, we need no lessons in that regard from the Liberal Democrats.

Rwy'n hyderus iawn y bydd amseroedd ymateb ambiwlansys yn parhau i wella. Maent yn symud i'r cyfeiriad cywir—mae hynny'n wir. Rwy'n hyderus, o ran yr ymrwymiadau yr ydym wedi eu rhoi ar waith, ein bod yn dryloyw. Nid wyf yn cofio hyn yn cael ei wneud gan ei phlaid hi yn Llundain. Nid wyf yn cofio unrhyw raglen lywodraethu, nid wyf yn cofio unrhyw ddadleuon arni, nid wyf yn cofio unrhyw ymrwymiadau ac nid wyf yn cofio unrhyw dryloywder, y tu hwnt i'r ffaith ein bod yn gwybod mai'r peth cyntaf a wnaethant oedd cynyddu ffioedd dysgu; gwyddom hynny, o leiaf, o ran tryloywder. Felly, nid oes angen unrhyw wersi arnom yn hynny o beth gan y Democratiaid Rhyddfrydol.

We will continue to deliver on the commitments that we have made. We will continue to deliver despite the financial cuts that her party put in place, ably continued now by the Conservatives, and we will continue to deliver on our commitments to the people of Wales.

Byddwn yn parhau i gyflawni'r ymrwymiadau a wnaed gennym. Byddwn yn parhau i gyflawni er gwaethaf y toriadau ariannol y mae ei phlaid wedi'u rhoi ar waith, sy'n cael eu parhau'n fedrus yn awr gan y Ceidwadwyr, a byddwn yn parhau i gyflawni ein hymrwymiadau i bobl Cymru.

15:16 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I agree with you, First Minister—it's incredibly important that we do deliver on our manifesto commitments, unlike some other parties, which have suffered as a result. I particularly want to highlight a couple of things that you mentioned, First Minister. One is the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, which I think is absolutely superb, because it obliges all public bodies to act sustainably, and that is a very significant piece of legislation. Of course, it includes rural areas, Andrew R.T. Davies; they, too, will have to act sustainably. So, perhaps it's something you might point out to people who are moaning that we don't do anything about rural areas—we do.

Rwy'n cytuno â chi, Brif Weinidog—mae'n hynod o bwysig ein bod yn cyflawni ymrwymiadau ein maniffesto, yn wahanol i rai pleidiau eraill, sydd wedi dioddef o ganlyniad. Rwyf yn arbennig o awyddus i dynnu sylw at un neu ddau o bethau a grybwyllwyd gennych, Brif Weinidog. Un yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), 2015, yr wyf yn meddwl sy'n hollol wych, oherwydd ei bod yn ymrwymo pob corff cyhoeddus i weithredu mewn ffordd gynaliadwy, ac mae hynny'n ddarn sylweddol iawn o ddeddfwriaeth. Wrth gwrs, mae'n cynnwys ardaloedd gwledig, Andrew R. T. Davies; bydd yn rhaid iddynt hwy, hefyd, weithredu'n gynaliadwy. Felly, efallai ei fod yn rhywbeth y gallech dynnu sylw ato pan fydd pobl yn cwyno nad ydym yn gwneud dim am ardaloedd gwledig— rydym yn gwneud.

The other thing I'd just like to mention, First Minister, is that when the Environment and Sustainability Committee went to Brussels recently, it was very interesting to note that, unbidden, the European Union commissioners in charge of waste management said that Wales was in the forefront of recycling across the 28 countries of Europe, and it was recognised that we acted early and, as a result, we are now seeing the benefit. There is always more to do, but we certainly are in a good place, as far as achievement on those things is concerned.

Y peth arall y byddwn i'n hoffi sôn amdano, Brif Weinidog, yw pan aeth y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i Frwsel yn ddiweddar, roedd yn ddiddorol iawn nodi bod comisiynwyr yr Undeb Ewropeaidd sy'n gyfrifol am reoli gwastraff yn dweud, o'u gwirfodd, bod Cymru ar flaen y gad o ran ailgylchu ar draws y 28 o wledydd Ewrop, a chydnabuwyd ein bod wedi gweithredu'n gynnar ac, o ganlyniad, rydym bellach yn gweld y budd. Mae mwy i'w wneud bob amser, ond rydym yn sicr mewn lle da, cyn belled ag y mae cyrhaeddiad ar y pethau hynny yn y cwestiwn.

In terms of our achievement on health, I just wondered whether Kirsty Williams or her constituents have seen the national survey for Wales: 91 per cent of all people surveyed are satisfied with their general practitioner care, and, of course, the vast majority of people never go near a hospital; and, 96 per cent of hospital patients felt they were treated with dignity and respect. Those are very significant outcomes, independently surveyed—this is not the Government telling us that.

O ran ein cyflawniad ar iechyd, rwy'n meddwl tybed a yw Kirsty Williams neu ei hetholwyr wedi gweld yr arolwg cenedlaethol i Gymru: mae 91 y cant o'r holl bobl a holwyd yn fodlon ar eu gofal meddyg teulu, ac, wrth gwrs, nid yw'r mwyafrif helaeth o bobl byth yn mynd yn agos at ysbyty; ac, roedd 96 y cant o gleifion mewn ysbytai yn teimlo eu bod yn cael eu trin gydag urddas a pharch. Mae'r rhain yn ganlyniadau sylweddol iawn, a arolygwyd yn annibynnol— nid y Llywodraeth sy'n dweud hyn.

There's one particular issue, First Minister, I'd like to raise with you, which is: in light of our priorities of supporting children and families in deprived communities, and creating jobs and growth, what are the opportunities of the already well-badged UK Government proposal to double free childcare in England to 30 hours a week, starting in September next year? What are likely to be the consequentials of that, and what does it mean for the way in which we might make it more possible for people with very young children to go back to work sooner and to be able to afford to go to work?

Mae un mater penodol, Brif Weinidog, yr hoffwn ei godi gyda chi, sef: yng ngoleuni ein blaenoriaethau o gefnogi plant a theuluoedd mewn cymunedau difreintiedig, a chreu swyddi a thwf, beth yw cyfleoedd cynnig Llywodraeth y DU a ddiffiniwyd yn dda eisoes i ddyblu gofal plant am ddim yn Lloegr i 30 awr yr wythnos, gan ddechrau ym mis Medi'r flwyddyn nesaf? Beth yw'r symiau canlyniadol tebygol, a beth y mae'n ei olygu ar gyfer y ffordd y gallem ei gwneud yn fwy posibl i bobl sydd â phlant ifanc iawn i fynd yn ôl i'r gwaith yn gynt ac i allu fforddio mynd i'r gwaith?

15:19 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank the Member for her comments? She asked a particular question about childcare. Our understanding is that it's underfunded in England—they won't be able to deliver on it with their current level of funding. Nor do we know what consequential there might be, because we don't know what the proposals are on 8 July as far as our own block grant is concerned. Nevertheless, we know how important childcare is, in terms of removing a potential obstacle to people who want to get to work, and we know that many people have also benefited greatly from the childcare provision that is in place. But, there are two imponderables as far as the UK Government are concerned at the moment: that is, whether childcare will be properly funded in England—we know that there have been concerns expressed in that regard by providers—and, secondly, we do not know whether there'll be a consequential. We know that there's often a tendency, shall we shay, within Whitehall to say that funding will be found from savings in departments. That is usually a way of trying to stop us getting a consequential, and usually leads to the dispute resolution process in the joint ministerial committee, and we'll wait to see whether there is truly going to be a consequential or whether sleight of hand prevents that from happening.

A gaf i ddiolch i'r Aelod am ei sylwadau? Mae hi'n gofyn cwestiwn penodol am ofal plant. Ein dealltwriaeth yw ei fod yn cael ei danariannu yn Lloegr—ni fyddant yn gallu cyflawni arno gyda'u lefel bresennol o gyllid. Ac nid ydym yn gwybod beth yw'r symiau canlyniadol posibl, oherwydd nid ydym yn gwybod beth yw'r cynigion ar 8 Gorffennaf cyn belled ag y mae ein grant bloc ein hunain yn y cwestiwn. Serch hynny, rydym yn gwybod pa mor bwysig yw gofal plant, o ran cael gwared ar rwystr posibl i bobl sydd eisiau mynd i'r gwaith, ac rydym yn gwybod bod llawer o bobl hefyd wedi elwa'n fawr ar y ddarpariaeth gofal plant sydd ar waith. Ond, mae dwy elfen annelwig cyn belled ag y mae Llywodraeth y DU yn y cwestiwn ar hyn o bryd: hynny yw, a fydd gofal plant yn cael ei ariannu'n briodol yn Lloegr—gwyddom bod darparwyr wedi mynegi pryderon yn hynny o beth—ac, yn ail, nid ydym yn gwybod a fydd yna symiau canlyniadol. Rydym yn gwybod fod tuedd yn aml, ddwedwn ni, o fewn Whitehall i ddweud y bydd cyllid ar gael o arbedion mewn adrannau. Mae hynny fel arfer yn ffordd o geisio ein hatal rhag cael symiau canlyniadol, ac fel arfer yn arwain at y broses datrys anghydfodau yn y pwyllgor gweinidogol ar y cyd, a byddwn yn aros i weld a fydd symiau canlyniadol mewn gwirionedd neu a yw triciau llaw yn atal hynny rhag digwydd.

15:20 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We've had speakers from each of the parties now, so can I ask the remaining speakers to try just to ask questions? Janet Finch-Saunders.

Rydym wedi cael siaradwyr o bob un o'r pleidiau yn awr, felly gaf i ofyn i'r siaradwyr sy'n weddill i geisio gwneud dim ond gofyn cwestiynau? Janet Finch-Saunders.

15:20 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Just as a preamble to my question to the First Minister—[Laughter.] First Minister, for me, you will be judged on the success or otherwise of our health service, and I say that as a Member for Aberconwy, in north Wales, where our health board is now in unprecedented measures. I actually believe that the buck stops with you firmly, and your Government, for the failings of this health board. Under your leadership, we have seen a breakdown in the most basic fundamentals of providing safe patient care and support, and it is a significant matter of regret that, as a Welsh Government, you did not step in sooner to address the failures within this health board. There remain many serious questions about the Welsh Government's careless oversight of this health board. You have already been judged on 7 May, when the Vale of Clwyd was taken by Dr James Davies MP, and come May next year, the people of Wales will judge you once again for your failings in our health service. In the meantime, however, and more importantly, what reassurances can you provide here today, to my constituents, that you, as the First Minister of Wales, will oversee and monitor the weekly progress and urgent action that is required to turn around the many problems here, and that you will take full responsibility for these failings in our health service under your Government and leadership?

Diolch i chi, Lywydd. Fel rhagarweiniad i fy nghwestiwn i'r Prif Weinidog—[Chwerthin.] Brif Weinidog, i mi, byddwch yn cael eich barnu ar lwyddiant neu fethiant ein gwasanaeth iechyd, a dywedaf hynny fel Aelod dros Aberconwy, yn y gogledd, lle mae ein bwrdd iechyd bellach mewn mesurau digynsail. Rwyf wir yn credu mai arnoch chi y mae'r cyfrifoldeb eithaf, a'ch Llywodraeth, am fethiannau'r bwrdd iechyd. O dan eich arweinyddiaeth, rydym wedi gweld methiant yn yr hanfodion mwyaf sylfaenol o ddarparu gofal a chefnogaeth cleifion diogel, ac mae'n fater sylweddol o ofid na wnaethoch chi, fel Llywodraeth Cymru, gamu i mewn yn gynt i roi sylw i'r methiannau yn y bwrdd iechyd hwn. Erys llawer o gwestiynau difrifol am oruchwylio diofal Llywodraeth Cymru o'r bwrdd iechyd hwn. Rydych eisoes wedi'ch barnu ar 7 Mai, pan enillodd Dr James Davies AS Ddyffryn Clwyd, ac ym mis Mai'r flwyddyn nesaf, bydd pobl Cymru yn eich barnu unwaith eto am eich methiannau yn ein gwasanaeth iechyd. Yn y cyfamser, fodd bynnag, ac yn bwysicach, pa sicrwydd y gallwch ei roi yma heddiw, i fy etholwyr, eich bod chi, fel Prif Weinidog Cymru, yn goruchwylio ac yn monitro cynnydd wythnosol a'r gweithredu ar frys sydd ei angen i wyrdroi'r problemau lu yma, ac y byddwch yn cymryd cyfrifoldeb llawn am y methiannau hyn yn ein gwasanaeth iechyd o dan eich Llywodraeth a'ch arweiniad?

15:22 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

There are several trusts in special measures in England; is that Jeremy Hunt's fault? No, of course not; of course not. It's double standards as far as the Tories are concerned.

Mae yna nifer o ymddiriedolaethau yn y categori mesurau arbennig yn Lloegr; ai bai Jeremy Hunt yw hynny? Na, wrth gwrs ddim; wrth gwrs ddim. Mae'n safonau dwbl cyn belled ag y mae'r Torïaid yn y cwestiwn.

15:22 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Senedd.tv Fideo Video

The whole of Essex.

Essex gyfan.

15:22 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The whole of Essex; the whole of Essex is in special measures, but it's nothing to do with the Tories at all. It's not their fault in any way. The point that she makes is a fair one, and that is, of course, the special measures as far as Betsi is concerned. We took that step to ensure that people's confidence in the health service in north Wales was restored, and that's precisely what we want to do. We were not prepared to see the situation continue into the future, and we saw that it was important to make sure that confidence was rebuilt in the health service in the north of our country.

Essex gyfan; mae Essex gyfan yn destun mesurau arbennig, ond nid yw'n ddim byd i'w wneud â'r Torïaid o gwbl. Dyw hi ddim yn fai arnyn nhw mewn unrhyw ffordd. Mae'r pwynt y mae'n ei wneud yn un teg, sef, wrth gwrs, y mesurau arbennig cyn belled ag y mae Betsi yn y cwestiwn. Cymerwyd y cam hwnnw gennym i sicrhau bod hyder pobl yn y gwasanaeth iechyd yn y gogledd yn cael ei adfer, a dyna'n union yr ydym am ei wneud. Nid oeddem yn barod i weld y sefyllfa yn parhau i'r dyfodol, a gwelsom ei bod yn bwysig i wneud yn siŵr bod hyder wedi'i ail-adeiladu yn y gwasanaeth iechyd yng ngogledd ein gwlad.

Again, I have to remind the Member of this: she makes the point that we'll be judged on health, and I accept that, but her party has cut £50 million from the Welsh budget. She can't escape that, a record-breaking in-year cut—a record-breaking in-year cut of £50 million this year. On top of that, we don't know what'll happen on 8 July, and yet the party opposite sits there as if it's nothing to do with them, guv, as if they provide all the money in the world and its all due to the fact that we, apparently, are not spending the largesse that comes from the Conservative Party in London. You cannot cut our spending in-year by £50 million and retain a shred of credibility when it comes to lecturing us on NHS spending.

Unwaith eto, rhaid i mi atgoffa'r Aelod o hyn: mae hi'n gwneud y pwynt y byddwn yn cael ein barnu ar iechyd, a derbyniaf hynny, ond mae ei phlaid wedi torri £50 miliwn o gyllideb Cymru. Mae hi yn methu â dianc rhag hynny, y toriad mwyaf erioed yn ystod y flwyddyn—y toriad mwyaf erioed yn ystod y flwyddyn o £50 miliwn eleni. Ar ben hynny, nid ydym yn gwybod beth fydd yn digwydd ar 8 Gorffennaf, ac eto mae'r blaid gyferbyn yn eistedd yno fel pe nad yw ddim byd i'w wneud â nhw, wir, fel pe baent yn darparu'r holl arian yn y byd a bod y cyfan oherwydd y ffaith nad ydym ni, mae'n debyg, yn gwario'r haelioni a ddaw oddi wrth y Blaid Geidwadol yn Llundain. Ni allwch dorri £50 miliwn ar ein gwariant yn ystod y flwyddyn a chadw unrhyw hygrededd wrth ein darlithio ni ar wariant y GIG.

But, from our point of view, we want to make sure that Betsi continues to restore its reputation, that the service continues to improve for the people in the north of Wales, and to make sure that, despite the cuts that are imposed on us by the Conservative Party, we continue to provide the health and social services that people would expect. We want to do that, and we will not allow them to stop it.

Ond, o'n safbwynt ni, rydym eisiau gwneud yn siwr bod Betsi yn parhau i adfer ei henw da, bod y gwasanaeth yn parhau i wella ar gyfer y bobl yng ngogledd Cymru, ac i wneud yn siŵr, er gwaethaf y toriadau sy'n cael eu gorfodi arnom gan y Blaid Geidwadol, ein bod yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau iechyd a chymdeithasol y byddai pobl yn eu disgwyl. Rydym yn awyddus i wneud hynny, ac ni fyddwn yn caniatáu iddynt ei atal.

15:24 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Why is it that, during the year to which this report applies, the Alan Milburn 'State of the Nation' report states Wales has the second-highest child poverty rate and second-lowest working-age employment rate amongst the UK nations and regions, with higher rates of children living in workless households, a low employment rate, a high unemployment rate and pay that's 8 per cent below the UK average? And, again, during the financial year, you referred earlier to GVA figures, which were published in December, but those showed that Wales was still the worst performing part of the UK in terms of money generated by its economy, the worst performing sub-region in west Wales and the Valleys, and the lowest GVA at local area level in Anglesey, in the sixteenth year of devolution, fifteen of those years with you in Cabinet, and, I think, five or six years now with you as First Minister.

Pam, yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad hwn yn berthnasol iddi, bod adroddiad Alan Milburn 'Cyflwr y Genedl' yn datgan mai gan Gymru y mae'r gyfradd uchaf ond un o dlodi plant a'r gyfradd gyflogaeth oedran gweithio isaf ond un ymhlith cenhedloedd a rhanbarthau'r DU, gyda chyfraddau uwch o blant yn byw mewn cartrefi di-waith, cyfradd cyflogaeth isel, cyfradd diweithdra uchel a chyflog sydd 8 y cant yn is na chyfartaledd y DU? Ac, unwaith eto, yn ystod y flwyddyn ariannol, cyfeiriasoch yn gynharach at ffigurau GYC, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr, ond dangosodd y rheini mai Cymru yw'r rhan o'r DU sy'n perfformio waethaf o ran arian a gynhyrchir gan ei heconomi o hyd, yr isranbarth sy'n perfformio waethaf yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, a'r GYC isaf ar lefel ardal leol ar Ynys Môn, â datganoli yn ei unfed flwyddyn ar bymtheg, pymtheg o'r blynyddoedd hynny gyda chi yn y Cabinet, ac, rwy'n meddwl, pump neu chwe blynedd bellach gyda chi fel Prif Weinidog Cymru .

Time is short; I'll stop at that point rather than going on specifically about the wider issues. One point I would raise, though, is why in terms of poverty does your report not refer to and prioritise housing, identified in the Homes for All Cymru manifesto, published last October, again during the year to which we refer? It stated at the beginning,

Mae amser yn brin; fe wnaf roi'r gorau iddi ar y pwynt hwnnw yn hytrach na mynd ymlaen yn benodol am y materion ehangach. Fodd bynnag, un pwynt y byddwn yn ei godi o ran tlodi yw pam nad yw eich adroddiad yn cyfeirio at ac yn blaenoriaethu tai, a nodwyd yn y maniffesto Cartrefi i Bawb Cymru, a gyhoeddwyd fis Hydref diwethaf, eto yn ystod y flwyddyn yr ydym yn cyfeirio ati? Roedd yn nodi ar y dechrau,

'There is a housing crisis with more than 90,000 households on waiting lists',

'Mae argyfwng tai, ac mae mwy na 90,000 o aelwydydd ar restrau aros',

which is the same figure that applied six years ago, despite figures in England falling during that period by 300,000.

sef yr un ffigur â chwe blynedd yn ôl, er gwaethaf y ffigurau yn Lloegr yn disgyn 300,000 yn ystod y cyfnod hwnnw.

15:25 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I have no doubt the figures in England will go through the roof as the right to buy is extended; there's no question of it. What sort of financial adviser can say that if you sell one house you can build three others from the proceeds? Well, put it this way: I wouldn't entrust any money to that person. I suppose it's the same person who says to the people of Britain in terms of the Royal Bank of Scotland, 'We will sell you back what you already own, but you've got to buy it back at a loss'. That's the concept of financial trickery the Tories will put into place.

Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd y ffigurau yn Lloegr yn mynd drwy'r to wrth i'r hawl i brynu gael ei ymestyn; does dim cwestiwn o hynny. Pa fath o ymgynghorydd ariannol all ddweud os ydych yn gwerthu un tŷ gallwch adeiladu tri arall o'r elw? Wel, o'i roi fel hyn: ni fyddwn yn ymddiried unrhyw arian i'r person hwnnw. Mae'n debyg mai'r un person sy'n dweud wrth bobl Prydain o ran y Royal Bank of Scotland, 'Byddwn yn gwerthu yn ôl i chi yr hyn yr ydych eisoes yn berchen arno, ond mae'n rhaid i chi brynu yn ôl ar golled'. Dyna'r cysyniad o dwyll ariannol y bydd y Torïaid yn ei roi ar waith.

In terms of the points that he made, we know that the key to improving people's incomes is through skills. That's why we have Jobs Growth Wales, and that's why we put investment into apprenticeships. If you have people with the right level of skills, it means you can attract the high-quality investment and it means that you can make sure that people's income levels increase. We're still battling the legacy of his party. At the end of the day, they can't dispute this. In the 1980s, we had very well paid jobs and what happened was that his party got rid of them. And it does take time to replace those jobs; it does take time to make sure that we can rebuild our economy. And we're doing it, which is why unemployment is lower than it was under them when they were in power. It's why we are attracting much more highly skilled investment than before. All they did, across the Chamber, was to attract investment into Wales on the basis that we would accept less pay than anyone else—that's what happened in the 1980s and the early 1990s— and most of those investors have no doubt left. It was the lazy way to try and bring in investment. We're doing it the hard way, and we're doing it in the way that is sustainable to bring jobs and skills and pay to our people.

O ran y pwyntiau a wnaeth, rydym yn gwybod mai'r allwedd i wella incwm pobl yw sgiliau. Dyna pam fod gennym Twf Swyddi Cymru, a dyna pam ein bod yn rhoi buddsoddiad i brentisiaethau. Os oes gennych bobl sydd â'r lefel gywir o sgiliau, mae'n golygu y gallwch ddenu buddsoddiad o ansawdd uchel ac mae'n golygu y gallwch wneud yn siŵr bod lefelau incwm pobl yn cynyddu. Rydym yn dal i frwydro etifeddiaeth ei blaid. Ar ddiwedd y dydd, ni allant ddadlau â hyn. Yn y 1980au, roedd gennym swyddi oedd yn talu yn dda iawn a beth ddigwyddodd oedd bod ei blaid wedi cael gwared arnyn nhw. Ac mae'n cymryd amser i gael swyddi yn lle'r rhai hynny; mae'n cymryd amser i wneud yn siŵr ein bod yn gallu ail-adeiladu ein heconomi. Ac rydym yn gwneud hynny, a dyna pam mae diweithdra yn is nag yr oedd danynt hwy pan oeddent hwy mewn grym. Dyna pam ein bod yn denu buddsoddiad llawer mwy hyfedr nag o'r blaen. Y cyfan a wnaethant, ar draws y Siambr, oedd denu buddsoddiad i Gymru ar y sail y byddem yn derbyn llai o gyflog nag unrhyw un arall—dyna beth ddigwyddodd yn y 1980au a dechrau'r 1990au—ac mae'r rhan fwyaf o'r buddsoddwyr hynny heb amheuaeth wedi gadael. Roedd yn ffordd ddiog o geisio denu buddsoddiad. Rydym ni wedi dewis y ffordd galed, y ffordd sy'n gynaliadwy er mwyn dod â swyddi a sgiliau a chyflog i'n pobl.

He talks about—. [Interruption.] I think he's telling me to shut up; I don't know if that's true or not, and he's still doing it. In terms of housing—

Mae'n siarad ynghylch—. [Torri ar draws.] Rwy'n credu ei fod yn dweud wrthyf i gau fy ngheg; nid wyf yn gwybod os yw hynny'n wir ai peidio, ac mae'n dal i wneud hynny. O ran tai—

15:27

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you not listen to when people are sitting down? If they're not standing up, just ignore them. And, will you please stop talking when you are sitting down? That's a bit of a conundrum there, but there we are. First Minister.

A wnewch chi beidio gwrando pan fydd pobl yn eistedd i lawr? Os nad ydynt yn sefyll i fyny, anwybyddwch nhw. Ac, os gwelwch yn dda wnewch chi roi'r gorau i siarad pan fyddwch yn eistedd i lawr? Dyna dipyn o benbleth yno, ond dyna ni. Brif Weinidog.

15:27

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

In terms of housing, I would remind the Member we have Help to Buy—Wales, of course, that has helped many, many people. We are building more and more social housing, including council housing, and we do not intend to have a situation when we are trying to fill the bathtub with the plug out, which is what his party wants to do in London by building more houses and then signing them off by the back door. By having a robust policy in terms of social housing, in helping people to buy their own homes through schemes such as Help to Buy—Wales, we are ensuring that more and more people are able to gain access to a roof over their heads in the future.

O ran tai, byddwn yn atgoffa'r Aelod bod gennym Help i Brynu—Cymru, wrth gwrs, sydd wedi helpu llawer iawn o bobl. Rydym yn adeiladu mwy a mwy o dai cymdeithasol, gan gynnwys tai cyngor, ac nid ydym yn bwriadu cael sefyllfa lle'r ydym yn ceisio llenwi'r baddon gyda'r plwg allan, sef yr hyn y mae ei blaid am ei wneud yn Llundain drwy adeiladu mwy o dai ac yna eu cymeradwyo drwy'r drws cefn. Drwy gael polisi cadarn o ran tai cymdeithasol, i helpu pobl i brynu eu cartrefi eu hunain drwy gynlluniau fel Cymorth i Brynu—Cymru, rydym yn sicrhau bod mwy a mwy o bobl yn gallu cael to uwch eu pennau yn y dyfodol.

15:28

## William Graham Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Looking through your presentation and the supporting documents, First Minister, there is only one reference to co-operation with the UK Government, and that's about tourism. As Wales is an integral part of the United Kingdom and reliant upon a thriving United Kingdom economy, can you outline how you will collaborate with the UK Government to ensure continued economic growth and the financial benefit this would allow to Wales?

Wrth edrych drwy eich cyflwyniad a'r dogfennau ategol, Brif Weinidog, nid oes ond un cyfeiriad at gydweithio â Llywodraeth y DU, ac mae hynny'n ymwneud â thwristiaeth. Gan fod Cymru yn rhan annatod o'r Deyrnas Unedig ac yn ddibynnol ar economi ffyniannus y Deyrnas Unedig, a allwch chi amlinellu sut y byddwch yn cydweithio â Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau twf economaidd parhaus a'r budd ariannol y byddai hyn yn ei ganiatáu i Gymru?

15:28 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

We do co-operate with the UK Government on many, many levels; UK Trade and Industry is the most obvious level, where, in fact, it's only right to say that before 2011 there was very little co-operation at all between UKTI and ourselves. That has changed. Many of those who work for us in offices around the world are based in UKTI offices, and we welcome that; we can't replicate a Welsh version of the UKTI around the world, nor should we try.

Rydym ni yn cydweithio â Llywodraeth y DU ar sawl lefel; Masnach a Diwydiant y DU yw'r lefel fwyaf amlwg, lle, mewn gwirionedd, nid yw ond yn iawn i ddweud nad oedd llawer iawn o gydweithio o gwbl rhwng UKTI a ni cyn 2011. Mae hynny wedi newid. Mae llawer o'r rhai sy'n gweithio i ni mewn swyddfeydd ledled y byd wedi'u lleoli mewn swyddfeydd UKTI, ac rydym yn croesawu hynny; ni allwn atgynhyrchu fersiwn Cymru o'r UKTI o gwmpas y byd, ac ni ddylem geisio.

If you look at the City Deal, we're more than happy to work with the UK Government and, indeed, the local authorities on that, but we don't know yet what it means; we don't know how much money is on the table, we don't know what commitment might be expected of us and we await to see what happens in that regard. But, it certainly isn't the case that somehow we see ourselves as being in a position where we would do our utmost not to co-operate in any way with the UK Government; that much would not be correct. There have been occasions when that co-operation has worked; there are occasions when the co-operation could be better as far as the UK Government is concerned. What I can say is that, through the hard work that we have put in as a Government, we have seen these excellent inward investment figures from yesterday—and he gave grudging approval to those investment figures. And it shows once again: you do not get investment into Wales if you sit down and do nothing. His party has a bad record in that regard. They opposed having anybody representing Wales abroad, they opposed having offices abroad, they opposed trade missions, and they opposed Ministers going to cities around the world to attract investment. That is not going to work in the modern day; you cannot expect people to come to you. We will continue to go out and do the hard yards and do the hard work that brings jobs into Wales.

Os edrychwch chi ar y City Deal, rydym yn fwy na pharod i weithio gyda Llywodraeth y DU ac, yn wir, yr awdurdodau lleol ar hynny, ond nid ydym yn gwybod eto beth y mae'n ei olygu; nid ydym yn gwybod faint o arian sydd ar y bwrdd, nid ydym yn gwybod pa ymrwymiad y gellid ei ddisgwyl gennym ni ac rydym yn aros i weld beth sy'n digwydd yn hynny o beth. Ond, yn sicr nid yw'n wir ein bod rywsut yn gweld ein hunain fel bod mewn sefyllfa lle byddem yn gwneud ein gorau glas i beidio â chydweithredu mewn unrhyw ffordd â Llywodraeth y DU; ni fyddai hynny yn gywir. Bu adegau pan mae'r cydweithio hwnnw wedi gweithio; mae adegau pan allai'r cydweithrediad wedi bod yn well cyn belled ag y mae Llywodraeth y DU yn y cwestiwn. Yr hyn y gallaf ei ddweud yw, trwy'r gwaith caled yr ydym ni wedi'i wneud fel Llywodraeth, rydym wedi gweld y ffigurau mewnfuddsoddi ardderchog o ddoe—a rhoddodd gymeradwyaeth grintachlyd i'r ffigurau buddsoddi hynny. Ac mae'n dangos unwaith eto: nid ydych yn cael buddsoddiad i Gymru os ydych yn eistedd i lawr a gwneud dim. Mae gan ei blaid record wael yn hynny o beth. Roeddent yn gwrthwynebu cael unrhyw un yn cynrychioli Cymru dramor, roeddent yn gwrthwynebu cael swyddfeydd dramor, roeddent yn gwrthwynebu teithiau masnach, ac roeddent yn gwrthwynebu Gweinidogion yn mynd i ddinasoedd ar draws y byd i ddenu buddsoddiad. Nid yw hynny'n mynd i weithio yn yr oes fodern; ni allwch ddisgwyl i bobl ddod atoch chi. Byddwn yn parhau i fynd allan a gwneud yr ymdrech galed a gwneud y gwaith caled sy'n dod â swyddi i Gymru.

15:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

Now, before we move to Stage 3 proceedings for the Qualifications Wales Bill, I will suspend proceedings for 10 minutes. The bell will be rung five minutes before we reconvene. There'll only be one bell, so I would encourage Members to return to the Chamber promptly, please.

Yn awr, cyn i ni symud i drafodion Cyfnod 3 ar gyfer y Bil Cymwysterau Cymru, byddaf yn atal trafodion am 10 munud. Bydd y gloch yn cael ei chanu bum munud cyn i ni ailymgynnull. Ni fydd ond un gloch, felly byddwn yn annog yr Aelodau i ddychwelyd i'r Siambr yn brydlon, os gwelwch yn dda.

*Ataliwyd y Cyfarfod Llawn am 15:30.*

*Plenary was suspended at 15:30.*

*Ailymgynullodd y Cynulliad am 15:40, gyda'r Dirprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.*

*The Assembly reconvened at 15:40, with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the Chair.*

15:40 **Y** Senedd.tv Fideo Video

## 4. Dadl Cyfnod 3 ar Fil Cymwysterau Cymru

## 4. Stage 3 Debate on the Qualifications Wales Bill

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Order. Order. The next item is the Stage 3 debate on the Qualifications Wales Bill.

Trefn. Trefn. Yr eitem nesaf yw dadl Cyfnod 3 ar Fil Cymwysterau Cymru.

**Grŵp 1: Tryloywder ac Atgyfnerthu Darpariaethau (Gwelliannau 36, 10, 11, 15, 16, 17, 18 a 29)**

**Group 1: Transparency and Strengthening of Provisions (Amendments 36, 10, 11, 15, 16, 17, 18 and 29)**

15:40 Senedd.tv Fideo Video

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The first group of amendments relates to transparency and strengthening of provisions. The lead amendment in this group is amendment 36. I call on the Minister to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r grŵp cyntaf o welliannau yn ymwneud â thryloywder ac atgyfnerthu darpariaethau. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 36. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 36 (Huw Lewis).*

*Amendment 36 (Huw Lewis) moved.*

15:40 Senedd.tv Fideo Video

### Huw Lewis Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Thank you, Deputy Presiding Officer. I continue to be grateful to the Children, Young People and Education Committee for the considered and constructive scrutiny that they have given to the Qualifications Wales Bill, both before and during its passage through the Assembly. The challenge, feedback and encouragement that the committee has provided has contributed towards making this Bill the best it could be. This contribution is particularly evident in this first group of amendments, which I recommend to the Assembly today. These amendments have, in the main, been introduced in response to matters raised by members of the committee at Stage 2. In combination, the amendments serve to provide greater transparency, for the benefit of the Assembly and stakeholders, in that they place duties upon Qualifications Wales or the Welsh Ministers to publish particular things and to make rules on applications.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy’n parhau i fod yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am eu craffu ystyriol ac adeiladol ar Fil Cymwysterau Cymru, cyn ac yn ystod ei daith drwy'r Cynulliad. Mae’r her, yr adborth a’r anogaeth gan y pwyllgor wedi cyfrannu tuag at wneud y Bil hwn y gorau y gallai fod. Mae'r cyfraniad hwn yn arbennig o amlwg yn y grŵp cyntaf o welliannau yr wyf yn eu hargymell i'r Cynulliad heddiw. Mae'r gwelliannau hyn, ar y cyfan, wedi eu cyflwyno mewn ymateb i faterion a godwyd gan aelodau'r pwyllgor yng Nghyfnod 2. Gyda'i gilydd, mae'r gwelliannau’n darparu mwy o dryloywder, er budd y Cynulliad a rhanddeiliaid, gan eu bod yn gosod dyletswyddau ar Gymwysterau Cymru neu Weinidogion Cymru i gyhoeddi pethau penodol ac i wneud rheolau ynglŷn â cheisiadau.

Amendment 36 places a duty on Welsh Ministers to publish any terms and conditions that are placed on any grants that the Welsh Ministers make to Qualifications Wales. Any grant allocation letter or framework document is likely to contain such terms and conditions, and I have already committed to publishing these documents. But, in light of concerns expressed at Stage 2, this amendment will strengthen transparency by requiring all grant terms and conditions made by the Welsh Ministers to be published, no matter what the form or document in which they appear.

Mae gwelliant 36 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi unrhyw delerau ac amodau sy'n cael eu gosod ar unrhyw grantiau y mae Gweinidogion Cymru yn eu gwneud i Gymwysterau Cymru. Mae unrhyw lythyr dyrannu grant neu ddogfen fframwaith yn debygol o gynnwys telerau ac amodau o'r fath, ac rwyf eisoes wedi ymrwymo i gyhoeddi’r dogfennau hyn. Ond, yng ngoleuni'r pryderon a fynegwyd yng Nghyfnod 2, bydd y gwelliant hwn yn cryfhau tryloywder trwy fynnu bod telerau ac amodau’r holl grantiau a wneir gan Weinidogion Cymru yn cael eu cyhoeddi, ni waeth ym mha ffurflen neu ddogfen y maent yn ymddangos.

In committee at Stage 2, the point was made that it might have been better if Qualifications Wales were required rather than simply permitted to make rules on applications for approval. This arose out of concern that awarding bodies applying for approval should know what they need to do to make an application. Whilst I would have thought it likely that Qualifications Wales would produce such rules at some point, if it has the power to do so, on reflection I see the benefit, particularly to awarding bodies, if Qualifications Wales is obliged to make such rules. I'm therefore proposing that rules should be made and published by Qualifications Wales in relation to the three main types of application that will be made by awarding bodies—that is, in respect of designation, approval and designation. Therefore, amendments 10 and 11 place a duty on Qualifications Wales to make and publish rules about the making of applications to it for recognition under Part 3 of the Bill.

Yn y pwyllgor yng Nghyfnod 2, gwnaed y pwynt y gallai fod yn well pe bai'n ofynnol i Gymwysterau Cymru wneud rheolau ynghylch ceisiadau am gymeradwyaeth yn hytrach na dim ond cael caniatâd i wneud hynny. Cododd hyn oherwydd pryder y dylai cyrff dyfarnu sy'n gwneud cais am gymeradwyaeth wybod beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwneud cais. Byddwn wedi meddwl ei bod yn debygol y byddai Cymwysterau Cymru'n paratoi rheolau o'r fath ar ryw adeg, os oes ganddo'r pŵer i wneud hynny, ond ar ôl myfyrio rwy'n gweld y budd, yn enwedig i gyrff dyfarnu, pe byddai'n rhaid i Gymwysterau Cymru wneud rheolau o'r fath. Felly, rwy'n cynnig y dylai Cymwysterau Cymru wneud a chyhoeddi rheolau ar gyfer y tri phrif fath o gais a wneir gan gyrff dyfarnu—hynny yw, o ran dynodiad, cymeradwyaeth a dynodiad. Felly, mae gwelliannau 10 ac 11 yn gosod dyletswydd ar Gymwysterau Cymru i wneud a chyhoeddi rheolau ynghylch gwneud ceisiadau am gydnabyddiaeth o dan Ran 3 o'r Bil.

Similarly, amendments 15 and 17 make it mandatory for Qualifications Wales to make and publish rules about the making of applications to it for the approval of qualifications under Part 4 of the Bill. And, as there is nothing currently in the Bill about rules on applications for designations, amendment 18 will insert a new section requiring Qualifications Wales to make and publish rules about applications for the designation of forms of qualifications under Part 5, and addressing what such rules may cover.

Yn yr un modd, mae gwelliannau 15 a 17 yn ei gwneud yn orfodol i Gymwysterau Cymru wneud a chyhoeddi rheolau ynghylch gwneud ceisiadau iddo am gymeradwyo cymwysterau o dan Ran 4 o'r Bil. A, gan nad oes unrhyw beth ar hyn o bryd yn y Bil ynghylch rheolau ar geisiadau am ddynodiadau, bydd gwelliant 18 yn mewnosod adran newydd i'w gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru wneud a chyhoeddi rheolau ynghylch ceisiadau ar gyfer dynodi mathau o gymwysterau o dan Ran 5, a mynd i'r afael â beth y gallai rheolau o'r fath eu cwmpasu.

Together, these amendments should serve to provide greater clarity to awarding bodies about applications for recognition under Part 3, for approval under Part 4, and for designation under Part 5.

Gyda'i gilydd, dylai'r gwelliannau hyn fod yn fodd i wneud y sefyllfa'n fwy eglur i gyrff ynghylch ceisiadau am gydnabyddiaeth o dan Ran 3, am gymeradwyaeth o dan Ran 4, ac am ddynodiad o dan Ran 5.

Amendment 16 provides that, in making the rules about applications for the approval of qualifications, Qualifications Wales may make rules that make different provision for different purposes. For example, there may be specific rules about applications for the approval of restricted priority qualifications that are different to those for non-restricted qualifications. This may be because, for example, additional information may be required to accompany such applications in order for Qualifications Wales to be assured that a form of restricted qualification is likely to be effective for meeting the needs of learners in Wales, given the absence of any alternative forms of that qualification.

Mae gwelliant 16 yn darparu y gall Cymwysterau Cymru, wrth wneud y rheolau ynglŷn â cheisiadau ar gyfer cymeradwyo cymwysterau, wneud rheolau sy'n gwneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol. Er enghraifft, efallai y bydd yn gwneud rheolau penodol ar gyfer ceisiadau i gymeradwyo cymwysterau blaenoriaethol cyfyngedig a rheolau gwahanol ar gyfer cymwysterau anghyfyngedig. Gall hyn fod, er enghraifft, oherwydd y bydd angen gwybodaeth ychwanegol i gyd-fynd â cheisiadau o'r fath er mwyn i Gymwysterau Cymru fod yn sicr bod math o gymhwyster cyfyngedig yn debygol o fod yn effeithiol ar gyfer diwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru, o ystyried nad oes unrhyw ffurfiau eraill o'r cymhwyster hwnnw ar gael.

Section 10 already allows the rules on applications for recognition to make different provision for different purposes, and amendment 18 includes equivalent provision in respect of applications for designation.

Mae adran 10 eisoes yn caniatáu i'r rheolau ar geisiadau am gydnabyddiaeth wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol, ac mae gwelliant 18 yn cynnwys darpariaeth gyfatebol ar gyfer ceisiadau am ddynodiad.

Finally, amendment 29 requires Qualifications Wales to publish any scheme of fees that it has prepared and had approved by Welsh Ministers, in order to be able to charge those fees. This was my intention, but it was not required in the Bill. I believe this amendment aids transparency in this case, which is particularly important for any awarding bodies that may be charged such fees. Indeed, in the case of all these amendments, I do not believe that I am materially increasing burdens on either the Welsh Ministers or Qualifications Wales, as it is likely that these actions would have been taken in any case. However, in the spirit of the regulatory principles that Qualifications Wales must itself follow, I am keen to ensure transparency, and this is usefully provided for, in law, through these amendments. I therefore urge Members to support amendments 36, 10, 11, 15, 16, 17, 18 and 29.

Yn olaf, mae gwelliant 29 yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru gyhoeddi unrhyw gynllun ffioedd y mae wedi'i baratoi ac sydd wedi cael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru, er mwyn gallu codi'r ffioedd hynny. Dyma oedd fy mwriad, ond nid oedd yn ofynnol yn y Bil. Rwy'n credu bod y gwelliant hwn yn helpu tryloywder yn yr achos hwn, sy'n arbennig o bwysig ar gyfer unrhyw gyrff dyfarnu y gellir codi ffioedd o'r fath arnynt. Yn wir, yn achos y gwelliannau hyn i gyd, nid wyf yn credu fy mod yn rhoi llawer mwy o faich ar Weinidogion Cymru na Chymwysterau Cymru, gan ei bod yn debygol y byddai'r camau hyn wedi cael eu cymryd beth bynnag. Fodd bynnag, yn ysbryd yr egwyddorion rheoleiddio y mae'n rhaid i Gymwysterau Cymru ei hun eu dilyn, rwy'n awyddus i sicrhau tryloywder, ac mae'r gwelliannau hyn yn darparu'n ddefnyddiol ar gyfer hyn, yn ôl y gyfraith,. Felly, rwy'n annog yr Aelodau i gefnogi gwelliannau 36, 10, 11, 15, 16, 17, 18 a 29.

15:45

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Until a few days before Stage 2 of this legislation, I'd have been quite happy to place on record that I thought that this was probably the best piece of legislation in terms of a functioning statute that we'd seen in this Assembly. Following the Government's amendments at Stage 2, I now have doubts as to whether it will completely achieve its policy objectives. However, I think this is still a pretty clearly-drafted legislative instrument, low on woolly concepts and with a limited number of Government actions deferred to regulation, with those regulations mainly subject to the affirmative procedure. Furthermore, amendments in this group, especially 10, 15 and 18, show that, where certain Qualifications Wales actions are not set out on the face of the Bill, the new body does not merely have the freedom to carry out those actions, but is under a duty to carry out those actions at some point. So, I thank the Minister for the amendments in this group, even though, perhaps, it would have been nice if you'd accepted some of the opposition ones at Stage 2 on the same point.

Tan ychydig ddyddiau cyn Cyfnod 2 y ddeddfwriaeth hon, byddwn wedi bod yn eithaf hapus i ddatgan yn gyhoeddus fy mod yn credu ei bod yn debygol mai hwn oedd y darn gorau o ddeddfwriaeth o ran statud gweithredol yr oeddem wedi'i weld yn y Cynulliad hwn. Yn dilyn gwelliannau'r Llywodraeth yng Nghyfnod 2, mae gennyf amheuon bellach a fydd yn llwyr gyflawni ei amcanion polisi. Er hynny, rwy'n credu bod hwn yn dal i fod yn offeryn deddfwriaethol sydd wedi'i ddrafftio'n eithaf eglur, heb fawr o gysyniadau gwlanog a gyda nifer cyfyngedig o gamau gweithredu'r Llywodraeth wedi'u trosglwyddo i reoliadau, â'r rheoliadau hynny yn bennaf yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol. Ar ben hynny, mae'r gwelliannau yn y grŵp hwn, yn enwedig 10, 15 a 18, yn dangos bod dyletswydd ar y corff newydd i gyflawni'r camau gweithredu penodol ar ryw adeg, yn hytrach na dim ond y rhyddid i wneud hynny, pan nad yw'r camau hynny wedi'u nodi ar wyneb y Bil. Felly, rwy'n diolch i'r Gweinidog am y gwelliannau yn y grŵp hwn, er, efallai, y byddai wedi bod yn braf pe byddech wedi derbyn rhai o rai'r wrthblaid yn ystod Cyfnod 2 ar yr un pwynt.

Mainly, though, anyone who is engaging with Qualifications Wales as a result of these amendments knows what they must do. I raise the point, Deputy Lywydd, to point out what I think is evidence of consideration being given to the difference between powers that a party must exercise and powers that it may exercise; the difference between secondary activity that is necessary for a Bill to work without being subject to challenge, and secondary activity that may just prove useful at some point to accommodate changing circumstances. It's a level of consideration that I would like to see demonstrated in all Bills when we look at the secondary powers of Ministers themselves, not just arm's-length bodies. I hope, by just raising the point here, Dirprwy Lywydd, in support of the amendments I mentioned, that Members will be alert to the same issue on other Bills going through the Assembly. Thank you.

Yn bennaf, fodd bynnag, mae unrhyw un sy'n ymwneud â Chymwysterau Cymru yn gwybod beth mae'n rhaid iddynt ei wneud o ganlyniad i'r gwelliannau hyn. Codaf y pwynt, Ddirprwy Lywydd, i dynnu sylw at yr hyn rwy'n meddwl sy'n dystiolaeth o roi ystyriaeth i'r gwahaniaeth rhwng pwerau y mae'n rhaid i barti eu harfer a phwerau y gall eu harfer; y gwahaniaeth rhwng gweithgaredd eilaidd sy'n angenrheidiol er mwyn i Fil weithio heb gael ei herio, a gweithgaredd eilaidd a all fod yn ddefnyddiol ar ryw adeg i ddarparu ar gyfer newid mewn amgylchiadau. Mae'n lefel o ystyriaeth yr hoffwn ei gweld yn cael ei dangos ym mhob Bil pan fyddwn yn edrych ar bwerau eilaidd Gweinidogion eu hunain, yn ogystal â rhai cyrff hyd braich. Rwy'n gobeithio, drwy ddim ond codi'r pwynt yma, Ddirprwy Lywydd, i gefnogi'r gwelliannau a grybwyllais, y bydd Aelodau'n effro i'r un mater wrth i Filiau eraill fynd drwy'r Cynulliad. Diolch yn fawr.

15:47 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Bydd Plaid Cymru yn cefnogi'r gwelliannau yn y grŵp hwn, ar wahân i welliant 18. Jest i esbonio, rwy'n credu bod Aelodau'r Cynulliad nad ydynt wedi bod yn rhan o waith y pwyllgor ar y Bil yma wedi gweld neu glywed, drwy'r hyn a oedd gan y Gweinidog i ddweud, pa mor gymhleth y gall y Bil yma fod, er fy mod i'n cytuno bod y Bil fel ag y mae, ar y cyfan, yn un clir iawn. Ond mae gyda chi sawl math o gymhwyster y bydd y corff newydd yn ymwneud ag ef. Mae gyda chi gymwysterau cyffredinol, wrth gwrs, mae gyda chi gymwysterau blaenoriaethol, gymwysterau blaenoriaethol cyfyngedig, ac, yng Nghyfnod 2 o'r Bil, fe gyflwynodd y Llywodraeth math newydd o gymhwyster, sef cymhwyster dynodedig. Fe wnawn ni drafod ychydig mwy ar yr agweddau hynny yn nes ymlaen, efallai, Ddirprwy Lywydd. Ond beth sy'n bwysig fan hyn yw ei bod hi'n glir, wrth ymwneud â'r gwahanol lefelau o gymhwyster, bod pawb yn gwybod beth yw'r gofyniad gan Cymwysterau Cymru, y corff newydd yma, beth mae'n mynd i lunio o ran ceisiadau, ac o ran y ffordd mae'n mynd i fod yn hygyrch ac yn agored ynglŷn â chyhoeddi gwybodaeth a grantiau, yn ogystal, yn y maes yna. Felly, rwy'n croesawu'r ffaith bod y Llywodraeth wedi symud i ymateb i rai o bryderon y pwyllgor ar y mater yma. Os pasir y gwelliannau hyn, bydd hi'n fwy eglur i bobl sy'n dymuno gweithio yn y maes yma yng Nghymru beth yw'r camau mae'n rhaid iddyn nhw eu dilyn er mwyn bod yn gorff sy'n cael ei gydnabod yn y sawl ffordd wahanol mae modd cael eich cydnabod o dan y Bil yma gan y corff newydd. Ond, yn benodol, bydd popeth yn fwy eglur yn sgil hynny.

Plaid Cymru will support the amendments in this group, with the exception of amendment 18. Just to explain, I think Assembly Members who haven't been part of the committee scrutiny of this Bill have seen or heard, through the Minister's comments, how complex this Bill can be, although I do agree that the Bill as it's currently drafted is, on the whole, very clear. But there are a number of different types of qualifications that this new body will be involved with. You have general qualifications, of course, you have priority qualifications, restricted priority qualifications, and, in Stage 2, the Government introduced a new kind of qualification, namely designated qualifications. We may come to some of those points a little later on, Deputy Presiding Officer. But what's important here is that it should be clear, in dealing with these different levels of qualifications, that everyone understands what the requirements are by Qualifications Wales, this new body, what they're going to put forward in terms of applications, and in terms of how they are going to be open and accessible in the publication of information and grants, too, in these areas. So, I do welcome the fact that the Government has moved to respond to some of the committee's concerns on this matter. If these amendments are carried, it will be clearer for people who wish to work in this area in Wales what steps they need to take in order to be a body that is recognised in the various different ways that recognition is available under this Bill by the new body. But, specifically, everything will be clear as a result of that.

Mae gwelliant 18 yn ymwneud â Rhan 5 o'r Bil, sef cyflwyno'r cysyniad newydd yma o gymwysterau wedi'u dynodi. Ers y cychwyn, mae Plaid Cymru wedi bod yn amheus iawn a oedd angen hynny ac, yn fwy penodol, pam nad oedd hynny'n rhan o drafodaethau ar y Bil cyn y Bil, yn y gwaith roedd yn cael ei wneud gan y pwyllgor cyn y Bil, ac yn y gwaith roedd y Llywodraeth wedi'i wneud hefyd. Mewn geiriau eraill, mae'n cyflwyno rhywbeth weddol newydd yn hwyr yn y dydd, ac felly rydym dal heb ein hargyhoeddi bod y gwaith hwnnw mewn digon o siâp i'w basio yn y Bil.

Amendment 18 relates to Part 5 of the Bill, which introduces these new designated qualifications. Since the outset, Plaid Cymru has been doubtful whether that was necessary, but, more specifically, as to why that wasn't part of the pre-legislative work on the Bill, and the work done by the committee before the Bill, and in the work that the Government too had done. In other words, it's introducing something relatively new late in the day, and therefore we remain unconvinced that that work is properly in place to be able to pass in the Bill.

15:50 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister.

Weinidog.

15:50 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I've nothing really further to add, Deputy Presiding Officer, except to recommend that Members accept these amendments.

Nid oes gennyf ddim arall i'w ychwanegu mewn gwirionedd, Ddirprwy Lywydd, heblaw argymell bod Aelodau'n derbyn y gwelliannau hyn.

15:50 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 36 be agreed. Does any Member object? Then amendment 36 is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 36. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna caiff gwelliant 36 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 36 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 36 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Grŵp 2: Prif Nodau Cymwysterau Cymru (Gwelliannau 2 a 45)

## Group 2: Principal Aims of Qualifications Wales (Amendments 2 and 45)

15:50

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The second group of amendments relates to the principal aims of Qualifications Wales. The lead amendment in this group is amendment 2. I call on the Minister to move and speak to the lead amendment and the other amendment in the group.

Mae'r ail grŵp o welliannau yn ymwneud â phrif amcanion Cymwysterau Cymru. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 2. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliant arall yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 2 (Huw Lewis).*

*Amendment 2 (Huw Lewis) moved.*

15:50

### Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Amendment 2 alters the emphasis of one of the matters to which Qualifications Wales must have regard in considering what is appropriate for the purpose of achieving its principal aims. When considering what are comparable qualifications under section 3(2)(f), Qualifications Wales must consider those awarded in Europe or, indeed, anywhere else. In this sense, what Qualifications Wales can do under this subsection would be unaltered, but the amendment gives particular emphasis to qualifications awarded in Europe, which, of course, includes those awarded in Wales and those awarded in the rest of the UK.

Mae gwelliant 2 yn newid pwyslais un o'r materion y mae'n rhaid i Gymwysterau Cymru eu hystyried wrth ystyried beth sy'n briodol at y diben o gyflawni ei brif amcanion. Wrth ystyried beth sy'n gymwysterau cyffelyb o dan adran 3 (2) (f), rhaid i Gymwysterau Cymru ystyried rhai a ddyfernir yn Ewrop, neu, yn wir, yn unrhyw le arall. Yn yr ystyr hwn, ni fyddai'r hyn y gall Cymwysterau Cymru ei wneud o dan yr is-adran hon yn newid, ond mae'r gwelliant yn rhoi pwyslais arbennig ar gymwysterau a ddyfernir yn Ewrop, sydd, wrth gwrs, yn cynnwys rhai a ddyfernir yng Nghymru a'r rhai a ddyfernir yng ngweddill y DU.

The amendment is made in response to the desire expressed in committee at Stage 2 to include reference to European frameworks within these matters. We discussed during committee that such frameworks can change, and I believe that this amendment provides a more lasting pointer that will steer Qualifications Wales to consider European frameworks when comparing qualifications in the context of considering levels of attainment. So, I urge Members to support amendment 2.

Mae'r gwelliant yn cael ei wneud mewn ymateb i'r awydd a fynegwyd yn y pwyllgor yng Nghyfnod 2 i gynnwys cyfeiriad at fframweithiau Ewropeaidd o fewn y materion hyn. Buom yn trafod yn ystod y pwyllgor y gall fframweithiau o'r fath newid, a chredaf fod y gwelliant hwn yn rhoi arwyddbost mwy parhaol a fydd yn llywio Cymwysterau Cymru i ystyried fframweithiau Ewropeaidd wrth gymharu cymwysterau yng nghyd-destun ystyried lefelau cyrhaeddiad. Felly, rwy'n annog yr Aelodau i gefnogi gwelliant 2.

Turning to amendment 45, introduced by Simon Thomas, this is similar to an amendment that was considered and rejected at Stage 2 seeking to include the promotion of parity of esteem between academic and vocational qualifications as one of the matters to which Qualifications Wales must have regard in considering what is appropriate for the purpose of achieving its principal aims. I presume the intention behind this amendment is that Qualifications Wales is to have regard to the desirability of promoting parity of esteem, rather than just to promoting parity of esteem. Now, I would like to be clear, for the record, that I fully support the underpinning philosophy that vocational qualifications are vitally important and that they should not, simply by dint of being labelled as 'vocational', be deemed to be of less worth than, for example, GCSEs or A-levels. It is, of course, essential that learners acquire the necessary skills, knowledge and understanding to equip them for the workplace as well as for life and for the next stage of learning.

Gan droi at welliant 45, a gyflwynwyd gan Simon Thomas, mae hwn yn debyg i welliant a gafodd ei ystyried a'i wrthod yng Nghyfnod 2. Nod hwnnw oedd sicrhau bod hyrwyddo parch cydradd rhwng cymwysterau academaidd a galwedigaethol yn un o'r materion y mae'n rhaid i Gymwysterau Cymru roi sylw iddo wrth ystyried beth sy'n briodol at y diben o gyflawni ei brif amcanion. Rwy'n cymryd mai'r bwriad y tu ôl i'r gwelliant hwn yw bod Cymwysterau Cymru'n rhoi sylw i'r ffaith ei bod yn ddymunol hyrwyddo parch cydradd, yn hytrach na dim ond hyrwyddo parch cydradd. Nawr, hoffwn fod yn glir, ar gyfer y cofnod, fy mod yn llwyr gefnogi'r athroniaeth sylfaenol bod cymwysterau galwedigaethol yn hanfodol bwysig ac na ddylid ystyried eu bod o lai o werth na TGAU neu Safon Uwch, er enghraifft, dim ond oherwydd iddynt gael eu labelu'n rhai 'galwedigaethol'. Mae'n hanfodol, wrth gwrs, bod dysgwyr yn ennill y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i'w paratoi ar gyfer y gweithle yn ogystal ag ar gyfer bywyd ac ar gyfer y cyfnod nesaf o ddysgu.

However, the Bill, deliberately, does not differentiate between academic and vocational qualifications. Indeed, I know that it is the view of many professionals in the field of qualifications, that the labels 'vocational' and 'academic' may in themselves be outdated and unhelpful and that it is more important to consider the purpose of qualifications and to ensure that each is fit for that purpose. That may well be the best route to determining the effectiveness of qualifications for meeting the needs of learners.

Fodd bynnag, nid yw'r Bil, yn fwriadol, yn gwahaniaethu rhwng cymwysterau academaidd a galwedigaethol. Yn wir, rwy'n gwybod bod llawer o weithwyr proffesiynol ym maes cymwysterau o'r farn y gall y labeli 'galwedigaethol' ac 'academaidd' ynddynt eu hunain fod yn hen ffasiwn ac yn ddi-fudd a'i bod hi'n bwysicach ystyried diben cymwysterau a sicrhau bod pob un yn addas at y diben hwnnw. Efallai mai dyna fyddai'r llwybr gorau i bennu a yw cymwysterau'n effeithiol o ran diwallu anghenion dysgwyr.

Within the Bill, Qualifications Wales's second principal aim makes it clear that it needs to act appropriately to promote public confidence in qualifications in Wales. This duty applies whether or not these qualifications are vocational or academic. Unless there is public confidence in qualifications in Wales, those qualifications cannot be deemed to be truly effective in meeting the needs of learners. It remains my view that enshrining such a provision in law could serve to continue any perceived disparity rather than address it. The Bill enables Qualifications Wales to address each qualification on its merits, as it considers appropriate, and this in my view should lead to a parity of esteem. I therefore recommend that amendment 45 is rejected.

O fewn y Bil, mae ail brif nod Cymwysterau Cymru'n ei gwneud yn glir bod angen iddo weithredu'n briodol er mwyn hyrwyddo hyder y cyhoedd mewn cymwysterau yng Nghymru. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol p'un a yw'r cymwysterau hyn yn rhai galwedigaethol neu'n rhai academaidd. Oni bai bod gan y cyhoedd hyder mewn cymwysterau yng Nghymru, ni ellir ystyried bod y cymwysterau hynny'n wirioneddol effeithiol o ran diwallu anghenion dysgwyr. Fy marn i o hyd yw y gallem barhau unrhyw anghyfartaledd ymddangosiadol yn hytrach na mynd i'r afael ag ef trwy ymgorffori darpariaeth o'r fath yn y gyfraith. Mae'r Bil yn galluogi Cymwysterau Cymru i ymdrin â phob cymhwyster yn ôl ei deilyngdod, fel yr ystyria'n briodol, a dylai hyn yn fy marn i arwain at barch cydradd. Argymhellaf felly fod gwelliant 45 yn cael ei wrthod.

15:54

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yn gyntaf oll, a gaf i ddelio â gwelliant 2 yn enw'r Gweinidog? Bydd Plaid Cymru yn cefnogi'r gwelliant hwnnw. Roeddem ni wedi cyflwyno gwelliant i'r un pwrpas yn y pwyllgor. Am ryw reswm, nid oedd y gwelliant yna'n dderbyniol i'r Gweinidog, ond mae wedi ffeindio ffurf ar eiriau sydd yn dderbyniol i'r Llywodraeth. Y prif beth, wrth gwrs, yw ei bod yn bwysig ein bod yn meincnodi ein cymwysterau ni yn fan hyn gyda'r hyn sy'n digwydd ar lefel Ewropeaidd, gan taw yn y fan yna yn aml iawn mae cymwysterau yn cael eu meincnodi, yn enwedig ym maes galwedigaethol, sydd yn fy arwain at fy ail bwynt, lle nad yw'r Gweinidog yn cytuno â mi, sef fy ngwelliant i—gwelliant 45—sydd yn ei gwneud yn glir y bydd gosod dyletswydd newydd yn y Bil i hyrwyddo parch cydradd i gymwysterau academaidd a chymwysterau galwedigaethol.

First of all, could I deal with amendment 2 in the name of the Minister? Plaid Cymru will be supporting that amendment. We had tabled an amendment to the same purpose in the committee. For some reason, that amendment wasn't acceptable to the Minister, but he has found a form of words that is acceptable to the Government. The main thing, of course, is that it is important that we do benchmark our qualifications here with what's happening at a European level, given that that's where qualifications are often benchmarked, particularly in the field of vocations, which leads me to the second point, where the Minister doesn't agree with me, namely my amendment 45, which says clearly that a new duty would be imposed in the Bill to promote parity of esteem for qualifications in the academic field and the vocational field.

Bwriad y gwelliant yma, a drafodwyd mewn pwyllgor ond a gollwyd trwy bleidlais fwrw'r Cadeirydd, ac felly rwyf yn meddwl ei fod yn bwysig i ddod ag ef yn ôl i'r Cyfarfod Llawn i bawb gael edrych ar yr egwyddor yma—. Rwyf wedi gwrando'n ofalus, wrth gwrs, ar beth sydd gan y Llywodraeth i'w ddweud, ond nid wyf yn meddwl mai dyma'r sefyllfa rŷm ni ynddi ar hyn o bryd. Y sefyllfa rŷm ni ynddi ar hyn o bryd yw nad oes digon o barch yn cael ei ddangos i'r llwybr galwedigaethol—parch y byddwn yn dymuno ei weld, a'r parch y mae polisi'r Llywodraeth yn dweud y dylid ei roi a'i ymarfer.

The aim of this amendment, which was discussed in the committee but lost because of the casting vote of the Chair, and therefore I think it's important to bring it back to Plenary for everyone to look at this principle—. I have listened carefully, of course, to what the Government has to say, but I don't think that this is the situation that we're in at present. The situation that we are in at present is that not enough respect is shown to the vocational pathway—the respect that we would like to see, and the respect that the Government's policy says should be given and practised.

Nid wyf i cweit yn siŵr—. Rwyf i wedi bod yn meddwl pam fod y Llywodraeth mor gyndyn i dderbyn, felly, gosod rhywbeth sy'n edrych tuag at, er enghraifft, cyfiawnder cymdeithasol ar wyneb y Bil. Rwy'n meddwl efallai mai goblygiadau cyllidol a buddsoddi sydd y tu ôl i'r gwelliant yma, o bosib. Os derbynnir y gwelliant mewn egwyddor, fe'i dderbynnir mewn egwyddor hefyd y dylid ariannu'r llwybr galwedigaethol yn yr un ffordd â'r llwybr academaidd. Rŷm ni wedi gweld, yn ystod trafodaethau'r gyllideb y flwyddyn ddiwethaf, nad dyna beth sy'n digwydd, i bob pwrpas, ac mae'r toriadau'n syrthio yn y sector addysg bellach tra bod y sector addysg uwch, i raddau, wedi'i amddiffyn trwy'r ffaith bod gennym bolisi ffioedd dysgu i fyfyrwyr, wrth gwrs, sy'n aros yn ei le trwy gydol y Cynulliad hwn. Mae gosod yr un fath o barch ar y llwybr galwedigaethol a'r llwybr academaidd, rwy'n credu, yn herio rhai o'r tybiaethau sydd gennym ynglŷn â'r llwybr y dylem ddymuno i'n pobl ifanc ei ddilyn, a hefyd y pwyslais rydym am roi yn ein system addysg ni ar y dewisiadau hynny.

I'm not quite sure—. I've been wondering why the Government is so reluctant, therefore, to accept setting something that looks towards social justice, for example, on the face of the Bill. I think maybe it's because there are financial obligations and investment implications due to this amendment, possibly. If this amendment is accepted in principle, it will be accepted in principle that the vocational pathway should be funded in the same way as the academic pathway. We've seen in budgetary discussions over the last year that that's not what happens to all intents and purposes, and the cuts fall in the FE sector while the higher education sector, to an extent, has been protected because of the fact that we have the tuition fees policy for students, of course, which stays in place throughout this Assembly term. Setting the same kind of parity of esteem for vocational and academic pathways does, I think, challenge does challenge some of our assumptions about the pathway that we would wish that our young people should follow, and also the emphasis we want to give in our education system on those decisions.

Fe allaf dderbyn, mewn egwyddor ac yn athronyddol, y dylid dileu'r gwahaniaeth yma rhwng yr academaidd a'r galwedigaethol, ac yn sicr oes statudol addysg. Ond y ffaith amdani yw, nid fel yna y mae'r byd yn gweld y peth ar hyn o bryd. Os ydym am barchu'r llwybr galwedigaethol yn fwy, os ydym am barchu prentisiaethau yn fwy, ac os ydym am barchu rhai o'r dewisiadau mae pobl ifanc yn eu gwneud i aros yn eu cymunedau ac i hyfforddi gyda chyflogwyr neu mewn coleg mewn ffordd sy'n ennill sgiliau uwch, ac uwch na hynny o bryd i'w gilydd—addysg uwch a gradd—fe ddylwn ni gydnabod y llwybr yna ar wyneb y Bil. Felly, dyna pam nad wyf yn ymddiheuro am ddod yn ôl â gwelliant sydd nid yn unig yn debyg i'r hyn a drafodwyd yn y pwyllgor, ond sydd â'r union un geiriad.

I can accept in principle and in philosophical terms that we should get rid of this difference between the vocational and the academic pathways, and certainly the statutory age of academia. But the fact is that that's not the way the world sees things now. If we want to provide the same esteem for the vocational option, if we want to respect apprenticeships more, and if we want to respect some of the options taken by young people to remain in their community and to undergo training with employers or in colleges in a way that gains them higher skills, and skills higher than that from time to time—higher education and a degree—then we should acknowledge that pathway on the face of the Bill. Therefore, I don't apologise for bringing back an amendment that is not only similar to what was discussed in committee but exactly the same.

15:57

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Do you wish to reply, Minister?

A ydych yn dymuno ymateb, Weinidog?

15:57

## Huw Lewis [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I would on this occasion, Deputy Presiding Officer. Thank you. I note Simon Thomas's comments in support of amendment 45 and I do understand entirely where he's coming from, and I share entirely his enthusiasm for where we need to be in terms of parity of esteem.

Hoffwn ar yr achlysur hwn, Ddirprwy Lywydd. Diolch yn fawr. Nodaf sylwadau Simon Thomas o blaid gwelliant 45 ac rwy'n deall ei safbwynt yn llwyr, ac rwy'n rhannu ei frwdfrydedd yn llwyr ynghylch lle mae angen inni fod o ran parch cydradd.

Vocational qualifications are vitally important, and learners who achieve them deserve to have their achievements fully valued. I would reiterate, however, that the principal aims of Qualifications Wales, as set out in the Bill, are already all-encompassing in terms of different types of qualifications, whether they are vocational or academic. I can assure Members that there is certainly no unwritten, nefarious financial purpose behind this; it is simply a difference of opinion in terms of the best legislative way of moving the agenda forward. Writing legislation is one thing; allocating budgets is something quite different.

Mae cymwysterau galwedigaethol yn hanfodol bwysig, ac mae dysgwyr sy'n eu cyflawni yn haeddu cael gwerthfawrogi'n llawn yr hyn maen nhw wedi'i gyflawni. Byddwn yn ailadrodd, fodd bynnag, bod prif nod Cymwysterau Cymru, fel y'i nodir yn y Bil, eisoes yn hollgynhwysol o ran gwahanol fathau o gymwysterau, p'un a ydynt yn alwedigaethol neu'n academaidd. Gallaf sicrhau Aelodau nad oes yn sicr unrhyw ddiben ariannol anysgrifenedig, drygionus tu ôl i hyn; nid yw'n ddim ond gwahaniaeth barn o ran y ffordd ddeddfwriaethol orau o symud yr agenda yn ei blaen. Mae ysgrifennu deddfwriaeth yn un peth; mae dyrannu cyllidebau yn rhywbeth hollol wahanol.

In time, Qualifications Wales may dispense with these labels altogether, perhaps, and it would indeed be a mark of success for Qualifications Wales if all regulated qualifications taken by learners in Wales were truly valued as being valid, meaningful and fit for purpose. I therefore continue to recommend that amendment 45 be rejected.

Ymhen amser, efallai y bydd Cymwysterau Cymru'n hepgor y labeli hyn yn gyfan gwbl, a byddai'n wir yn arwydd o lwyddiant i Gymwysterau Gymru pe byddai'r holl gymwysterau a reoleiddir y mae dysgwyr yng Nghymru'n eu dilyn yn cael eu gwir werthfawrogi fel rhai dilys, ystyrlon ac addas i'r diben. Felly, rwy'n parhau i argymell bod gwelliant 45 yn cael ei wrthod.

15:59

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 2 be agreed. Does any Member object? Therefore, amendment 2 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff gwelliant 2 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Amendment 2 agreed in accordance with Standing Order 12.36*

15:59

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Simon Thomas, amendment 45.

Simon Thomas, gwelliant 45.

*Cynigiwyd gwelliant 45 (Simon Thomas).*

*Amendment 45 (Simon Thomas) moved.*

15:59

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynnig.

Move.

15:59

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 45 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 24; there voted against 24. In accordance with the relevant Standing Order, I cast my vote against amendment 45, which consequently falls.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 45. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 24 o blaid; pleidleisiodd 24 yn erbyn. Yn unol â'r Rheol Sefydlog berthnasol, rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn gwelliant 45, sydd o ganlyniad yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 45: O blaid 24, Yn erbyn 24, Ymatal 0.*

*Amendment 45 not agreed: For 24, Against 24, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 45.

Result of the vote on amendment 45.

### Grŵp 3: Materion Drafftio a Diwygiadau Testunol (Gwelliannau 3, 37, 20, 24, 25, 27, 28, 30, 31, 33, 34 ac 1)

### Group 3: Drafting and Textual Matters (Amendments 3, 37, 20, 24, 25, 27, 28, 30, 31, 33, 34 and 1)

16:00

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The next group of amendments, group 3, relates to drafting and textual matters. The lead amendment in this group is amendment 3. I call on the Minister to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau, grŵp 3, yn ymwneud â materion drafftio a diwygiadau testunol. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 3. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 3 (Huw Lewis).*

*Amendment 3 (Huw Lewis) moved.*

16:00 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This group of amendments, as indicated by its title, consists of drafting corrections and textual matters, including those that arise out of amendments that were made at Stage 2. They improve the clarity and consistency within the Bill as drafted. I'll briefly outline each amendment.

Mae'r grŵp hwn o welliannau, fel y mae'r teitl y ei ddangos, yn ymwneud â chywiriadau drafftio a materion testunol, gan gynnwys y rhai sy'n codi o newidiadau a wnaed yng Nghyfnod 2. Maent yn gwneud y Bil fel y'i drafftiwyd yn fwy eglur a chyson. Fe wnaf amlinellu pob gwelliant yn gryno.

Amendments 1, 3, 25, 27, 30 and 34 simply correct the description of Part 4 of the Bill to more fully reflect its content following amendments made at Stage 2. Amendment 37 simply replaces the word 'revision' with 'variation' to ensure that terminology is consistent in Schedule 3. Amendment 20 replaces the term 'learning difficulties' with 'a learning difficulty' in order to make it clear that a learner does not have to have multiple learning difficulties in order for the courses taken by such a learner to be exempt from the restrictions on the funding of courses in section 33. This also provides consistency with section 56, in which it is explained what it means for a person to have a learning difficulty.

Yr oll y mae gwelliannau 1, 3, 25, 27, 30 a 34 yn ei wneud yw cywiro'r disgrifiad o Ran 4 y Bil i adlewyrchu ei gynnwys yn llawnach yn dilyn gwelliannau a wnaed yng Nghyfnod 2. Mae gwelliant 37 yn rhoi'r gair 'amrywio' yn lle 'diwygio' er mwyn sicrhau bod terminoleg yn gyson yn Atodlen 3. Mae gwelliant 20 yn rhoi'r term 'anhawster dysgu' yn lle 'anawsterau dysgu' er mwyn ei gwneud yn glir nad oes rhaid i ddysgwr fod â nifer o anawsterau dysgu er mwyn i'r cyrsiau a gymerir gan ddysgwr o'r fath gael eu heithrio rhag y cyfyngiadau ar gyllido cyrsiau yn adran 33. Mae hyn hefyd yn sicrhau cysondeb ag adran 56, sy'n egluro beth mae'n ei olygu i unigolyn fod ag anhawster dysgu.

Amendment 24 also addresses an existing inconsistency in replacing the term 'recognised body' with 'awarding body', so making subsection (4) of section 40 consistent with subsection (1). 'Awarding body' is the appropriate term so that Qualifications Wales can recover its costs of imposing a sanction on an awarding body from that body, even if the body is no longer recognised.

Mae gwelliant 24 hefyd yn rhoi sylw i anghysondeb presennol trwy roi'r term 'corff dyfarnu' yn lle 'corff cydnabyddedig', gan felly wneud is-adran (4) o adran 40 yn gyson ag is-adran (1). 'Corff dyfarnu' yw'r term priodol fel y gall Cymwysterau Cymru adennill gan gorff dyfarnu y costau y mae'n eu hwynebu o ganlyniad i osod sancsiwn ar y corff hwnnw, hyd yn oed os nad yw'r corff bellach yn un cydnabyddedig.

Amendments 28 and 31 change cross-references within the Bill, which do not work following an amendment made at Stage 2. Amendment 28 enables Qualifications Wales to charge for the exercise of its function of reviewing the award of designated qualifications, as well as its functions of reviewing the award of approved qualifications and other activities of recognised bodies.

Mae gwelliannau 28 a 31 yn newid croes-gyfeiriadau yn y Bil, gan nad ydynt yn gweithio yn dilyn gwelliant a wnaed yng Nghyfnod 2. Mae gwelliant 28 yn galluogi Cymwysterau Cymru i godi tâl am arfer ei swyddogaeth o adolygu dyfarniad cymwysterau sydd wedi'u dynodi, yn ogystal â'u swyddogaethau o adolygu dyfarniad cymwysterau a gymeradwywyd a gweithgareddau eraill cyrff cydnabyddedig.

Amendment 31 extends the requirement on Qualifications Wales to have regard to the principles in section 53(2) when carrying out its functions of reviewing the award of designated qualifications, as well as reviewing the award of approved qualifications and other activities of recognised bodies.

Mae gwelliant 31 yn ymestyn y gofyniad ar Gymwysterau Cymru i ystyried yr egwyddorion yn adran 53(2) wrth gyflawni ei swyddogaethau o adolygu dyfarniad cymwysterau sydd wedi'u dynodi, yn ogystal ag adolygu dyfarniad cymwysterau a gymeradwywyd a gweithgareddau eraill cyrff cydnabyddedig.

Amendment 33 allows for the term 'qualification', when used in the Bill, to have an alternative interpretation to that set out in section 55(1), where the contrary intention appears. Such an intention occurs at section 3(2)(f), where reference is made to 'comparable qualifications', which may be awarded outside Wales. Clearly it is the intent that comparable qualifications should not be limited to those that are awarded in Wales, which is part of the definition in section 55.

Mae gwelliant 33 yn caniatáu i'r term 'cymhwyster', pan gaiff ei ddefnyddio yn y Bil, fod â dehongliad gwahanol i'r hyn a nodir yn adran 55(1), lle mae'r bwriad i'r gwrthwyneb yn ymddangos. Mae bwriad o'r fath yn digwydd yn adran 3(2)(f), lle y cyfeirir at 'cymwysterau cyffelyb', y gellir eu dyfarnu tu allan i Gymru. Y bwriad yn amlwg yw na ddylai cymwysterau cyffelyb fod yn gyfyngedig i'r rhai sy'n cael eu dyfarnu yng Nghymru, sy'n rhan o'r diffiniad yn adran 55.

That completes the amendments in this group which, I trust Members will agree, tidy up the drafting of the Bill and provide appropriate clarification and consistency. So, I urge Members to support amendments 3, 37, 20, 24, 25, 27, 28, 30, 31, 33, 34 and 1.

Mae hynny'n cwblhau'r gwelliannau yn y grŵp hwn ac rwy'n hyderus y bydd yr Aelodau yn cytuno eu bod yn tacluso'r Bil ac yn rhoi testun eglur a chyson, fel sy'n briodol. Felly, rwy'n annog yr Aelodau i gefnogi gwelliannau 3, 37, 20, 24, 25, 27, 28, 30, 31, 33, 34 ac 1.

16:03 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. You've partly answered the one question that I had outstanding on this group in relation to amendment 31. You say that—and I'm just checking here—that the word 'qualification' is used in a way that is fully captured by section 55 except on one occasion, which I think you quoted as section 3(2)(f). Rather than introduce this amendment, did you consider changing the wording of section 3(2)(f) because I think that actually introducing this amendment causes a lack of clarity rather than the aim that you're hoping to achieve? I think that perhaps an amendment to section 3(2)(f) might have been a little more appropriate. Thank you.

Diolch yn fawr, Weinidog. Rydych chi wedi ateb yn rhannol yr un cwestiwn oedd gennyf i ar ôl ynglŷn â'r grŵp hwn, o ran gwelliant 31. Rydych chi'n dweud—a dim ond cadarnhau rydw i yma—bod y gair 'cymhwyster' yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n cael ei ddehongli'n llawn gan adran 55 ac eithrio ar un achlysur. Rwy'n credu eich bod wedi dyfynnu adran 3(2)(f). Yn hytrach na chyflwyno'r gwelliant hwn, a wnaethoch chi ystyried newid geiriad adran 3(2)(f) oherwydd eich bod mewn gwirionedd, rwy'n credu, yn achosi diffyg eglurder trwy gyflwyno'r gwelliant hwn, yn hytrach na'r nod yr ydych yn gobeithio ei gyflawni? Rwy'n credu efallai y gallai gwelliant i adran 3(2)(f) fod wedi bod ychydig yn fwy priodol. Diolch yn fawr.

16:04 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf yn meddwl, ar y cyfan, wrth gwrs, bod y gwelliannau hyn yn gwella'r ffordd y mae'r Bil yn cael ei ddarllen. Y rheswm pam rwyf am siarad yn fyr iawn ar y grŵp hwn yw bod dau o'r gwelliannau—gwelliannau 28 a 31, rwy'n credu—yn cyfeirio at y ffordd y cafodd y Bil ei wella mewn pwyllgor i gynnwys adran 5 ar yr adran newydd hon o gymhwyso cymwysterau yng Nghymru, sef i gael cymwysterau dynodedig.

I think, generally speaking, of course, that these amendments do improve the way that the Bill is read. The reason why I wanted to contribute very briefly on this group is that two of the amendments—amendments 28 and 31, I think—make reference to the way in which the Bill was amended at committee stage to include section 5 on this new section on the application of qualifications in Wales, namely to have designated qualifications.

Heb fynd dros holl hanes y Bil yma, i aelodau'r Cyfarfod Llawn i fod yn ymwybodol bod y Llywodraeth wedi cyflwyno'r math gwahanol o gymwysterau yn hwyr iawn yng Nghyfod 2 y Bil. Pwrpas gwneud hynny, yn ôl y Llywodraeth, oedd hwyluso'r broses o sefydlu Cymwysterau Cymru fel corff, ac hwyluso'r broses o Gymwysterau Cymru, yn y pen draw, yn dod yn gyfrifol am yr holl gymwysterau sy'n cael eu dyfarnu, mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, yng Nghymru. Felly, os liciwch chi, ffordd bragmataidd oedd hi o geisio didoli'r cymwysterau oedd i'w cael yng Nghymru, blaenoriaethu rhai a chadw rhai eraill mewn bocs o'r enw 'dynodedig' nes bod y Llywodraeth neu, yn benodol, Cymwysterau Cymru yn barod i fynd i'r afael â'r bocs yna.

Without going over all the history of the Bill, for Members in Plenary to be aware, the Government introduced this new kind of qualification very late on at Stage 2. The purpose of doing that, according to Government, was to facilitate the process of establishing Qualifications Wales as a body, and to facilitate the process of Qualifications Wales ultimately becoming responsible for all qualifications awarded, in one way or another, in Wales. So, if you like, it was a pragmatic approach to try to actually sort out the qualifications available in Wales, to prioritise some and to keep others in a box described as 'designated' until the Government or, more specifically, Qualifications Wales was ready to actually tackle that.

Y drafferth gyda hwn yw ei fod yn creu o leiaf ddwy haenen wahanol o gymwysterau yng Nghymru. Mae yna gymwysterau wedi eu cymeradwyo—'approved qualifications'—ac mae yna gymwysterau wedi eu dynodi—'designated qualifications'. Gan ein bod ni fel pwyllgor yn pryderu am rywbeth oedd wedi ei gyflwyno mor hwyr yn ystod y broses, fe wnaethon ni ailymgynghori ar ôl i'r Llywodraeth gyflwyno'r gwelliannau hyn, i weld a oedd yna bobl oedd yn rhannu'n pryderon ynglŷn a hyn. Roedd rhai, er enghraifft, y Federation of Awarding Bodies, yn teimlo efallai y gallai hyn greu dryswch. Un o rinweddau'r Bil fel yr oedd e oedd ei fod e mor glir, ac un o wendidau'r Bil fel y mae e nawr gerbron y Cynulliad yw bod yna beth dryswch, a Bil a oedd ar y dechrau yn edrych fel model o eglurder a model o gadernid.

The problem with this is that it creates at least two different tiers of qualifications in Wales. There are approved qualifications and designated qualifications. As we, as a committee, were concerned about something that was introduced so late into the process, we consulted again, after the Government introduced these amendments, to see if people shared our concerns about this. There were some, for example, the Federation of Awarding Bodies, who felt that perhaps this could create confusion. One of the merits of the Bill as it stood was that it was so clear, and one of the weaknesses of the Bill as it currently stands before the Assembly is that there is now some confusion, in a Bill that appeared to be a model of clarity at the outset.

Nid wyf yn dal wedi fy mherswadio'n llwyr bod angen y ddwy haenen yma o gymwysterau. Rwy'n dal i deimlo bod y Llywodraeth, os liciwch chi, yn bod yn rhy garcus, os gallwch chi fod yn rhy garcus gyda deddfwriaeth— mae'n debyg eich bod chi yn y cyd-destun hwn—a byddai'n well gen i pe na bai mathau gwahanol o gymwysterau'n cael eu creu, achos, yn y pen draw, er mwyn sicrhau cadernid a chred yn ein system cymwysterau ac arholiadau yma yng Nghymru, mae'n rhaid i ni gael system sydd â modd ei hyrwyddo a'i hysbysebu, ac y mae pobl yn credu ynddi, nid yn unig yng Nghymru, ond y tu hwnt i Gymru, mewn colegau, ac hefyd cyflogwyr yn Lloegr a drwy Ewrop a drwy'r byd yn wir. Mae unrhyw beth sy'n drysu neu'n cymylu'r darlun yna yn rhywbeth, rwy'n meddwl, y dylen ni fod yn wyliadwrus yn ei gylch. Felly, mae'r ddau welliant yma, er eu bod nhw, rwy'n cytuno, yn gwella'r Bil, yn gwella rhan o'r Bil nad ydw i'n llwyr yn ei chefnogi.

I'm still unconvinced that we need the two tiers of qualifications. I still feel that the Government is, if you like, being overly cautious, if you can be overly cautious with legislation—it appears that you can in this context—and I would prefer it if different kinds of qualifications were not being introduced because, ultimately, in order to ensure robustness and credibility in our qualifications and exam system in Wales, we have to have a system that can be promoted and advertised, and a system in which people have complete faith, not only in Wales, but beyond Wales, among colleges and also employers in England, throughout Europe and across the globe. Anything that muddies the waters in that regard is something that, I think, we should be very guarded about. Therefore, these two amendments, although I agree that they improve the Bill, they improve a part of the Bill that I do not fully support.

16:07

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister.

Weinidog.

16:07

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. It is a little disappointing to know that this Bill is now being regarded as being slightly lower than the angels in terms of its clarity, and for that I apologise, but, as in the passage of all legislation, I think that there are practicalities that must be squared up to. Suzy Davies is quite right that we could have thought about the option of changing 3(2)(f) and the wording there, but I believe that what I'm proposing today produces the same effect in any case. In terms of the arrival of designated qualifications, well, of course, this was had out at committee at some length. I sympathise entirely with Members who feel that such things were delivered late into the process, but it was a case, as I hope I made clear at the committee, of needs must and the practicalities of the situation, being faced with such a welter of qualifications, that Qualifications Wales would need this categorisation in order to make forward progress in such a complex and broad field of qualifications. So, I do recommend, once again, Deputy Presiding Officer, that these amendments as supported.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae braidd yn siomedig gwybod bod y Bil hwn bellach yn cael ei ystyried ychydig yn is na'r angylion o ran ei eglurder, ac rwy'n ymddiheuro am hynny, ond, fel yn hynt pob darn o ddeddfwriaeth, rwy'n meddwl bod rhaid wynebu rhai materion ymarferol. Mae Suzy Davies yn hollol iawn y gallem fod wedi meddwl am yr opsiwn o newid 3(2)(f) a'r geiriad yno, ond rwy'n credu bod yr hyn rwy'n ei gynnig heddiw yn cynhyrchu'r un effaith beth bynnag. O ran dyfodiad cymwysterau wedi'u dynodi, wel, wrth gwrs, cafodd hyn ei drafod yn y pwyllgor yn eithaf trylwyr. Rwy'n cydymdeimlo'n llwyr ag Aelodau sy'n teimlo bod pethau o'r fath wedi cael eu cyflwyno'n hwyr yn y broses, ond roedd yn fater o raid ac ymarferoldeb, fel imi ei wneud yn glir yn y pwyllgor, rwy'n gobeithio, yn wyneb y fath gymysgfa o gymwysterau, y byddai angen y categori hwn ar Gymwysterau Cymru er mwyn gallu symud ymlaen mewn maes mor gymhleth ac eang. Felly, rwy'n argymell, unwaith eto, Ddirprwy Lywydd, bod y gwelliannau hyn yn cael eu cefnogi.

16:09

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 3 be agreed. Does any Member object? Then amendment 3 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 3. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly caiff gwelliant 3 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 3 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

### Grŵp 4: Cydnabod Cyrff Dyfarnu (Gwelliannau 4, 5, 6, 7, 8 a 9)

### Group 4: Recognition of Awarding Bodies (Amendments 4, 5, 6, 7, 8 and 9)

16:09

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to group 4—amendments relating to recognition of awarding bodies. The lead amendment in this group is amendment 4. I call on the Minister to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Symudwn yn awr at grŵp 4—gwelliannau yn ymwneud â chydnabod cyrff dyfarnu. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 4. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 4 (Huw Lewis).*

*Amendment 4 (Huw Lewis) moved.*

16:09 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. This group of amendments all amend section 8 on general recognition of awarding bodies. Section 8 requires Qualifications Wales to consider applications for general recognition against the general recognition criteria. If the body meets those criteria, Qualifications Wales must recognise it; if it does not, Qualifications Wales has a discretion as to whether to recognise it. Most of these amendments relate to awarding bodies that are already recognised applying for their general recognition to cover qualifications in respect of which they are not generally recognised. This arises in light of amendments accepted at Stage 2 that enable awarding bodies to exempt some qualifications from general recognition and enable them to subsequently include the excluded qualifications within their general recognition.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae'r grŵp hwn o welliannau i gyd yn diwygio adran 8 ar gydnabod cyrff dyfarnu yn gyffredinol. Mae adran 8 yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru ystyried ceisiadau am gydnabyddiaeth gyffredinol o'u cymharu â'r meini prawf cydnabod cyffredinol. Os bydd y corff yn bodloni'r meini prawf hynny, mae'n rhaid i Gymwysterau Cymru ei gydnabod; os nad yw, mae gan Gymwysterau Cymru'r disgresiwn i'w gydnabod neu beidio. Mae'r rhan fwyaf o'r gwelliannau hyn yn ymwneud â chyrff dyfarnu sydd eisoes wedi'u cydnabod acc sy'n gwneud cais i'w cydnabyddiaeth gyffredinol gwmpasu cymwysterau nad ydynt yn cael eu cydnabod yn gyffredinol mewn perthynas â nhw. Mae hyn yn codi yng ngoleuni gwelliannau a dderbyniwyd yng Nghyfnod 2 sy'n galluogi cyrff dyfarnu i esemptio rhai cymwysterau o'u cydnabyddiaeth gyffredinol ac yn eu galluogi wedyn i gynnwys y cymwysterau sydd wedi eu hesemptio o fewn eu cydnabyddiaeth gyffredinol.

Amendment 4 is introduced to ensure that Qualifications Wales does not take into account, when considering an application for a general recognition, any non-compliance with the criteria to the extent that it relates to qualifications that the awarding body has chosen to exempt from its application for recognition. So, for example, if a body does not comply with a particular criterion, but its non-compliance is limited to qualifications that it has excluded from its application, then if the body otherwise meets the criteria, Qualifications Wales must recognise it. An example of such excluded qualifications might be qualifications that the awarding body has developed to meet the needs and requirements of a particular employer.

Mae gwelliant 4 yn cael ei gyflwyno i sicrhau nad yw Cymwysterau Cymru, wrth ystyried cais am gydnabyddiaeth gyffredinol, yn rhoi ystyriaeth i unrhyw achos o beidio â chydymffurfio â'r meini prawf i'r graddau y mae'n ymwneud â chymwysterau y mae'r corff dyfarnu wedi dewis eu hesemptio o'u cais am gydnabyddiaeth. Felly, er enghraifft, os nad yw corff yn cydymffurfio â maen prawf penodol, ond bod hynny wedi ei gyfyngu i gymwysterau y mae wedi eu hesemptio o'i gais, os bydd y corff yn bodloni'r meini prawf fel arall, rhaid i Gymwysterau Cymru ei gydnabod. Gallai enghraifft o gymwysterau o'r fath a gafodd eu heithrio gynnwys cymwysterau y mae'r corff dyfarnu wedi eu datblygu i ddiwallu anghenion a gofynion cyflogwr penodol.

Amendment 9 is to clarify that, if an awarding body has had its recognition in respect of some qualifications within general recognition withdrawn, or if it has surrendered such recognition, it is not generally recognised in respect of them. Where this has happened, amendment 6 enables the awarding body to apply for those qualifications to be brought within its recognition. This application would be made in the same way that a recognised body can apply for its general recognition to cover qualifications that it had excluded from its original recognition application. Where an awarding body does make such an application in either circumstance, amendment 7 allows the awarding body to specify certain qualifications that it wants to remain excluded from its recognition.

Diben gwelliant 9 yw egluro nad yw corff dyfarnu yn cael ei gydnabod yn gyffredinol mewn perthynas â chymwysterau, os bydd ei gydnabyddiaeth mewn perthynas â nhw o fewn cydnabyddiaeth gyffredinol wedi cael ei thynnu'n ôl, neu os yw wedi ildio cydnabyddiaeth o'r fath. Pan fo hyn wedi digwydd, mae gwelliant 6 yn galluogi'r corff dyfarnu i wneud cais i'r cymwysterau hynny gael eu dwyn o fewn ei gydnabyddiaeth. Byddai'r cais hwn yn cael ei wneud yn yr un ffordd ag y gall corff cydnabyddedig wneud cais i'w gydnabyddiaeth gyffredinol gwmpasu cymwysterau y mae wedi eu heithrio o'i gais gwreiddiol am gydnabyddiaeth. Pan fo corff dyfarnu yn gwneud cais o'r fath yn y naill amgylchiad neu'r llall, mae gwelliant 7 yn caniatáu i'r corff dyfarnu bennu cymwysterau penodol y mae am iddynt barhau i fod wedi'u heithrio o'i gydnabyddiaeth.

There are also a couple of textual clarifications in this group. Amendment 5 is simply a clarification that the category of recognition being referred to in subsection 7 is general recognition rather than specific recognition, which is covered in section 9. Amendment 8 is a textual refinement to improve consistency and to clarify that 'those' in section 8(9) refers to qualifications.

Mae'r grŵp hwn hefyd yn cynnwys un neu ddau eglurhad testunol. Mae gwelliant 5 yn egluro mai cydnabyddiaeth gyffredinol yw'r categori o gydnabyddiaeth y cyfeirir ato yn is-adran 7, yn hytrach na chydnabyddiaeth benodol, yr ymdrinnir â hi yn adran 9. Mireinio testunol yw gwelliant 8, er mwyn gwella cysondeb ac er mwyn egluro bod 'rheini' yn adran 8(9) yn cyfeirio at gymwysterau.

As Members will have noted, the amendments in this group provide clarification and make the provisions on general recognition more consistent and more coherent. So, I recommend that Members support these amendments.

Fel y bydd yr Aelodau wedi nodi, mae'r gwelliannau yn y grŵp hwn yn rhoi eglurhad ac yn gwneud y darpariaethau ar gydnabyddiaeth gyffredinol yn fwy cyson ac yn fwy cydlynol. Felly, rwy'n argymell y dylai'r Aelodau gefnogi'r gwelliannau hyn.

16:12 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I just wanted, in a way, to ask a question of the Minister around these. I think I understand what his purpose is, and support that. But, I wanted an assurance from him that, if we're in a situation where some kind of awarding body, if you like, got into trouble with part of its awards in, say, another country in the United Kingdom, and decided to, if you like, hive off and package that troublesome part of their work, and then applied for recognition here in Wales for other bits of work, my understanding of the Bill is that that would be legally possible. So, I wanted to understand what steps the new body would have, perhaps if there was a reputational risk allied with that awarding body, to nevertheless have the independence and the wherewithal to resist such an application, if it felt that accepting that application would in fact demean the overall good name of awarding bodies in Wales and the work of Qualifications Wales.

Roeddwn eisiau gofyn cwestiwn, mewn ffordd, i'r Gweinidog ynghylch y rhain. Rwy'n meddwl fy mod yn deall beth yw ei ddiben, ac rwy'n cefnogi hynny. Ond, rwyf am gael sicrwydd ganddo, os ydym mewn sefyllfa lle y byddai rhyw fath o gorff dyfarnu, os mynnwch chi, yn mynd i drafferthion gyda rhan o'i ddyfarniadau mewn gwlad arall yn y Deyrnas Unedig, dyweder, ac yn penderfynu, os mynnwch chi, dosrannu a phecynnu'r rhan drafferthus honno o'i waith, ac yna'n gwneud cais am gydnabyddiaeth yma yng Nghymru ar gyfer darnau eraill o waith, fy nealltwriaeth o'r Bil yw y byddai hynny'n bosibl yn gyfreithiol. Felly, rwy'n awyddus i ddeall pa gamau y gallai'r corff newydd eu cymryd, efallai pe byddai risg i enw da yn gysylltiedig â'r corff dyfarnu, i fod â'r annibyniaeth a'r modd i wrthsefyll cais o'r fath, pe byddai'n teimlo y byddai enw da cyffredinol cyrff dyfarnu yng Nghymru a gwaith Cymwysterau Cymru yn cael eu bychanu yn sgil derbyn y cais hwnnw.

16:13 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Simon Thomas is quite right: that kind of situation could pertain and it could, in fact, be an aspect of the reality of the workings of even the best awarding body. These things might happen in the future. I would refer, then, back to the overall—in the circumstances in which Simon Thomas refers—duty of Qualifications Wales to promote the quality and integrity of qualifications awarded in Wales. It would be within the remit of Qualifications Wales, if they felt there was a reputational risk that affected the integrity of a qualification on offer to a Welsh learner, to act appropriately.

Mae Simon Thomas yn llygad ei le: gallai'r math yna o sefyllfa godi a gallai, mewn gwirionedd, fod yn agwedd ar realiti gwaith hyd yn oed y corff dyfarnu gorau. Gallai'r pethau hyn ddigwydd yn y dyfodol. Byddwn yn cyfeirio, felly, yn ôl at ddyletswydd gyffredinol Cymwysterau Cymru —yn yr amgylchiadau y mae Simon Thomas yn cyfeirio atynt—i hyrwyddo ansawdd ac uniondeb y cymwysterau a ddyfernir yng Nghymru. Byddai o fewn cylch gorchwyl Cymwysterau Cymru i gymryd camau priodol, os yw'n teimlo bod risg i enw da a oedd yn effeithio ar uniondeb cymhwyster a oedd ar gael i ddysgwr yng Nghymru.

16:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 4 be agreed. Does any Member object? Then amendment 4 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 4. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly caiff gwelliant 4 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 4 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 5. You need to move.

Weinidog, gwelliant 5. Mae angen i chi gynnig.

*Cynigiwyd gwelliant 5 (Huw Lewis).*

*Amendment 5 (Huw Lewis) moved.*

16:14 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

16:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 5 be agreed. Does any Member object? Then amendment 5 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 5. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly caiff gwelliant 5 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 5 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 5 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 6.

Weinidog, gwelliant 6.

*Cynigiwyd gwelliant 6 (Huw Lewis).* *Amendment 6 (Huw Lewis) moved.*

16:15 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move. Rwy'n cynnig.

16:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 6 be agreed. Does any Member object? Then amendment 6 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 6. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly caiff gwelliant 6 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 6 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.* *Amendment 6 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 7. Weinidog, gwelliant 7.

*Cynigiwyd gwelliant 7 (Huw Lewis).* *Amendment 7 (Huw Lewis) moved.*

16:15 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move. Rwy'n cynnig.

16:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 7 be agreed. Does any Member object? Then amendment 7 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 7. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly caiff gwelliant 7 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 7 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.* *Amendment 7 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 8. Weinidog, gwelliant 8.

*Cynigiwyd gwelliant 8 (Huw Lewis).* *Amendment 8 (Huw Lewis) moved.*

16:15 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move. Rwy'n cynnig.

16:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 8 be agreed. Does any Member object? Then amendment 8 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 8. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly caiff gwelliant 8 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 8 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.* *Amendment 8 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 9. Weinidog, gwelliant 9.

*Cynigiwyd gwelliant 9 (Huw Lewis).* *Amendment 9 (Huw Lewis) moved.*

16:15 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move. Rwy'n cynnig.

16:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 9 be agreed. Does any Member object? Then amendment 9 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 9. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly caiff gwelliant 9 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 9 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 9 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 10.

Weinidog, gwelliant 10.

*Cynigiwyd gwelliant 10 (Huw Lewis).*

*Amendment 10 (Huw Lewis) moved.*

16:15 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Rwy'n cynnig.

16:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 10 be agreed. Does any Member object? Then amendment 10 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 10. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly caiff gwelliant 10 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 10 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 10 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 11.

Weinidog, gwelliant 11.

*Cynigiwyd gwelliant 11 (Huw Lewis).*

*Amendment 11 (Huw Lewis) moved.*

16:15 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Rwy'n cynnig.

16:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 11 be agreed. Does any Member object? Then amendment 11 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 11. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly caiff gwelliant 11 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 11 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 11 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:16 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 37.

Weinidog, gwelliant 37.

*Cynigiwyd gwelliant 37 (Huw Lewis).*

*Amendment 37 (Huw Lewis) moved.*

16:16 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

16:16 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 37 be agreed. Does any Member object? Then amendment 37 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 37. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly caiff gwelliant 37 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 37 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 37 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Grŵp 5: Dyfarnu Cymwysterau Cymeradwy (Gwelliannau 12, 13, 14, 19, 21, 22, 23 a 35)

## Group 5: Awarding of Approved Qualifications (Amendments 12, 13, 14, 19, 21, 22, 23 and 35)

16:16

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to group 5—amendments relating to the awarding of approved qualifications. The lead amendment in this group is amendment 12. I call on the Minister to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Symudwn at grŵp 5 nawr—gwelliannau'n ymwneud â dyfarnu cymwysterau cymeradwy. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 12. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 12 (Huw Lewis).*

*Amendment 12 (Huw Lewis) moved.*

16:16

### Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. This group of amendments refines the terminology to describe the award of forms of qualifications that have been approved by Qualifications Wales and, through the introduction of a requirement for such qualifications to be awarded with a unique reference number, further aids in identifying the awards of forms of qualifications that are not subject to Ofqual's conditions of recognition.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae'r grŵp hwn o welliannau'n mireinio'r derminoleg i ddisgrifio dyfarnu mathau o gymwysterau sydd wedi cael eu cymeradwyo gan Gymwysterau Cymru a, thrwy gyflwyno gofyniad i gymwysterau o'r fath gael eu dyfarnu gyda rhif cyfeirnod unigryw, cymhorthion pellach o ran nodi'r dyfarniadau o fathau o gymwysterau nad ydynt yn ddarostyngedig i amodau cydnabyddiaeth Ofqual.

Amendments 12 and 13 impose a duty on Qualifications Wales to impose a condition of approval for each qualification that it approves, which has the effect that the qualification must be awarded with a unique reference number in order to be a qualification awarded as approved in Wales. In practice, I would expect such a reference number to be generated by the qualifications database and to be used as a reference number in a range of circumstances, particularly, for example, on certificates. The requirement to use the reference number, which will only apply in relation to the award of the qualification as approved in Wales, will enable a clearer distinction to be made between those approved qualifications awarded in Wales under that number, which Ofqual cannot regulate through its conditions of recognition, and any similar qualifications that may be awarded elsewhere.

Mae gwelliannau 12 a 13 yn gosod dyletswydd ar Gymwysterau Cymru i osod amod o gymeradwyaeth ar gyfer pob cymhwyster y mae'n ei gymeradwyo, sy'n cael yr effaith bod yn rhaid dyfarnu'r cymhwyster gyda rhif cyfeirnod unigryw er mwyn bod yn gymhwyster a ddyfernir fel un a gymeradwyir yng Nghymru. Yn ymarferol, byddwn yn disgwyl i rif cyfeirnod o'r fath gael ei gynhyrchu gan y gronfa ddata cymwysterau ac i gael ei ddefnyddio fel rhif cyfeirnod dan amrywiaeth o amgylchiadau, yn benodol, er enghraifft, ar dystysgrifau. Bydd y gofyniad i ddefnyddio'r rhif cyfeirnod, a fydd yn gymwys dim ond o ran dyfarnu'r cymhwyster fel y'i cymeradwyir yng Nghymru, yn galluogi gwahaniaethu mwy eglur rhwng y cymwysterau cymeradwy hynny a ddyfarnwyd yng Nghymru o dan y rhif hwnnw, na all Ofqual eu rheoleiddio trwy ei amodau cydnabod, ac unrhyw gymwysterau tebyg a gaiff eu dyfarnu mewn mannau eraill.

Amendment 14 is a consequential textual amendment in the light of amendments 12 and 13. Amendment 35 inserts a reference in the definitions section to the meaning of a form of qualification awarded as approved in Wales, using the definition in amendment 13. Amendment 19 follows on from amendments 12, 13 and 35, and replaces the phrase in section 33,

Mae gwelliant 14 yn welliant testunol canlyniadol yng ngoleuni gwelliannau 12 a 13. Mae gwelliant 35 yn mewnosod cyfeiriad yn yr adran ddiffiniadau i ystyr ffurf ar gymhwyster a ddyfernir fel y'i cymeradwyir yng Nghymru, gan ddefnyddio'r diffiniad yng ngwelliant 13. Mae gwelliant 19 yn dilyn ymlaen o welliannau 12, 13 a 35, ac yn disodli'r ymadrodd yn adran 33,

'pursuant to the approval of that form of qualification under Part 4 for award in Wales',

'yn unol â chymeradwyaeth i'r ffurf honno ar y cymhwyster o dan Ran 4 at ddiben ei dyfarnu yng Nghymru',

with a reference to a qualification being awarded as an approved qualification, which I believe is clearer.

gyda chyfeiriad at ddyfarnu cymhwyster fel cymhwyster a gymeradwywyd, sy'n fwy eglur yn fy marn i.

As I've already mentioned, the definition of what is meant by 'awarded as approved' is provided by amendment 35. In effect, this means that a form of qualification that has been approved is considered to be awarded as an approved qualification when it is awarded in Wales with the unique reference number that is granted to it by Qualifications Wales.

Fel yr wyf wedi ei grybwyll eisoes, darperir diffiniad o'r hyn a olygir gan 'ddyfarnu fel cymhwyster a gymeradwywyd' gan welliant 35. I bob pwrpas, mae hyn yn golygu yr ystyrir bod ffurf ar gymhwyster a gymeradwywyd yn cael ei ddyfarnu fel cymhwyster a gymeradwywyd pan gaiff ei ddyfarnu yng Nghymru gyda'r rhif cyfeirnod unigryw a roddir iddo gan Gymwysterau Cymru.

Amendment 21 is similar to amendment 19, replacing the phrase,

Mae gwelliant 21 yn debyg i welliant 19, gan ddisodli'r ymadrodd,

'pursuant to its approval under Part 4'

'yn unol â chymeradwyaeth iddi o dan Ran 4'

with reference to a form of qualification being awarded as an approved qualification. In this context, its effect is to restrict Ofqual's conditions of recognition from applying to forms of qualifications that are awarded in Wales as approved, which means, as I say, under the unique reference number.

â chyfeiriad at ffurf ar gymhwyster sy'n cael ei ddyfarnu fel cymhwyster a gymeradwywyd. Yn y cyd-destun hwn, ei effaith yw cyfyngu ar amodau cydnabod Ofqual o fod yn gymwys i ffurfiau ar gymwysterau a ddyfernir yng Nghymru fel rhai a gymeradwywyd, sy'n golygu, fel y dywedais, o dan y rhif cyfeirnod unigryw.

Amendment 22 is consequential on amendment 21, as is amendment 23, which amends the text of the cross-reference to be inserted into the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009 to reflect these amendments.

Mae gwelliant 22 yn ganlyniadol i welliant 21, ac felly hefyd gwelliant 23, sy'n diwygio testun y croesgyfeiriad i'w fewnosod yn Neddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 i adlewyrchu'r gwelliannau hyn.

To conclude, this group of amendments, in a similar spirit to the amendments discussed earlier under group 1, combine to provide greater transparency in relation to the definition of a form of qualification being awarded pursuant to an approval, by replacing that terminology with references to the form of qualification being awarded as an approved qualification and defining that term. In particular, these amendments make it clearer when forms of qualifications that have been approved by Qualifications Wales would not be subject to regulation by Ofqual through its conditions of regulation. So, I recommend that Members accept amendments 12, 13, 14, 19, 21, 22, 23 and 35.

I gloi, mae'r grŵp hwn o welliannau, mewn ysbryd tebyg i'r gwelliannau a drafodwyd yn gynharach dan grŵp 1, yn cyfuno i gynnig mwy o dryloywder o ran y diffiniad o ffurf ar gymhwyster sy'n cael ei ddyfarnu'n unol â chymeradwyaeth, trwy ddisodli'r derminoleg honno gyda chyfeiriadau at y ffurf ar gymhwyster sy'n cael ei ddyfarnu fel cymhwyster cymeradwy a diffinio'r term hwnnw. Yn benodol, mae'r gwelliannau hyn yn ei gwneud yn fwy eglur pan na fyddai ffurfiau ar gymwysterau a gymeradwywyd gan Gymwysterau Cymru yn destun rheoleiddio gan Ofqual trwy ei amodau rheoleiddio. Felly, rwy'n argymell bod yr Aelodau yn derbyn gwelliannau 12, 13, 14, 19, 21, 22, 23 a 35.

16:20 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, thank you for that. I’ve just got a few observations on amendments 12 and 13 in this group, and then section 22 itself, which these amendments seek to enlarge upon. I’m still not entirely sure why an approval number is singled out for this special mention in amendment 13, but, as far as a condition of approval goes, I don’t have any particular objection to that. I am, however, interested in those ‘other conditions’ that Qualifications Wales may impose, which new subsection 1(b) speaks about, and which are dealt with, then, in the rest of section 22. Now, I’m sure that you’ll say that these other conditions, whatever they may be, are a matter for Qualifications Wales and that the requirements of section 53 mean that Qualifications Wales cannot do anything untoward with its freedom to introduce conditions. However, I see that section 21 gives Welsh Ministers a freedom as well: the freedom to specify minimum requirements to be met by any form of approved qualification. Any such minimum requirements must be met before approval, so these would be, in effect, Government-imposed conditions of approval, if you like. I certainly don’t disapprove of section 21, Minister, but I am curious as to why you think it’s necessary, when Qualifications Wales has very wide powers to determine conditions of approval are subject to those section 53 principles governing regulatory activities. Do you foresee using Welsh Ministers’ powers, Minister, under section 21?

Weinidog, diolch i chi am hynna. Mae gen i ychydig o sylwadau ar welliannau 12 a 13 yn y grŵp hwn, ac yna adran 22 ei hun, y mae’r gwelliannau hyn yn ceisio ymhelaethu arni. Nid wyf yn hollol siŵr o hyd pam mae rhif cymeradwyo’n cael y sylw arbennig hwn yng ngwelliant 13, ond, cyn belled ag y mae amod cymeradwyaeth yn y cwestiwn, nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad penodol i hynny. Fodd bynnag, mae gen i ddiddordeb yn yr 'amodau eraill' hynny y gallai Cymwysterau Cymru eu gorfodi, y mae is-adran newydd 1(b) yn siarad amdanynt, ac yr ymdrinnir â nhw, wedyn, yng ngweddill adran 22. Nawr, rwy'n siŵr y byddwch chi’n dweud bod yr amodau eraill hyn, beth bynnag y gallent fod, yn fater i Gymwysterau Cymru, a bod gofynion adran 53 yn golygu na all Cymwysterau Cymru wneud unrhyw beth amhriodol gyda’i ryddid i gyflwyno amodau. Fodd bynnag, rwy’n gweld bod adran 21 yn rhoi rhyddid i Weinidogion Cymru hefyd: y rhyddid i bennu gofynion sylfaenol i'w bodloni gan unrhyw ffurf ar gymhwyster cymeradwy. Mae’n rhaid bodloni unrhyw ofynion sylfaenol o'r fath cyn cymeradwyo, felly byddai’r rhain, i bob pwrpas, yn amodau cymeradwyo a orfodir gan y Llywodraeth, os mynnwch. Yn sicr, nid wyf yn anghymeradwyo adran 21, Weinidog, ond rwy’n chwilfrydig ynghylch pam yr ydych chi’n meddwl bod ei hangen, pan fo gan Gymwysterau Cymru bwerau eang iawn i ddyfarnu bod amodau cymeradwyo’n amodol ar yr egwyddorion adran 53 hynny sy'n llywodraethu gweithgareddau rheoleiddio. A ydych chi’n rhagweld y byddwch chi'n defnyddio pwerau Gweinidogion Cymru, Weinidog, o dan adran 21?

16:22 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Unwaith eto, dim ond cwestiwn, mewn ffordd, sydd gen i fan hyn i bawb gael deall yn well, rwy’n meddwl, yr ymwneud a fydd gan Gymwysterau Cymru ag Ofqual yn benodol—dyna le bydd y rhan fwyaf o’r gwaith yma, rwy’n meddwl, yn digwydd. Mae’r Gweinidog wedi cyfeirio at y ffaith bod y gwelliannau yn ei wneud yn gliriach na fydd gan Ofqual rôl i reoleiddio’r cymwysterau sydd wedi derbyn rhif yng Nghymru, i bob pwrpas. Ond, er nad yw ar wyneb y Bil, byddai’n fuddiol, rwy’n meddwl, i jest deall bach yn fwy gan y Gweinidog ynglŷn ag ym mha ffordd mae’n rhagweld y bydd Cymwysterau Cymru ac Ofqual yn cydweithio gyda’i gilydd er mwyn sicrhau bod y rhif cymhwyster priodol ar gael i bob cymhwyster. Mae’n swnio’n dechnegol iawn, ond, wrth gwrs, mae’n gallu gwneud byd o wahaniaeth pan rych chi’n ddysgwr o Gymru ac yn mynd â’ch cymwysterau o Gymru i geisio am swydd, dywedwch, yn Lloegr neu du hwnt, fod y rhif yn un sy’n cael ei gydnabod a’i adnabod gan y bobl sydd am eich derbyn chi fel dysgwr neu ddarpar weithiwr neu beth bynnag.

Once again, I only have a question here for everyone to understand better the involvement that Qualifications Wales will have with Ofqual specifically—that is where the majority of this work will happen, I think. The Minister has referred to the fact that the amendments make it clearer that Ofqual won’t have a role in regulating qualifications that have received a number in Wales, to all extents and purposes. But, even though it’s not on the face of the Bill, it would be beneficial, I think, to understand a little bit more from the Minister about in what way he foresees Qualifications Wales and Ofqual co-operating in order to ensure that an appropriate reference number will be available for every qualification. It sounds very technical, but, of course, it can make a world of difference when you are a learner from Wales and you take your qualification from Wales to try for a job in England, say, or beyond, that the reference number is one that is recognised by the people who want to accept you as a learner or a prospective worker or whatever.

16:23 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Suzy Davies anticipates my answer to her first question regarding ‘other conditions’. She’s quite right: that is a matter, as far as I would be concerned, for Qualifications Wales themselves as they develop their expertise, alongside a regime, obviously, of rigour, with the reputation of Welsh qualifications as part of their legal remit.

Mae Suzy Davies yn rhagweld fy ateb i'w chwestiwn cyntaf ynghylch 'amodau eraill'. Mae’n gwbl gywir: mater yw hwnnw, yn fy marn i, i Gymwysterau Cymru eu hunain wrth iddynt ddatblygu eu harbenigedd, ochr yn ochr â threfn, yn amlwg, o fanwl gywirdeb, gydag enw da cymwysterau yng Nghymru yn rhan o'u cylch gwaith cyfreithiol.

In terms of section 21, I think that's a necessary part of the system in terms of, really, the purpose of this legislation boiling down to the fact that Wales is to shift for itself when it comes to the oversight of our qualifications regime, and we are employing this independent body in order to make that a fair, open and transparent process. So, that mention in section 21 there would be a necessary part of the system and would be expected in any jurisdiction, I would have thought.

O ran adran 21, rwy'n credu bod honno'n rhan angenrheidiol o'r system o ran, mewn gwirionedd, y ffaith mai diben y ddeddfwriaeth hon yn ei hanfod yw y bydd Cymru'n symud drosti ei hun pan ddaw i oruchwylio ein trefn gymwysterau, ac rydym ni'n defnyddio'r corff annibynnol hwn er mwyn gwneud honno'n broses deg, agored a thryloyw. Felly, byddai'r cyfeiriad hwnnw yn adran 21 yn rhan angenrheidiol o'r system a byddai disgwyl amdano mewn unrhyw awdurdodaeth, byddwn yn tybio.

In terms of Simon Thomas's questions regarding Ofqual, well, of course, my officials have had regular discussions, which are ongoing, with Ofqual to consider issues raised by them about how the Bill would affect its functions, how it would be implemented, and so on, and I would envisage that Qualifications Wales would also liaise with Ofqual in relation to the regulation of awarding bodies and the qualifications they award, such as designated qualifications that may be awarded in both England and Wales. It is in everyone's interest, of course, to make sure that we have a system that works. It is also in everyone's interest that everyone, including Ofqual, is clear that the system in Wales is the system in Wales, and that their remit does not extend to Wales's jurisdiction. Having said that, of course, good co-operative co-working is an essential part of the landscape here, and we would all have a concern—and Qualifications Wales would have a concern—as to the portability of the qualifications of the young people of Wales, and that would be a prerequisite, really, for Qualifications Wales's endorsement of a particular qualification.

O ran cwestiynau Simon Thomas ynghylch Ofqual, wel, wrth gwrs, mae fy swyddogion wedi cael trafodaethau rheolaidd, sy'n parhau, gydag Ofqual i ystyried materion a godwyd ganddyn nhw ynghylch sut fyddai'r Bil yn effeithio ar ei swyddogaethau, sut fyddai'n cael ei roi ar waith, ac yn y blaen, a byddwn yn rhagweld y byddai Cymwysterau Cymru hefyd yn trafod ag Ofqual o ran rheoleiddio cyrff dyfarnu a'r cymwysterau maen nhw'n eu dyfarnu, fel cymwysterau dynodedig y gellir eu dyfarnu yng Nghymru a Lloegr. Mae o fudd i bawb, wrth gwrs, gwneud yn siŵr bod gennym system sy'n gweithio. Mae hefyd o fudd i bawb, gan gynnwys Ofqual, bod pawb yn eglur mai'r system yng Nghymru yw'r system yng Nghymru, ac nad yw eu cylch gwaith yn ymestyn i awdurdodaeth Cymru. Wedi dweud hynny, wrth gwrs, mae cydweithio cydweithredol da yn rhan hanfodol o'r dirwedd yma, a byddai pob un ohonom yn pryderu—a byddai Cymwysterau Cymru yn pryderu—o ran hygludedd cymwysterau pobl ifanc o Gymru, a byddai hynny'n rhagofyniad, a dweud y gwir, i gefnogaeth Cymwysterau Cymru i gymhwyster penodol.

16:25 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 12 be agreed. Does any Member object? Then amendment 12 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 12. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly derbynnir gwelliant 12.

*Derbyniwyd gwelliant 12 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 12 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:25 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 13.

Weinidog, gwelliant 13.

*Cynigiwyd gwelliant 13 (Huw Lewis).*

*Amendment 13 (Huw Lewis) moved.*

16:25 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move.

Rwy'n cynnig.

16:25 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 13 be agreed. Does any Member object? Then amendment 13 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 13. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly derbynnir gwelliant 13.

*Derbyniwyd gwelliant 13 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 13 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:25 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 14.

Weinidog, gwelliant 14.

*Cynigiwyd gwelliant 14 (Huw Lewis).*

*Amendment 14 (Huw Lewis) moved.*

16:25 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move.

Rwy'n cynnig.

16:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 14 be agreed. Does any Member object? Then amendment 14 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 14. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly derbynnir gwelliant 14.

*Derbyniwyd gwelliant 14 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 14 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 15.

Weinidog, gwelliant 15.

*Cynigiwyd gwelliant 15 (Huw Lewis).*

*Amendment 15 (Huw Lewis) moved.*

16:26 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move.

Rwy'n cynnig.

16:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 15 be agreed. Does any Member object? Then amendment 15 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 15. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly derbynnir gwelliant 15.

*Derbyniwyd gwelliant 15 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 15 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 16.

Weinidog, gwelliant 16.

*Cynigiwyd gwelliant 16 (Huw Lewis).*

*Amendment 16 (Huw Lewis) moved.*

16:26 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move.

Rwy'n cynnig.

16:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 16 be agreed. Does any Member object? Then amendment 16 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 16. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly derbynnir gwelliant 16.

*Derbyniwyd gwelliant 16 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 16 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 17.

Weinidog, gwelliant 17.

*Cynigiwyd gwelliant 17 (Huw Lewis).*

*Amendment 17 (Huw Lewis) moved.*

16:26 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move.

Rwy'n cynnig.

16:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 17 be agreed. Does any Member object? Then amendment 17 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 17. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly derbynnir gwelliant 17.

*Derbyniwyd gwelliant 17 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.* | *Amendment 17 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 18. | Weinidog, gwelliant 18.

*Cynigiwyd gwelliant 18 (Huw Lewis).* | *Amendment 18 (Huw Lewis) moved.*

16:26 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move. | Rwy'n cynnig.

16:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 18 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 39. There were no votes against. There were 9 abstentions. Therefore, amendment 18 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 18. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Byddwn yn cael pleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 39 o blaid. Ni chafwyd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Ymataliodd 9. Felly derbynnir gwelliant 18.

*Derbyniwyd gwelliant 18: O blaid 39, Yn erbyn 0, Ymatal 9.* | *Amendment 18 agreed: For 39, Against 0, Abstain 9.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 18 | Result of the vote on amendment 18

16:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 19. | Weinidog, gwelliant 19.

*Cynigiwyd gwelliant 19 (Huw Lewis).* | *Amendment 19 (Huw Lewis) moved.*

16:27 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move. | Rwy'n cynnig.

16:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 19 be agreed. Does any Member object? Then amendment 19 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 19. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly derbynnir gwelliant 19.

*Derbyniwyd gwelliant 19 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.* | *Amendment 19 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 20. | Weinidog, gwelliant 20.

*Cynigiwyd gwelliant 20 (Huw Lewis).* | *Amendment 20 (Huw Lewis) moved.*

16:27 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move. | Rwy'n cynnig.

16:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 20 be agreed. Does any Member object? Then amendment 20 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 20. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly derbynnir gwelliant 20.

*Derbyniwyd gwelliant 20 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.* | *Amendment 20 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 21.

Weinidog, gwelliant 21.

*Cynigiwyd gwelliant 21 (Huw Lewis).*

*Amendment 21 (Huw Lewis) moved.*

16:27 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Rwy'n cynnig.

16:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 21 be agreed. Does any Member object? Then amendment 21 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 21. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly derbynnir gwelliant 21.

*Derbyniwyd gwelliant 21 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 21 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 22.

Weinidog, gwelliant 22.

*Cynigiwyd gwelliant 22 (Huw Lewis).*

*Amendment 22 (Huw Lewis) moved.*

16:27 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Rwy'n cynnig.

16:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 22 be agreed. Does any Member object? Then amendment 22 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 22. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly derbynnir gwelliant 22.

*Derbyniwyd gwelliant 22 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 22 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 23.

Weinidog, gwelliant 23.

*Cynigiwyd gwelliant 23 (Huw Lewis).*

*Amendment 23 (Huw Lewis) moved.*

16:27 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Rwy'n cynnig.

16:28 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 23 be agreed. Does any Member object? Then amendment 23 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 23. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly derbynnir gwelliant 23.

*Derbyniwyd gwelliant 23 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 23 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:28 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 24.

Weinidog, gwelliant 24.

*Cynigiwyd gwelliant 24 (Huw Lewis).*

*Amendment 24 (Huw Lewis) moved.*

16:28 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Rwy'n cynnig.

16:28 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 24 be agreed. Does any Member object? Then amendment 24 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 24. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly derbynnir gwelliant 24.

*Derbyniwyd gwelliant 24 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 24 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Grŵp 6: Gweithgareddau Masnachol a Chodi Ffioedd (Gwelliannau 41, 42, 26 a 43)

## Group 6: Commercial Activities and Charging Fees (Amendments 41, 42, 26 and 43)

16:28 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to group 6, amendments relating to commercial activities and charging fees. The lead amendment in this group is amendment 41. I call on Suzy Davies to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Symudwn at grŵp 6 nawr, gwelliannau'n ymwneud â gweithgareddau masnachol a chodi ffioedd. Gwelliant 41 yw'r prif welliant yn y grŵp hwn. Galwaf ar Suzy Davies i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 41 (Suzy Davies).*

*Amendment 41 (Suzy Davies) moved.*

16:28 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch unwaith eto, Ddirprwy Lywydd.

Thank you once again, Deputy Presiding Officer.

I move amendment 41 in my name to debate this group of amendments on the commercial activities of Qualifications Wales. Could I thank the Minister for taking up the issues raised on this particular subject at Stage 2, and for offering amendment 26 as a potential resolution to those concerns?

Cynigiaf welliant 41 yn fy enw i er mwyn trafod y grŵp hwn o welliannau ar weithgareddau masnachol Cymwysterau Cymru. A gaf i ddiolch i'r Gweinidog am ymateb i'r materion a godwyd ar y pwnc penodol hwn yng Nghyfnod 2, ac am gynnig gwelliant 26 fel ateb posibl i'r pryderon hynny?

At Stage 2, in response to the Children, Young People and Education Committee's recommendation, I tabled an amendment aiming to alleviate concerns that, if Qualifications Wales were permitted to provide commercial services under what is now section 44, then it may encounter a conflict of interest advising awarding bodies which it then regulates and whose qualifications it may also approve. At that time, there was no requirement on the face of the Bill for anyone to draw up a protocol to prevent such conflict of interest or, indeed, the perception of that conflict of interest.

Yng Nghyfnod 2, mewn ymateb i argymhelliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, cyflwynais welliant sydd â'r nod o leddfu pryderon, pe caniatawyd i Gymwysterau Cymru ddarparu gwasanaethau masnachol o dan yr hyn sy'n adran 44 erbyn hyn, yna efallai y byddai'n wynebu gwrthdaro buddiannau wrth gynghori cyrff y mae wedyn yn eu rheoleiddio ac y gallai hefyd gymeradwyo ei gymwysterau. Ar y pryd, nid oedd unrhyw ofyniad ar wyneb y Bil i unrhyw un lunio protocol i atal gwrthdaro buddiannau o'r fath nac, yn wir, y dybiaeth o'r gwrthdaro buddiannau hwnnw.

Your response at the time, Minister, was that, as a public body, Qualifications Wales will already be bound by extensive principles of public and European law, and that this Bill does not therefore need to refer to those principles in order that they should apply.

Eich ymateb ar y pryd, Weinidog, oedd, fel corff cyhoeddus, y bydd Cymwysterau Cymru eisoes wedi ei rwymo gan egwyddorion helaeth cyfraith gyhoeddus ac Ewropeaidd, ac nad oes angen felly i'r Bil hwn gyfeirio at yr egwyddorion hynny er mwyn iddynt fod yn berthnasol.

In a Bill that, as I've said, is pretty good on clarity of purpose and action, a Bill that has specifically introduced section 53 principles to which Qualifications Wales must adhere in its regulatory activities, it is completely inconsistent to say, when it comes to a consideration of its commercial activities, that it is just fine for Qualifications Wales to be bound by unspecified random principles.

Mewn Bil sydd, fel yr wyf wedi dweud, yn eithaf da o ran eglurder pwrpas a gweithredu, Bil sydd wedi cyflwyno'n benodol egwyddorion adran 53 y mae'n rhaid i Gymwysterau Cymru gydymffurfio â nhw yn ei weithgareddau rheoleiddio, mae'n gwbl anghyson dweud, pan fydd yn dod i ystyried ei weithgareddau masnachol, ei bod yn gwbl iawn i Gymwysterau Cymru gael ei rwymo gan hap-egwyddorion amhenodol.

Amendment 42 has been tabled to provide an amendment that would meet the argument that you yourself put forward at Stage 2, Minister, namely that a protocol by Welsh Ministers might conceivably simply require that Qualifications Wales adhere to the principles of public and European law. But amendment 42 was also tabled to highlight the problem with your answer, which is why I've now cast this as a probing amendment. In considering how to draft amendment 42, I found that I was in no position at all to articulate the list of extensive principles of public or European law to which you were referring, and which Qualifications Wales, too, would be expected to second guess. So, I think your Stage 2 response, Minister, has actually underlined the need for a protocol referring directly to the principles you have in mind and how their observance would explicitly prevent a conflict of interest.

Now, at Stage 2, I said that I was comfortable with Qualifications Wales, as an arm's-length body, devising any such protocol itself, and we agreed on that narrow point at that time. I'm assuming that is what you've hoped to cover with amendment 26—your change to section 46. Apart from the point that a 'policy statement', which is what section 46 talks about, is something less than protocol rules to which bodies must adhere, I have thought about this a bit further, and I've actually changed my mind about who should be responsible for bringing in such a protocol. My original amendment said Welsh Government, but I wasn't really concerned whether it was Qualifications Wales. But amendment 41 states that this amendment should be devised by Welsh Ministers for a reason.

Qualifications Wales might well be better placed to know about any potential scope for conflicts of interest in light of any proposed activities, but a principal aim of this legislation is to promote public confidence in the Welsh qualifications system. And, to help Qualifications Wales achieve that, it is better for Qualifications Wales itself to avoid being responsible for devising the rules that protect it from accusations of commercial conflict of interest. You could even argue that asking them to do it is, in of itself, a conflict of interest.

There is an alternative, which I put to you at Stage 2—that Qualifications Wales could introduce a protocol approved by Welsh Ministers, in much the same way that section 46 allows that position to take place with the charging scheme. But, as you didn't really address that argument then, I've tabled amendment 41 in the terms that I have.

To protect public confidence, you reserve the power, in section 21, to introduce some minimum requirements for approving qualifications. I think, albeit via a duty, that you need to do the same for avoiding commercial conflicts of interests, and for the same reason.

Cyflwynwyd gwelliant 42 i ddarparu gwelliant a fyddai'n ymateb i'r ddadl i chi eich hun ei gwneud yng Nghyfnod 2, Weinidog, sef ei bod yn bosibl y gallai protocol gan Weinidogion Cymru ddim ond ei gwneud yn ofynnol bod Cymwysterau Cymru'n cydymffurfio ag egwyddorion cyfraith gyhoeddus ac Ewropeaidd. Ond cyflwynwyd gwelliant 42 hefyd i dynnu sylw at y broblem gyda'ch ateb, a dyna pam rwyf wedi cyflwyno hwn fel gwelliant procio erbyn hyn. Wrth ystyried sut i ddrafftio gwelliant 42, canfûm nad oeddwn mewn unrhyw sefyllfa o gwbl i gyfleu'r rhestr o egwyddorion cyfraith gyhoeddus neu Ewropeaidd helaeth yr oeddech yn cyfeirio atynt, ac y byddai disgwyl i Gymwysterau Cymru, hefyd, eu hail-ddyfalu. Felly, rwy'n meddwl bod eich ymateb Cyfnod 2, Weinidog, wedi pwysleisio'r angen am brotocol sy'n cyfeirio'n uniongyrchol at yr egwyddorion sydd gennych chi mewn golwg a sut y byddai cydymffurfio â nhw yn atal gwrthdaro buddiannau yn bendant.

Nawr, yng Nghyfnod 2, dywedais fy mod i'n gyfforddus gyda Chymwysterau Cymru, fel corff hyd braich, yn creu unrhyw brotocol o'r fath ei hun, ac roeddem ni'n cytuno ar y pwynt cul hwnnw ar y pryd. Rwy'n tybio mai dyna rydych chi wedi gobeithio ei ddatrys trwy welliant 26—eich newid i adran 46. Ar wahân i'r pwynt bod 'datganiad polisi', sef yr hyn y mae adran 46 yn sôn amdano, yn rhywbeth llai na rheolau protocol y mae'n rhaid i gyrff gydymffurfio â nhw, rwyf wedi meddwl am hyn ychydig ymhellach, ac rwyf wedi newid fy meddwl mewn gwirionedd ynghylch pwy ddylai fod yn gyfrifol am gyflwyno protocol o'r fath. Roedd fy ngwelliant gwreiddiol yn dweud Llywodraeth Cymru, ond nid oeddwn yn bryderus iawn o ba un ai Cymwysterau Cymru ydoedd. Ond mae gwelliant 41 yn nodi y dylai'r gwelliant hwn gael ei greu gan Weinidogion Cymru am reswm.

Efallai'n wir fod Cymwysterau Cymru mewn sefyllfa well i wybod am unrhyw bosibilrwydd o wrthdaro buddiannau yng ngoleuni unrhyw weithgareddau arfaethedig, ond un o brif nodau'r ddeddfwriaeth hon yw hybu hyder y cyhoedd yn system cymwysterau Cymru. Ac, i helpu Cymwysterau Cymru i gyflawni hynny, mae'n well i Gymwysterau Cymru ei hun osgoi bod yn gyfrifol am lunio rheolau sy'n ei amddiffyn rhag cyhuddiadau o wrthdaro buddiannau masnachol. Gallech hyd yn oed ddadlau bod gofyn iddyn nhw wneud hynny, ynddo'i hun, yn wrthdaro buddiannau.

Ceir dewis arall, a gynigais i chi yng Nghyfnod 2—y gallai Cymwysterau Cymru gyflwyno protocol a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru, yn yr un modd ag y mae adran 46 yn caniatáu i'r sefyllfa honno ddigwydd gyda'r cynllun codi tâl. Ond, gan na wnaethoch chi wir fynd i'r afael â'r ddadl honno bryd hynny, rwyf wedi cyflwyno gwelliant 41 yn y termau sydd gennyf.

I amddiffyn hyder y cyhoedd, rydych yn cadw'r pŵer, yn adran 21, i gyflwyno rhai gofynion sylfaenol ar gyfer cymeradwyo cymwysterau. Rwy'n meddwl, er bod hynny drwy ddyletswydd, bod angen i chi wneud yr un peth ar gyfer osgoi gwrthdaro buddiannau masnachol, ac am yr un rheswm.

Amendment 43 is tabled to meet a concern raised by the Children, Young People and Education Committee regarding Qualifications Wales's charging intentions. Charges may be made only for certain activities set out on the face of the Bill via a scheme—a scheme that, as I've said, must be signed off by Welsh Ministers. It's a rare Government intervention into this Qualifications Wales territory; I think that's worth noting. The committee did hear some evidence that some qualification providers might be deterred from offering certain qualifications because the size of likely take-up would be small compared to the cost of getting approved status. While, Minister, you have said that you think that Qualifications Wales has a duty to review its role—or at least the role that it plays within the qualifications system in Wales—I don't think that that duty in the Bill as it currently stands speaks sufficiently specifically to reviewing the charging scheme. I suspect that, once the scheme had had sign off from Welsh Ministers, really it wouldn't get much ongoing attention after that, hence the need to make the consequences of particular charges a statutory consideration for the charging scheme right at the outset. Thank you.

Mae gwelliant 43 yn cael ei gyflwyno i ymateb i bryder a godwyd gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch bwriadau newidiol Cymwysterau Cymru. Gellir codi tâl dim ond am rai gweithgareddau a nodir ar wyneb y Bil trwy gynllun—cynllun y mae'n rhaid, fel rwyf wedi dweud, i Weinidogion Cymru ei gadarnhau. Mae'n ymyriad prin gan y Llywodraeth i'r diriogaeth Cymwysterau Cymru hon; rwy'n credu bod hynny'n werth ei nodi. Clywodd y pwyllgor rywfaint o dystiolaeth y gallai rhai darparwyr cymwysterau gael eu hatal rhag cynnig cymwysterau penodol gan y byddai'r niferoedd sy'n debygol o'u dilyn yn fach o'u cymharu â'r gost o gael statws cymeradwy. Er, Weinidog, eich bod wedi dweud eich bod yn credu bod gan Gymwysterau Cymru ddyletswydd i adolygu ei swyddogaeth—neu o leiaf y swyddogaeth y mae'n ei chyflawni yn y system cymwysterau yng Nghymru—nid wyf yn credu bod y ddyletswydd honno yn y Bil fel y mae ar hyn o bryd yn sôn yn ddigon penodol am adolygu'r cynllun codi tâl. Rwy'n amau, wedi i'r cynllun gael ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru, na fyddai'n cael llawer o sylw parhaus ar ôl hynny mewn gwirionedd, a dyna pam mae angen gwneud canlyniadau taliadau penodol yn ystyriaeth statudol i'r cynllun codi tâl o'r cychwyn cyntaf. Diolch yn fawr.

16:34

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yn syml iawn, mae'r ffaith bod y Llywodraeth ei hunan wedi cyflwyno gwelliant 26 yn y grŵp yma yn dangos bod angen rhywfaint o fanylder ar wyneb y Bil ynglŷn â'r ffordd y byddai Cymwysterau Cymru yn gallu codi arian ar gyfer eu gweithgareddau masnachol. A chyd-destun hwn, wrth gwrs, yw ein bod ni am weld Cymwysterau Cymru yn dod yn un o'r cyrff sy'n cael eu cydnabod drwy Ewrop a'r byd fel cyrff sydd yn annibynnol, sydd yn seilio eu gwaith ar dystiolaeth, sydd yn ymchwilio'n drwyadl i gymwysterau, ac sydd yn arwain y ffordd, ac felly sydd am rannu profiad a gwybodaeth gyda chyrff eraill ac efallai codi arian am hynny. Mae'n gwbl briodol bod Cymwysterau Cymru yn gwneud hynny. Ond mae hefyd yn briodol ein bod ni'n gofyn, ar wyneb y Bil, am ryw fath o ddealltwriaeth ynglŷn â'r camau a fydd yn cael eu cymryd os bydd hynny'n digwydd. Mae Suzy Davies wedi awgrymu nifer o welliannau yn y cyd-destun yna. Byddwn i'n hapus i'w cefnogi nhw—ai peidio, a dweud y gwir, achos mae gwelliant gan y Llywodraeth hefyd. Beth sy'n bwysig, rwy'n meddwl, yw ein bod ni'n clywed gan y Gweinidog ac yn deall ar y cofnod beth yw bwriadau'r Llywodraeth yn y cyd-destun yma, ac ym mha ffordd—achos bydd rhaid cael rhyw fath o brotocol—felly, y mae'r Llywodraeth yn rhagweld y bydd protocol fel hyn yn cael ei ddatblygu os nad yw'n cael ei fanylu arno ar wyneb y Bil.

Quite simply, the fact that the Government itself has introduced amendment 26 in this group does show that there is a need for some detail on the face of the Bill in terms of the way in which Qualifications Wales could charge for its commercial activities. And the context to all of this, of course, is that we want to see Qualifications Wales becoming one of the bodies recognised across Europe and globally as independent bodies that base their work on evidence, that carry out thorough research into qualifications, and that are in the vanguard and therefore want to share their experiences and information with other bodies and perhaps charge for that. It is entirely proper that Qualifications Wales should do that. But it is also appropriate that we should ask for some understanding, on the face of the Bill, as to what steps will be taken if that were to happen. Suzy Davies has suggested a number of amendments in that context. I'd be happy to support them—or otherwise, to be honest, because the Government also has an amendment. What's important, I think, is that we hear from the Minister and understand on the record what the Government's intentions are in this context, and how—because there will have to be some sort of protocol—therefore, the Government anticipates that a protocol of this kind would be developed if isn't detailed on the face of the Bill.

16:35

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on the Minister.

Galwaf ar y Gweinidog.

16:35 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I've acknowledged before, and I acknowledge again today, the concerns raised during committee, and here this afternoon, that Qualifications Wales should not place itself in a position where there is a conflict of interest in relation to the provision of commercial services. However, in relation to amendment 41, proposed by Suzy Davies, there is a potential ambiguity as to whether the desired effect is to have one generally applicable protocol, or whether a new protocol is required each time Qualifications Wales engages in a commercial activity. But either way, I believe that Qualifications Wales, rather than the Welsh Ministers, would be best placed to spot and address such conflicts of interest.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwyf wedi cydnabod o'r blaen, ac rwy'n cydnabod eto heddiw, y pryderon a godwyd yn ystod y pwyllgor, ac yma y prynhawn yma, na ddylai Cymwysterau Cymru roi ei hun mewn sefyllfa lle ceir gwrthdaro buddiannau o ran darparu gwasanaethau masnachol. Fodd bynnag, o ran gwelliant 41, a gynigiwyd gan Suzy Davies, ceir amwysedd posibl ynghylch pa un ai'r effaith ddymunol yw cael un protocol sy'n berthnasol yn gyffredinol, neu a oes angen protocol newydd bob tro mae Cymwysterau Cymru'n cymryd rhan mewn gweithgaredd masnachol. Ond y naill ffordd neu'r llall, rwy'n credu mai Cymwysterau Cymru, yn hytrach na Gweinidogion Cymru, fyddai yn y sefyllfa orau i nodi a mynd i'r afael â gwrthdaro buddiannau o'r fath.

In light of the discussion at Stage 2, I have made provision, as both Simon Thomas and Suzy Davies have mentioned, in amendment 26, to require Qualifications Wales to publish a statement of its policy regarding the exercise of its function of undertaking commercial activities, so that the policy is publicly available, so that interested people can access, understand and, should they wish, question, Qualifications Wales's position. I would envisage that this policy statement would be likely to cover such matters as its intentions regarding whether and when to undertake commercial activities, the types of commercial activities it might undertake and how the distinction will be drawn between Qualifications Wales's regulatory responsibilities and any commercial activities it undertakes. Qualifications Wales, as a public body, will need to consider any potential or actual conflicts of interest that may arise. I therefore continue to recommend that Members reject amendment 41 and support amendment 26.

Yn sgil y drafodaeth yng Nghyfnod 2, rwyf wedi gwneud darpariaeth, fel y mae Simon Thomas a Suzy Davies wedi sôn, yng ngwelliant 26, i'w gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru gyhoeddi datganiad o'i bolisi o ran arfer ei swyddogaeth o ymgymryd â gweithgareddau masnachol, fel bod y polisi ar gael i'r cyhoedd, fel y gall pobl sydd â diddordeb ddarganfod, deall a, pe dymunent, cwestiynu, safbwynt Cymwysterau Cymru. Byddwn yn rhagweld y byddai'r datganiad polisi hwn yn debygol o gwmpasu materion fel ei fwriadau ynghylch pa un a ddylai a phryd i ymgymryd â gweithgareddau masnachol, y mathau o weithgareddau masnachol y gallai ymgymryd â nhw a sut y gwahaniaethir rhwng cyfrifoldebau rheoleiddio Cymwysterau Cymru ac unrhyw weithgareddau masnachol y mae'n ymgymryd â nhw. Bydd angen i Gymwysterau Cymru, fel corff cyhoeddus, ystyried unrhyw wrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol a allai godi. Felly, rwy'n parhau i argymell y dylai'r Aelodau wrthod gwelliant 41 a chefnogi gwelliant 26.

As a public body, Qualifications Wales is bound by public law, whereby it must act reasonably, must take pertinent matters into account and disregard irrelevant ones. It is unnecessary and inappropriate to make provision in the Bill, as suggested by Suzy Davies in amendment 42, to require Qualifications Wales to have regard to public and European law in the context of undertaking commercial services. Qualifications Wales will be subject to such law in any case where it is relevant and where it applies. The amendment does not define public and European law, nor help to identify what aspects of those potentially large areas may be relevant to it. It's far from clear what Qualifications Wales would have to do to satisfy this duty of 'having regard to' law, which is rather different in nature from the sort of requirement to have regard to particular policy factors or particular objectives. Further, including this amendment here could wrongly give rise to doubts as to whether public or European law applies to Qualifications Wales when it carries out other functions. That confusion would not be desirable; such law will apply where it is relevant. For all these reasons, I urge Members to reject amendment 42.

Fel corff cyhoeddus, mae Cymwysterau Cymru wedi ei rwymo gan gyfraith gyhoeddus, sy'n golygu bod yn rhaid iddo weithredu'n rhesymol, cymryd materion perthnasol i ystyriaeth a diystyru rhai amherthnasol. Mae'n ddiangen ac yn amhriodol i wneud darpariaeth yn y Bil, fel yr awgrymir gan Suzy Davies yng ngwelliant 42, i'w gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru roi ystyriaeth i gyfraith gyhoeddus ac Ewropeaidd yng nghyd-destun ymgymryd â gwasanaethau masnachol. Bydd Cymwysterau Cymru yn ddarostyngedig i gyfraith o'r fath beth bynnag pan ei bod yn berthnasol a phan ei bod yn gymwys. Nid yw'r gwelliant yn diffinio cyfraith gyhoeddus ac Ewropeaidd, nac yn helpu i nodi pa agweddau ar y meysydd hynny a allai fod yn fawr, a allai fod yn berthnasol iddo. Nid yw'n eglur o gwbl beth fyddai'n rhaid i Gymwysterau Cymru ei wneud i fodloni'r ddyletswydd hon o 'roi sylw i' gyfraith, sydd braidd yn wahanol o ran natur i'r math o ofyniad i roi sylw i ffactorau polisi penodol neu amcanion penodol. Hefyd, gallai cynnwys y gwelliant hwn yn y fan yma arwain yn anghywir at amheuon ynghylch pa un a yw cyfraith gyhoeddus neu Ewropeaidd yn berthnasol i Gymwysterau Cymru pan mae'n cyflawni swyddogaethau eraill. Ni fyddai'r dryswch hwnnw'n ddymunol; byddai cyfraith o'r fath yn gymwys pan ei bod yn berthnasol. Am yr holl resymau hyn, rwy'n annog yr Aelodau i wrthod gwelliant 42.

In relation to amendment 43, the rationale for requiring that Welsh Ministers must have approved any scheme of fees to be charged by Qualifications Wales in respect of its regulatory functions is to provide a check on the need for, the reasonableness of, and the impact of any such fees on stakeholders. It's therefore unnecessary and inappropriate to specify that the scheme must have regard to potential consequences for third parties. Further, it is not clear how a scheme could have regard to such matters, as opposed to Qualifications Wales, for example, being under such a duty. In any event, consequences for third parties and other matters should all be covered in the consideration of any scheme by Qualifications Wales in the first instance during the development and decision-making process as well as by the Welsh Ministers. I therefore ask that Members reject amendment 43.

O ran gwelliant 43, y rhesymeg dros ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi cymeradwyo unrhyw gynllun o ffioedd i'w codi gan Gymwysterau Cymru o ran ei swyddogaethau rheoleiddio yw darparu gwiriad ar yr angen am unrhyw ffioedd o'r fath, eu rhesymoldeb, a'u heffaith ar randdeiliaid. Felly, mae'n ddiangen ac yn amhriodol pennu bod yn rhaid i'r cynllun roi sylw i ganlyniadau posibl i drydydd partïon. Hefyd, nid yw'n eglur sut y gallai cynllun roi sylw i faterion o'r fath, yn hytrach na bod dyletswydd o'r fath ar Gymwysterau Cymru, er enghraifft. Beth bynnag, dylai canlyniadau i drydydd partïon a materion eraill gael eu cynnwys i gyd yn yr ystyriaeth o unrhyw gynllun gan Gymwysterau Cymru yn y lle cyntaf yn ystod y broses ddatblygu a gwneud penderfyniadau yn ogystal â chan Weinidogion Cymru. Gofynnaf felly i'r Aelodau wrthod gwelliant 43.

16:39 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Suzy Davies to reply.

Suzy Davies i ymateb.

16:39 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. It was a nice try on the question of ambiguity, I think, regarding amendment 41. Just to make it plain, I don't actually have any problems with Qualifications Wales identifying any conflicts of interest, but they would be put in an invidious position if they were then asked to draw up the protocol alone. By all means, I think it would have been ideal if they could inform you of conflicts of interest that they'd seen, but for you to draw up the protection for them.

Diolch yn fawr, Weinidog. Roedd hi'n ymdrech lew o ran y cwestiwn o amwysedd, rwy'n credu, o ran gwelliant 41. Dim ond i'w gwneud yn blaen, nid oes gennyf unrhyw broblemau gyda Chymwysterau Cymru yn nodi unrhyw wrthdaro buddiannau mewn gwirionedd, ond byddent yn cael eu rhoi mewn sefyllfa anodd pe gofynnwyd iddynt lunio'r protocol ar eu pennau eu hunain. Ar bob cyfrif, rwy'n meddwl y byddai wedi bod yn ddelfrydol pe gallent eich hysbysu am achosion o wrthdaro buddiannau yr oeddent wedi eu gweld, ond i chi lunio'r amddiffyniad ar eu cyfer.

As regards amendment 42, as I said, this is a probing amendment, so I will not be actually moving it. But your response today merely confirmed why your answer at Stage 2 and, even today, was, perhaps, not the strongest it could be in order to protect Qualifications Wales when we're talking about this particular subject area. I hear what you say regarding amendment 43. It was an opportunity to ensure that Qualifications Wales definitely took potential effects on third parties into account rather than ought to. I think you might have said 'should' in your response to me; I couldn't quite hear. But I think 'must' rather than 'ought to' is perhaps stronger. But I hear what you say on that, so thank you very much.

O ran gwelliant 42, fel y dywedais, gwelliant procio yw hwn, felly ni fyddaf yn ei gynnig mewn gwirionedd. Ond y cwbl a wnaeth eich ymateb heddiw oedd cadarnhau pam nad oedd eich ateb yng Nghyfnod 2 a, hyd yn oed heddiw, efallai, y cryfaf y gallai fod er mwyn amddiffyn Cymwysterau Cymru pan ein bod yn sôn am y maes pwnc penodol hwn. Rwy'n deall yr hyn a ddywedwch am welliant 43. Roedd yn gyfle i sicrhau bod Cymwysterau Cymru yn sicr yn cymryd effeithiau posibl ar drydydd partïon i ystyriaeth yn hytrach nag y dylai wneud hynny. Rwy'n credu efallai eich bod wedi dweud 'dylai' yn eich ymateb i mi; nid oeddwn yn gallu clywed yn iawn. Ond rwy'n credu bod 'rhaid' yn hytrach na 'dylai' o bosibl yn gryfach. Ond rwy'n deall yr hyn a ddywedwch am hynny, felly diolch yn fawr iawn.

16:41 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is an amendment 41 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 24. There voted against 24. I cast my vote against amendment 41, which consequently falls.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 41. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Byddwn yn cael pleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 24 o blaid. Pleidleisiodd 24 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn gwelliant 41, sydd o ganlyniad yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 41: O blaid 24, Yn erbyn 24, Ymatal 0.*

*Amendment 41 not agreed: For 24, Against 24, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Llywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 41. | Result of the vote on amendment 41.

16:41 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Suzy Davies, amendment 42.

Suzy Davies, gwelliant 42.

16:41 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Not moved.

Nid wyf yn cynnig.

*Ni chynigiwyd gwelliant 42 (Suzy Davies).*

*Amendment 42 (Suzy Davies) not moved.*

16:41 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

You're not moving. Amendment 42 is not moved. Minister, amendment 25.

Nid ydych yn cynnig. Nid yw gwelliant 42 wedi ei gynnig. Weinidog, gwelliant 25.

*Cynigiwyd gwelliant 25 (Huw Lewis).*

*Amendment 25 (Huw Lewis) moved.*

16:41 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move.

Rwy'n cynnig.

16:41 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 25 be agreed. Does any Member object? Then amendment 25 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 25. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly derbynnir gwelliant 25.

*Derbyniwyd gwelliant 25 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 25 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:42 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 26.

Weinidog, gwelliant 26.

*Cynigiwyd gwelliant 26 (Huw Lewis).*

*Amendment 26 (Huw Lewis) moved.*

16:42 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move.

Rwy'n cynnig.

16:42 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 26 be agreed. Does any Member object? Then amendment 26 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 26. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly derbynnir gwelliant 26.

*Derbyniwyd gwelliant 26 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 26 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:42 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 27.

Weinidog, gwelliant 27.

*Cynigiwyd gwelliant 27 (Huw Lewis).*

*Amendment 27 (Huw Lewis) moved.*

16:42 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move.

Rwy'n cynnig.

16:42 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 27 be agreed. Does any Member object? Then amendment 27 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 27. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu?  Felly derbynnir gwelliant 27.

*Derbyniwyd gwelliant 27 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 27 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:42 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 28.

Weinidog, gwelliant 28.

*Cynigiwyd gwelliant 28 (Huw Lewis).*

*Amendment 28 (Huw Lewis) moved.*

16:42 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move.

Rwy’n cynnig.

16:42 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 28 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We’ll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 39. There were no votes against. There were nine abstentions. Therefore, amendment 28 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 28. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Byddwn yn cael pleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 39 o blaid. Ni chafwyd pleidlais yn erbyn. Ymataliodd 9. Felly derbynnir gwelliant 28.

*Derbyniwyd gwelliant 28: O blaid 39, Yn erbyn 0, Ymatal 9.*

*Amendment 28 agreed: For 39, Against 0, Abstain 9.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 28.

Result of the vote on amendment 28.

16:42 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 29.

Weinidog, gwelliant 29.

*Cynigiwyd gwelliant 29 (Huw Lewis).*

*Amendment 29 (Huw Lewis) moved.*

16:42 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move.

Rwy’n cynnig.

16:42 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 29 be agreed. Does any Member object? Then amendment 29 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 29. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu?  Felly derbynnir gwelliant 29.

*Derbyniwyd gwelliant 29 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 29 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Suzy Davies, amendment 43.

Suzy Davies, gwelliant 43.

*Cynigiwyd gwelliant 43 (Suzy Davies).*

*Amendment 43 (Suzy Davies) moved.*

16:43 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Moved.

Rwy’n cynnig.

16:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 43 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 23. There voted against 24. Therefore, the amendment is not agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 43. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Byddwn yn cael pleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 23 o blaid. Pleidleisiodd 24 yn erbyn. Felly ni dderbynnir y gwelliant.

*Gwrthodwyd gwelliant 43: O blaid 23, Yn erbyn 24, Ymatal 0.*

*Amendment 43 not agreed: For 23, Against 24, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 43.

Result of the vote on amendment 43.

16:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 30.

Weinidog, gwelliant 30.

*Cynigiwyd gwelliant 30 (Huw Lewis).*

*Amendment 30 (Huw Lewis) moved.*

16:43 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move.

Rwy’n cynnig.

16:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 30 be agreed. Does any Member object? Then amendment 30 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 30. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu?  Felly derbynnir gwelliant 30.

*Derbyniwyd gwelliant 30 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 30 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 31.

Weinidog, gwelliant 31.

*Cynigiwyd gwelliant 31 (Huw Lewis).*

*Amendment 31 (Huw Lewis) moved.*

16:43 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move.

Rwy’n cynnig.

16:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 31 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. I do encourage Members to concentrate. There voted in favour 39. There were no votes against. There were nine abstentions. Therefore, the amendment is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 31. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Byddwn yn cael pleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Rwyf yn annog yr Aelodau i ganolbwyntio. Pleidleisiodd 39 o blaid. Ni chafwyd pleidlais yn erbyn. Ymataliodd 9. Felly derbynnir y gwelliant.

*Derbyniwyd gwelliant 31: O blaid 39, Yn erbyn 0, Ymatal 9.*

*Amendment 31 agreed: For 39, Against 0, Abstain 9.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 31.

Result of the vote on amendment 31.

## Grŵp 7: Prentisiaethau: Awdurdodau Dyroddi (Gwelliannau 46 a 44)

## Group 7: Apprenticeships: Issuing Authorities (Amendments 46 and 44)

16:44 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to group 7, a group of amendments relating to apprenticeships and issuing authorities. The lead amendment in this group is amendment 46. I call on Simon Thomas to move and speak to the lead amendment and the other amendment in the group.

Symudwn at grŵp 7 nawr, grŵp o welliannau yn ymwneud â phrentisiaethau ac awdurdodau dyroddi. Gwelliant 46 yw'r prif welliant yn y grŵp hwn. Galwaf ar Simon Thomas i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliant arall yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 46 (Simon Thomas).*

*Amendment 46 (Simon Thomas) moved.*

16:44 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae gennyf ddau welliant yn y grŵp yma sy'n ymwneud ag un mater sydd heb gael ei ddatrys gan y Bil yma, sef pwy, yn y pen draw, fydd yn penderfynu ar brentisiaethau yng Nghymru a phwy fydd yr awdurdod dyroddi, fel y mae'n cael ei alw—yr 'issuing authority'—ar gyfer prentisiaethau. Ar hyn o bryd, mae yna nifer o gyrff sy'n ymwneud â'r swyddogaeth yma. Roedd yn glir iawn yn y nodyn esboniadol i'r Bil, fel y cafodd ei gyflwyno, y gall Gymwysterau Cymru, yn ei dro, ddod yn awdurdod dyroddi:

There are two amendments in my name in this group that relate to the one issue that has not been resolved by this Bill, namely who ultimately will make decisions on apprenticeships in Wales and who will be the issuing authority for apprenticeships. At the moment, there are a number of bodies involved with that function. It was clear in the explanatory memorandum to the Bill as tabled that Qualifications Wales could, in time, become an issuing authority:

'an issuing authority in due course'.

awdurdod dyroddi maes o law.

Dyna sy'n cael ei ddweud yn y memorandwm esboniadol. At hynny hefyd cawsom dystiolaeth gan y prif gorff sy'n gyfrifol am brentisiaethau yng Nghymru, sef y Ffederasiwn Hyfforddi Cenedlaethol, a roddodd dystiolaeth fel a ganlyn:

That's the wording in the explanatory memorandum. We also received evidence from the main body responsible for apprenticeships in Wales, namely the National Training Federation, which provided evidence as follows:

'There is a recognition that the apprenticeship offer across the UK is becoming increasingly divergent (most notably between England and the other nations of the UK)'—

Ceir cydnabyddiaeth bod y cynnig prentisiaeth ar draws y DU yn dod yn fwyfwy dargyfeiriol (yn fwyaf nodedig rhwng Lloegr a gwledydd eraill y DU)—

hynny yw, mae Lloegr yn mynd yn wahanol ac rydym ni'n cadw at y llwybr cywir—

that is, England is going in a different direction and we're on the right path—

'and it is with this in mind that NTfW would welcome (strongly) an increased role for Qualifications Wales in the area of Apprenticeships, and would particularly welcome Qualifications Wales becoming the "Issuing Authority" for Apprenticeship Frameworks in Wales.'

a chyda hyn mewn golwg y byddai Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru yn croesawu (yn gryf) swyddogaeth gynyddol i Gymwysterau Cymru ym maes Prentisiaethau, ac y byddai'n croesawu'n arbennig Cymwysterau Cymru yn dod yn "Awdurdod Dyroddi" ar gyfer Fframweithiau Prentisiaeth yng Nghymru.'

Wedi derbyn tystiolaeth mor gadarn â hynny, roeddem yn synnu braidd nad oedd y Llywodraeth wedi dodi yn y Bil rhyw fath o ddull i sicrhau bod hynny'n digwydd, os mai dyna oedd y canlyniad, maes o law. Rwy'n derbyn, wrth gwrs, bod y Dirprwy Weinidog sgiliau yn cynnal ymgynghoriad ar yr un pryd â'r Bil ynglŷn â dyfodol prentisiaethau. A ydy hynny'n dangos bod y Llywodraeth yn meddwl ar draws y Llywodraeth neu'n dangos bod y Llywodraeth yn meddwl ar draws ei gilydd? Nid wyf yn siŵr, ond roedd yn digwydd. Ac felly, roeddem ni'n awyddus bod rhywbeth ar wyneb y Bil a oedd yn galluogi—heb inni orfod dod yn ôl, mewn unrhyw ffordd, i ddeddfwriaeth maes o law—Cymwysterau Cymru i gymryd y camau priodol i ddod yn awdurdod dyroddi ymhen amser.

Having received such robust evidence, I was a little surprised that the Government hadn't placed in the Bill some sort of mechanism to ensure that that would happen, if that became necessary in due course. I accept, of course, that the Deputy Minister for skills was holding a consultation simultaneously with the Bill on the future of apprenticeships. Does that show that Government is thinking across Government or showing that the Government is showing some confusion? I'm' not sure, but it was happening. So, I was eager to have something on the face of the Bill that would enable—without us having to return, in any way, to this legislation in due course—Qualifications Wales to take the appropriate steps to become an issuing authority in due course.

Mewn pwyllgor, awgrymais i efallai y dylai'r Llywodraeth adrodd yn ôl ar y mater yma o fewn dwy flynedd o basio'r Bil. Nid oedd y Llywodraeth yn gwbl hapus gyda'r cyfnod yna ac efallai ddim yn gwbl hapus gyda'r egwyddor yna chwaith. Rwyf wedi, wrth ddod â gwelliant pellach i'r Cyfarfod Llawn heddiw, awgrymu pedair blynedd, achos rwy'n meddwl fod pedair blynedd ar ôl pasio'r Bil yn hen ddigon o amser, a dweud y gwir, hyd yn oed i'r Llywodraeth yma, i fennu ymgynghoriad ar brentisiaethau ac i benderfynu beth yw ei pholisi ar brentisiaethau.

In committee, I suggested that perhaps the Government should report back on this issue within two years with the passing of the Bill. The Government weren't entirely content with the timing, or perhaps entirely content with the principle either. I have, in bringing a further amendment to today's Plenary, suggested four years, because I do think four years after the passing of the Bill is a more than sufficient amount of time, to be honest, even for this Government, to conclude a consultation on apprenticeships and to decide on its policy on apprenticeships.

Beth sy'n glir yw bod prentisiaethau'n fwyfwy pwysig yng Nghymru, bod nifer o brentisiaethau'n cael eu rhedeg yng Nghymru mewn ffordd wahanol, a bod y Llywodraeth yma'n ymgynghori ar y ffordd mae'r prentisiaethau'n cydweithio gyda chyflogwyr ac yn cael eu cydariannu a'u cyd-benderfynu arnynt. Ac, yn y pen draw, fe ddaw cwestiwn, rwy'n credu, ynglŷn â phwy sydd am reoli, felly, cynnwys prentisiaethau, a chynnwys y fframweithiau o leiaf, a sicrhau ansawdd yn y maes yma.

What's clear is that apprenticeships are becoming more and more important in Wales, that a number of apprenticeships are being run in Wales in a way that is different, and that the Government is consulting on the way that apprenticeships collaborate with employers and are co-funded and that there can be co-decision making. And, ultimately, there will be a question, I think, as to who is to regulate, therefore, the content of apprenticeships, and the content of the frameworks at least, and ensure quality in this area.

Ar hyn o bryd, nid oes corff gwell ar y gorwel na Chymwysterau Cymru. Felly, drwy dderbyn y gwelliant yma, fe fydd y Cynulliad yn dangos yn glir eu bod nhw am i'r mater yma o leiaf cael ei benderfynu arno, un ffordd neu'i gilydd, ymhen pedair blynedd o basio'r Bil. Nid yw'n golygu, wrth gwrs, nad yw'r gwaith yn gallu cael ei wneud cyn hynny ac nid yw'n golygu chwaith, os yw Cymwysterau Cymru, ymhen pedair blynedd, yn penderfynu peidio â dod yn awdurdod dyroddi, nad yw'n gallu dod yn awdurdod dyroddi rywbryd yn y dyfodol. Y cyfan mae'n ei wneud yw rhoi ffenest amser penodol a fydd, gobeithio, yn gymorth i'r Llywodraeth ffocysu eu gwaith ar brentisiaethau a dod i benderfyniad.

At the moment, there is no better option on the horizon than Qualifications Wales. In accepting this amendment, the Assembly will show clearly that they want this matter to at least be decided upon, one way or another, four years after the passing of the Bill. It doesn't mean, of course, that the work can't be done prior to that and it doesn't mean either that if Qualifications Wales, in four years' time, decides not to become an issuing authority that it couldn't become an issuing authority at some later stage. All it does is to provide a specific window that, I hope, would assist Government in focusing their work on apprenticeships and to come to a decision.

Does dim dwywaith gen i fod y ffederasiwn yn credu y gall hwn fod yn ddatblygiad cyffrous a phositif, a bod y rhanddeiliaid eraill a wnaeth gyflwyno tystiolaeth i'r pwyllgor hefyd o'r farn yma, sef bod y Bil yn un da, a'i fod yn cynnwys pob math o gymwysterau, ond drwy adael prentisiaethau a'r fframweithiau yn benodol heb sôn amdanynt ar wyneb y Bil, ar hyn o bryd, nid ydym yn mynd i'r afael ag un o'r dulliau mwyaf poblogaidd a mwyaf pwysig i economi Cymru o ennill cymwysterau. Felly, rwy'n gobeithio bod y gwelliant yma'n fwy derbyniol i'r Llywodraeth ar ei newydd wedd.

I have no doubt that the federation believes that this could be an exciting and positive development, and that other stakeholders who provided evidence to the committee were also of the same opinion, that the Bill is positive and that it includes all sorts of qualifications, but by omitting apprenticeships and frameworks from the face of the Bill at present, we are not tackling one of the most popular and important tools for the Welsh economy in terms of gaining qualifications. So, I hope that this amendment is more acceptable to Government in its new form.

16:49

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister.

Galwaf ar y Gweinidog.

16:49

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Simon Thomas is quite right, of course, to be concerned about this very important area and to interrogate this point. In relation to these two amendments regarding a potential role for Qualifications Wales in apprenticeships, this issue was, of course, discussed at Stage 2 in committee. As I said at that time, I do understand the desire to signal, within the legislation, a future role for the new organisation in respect of apprenticeships. But, I have to say that I remain unconvinced that it is either necessary or appropriate to use the Bill to do this.

Diolch yn fawr. Mae Simon Thomas yn llygad ei le, wrth gwrs, i fod yn bryderus am y maes pwysig iawn hwn ac i holi'r pwynt hwn. O ran y ddau welliant ynghylch swyddogaeth bosibl i Gymwysterau Cymru mewn prentisiaethau, trafodwyd y mater hwn, wrth gwrs, yng Nghyfnod 2 yn y pwyllgor. Fel y dywedais ar y pryd, rwy'n deall yr awydd i nodi, yn y ddeddfwriaeth, swyddogaeth i'r sefydliad newydd yn y dyfodol o ran prentisiaethau. Ond, mae'n rhaid i mi ddweud fy mod i dal i fod heb fy argyhoeddi ei fod yn angenrheidiol nac yn briodol i ddefnyddio'r Bil i wneud hyn.

I'm also concerned that there may be some ambiguity as to the exact meaning of the amendment proposed, such as whether the report is to cover the manner in which Qualifications Wales may be proposed to become an issuing authority, or whether it is to cover how Qualifications Wales is to exercise its functions as one. But I understand the rationale behind the amendment to require the Government, including the Government after the next Assembly elections, to consider the role, if any, for Qualifications Wales in the apprenticeships regime and to report within four years on its policy intentions. As I said at Stage 2 in committee, I've already undertaken to examine this issue and I'm part way through a review of the apprenticeship framework in Wales, which I have publicly consulted on as regards the potential role of Qualifications Wales in a new apprenticeship model for Wales.

Rwy'n pryderu hefyd y gallai fod rhywfaint o amwysedd ynghylch union ystyr y gwelliant arfaethedig, fel pa un a yw'r adroddiad hwn yn mynd i roi sylw i'r modd y gellir cynnig Cymwysterau Cymru i fod yn awdurdod dyroddi, neu a fydd yn rhoi sylw i sut mae Cymwysterau Cymru yn mynd i arfer ei swyddogaethau fel un. Ond rwy'n deall y rhesymeg y tu ôl i'r gwelliant i'w gwneud yn ofynnol i'r Llywodraeth, gan gynnwys y Llywodraeth ar ôl etholiadau nesaf y Cynulliad, ystyried swyddogaeth, os o gwbl, i Gymwysterau Cymru yn y gyfundrefn prentisiaethau ac i adrodd o fewn pedair blynedd ar ei fwriadau polisi. Fel y dywedais yng Nghyfnod 2 yn y pwyllgor, rwyf eisoes wedi ymrwymo i archwilio'r mater hwn ac rwyf wedi cychwyn ar adolygiad o'r fframwaith prentisiaeth yng Nghymru, yr wyf wedi ymgynghori'n gyhoeddus arno o ran swyddogaeth bosibl Cymwysterau Cymru mewn model prentisiaeth newydd i Gymru.

I understand that stakeholders have been expressing a range of views as to what that future role might be, and I am also keen to take into account the views of the new body itself, once established, on this matter. Qualifications Wales has a major role to play in Wales in relation to qualifications themselves; we will need to be careful not to muddy or overburden that work.

Rwy'n deall bod rhanddeiliaid wedi bod yn mynegi amrywiaeth o safbwyntiau ar yr hyn y gallai'r swyddogaeth honno fod yn y dyfodol, ac rwyf hefyd yn awyddus i gymryd i ystyriaeth safbwyntiau'r corff newydd ei hun, ar ôl ei sefydlu, ar y mater hwn. Mae gan Gymwysterau Cymru swyddogaeth bwysig i'w chyflawni yng Nghymru o ran cymwysterau eu hunain; bydd angen i ni fod yn ofalus i beidio â drysu neu orlwytho'r gwaith hwnnw.

It's also entirely possible, for example, that any new model for apprenticeships may dispense with the concept of an issuing authority altogether. So, fixing a reference to the existing system within this new piece of legislation could be seen, to some extent, to be pre-judging the outcome of the review. I anticipate being in a position to make a statement to the Assembly on that review before too long. In the circumstances, therefore, I do not consider that there is any scope for the issue to fall off the radar at all, so to speak, and I recommend that amendments 46 and 44 be rejected.

Mae hefyd yn gwbl bosibl, er enghraifft, y gallai unrhyw fodel newydd ar gyfer prentisiaethau hepgor y cysyniad o awdurdod dyroddi yn gyfan gwbl. Felly, gellid ystyried bod gosod cyfeiriad at y system bresennol yn y darn newydd hwn o ddeddfwriaeth, i ryw raddau, yn rhagfarnu canlyniad yr adolygiad. Rwy'n rhagweld y byddaf mewn sefyllfa i wneud datganiad i'r Cynulliad ar yr adolygiad hwnnw cyn bo hir. O dan yr amgylchiadau, felly, nid wyf o'r farn bod unrhyw le i'r mater ddisgyn oddi ar y radar o gwbl, fel petai, ac rwy'n argymell bod gwelliannau 46 a 44 yn cael eu gwrthod.

16:52

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Simon Thomas to reply.

Simon Thomas i ymateb.

16:52

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy wedi gwrando ar beth sydd gan y Llywodraeth i'w ddweud, wrth gwrs. Rwy'n edrych ymlaen at weld canlyniad yr ymgynghoriad yn fuan iawn. Wedi dweud hynny, rwy jest eisiau ymateb i dri pheth a ddywedodd y Gweinidog nid wyf yn meddwl eu bod yn gywir. Nid wyf yn credu bod unrhyw amwysedd o gwbl yn y gwelliant yma—mae'n syml iawn. Mae'r cwestiwn yn syml: a fydd Cymwysterau Cymru yn dod yn awdurdod dyroddi ar gyfer prentisiaethau ai peidio? Dim byd mwy na hynny; jest penderfyniad un ffordd neu'r llall. Yn hynny o beth, nid wyf yn meddwl bod hwn ychwaith yn ychwanegu at faich y corff newydd gan fod y gwelliant ar ei newydd wedd yn sôn am bedair blynedd. Rwy'n credu bydd y rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei gwblhau, neu bydd y rhan fwyaf wedi'i gwblhau, ymhen pedair blynedd. Bydd yn briodol erbyn hynny i gymryd penderfyniad o'r math, ac nid yw'n rhwystr i ni gymryd y penderfyniad ynghynt, fel y dywedais i.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I have listened to what the Government have had to say, of course. I look forward to seeing the outcome of the consultation very soon. Having said that, I just want to respond to three things that the Minister said that I don't think are correct. I don't think that there is any ambiguity in this amendment—it is very simple. The question is simple: will Qualifications Wales become an issuing authority for apprenticeships or not? It's nothing more than that; it's just a decision one way or another. In that regard, I don't think, either, that this adds to the burden placed on the new body as the amendment in its new form talks about four years. I think that most of the work will be completed, or will mostly have been completed, by the end of four years. It will be appropriate at that point to take such a decision, and there is no barrier for us to take an earlier decision, as I've said.

Mae’r pwynt ynglŷn ag a fydd yna awdurdod dyroddi ai peidio o gwbl yn bwynt digon teg, ond, os felly wrth gwrs, nid oes penderfyniad y tu fewn i’r cymal i gael ei wneud. Rwy’n meddwl bod y gwelliant fel y mae yn dal trwyn y Llywodraeth i’r maen tipyn bach, ac yn hynny o beth rwy’n gobeithio y bydd y Cynulliad yn ei gefnogi.

The point as to whether there will be an issuing authority or not is a fair point, but, if so, there is no decision to be made here. I think that the amendment as it currently stands does hold the Government’s feet to the fire, to a certain extent, and I do hope that the Assembly will support it.

16:53

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

The question is that amendment 46 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 24; there voted against 24. I cast my vote against amendment 46, which consequently falls.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 46. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Byddwn yn cael pleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 24 o blaid; pleidleisiodd 24 yn erbyn. Rwyf yn bwrw fy mhleidlais i yn erbyn gwelliant 46, sydd o ganlyniad yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 46: O blaid 24, Yn erbyn 24, Ymatal 0.*

*Amendment 46 not agreed: For 24, Against 24, Abstain 0.*

*Fel sy’n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 46]

[Result of the vote on amendment 46]

### Grŵp 8: Is-ddeddfwriaeth (Gwelliant 32)

### Group 8: Subordinate Legislation (Amendment 32)

16:54

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

We now move to group 8, a group of amendments relating to subordinate legislation. The lead and only amendment in this group is amendment 32. I call on the Minister to move and speak to the amendment.

Symudwn at grŵp 8 nawr, grŵp o welliannau yn ymwneud ag is-ddeddfwriaeth. Gwelliant 32 yw’r prif welliant a’r unig welliant yn y grŵp hwn. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig a siarad am y gwelliant.

*Cynigiwyd gwelliant 32 (Huw Lewis).*

*Amendment 32 (Huw Lewis) moved.*

16:54

## Huw Lewis [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Thank you, Deputy Presiding Officer. There is only one amendment, as you say, in this group. It allows regulations made by the Welsh Ministers to make supplemental, incidental, consequential, transitional, transitory or saving provision. The power gives additional flexibility when making any regulations under the Bill, particularly if they involve moving from one legal position to another. This power would apply to the minimum requirements regulations under section 21, the monetary penalties regulations under section 37 and the power under section 58 to make consequential, transitional and other provision. It will allow the types of provision listed in the amendment to be made in regulations, made under any of these powers, which may in turn enable such regulations to work appropriately. So, I urge Members to support amendment 32.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Fel y dywedwch, dim ond un gwelliant sydd yn y grŵp hwn. Mae'n caniatáu i reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol, ddarfodol neu arbed. Mae'r pŵer yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol wrth wneud unrhyw reoliadau o dan y Bil, yn enwedig os ydynt yn golygu symud o un safbwynt cyfreithiol i un arall. Byddai'r pŵer hwn yn berthnasol i'r rheoliadau gofynion sylfaenol o dan adran 21, y rheoliadau cosbau ariannol o dan adran 37 a'r pŵer o dan adran 58 i wneud darpariaeth ganlyniadol, drosiannol ac eraill. Bydd yn caniatáu i'r mathau o ddarpariaeth a restrir yn y gwelliant i gael eu gwneud mewn rheoliadau, a wneir o dan unrhyw un o'r pwerau hyn, a all alluogi wedyn i reoliadau o'r fath weithio'n briodol. Felly, rwy’n annog yr Aelodau i gefnogi gwelliant 32.

16:55 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, section 58 already makes it plain that Welsh Ministers have powers to make those supplementary and consequential changes, as old CLAC favourites that are set out in amendment 32. While I appreciate the reassurance of section 54 stating that ministerial regulatory powers are to be exercised by statutory instrument, I just wondered what the purpose was of section 54, subsection (1)(b) and the new subsection (1)(c) that you introduced by this amendment. Isn't the Bill already clear, as with section 58, and there are others that you've just listed in your opening remarks, where Welsh Ministers have already got regulatory powers, and, if not, why have you, sort of, picked these two particular types of power for special mention in this amendment? And this original section, sorry.

Weinidog, mae adran 58 eisoes yn ei gwneud yn eglur bod gan Weinidogion Cymru bwerau i wneud y newidiadau atodol a chanlyniadol hynny, fel hen ffefrynnau CLAC a nodir yng ngwelliant 32. Er fy mod i'n sylweddoli sicrwydd adran 54 drwy nodi y bydd pwerau rheoleiddio gweinidogol yn cael eu harfer gan offeryn statudol, roeddwn i'n meddwl tybed beth yw diben adran 54, is-adran (1)(b) ac is-adran newydd (1)(c) i chi eu cyflwyno drwy'r gwelliant hwn. Onid yw'r Bil eisoes yn eglur, fel gydag adran 58, a cheir eraill yr ydych chi newydd eu rhestru yn eich sylwadau agoriadol, lle mae gan Weinidogion Cymru bwerau rheoleiddio eisoes, ac, os nad oes, pam ydych chi, fel petai, wedi dewis y ddau fath penodol hyn o bŵer ar gyfer sylw arbennig yn y gwelliant hwn? A'r adran wreiddiol hon, mae'n ddrwg gennyf.

16:56 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank the Minister and his officials for the additional information, but I have to say that I, too, feel that there's perhaps some evidence of duplication here? Amendment 32 in itself relates to section 54, which deals with regulations, whereas as you've mentioned, section 58 is about consequential and transitional provisions. I've discussed this with some legal officers within the Assembly, and I honestly can't see the need for amendment 32, as it seems to simply re-state the provisions that are included in section 58, and therefore, although I accept that the amendment in itself does no harm, it doesn't provide the Minister or the Welsh Government with any additional powers, and neither does amendment 32 widen the scope for the use of regulations, past what is already included in section 58. I'd just like to understand on the record what the purpose of amendment 32 is.

A gaf i ddiolch i'r Gweinidog a'i swyddogion am y wybodaeth ychwanegol, ond mae'n rhaid i mi ddweud fy mod i, hefyd, yn teimlo efallai bod rhywfaint o dystiolaeth o ddyblygu yma? Mae gwelliant 32 ynddo'i hun yn ymwneud ag adran 54, sy'n ymdrin â rheoliadau, tra bod adran 58, fel yr ydych chi wedi sôn, yn ymwneud â darpariaethau canlyniadol a throsiannol. Rwyf wedi trafod hyn gydag ambell i swyddog cyfreithiol yn y Cynulliad, ac rwyf wir yn methu â gweld yr angen am welliant 32, gan ei bod yn ymddangos mai'r cwbl y mae'n ei wneud yw ail-ddatgan y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn adran 58, ac felly, er fy mod i'n derbyn nad yw'r gwelliant yn gwneud unrhyw niwed ynddo'i hun, nid yw'n rhoi unrhyw bwerau ychwanegol i'r Gweinidog na Llywodraeth Cymru, ac nid yw gwelliant 32 yn ehangu'r cwmpas ar gyfer y defnydd o reoliadau ychwaith, y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes wedi'i gynnwys yn adran 58. Hoffwn ddeall ar y cofnod beth yw pwrpas gwelliant 32.

16:57 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister to reply.

Y Gweinidog i ymateb.

16:57 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, DPO. As Members will know, I am not legally trained and, sometimes, I thank heaven for it, but I believe that what we're suffering from here is that we are perhaps victims of interpretation of terminology. The provision and the variations on the wording of the provision in this amendment are commonly found in legislation. Although the definitive meaning in law is for a court to determine, 'supplemental' and 'incidental' are used interchangeably, but the intention here is to implement what is provided for in the Bill and give the Welsh Ministers the necessary flexibility to make provisions that work and facilitate the implementation of the Bill. I hope that covers the gap in understanding between ourselves in terms of the necessity of repeating, in slightly different terms, within section 54 and section 32. I believe that that addresses the concerns of the Members.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Fel y gŵyr yr Aelodau, nid wyf wedi fy hyfforddi'n gyfreithiol ac, weithiau, rwy'n diolch i'r nefoedd am hynny, ond rwy'n credu mai'r hyn yr ydym ni'n dioddef ohono yma o bosibl yw ein dehongliad o derminoleg. Caiff y ddarpariaeth a'r amrywiadau i eiriad y ddarpariaeth yn y gwelliant hwn eu canfod yn gyffredin mewn deddfwriaeth. Er mai cyfrifoldeb y llys yw penderfynu ar yr ystyr ddiffiniol yn y gyfraith, defnyddir 'atodol' a 'cysylltiedig' yn gyfnewidiol, ond y bwriad yma yw gweithredu'r hyn y darperir ar ei gyfer yn y Bil a rhoi'r hyblygrwydd angenrheidiol i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau sy'n gweithio ac yn hwyluso gweithrediad y Bil. Rwy'n gobeithio bod hynny'n llenwi'r bwlch yn y ddealltwriaeth rhyngom ni o ran yr angen i ail-adrodd, mewn termau ychydig yn wahanol, yn adran 54 ac adran 32. Credaf fod hynny'n mynd i'r afael â phryderon yr Aelodau.

16:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 32 be agreed. Does any Member object? [Objection.] Then we'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 33, there were 15 against, therefore amendment 32 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 32. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Byddwn yn cael pleidlais electronig felly. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 33 o blaid, roedd 15 yn erbyn, felly derbynnir gwelliant 32.

*Derbyniwyd gwelliant 32: O blaid 33, Yn erbyn 15, Ymatal 0.*

*Amendment 32 agreed: For 33, Against 15, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 32

Result of the vote on amendment 32

16:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 33.

Weinidog, gwelliant 33.

*Cynigiwyd gwelliant 33 (Huw Lewis).*

*Amendment 33 (Huw Lewis) moved.*

16:59 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Rwy'n cynnig.

16:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 33 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 38, there voted against 10, therefore amendment 33 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 33. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Byddwn yn cael pleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 38 o blaid, pleidleisiodd 10 yn erbyn, felly derbynnir gwelliant 33.

*Derbyniwyd gwelliant 33: O blaid 38, Yn erbyn 10, Ymatal 0.*

*Amendment 33 agreed: For 38, Against 10, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 33

Result of the vote on amendment 33

16:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 34.

Weinidog, gwelliant 34.

*Cynigiwyd gwelliant 34 (Huw Lewis).*

*Amendment 34 (Huw Lewis) moved.*

16:59 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Rwy'n cynnig.

16:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 34 be agreed. Does any Member object? Then amendment 34 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 34. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly derbynnir gwelliant 34.

*Derbyniwyd gwelliant 34 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 34 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 35.

Weinidog, gwelliant 35.

*Cynigiwyd gwelliant 35 (Huw Lewis).*

*Amendment 35 (Huw Lewis) moved.*

16:59 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Rwy'n cynnig.

16:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 35 be agreed. Does any Member object? Then amendment 35 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 35. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly derbynnir gwelliant 35.

*Derbyniwyd gwelliant 35 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 35 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Grŵp 9: Diwygiadau Canlyniadol i Ddeddfwriaeth Arall (Gwelliannau 38, 39 a 40)

## Group 9: Consequential Amendments to Other Legislation (Amendments 38, 39 and 40)

16:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to group 9, amendments relating to consequential amendments to other legislation. The lead amendment in this group is amendment 38. I call on the Minister to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Symudwn at grŵp 9 nawr, gwelliannau yn ymwneud â diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall. Gwelliant 38 yw'r prif welliant yn y grŵp hwn. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 38 (Huw Lewis).*

*Amendment 38 (Huw Lewis) moved.*

17:00 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. The three amendments in this group are simply consequential amendments to update existing Acts of the UK Parliament in light of the provision made in the Qualifications Wales Bill. Amendment 38 amends the Education Act 1996 to delete a reference to section 99 of the Learning and Skills Act 2000, which is about which qualifications are approved for under-19 publicly funded courses. That section is repealed by Schedule 4, as section 33 of the Bill covers this subject.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Y cwbl yw'r tri gwelliant yn y grŵp hwn yw diwygiadau canlyniadol i ddiweddaru Deddfau presennol Senedd y DU yng ngoleuni'r ddarpariaeth a wneir ym Mil Cymwysterau Cymru. Mae gwelliant 38 yn diwygio Deddf Addysg 1996 i ddileu cyfeiriad at adran 99 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, sy'n ymwneud â pha gymwysterau a gymeradwyir ar gyfer cyrsiau dan 19 a ariennir yn gyhoeddus. Diddymir yr adran honno gan Atodlen 4, gan fod adran 33 y Bil yn cynnwys y pwnc hwn.

Amendment 39 amends the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009 so that the definition of relevant qualification in section 253A does not refer to its meaning in the Education Act 1997, but to the meaning of 'qualification' in the Bill. Amendment 40 amends provisions of the Counter-terrorism and Security Act 2015 that refer to qualifications regulated by the Welsh Government. Instead, those references will cover qualifications awarded by bodies recognised by Qualifications Wales, if those qualifications are within their recognition. So, I urge Members to support amendments 38, 39 and 40.

Mae gwelliant 39 yn diwygio Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 fel nad yw'r diffiniad o gymhwyster perthnasol yn adran 253A yn cyfeirio at ei ystyr yn Neddf Addysg 1997, ond at ystyr 'cymhwyster' yn y Bil. Mae gwelliant 40 yn diwygio darpariaethau Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 sy'n cyfeirio at gymwysterau a reoleiddir gan Lywodraeth Cymru. Yn hytrach, bydd y cyfeiriadau hynny'n cwmpasu cymwysterau a ddyfernir gan gyrff a gydnabyddir gan Gymwysterau Cymru, os yw'r cymwysterau hynny'n rhan o'u cydnabyddiaeth. Felly, rwy'n annog yr Aelodau i gefnogi gwelliannau 38, 39 a 40.

17:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no speakers. The question is that amendment 38 be agreed. Does any Member object? Then amendment 38 is agreed.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 38. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna derbynnir gwelliant 38.

*Derbyniwyd gwelliant 38 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 38 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 39.

Weinidog, gwelliant 39.

*Cynigiwyd gwelliant 39 (Huw Lewis).*

*Amendment 39 (Huw Lewis) moved.*

17:01 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

I move.

Rwy'n cynnig.

Senedd.tv Fideo Video

17:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 39 be agreed. Does any Member object? Then amendment 39 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 39. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly derbynnir gwelliant 39.

*Derbyniwyd gwelliant 39 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 39 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

Senedd.tv Fideo Video

17:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Minister, amendment 40.

Weinidog, gwelliant 40.

*Cynigiwyd gwelliant 40 (Huw Lewis).*

*Amendment 40 (Huw Lewis) moved.*

Senedd.tv Fideo Video

17:01 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Move.

Rwy'n cynnig.

Senedd.tv Fideo Video

17:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 40 be agreed. Does any Member object? Then amendment 40 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 40. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly derbynnir gwelliant 40.

*Derbyniwyd gwelliant 40 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 40 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

Senedd.tv Fideo Video

17:02 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Minister, amendment 1.

Weinidog, gwelliant 1.

*Cynigiwyd gwelliant 1 (Huw Lewis).*

*Amendment 1 (Huw Lewis) moved.*

Senedd.tv Fideo Video

17:02 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Move.

Rwy'n cynnig.

Senedd.tv Fideo Video

17:02 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 1 be agreed. Does any Member object? Then amendment 1 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly derbynnir gwelliant 1.

*Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

Senedd.tv Fideo Video

17:02 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Simon Thomas, amendment 44.

Simon Thomas, gwelliant 44.

*Cynigiwyd gwelliant 44 (Simon Thomas).*

*Amendment 44 (Simon Thomas) moved.*

Senedd.tv Fideo Video

17:02 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Cynnig.

Move.

Senedd.tv Fideo Video

17:02

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 44 be agreed. Does any Member object? [Objection.] Then we will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 24. There voted against 24. I cast my vote against amendment 44, which consequently falls.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 44. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Byddwn yn cael pleidlais electronig felly. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 24 o blaid. Pleidleisiodd 24 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn gwelliant 44, sydd o ganlyniad yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 44: O blaid 24, Yn erbyn 24, Ymatal 0.*

*Amendment 44 not agreed: For 24, Against 24, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Llywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 44

Result of the vote on amendment 44

17:02

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We have reached the end of our Stage 3 consideration of the Qualifications Wales Bill. I declare that all sections and Schedules of the Bill are deemed agreed. That concludes Stage 3 proceedings.

Rydym ni wedi dod i ddiwedd ein hystyriaeth Cyfnod 3 o Fil Cymwysterau Cymru. Rwy'n datgan yr ystyrir bod pob adran ac Atodlen o'r Bil wedi eu derbyn. Dyna ddiwedd trafodion Cyfnod 3.

*Barnwyd y cytunwyd ar bob adran o'r Bil.*

*All sections of the Bill deemed agreed.*

17:03

# 5. Dadl Cyfnod 4 ar Fil Cymwysterau Cymru

# 5. Stage 4 Debate on the Qualifications Wales Bill

Senedd.tv Fideo Video

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

In accordance with Standing Order 26.48, I have agreed for a motion without notice to be moved for the Stage 4 debate on the Qualifications Wales Bill. We therefore move to item 5, which is the Stage 4 debate on the Qualifications Wales Bill. I call on the Minister to move the motion.

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.48, rwyf wedi cytuno i gynnig heb rybudd gael ei gynnig ar gyfer y ddadl Cyfnod 4 ar Fil Cymwysterau Cymru. Symudwn felly at eitem 5, sef y ddadl Cyfnod 4 ar Fil Cymwysterau Cymru. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig y cynnig.

Cynnig

Motion

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.48:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 26.48:

Yn cymeradwyo Bil Cymwysterau Cymru.

Approves the Qualifications Wales Bill.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

17:03

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Deputy Presiding Officer, I move the motion. I'd like to thank Members for contributing to the scrutiny of the Qualifications Wales Bill. I believe that we are all agreed that the time is right to establish a new, independent regulator of qualifications for Wales. I'm therefore delighted that we have a Bill that provides for the establishment of Qualifications Wales and gives it, in my view, a highly effective range of functions, with which it can operate a robust and challenging regulatory regime in the interests of learners.

Ddirprwy Lywydd, Cynigiaf y cynnig. Hoffwn ddiolch i'r Aelodau am gyfrannu at graffu ar Fil Cymwysterau Cymru. Credaf ein bod i gyd yn cytuno mai nawr yw'r amser iawn i sefydlu rheoleiddiwr cymwysterau newydd, annibynnol ar gyfer Cymru. Felly, rwy'n falch iawn bod gennym Fil sy'n darparu ar gyfer sefydlu Cymwysterau Cymru ac yn rhoi iddo, yn fy marn i, amrywiaeth hynod effeithiol o swyddogaethau, y gall weithredu trefn reoleiddio gadarn a heriol â hi, er budd dysgwyr.

Since introducing the Bill on 1 December 2015, there has been much fruitful debate—I believe that's 2014, not 2015. There has been much fruitful debate. I would like to take this opportunity to thank the Children, Young People and Education Committee and the Constitutional and Legislative Affairs Committee for the professional manner in which the scrutiny was undertaken. I also thank stakeholders for the valuable evidence that they provided. Could I also perhaps add, on a more personal note, my appreciation of the Business Committee's willingness to take on board Stage 4 this afternoon? It is much appreciated by myself.

Ers cyflwyno'r Bil ar 1 Rhagfyr 2015, bu llawer o ddadlau ffrwythlon—rwy'n credu mai 2014 yw hwnna, nid 2015. Bu llawer o ddadlau ffrwythlon. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am y modd proffesiynol yr ymgymerwyd â'r craffu. Diolchaf hefyd i randdeiliaid am y dystiolaeth werthfawr a ddarparwyd ganddynt. A gaf fi hefyd ychwanegu efallai, ar nodyn mwy personol, fy ngwerthfawrogiad o barodrwydd y Pwyllgor Busnes i fynd i'r afael â Chyfnod 4 y prynhawn yma? Rwy'n ei werthfawrogi'n fawr.

This Government takes the scrutiny process very seriously. Whilst there has always been strong cross-party support for this Bill, I have been pleased to consider the issues that have been raised, and, when we have brought forward amendments to the Bill, where we believed it was right and proper to do so, there has been appropriate, collegiate, but rigorous examination of those amendments. I'm grateful to Members for their diligence and careful consideration of the Bill, which led to a number of such amendments being brought forward, and I'd like to assure Members that all amendments were given careful and serious consideration.

Mae'r Llywodraeth hon yn trin y broses graffu yn hynod o ddifrif. Er y bu cefnogaeth drawsbleidiol gref i'r Bil hwn erioed, rwyf wedi bod yn falch o ystyried y materion a godwyd, a, phan rydym wedi cyflwyno gwelliannau i'r Bil, lle'r oeddem yn credu ei bod yn iawn ac yn briodol i wneud hynny, bu archwiliad priodol, colegol, ond trwyadl o'r gwelliannau hynny. Rwy'n ddiolchgar i'r Aelodau am eu diwydrwydd a'u hystyriaeth ofalus o'r Bil, a arweiniodd at nifer o welliannau o'r fath yn cael eu cyflwyno, a hoffwn sicrhau'r Aelodau y rhoddwyd ystyriaeth ofalus a difrifol i'r holl welliannau.

I'm confident that we have a Bill that will strengthen the qualifications system in Wales, and one that enables Qualifications Wales to take the necessary steps to ensure that both the qualifications and the qualifications system are truly effective for meeting the needs of learners in Wales.

Rwy'n hyderus bod gennym Fil a fydd yn cryfhau'r system gymwysterau yng Nghymru, ac un sy'n galluogi Cymwysterau Cymru i gymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod y cymwysterau a'r system gymwysterau yn wirioneddol effeithiol ar gyfer diwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru.

Public confidence in qualifications, but also in Qualifications Wales itself and the role it plays within the system, is essential, and we will all be looking to Qualifications Wales to lead on this work. I am sure that we will all look forward to the first debate on the first annual report of the new body. We all want Qualifications Wales to have the best possible start as it begins its life, marking a hugely important element of devolved education policy in Wales.

Mae hyder y cyhoedd mewn cymwysterau, ond hefyd yng Nghymwysterau Cymru ei hun a'r swyddogaeth y mae'n ei chyflawni o fewn y system, yn hanfodol, a byddwn i gyd yn disgwyl i Gymwysterau Cymru arwain y gwaith hwn. Rwy'n siŵr y byddwn i gyd yn edrych ymlaen at y ddadl gyntaf ar adroddiad blynyddol cyntaf y corff newydd. Rydym ni i gyd eisiau i Gymwysterau Cymru gael y cychwyn gorau posibl wrth iddo ddechrau ei oes, gan nodi elfen hynod bwysig o bolisi addysg datganoledig yng Nghymru.

Learners in Wales need qualifications, and they need Qualifications Wales to ensure that those qualifications are fit for purpose and equip them well for their futures. I believe this Bill gives Qualifications Wales the right range of functions and provides for the right level of accountability to enable that to happen. I therefore ask Members, just one more time, to support this Bill.

Mae angen cymwysterau ar ddysgwyr yng Nghymru, ac mae angen i Gymwysterau Cymru sicrhau bod y cymwysterau hynny'n addas i'w diben ac yn eu paratoi'n dda ar gyfer eu dyfodol. Rwy'n credu bod y Bil hwn yn rhoi'r amrywiaeth gywir o swyddogaethau i Gymwysterau Cymru ac yn darparu ar gyfer y lefel gywir o atebolrwydd i alluogi hynny i ddigwydd. Gofynnaf felly i'r Aelodau, dim ond un waith eto, i gefnogi'r Bil hwn.

17:06

## Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Could I just add my thanks to those of the Minister to everyone who's taken part in the debate today, and to officials and colleagues, particularly those on the Children, Young People and Education Committee, who, of course, undertook pre-legislative scrutiny as well as the more familiar scrutiny of this Bill? I think that the work that we did on this Bill last year was hugely useful to us as a committee, but also to the Minister, as he's acknowledged himself, who was, of course, still, at that early stage, considering the introduction of a much more complex Bill, giving Qualifications Wales direct awarding responsibilities.

A gaf i ychwanegu fy niolch at rai'r Gweinidog i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl heddiw, ac i swyddogion a chydweithwyr, yn enwedig y rhai ar y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a gyflawnodd, wrth gwrs, waith craffu cyn deddfu yn ogystal â'r craffu mwy arferol ar y Bil hwn? Credaf fod y gwaith a wnaethom ar y Bil hwn y llynedd wedi bod yn hynod ddefnyddiol i ni fel pwyllgor, ond hefyd i'r Gweinidog, fel y mae wedi cydnabod ei hun, a oedd, wrth gwrs, ar y cam cynnar hwnnw, yn dal i ystyried cyflwyno Bil llawer mwy cymhleth, gan roi cyfrifoldebau dyfarnu uniongyrchol i Gymwysterau Cymru.

What came before us, following the pre-legislative scrutiny, was much more modest in ambition—a Bill that seemed well thought out and clear in its policy intention and actions required, with very little left to regulation or other post-legislative options. It took on board many of the observations and recommendations of the Children, Young People and Education Committee, and I think, at that stage, it probably had the cleanest bill of health that the Constitutional and Legislative Affairs Committee had ever given.

Roedd yr hyn a ddaeth ger ein bron, ar ôl y craffu cyn deddfu, yn llawer mwy cymedrol o ran uchelgais—Bil a oedd ymddangos i fod wedi ei ystyried yn dda ac yn eglur o ran ei fwriad polisi a'r camau a oedd yn ofynnol, gydag ychydig iawn yn cael ei adael i reoleiddio neu ddewisiadau ôl-ddeddfwriaethol eraill. Cymerodd lawer o arsylwadau ac argymhellion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i ystyriaeth, ac rwy'n credu, bryd hynny, iddo gael yr adborth gorau yr oedd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol erioed wedi ei roi.

However, of course, the gaping hole in the Bill, discovered just days before the Stage 2 debate, has presented Welsh Conservatives with a dilemma. You gave the Children, Young People and Education Committee evidence at Stage 1, Minister, that the finances and personnel capacity of Qualifications Wales were about right and that your expert advisers and the shadow chief executive officer of Qualifications Wales were very much on top of things and very hands on. Then, just days before Stage 2 scrutiny, you presented the Assembly with a suite of late amendments introducing the new concept—or just about new concept—of designated qualifications, acknowledging that the process of approving qualifications envisaged in this Bill was nowhere near able to deal with the number of likely applicants for approval in anything like short order.

Fodd bynnag, wrth gwrs, mae'r twll enfawr yn y Bil, a ddarganfuwyd ychydig ddyddiau cyn dadl Cyfnod 2, wedi cyflwyno cyfyng-gyngor i Geidwadwyr Cymru. Rhoesoch dystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yng Nghyfnod 1, Weinidog, fod cyllid a chapasiti personél Cymwysterau Cymru fwy neu lai'n iawn a bod gan eich ymgynghorwyr arbenigol a phrif swyddog gweithredol cysgodol Cymwysterau Cymru reolaeth dda ar bethau a'u bod yn cymryd rhan ymarferol iawn. Yna, ychydig ddiwrnodau cyn craffu Cyfnod 2, cyflwynwyd cyfres o welliannau hwyr gennych i'r Cynulliad yn cyflwyno'r cysyniad newydd—neu gysyniad a oedd fwy neu lai'n newydd—o gymwysterau dynodedig, gan gydnabod nad oedd y broses o gymeradwyo cymwysterau a ragwelir yn y Bil hwn yn agos at allu ymdrin â'r nifer o ymgeiswyr tebygol am gymeradwyaeth mewn cyfnod a fyddai'n agos at fod yn fyr.

Of course, the original idea was that only approved qualifications should be funded by the Government, the commitment of cash demonstrating that a qualification was effective for meeting the needs of the learners of Wales and was capable of promoting public confidence in the new Welsh system—the Bill's primary aims. But what was to happen to all of the qualifications awaiting approval, and, more importantly, all of those people wishing to study and work for them? The pragmatic approach was to say, 'Let's have designated qualifications'—I think 'needs must' is what you called it earlier, Minister—and that designated qualifications would also attract Government funding.

Wrth gwrs, y syniad gwreiddiol oedd mai dim ond cymwysterau cymeradwy ddylai gael eu hariannu gan y Llywodraeth, wrth i'r ymrwymiad o arian parod ddangos bod cymhwyster yn effeithiol i ddiwallu anghenion dysgwyr Cymru ac yn gallu hybu hyder y cyhoedd yn system newydd Cymru—sef prif nodau'r Bil. Ond beth fyddai'n digwydd i bob un o'r cymwysterau a oedd yn aros am gymeradwyaeth, ac, yn bwysicach, yr holl bobl hynny a oedd yn dymuno astudio a gweithio ar eu cyfer? Y dull pragmatig oedd dweud, 'Gadewch i ni gael cymwysterau dynodedig'—rwy'n credu mai 'os oes rhaid' yw'r hyn i chi ei alw'n gynharach, Weinidog—ac y byddai cymwysterau dynodedig hefyd yn denu cyllid gan y Llywodraeth.

But you were unable, Minister, to test whether moving money back only from those qualifications that were approved would affect the principal aims of this legislation, and neither was this Assembly able to test that and nor was the public. I would still ask, actually: if this huge corpus of designated courses is good enough to get public money, where is the advantage in terms of public confidence, or even meeting the needs of Welsh learners, in setting up Qualifications Wales to approve and regulate qualifications and their awarding bodies?

Ond nid oeddech yn gallu profi, Weinidog, pa un a fyddai symud arian yn ôl dim ond o'r cymwysterau hynny a oedd wedi'u cymeradwyo yn effeithio ar brif nodau'r ddeddfwriaeth hon, ac nid oedd y Cynulliad hwn yn gallu profi hynny, na'r cyhoedd ychwaith. Byddwn yn dal i ofyn, a dweud y gwir: os yw'r corff enfawr hwn o gyrsiau dynodedig yn ddigon da i gael arian cyhoeddus, lle mae'r fantais o ran hyder y cyhoedd, neu hyd yn oed diwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru, o sefydlu Cymwysterau Cymru i gymeradwyo a rheoleiddio cymwysterau a'u cyrff dyfarnu?

It is this fundamental undermining of the principal aims of this Bill that has presented us with the dilemma. Even now, I think that policy failure and scrutiny failure should be enough to prevent Welsh Conservatives supporting this legislation. However—and it's a happy 'however', I hope—I consider that the quality of the Bill as a legislative instrument—it still remains one of the best-drafted Bills that we've seen to date—is important, as it shows other Ministers what a well-balanced Bill can look like. Looking beyond the policy area and the consequent lack of scrutiny, I think this Bill has otherwise demonstrated a respect for this Assembly as the legislature that seems to me to be more than the simple weighing up of numbers of an Assembly in political balance.

Y tanseilio sylfaenol hwn o brif nodau'r Bil sydd wedi cyflwyno'r cyfyng-gyngor hwn i ni. Hyd yn oed yn awr, rwy'n meddwl y dylai methiant polisi a methiant craffu fod yn ddigon i atal Ceidwadwyr Cymru rhag cefnogi'r ddeddfwriaeth hon. Fodd bynnag—ac mae'n 'fodd bynnag' hapus, rwy'n gobeithio—rwyf o'r farn bod ansawdd y Bil fel offeryn deddfwriaethol—mae'n parhau i fod yn un o'r Biliau a ddrafftiwyd orau i ni ei weld hyd yn hyn—yn bwysig, gan ei fod yn dangos i Weinidogion eraill sut y gall Bil cytbwys edrych. Gan edrych y tu hwnt i'r maes polisi a'r diffyg craffu dilynol, rwy'n meddwl bod y Bil hwn fel arall wedi dangos parch at y Cynulliad hwn fel y ddeddfwrfa y mae'n ymddangos i mi i fod yn fwy na dim ond pwyso a mesur rhifau Cynulliad sy'n wleidyddol gytbwys.

It is also the Bill that sets up Qualifications Wales part 1, if you like—an achievement in itself, despite the obvious capacity issues—and, while I have no wish to see another Labour Government in May, plans for the future of Qualifications Wales may well proceed under a different education Minister. So, the words 'baby' and 'bathwater' have also featured in our thinking. We will, therefore, support this Bill as amended today, even though, Minister, I think it does sit well below the angels. Thank you.

Y Bil hwn hefyd sy'n sefydlu rhan 1 Cymwysterau Cymru, os mynnwch chi—llwyddiant ynddo'i hun, er gwaethaf y problemau capasiti amlwg—ac, er nad wyf yn dymuno gweld Llywodraeth Lafur arall ym mis Mai, mae'n bosibl iawn y gallai cynlluniau ar gyfer dyfodol Cymwysterau Cymru barhau o dan wahanol Weinidog addysg. Felly, mae'r geiriau 'babi' a 'dŵr baddon' hefyd wedi ymddangos yn ein ffordd o feddwl. Byddwn yn cefnogi'r Bil hwn felly, fel y'i diwygiwyd heddiw, er, Weinidog, fy mod yn credu ei fod yn eistedd yn llawer is na'r angylion. Diolch yn fawr.

17:11

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Bydd Plaid Cymru yn cefnogi'r Bil yng Nghyfnod 4. Nid yw'n wastad yn briodol ein bod yn trafod Cyfnod 4 mor fuan ar ôl Cyfnod 3, ond rydym yn cydymdeimlo, wrth gwrs, â'r Gweinidog a'r Aelod dros Dorfaen ar y rhesymau am hynny, ac yn llwyr dderbyn ei bod yn briodol ein bod yn gwneud pethau fel ag yr ydym heddiw. Mae o gymorth, yn sicr, bod y Bil yn un sydd heb greu anghytuno mawr rhwng y pleidiau. Yn wir, pan gyflwynwyd y Bil, fel y gwnaeth Suzy Davies ein hatgoffa ni, ar sail y dystiolaeth a'r craffu ymlaen llaw a oedd wedi digwydd yn y pwyllgor, roedd croeso cyffredinol mawr i'r Bil ac, ar y cyfan, mae'r croeso yn dal i fod yno.

Plaid Cymru will support the Bill at Stage 4. It is not always appropriate that we discuss Stage 4 so soon after Stage 3, but we do sympathise with the Minister and the Member for Torfaen in this instance, and we fully accept that it's appropriate that we do thing in this way today. It is of assistance, certainly, that the Bill is one that hasn't created major disagreement between the parties. Indeed, when the Bill was brought forward, as Suzy Davies reminded us, on the basis of the pre-legislative scrutiny that happened at committee, there was a general welcome, and, generally speaking, that continues to be the case.

Rydym ni ym Mhlaid Cymru yn sicr yn croesawu'r ffaith bod corff annibynnol wedi ei sefydlu gan y Bil yma i reoleiddio arholiadau a chymwysterau yng Nghymru. Rwyf wedi bod yn sôn am hyn ers dod i'r lle yma: bod marchnadeiddio yn y maes hwn yn gyrru safonau i lawr, yn ei gwneud hi'n fwy anodd i ddysgwyr o bryd i'w gilydd wybod pa gymhwyster sy'n fwyaf priodol iddyn nhw. Roedd angen i hynny gael ei reoleiddio, ac nid gan Weinidog o unrhyw blaid, ond gan gorff annibynnol, a dyna beth mae'r Bil yma'n ei wneud. Rwyf hefyd yn gobeithio maes o law y bydd cymwysterau academaidd a galwedigaethol yn cael eu trin gyda pharch cydradd. Er i ni golli'r ddadl yna o safbwynt geiriad y Bil, rwy'n derbyn bod y Llywodraeth a'r Gweinidog wedi mynegi mai dyna yw eu bwriad nhw. Wrth gwrs, wrth i ni ddod i graffu ar waith Cymwysterau Cymru, byddwn yn chwilio i wneud yn siŵr bod y bwriad yna yn cael ei drosglwyddo gan y corff newydd.

We in Plaid Cymru certainly welcome the fact that an independent body is established under this Bill to regulate examinations and qualifications in Wales. I have been talking about this since coming to this place: that the commercialisation in this area is driving standards down and making things more difficult for learners to know which qualifications are most appropriate for them. That needed regulation, and not by a Minister from any party, but by an independent body, and that's what this Bill provides for. I also hope that, in due course, academic and vocational qualifications will be given parity of esteem. Although I lost that argument in terms of the wording on the face of the Bill, I accept that the Government and the Minister have expressed that that is their intention. As we scrutinise the work of Qualifications Wales, we will be seeking to ensure that that is actually delivered by the new body.

Nawr, mewn un ffordd, y mae'r gwaith caled yn dechrau, oherwydd mater weddol rwydd i ni yw llunio darn o ddeddfwriaeth fan hyn, drwy bwyllgor a thrwy 'Plenary'; mater llawer mwy anodd nawr yw gwerthu'r system yma i ddysgwyr, i rieni, i gwmnïau, i gyflogwyr, i golegau a phrifysgolion, yn enwedig y rhai hynny sydd y tu hwnt i ffiniau Cymru. Mae addysg a safonau addysg yn debygol o fod yn ddadl wleidyddol maes o law, yn arwain at fis Mai nesaf, ac mae'n siŵr y byddaf i'n chwarae fy rôl yn y ddadl yna hefyd, ond rwyf hefyd yn siŵr bod gennym fenter ar y cyd yma i sicrhau bod hyder, ffydd a chadernid yn ein system cymwysterau ni, ac mae sefydlu corff annibynnol o gymorth yn hynny o beth. Bydd hi nawr yn fater i'r Llywodraeth hyrwyddo hyn a gwneud yn siŵr bod pawb yn gwybod am y corff newydd ac yn gwybod ym mha ffordd y mae'r corff newydd yn gweithio ac yn gwybod ym mha ffordd y gallan nhw ddal cymwysterau gan Gymwysterau Cymru a defnyddio'r cymwysterau yna i agor drysau dysg, drysau gwaith a drysau hunanwellhad, fel petai, achos dyna beth yw pwrpas addysg yn y pen draw: i wneud rhywun y person mwyaf gyflawn â phosib.

Now the hard work starts, in a way, because it's a relatively easy matter for us to draw up a piece of legislation here, in committee and in Plenary; it is far more difficult to now sell this system to learners, to parents, to companies, to employers, to colleges and to universities, particularly those beyond the Welsh border. Education and educational standards are likely to be a political issues in due course, in the lead-up to next May, and I'm sure that I'll play my part in that debate, but I'm also sure that we have a joint enterprise here in ensuring that there is confidence, faith and robustness in our qualifications system, and establishing an independent body is of assistance in that regard. It will now be up to Government to promote this and to ensure that everyone is aware of this new body and knows how this new body works and knows how they can actually hold qualifications through Qualifications Wales and use those qualifications to open doors in academia, in the work of work and in terms of self-improvement, because that's the purpose of education ultimately: to make someone as rounded as possible.

Rwy'n falch hefyd ein bod ni wedi pasio'r Bil mewn ffordd sy'n caniatáu i Gymwysterau Cymru feddu ar yr ymchwil gorau a'r profiad gorau, a meincnodi ei hunan yn erbyn yr hyn sy'n digwydd ar lefel Ewropeaidd, yn benodol i ni fel aelod o'r Undeb Ewropeaidd, a, gobeithio, yn parhau felly. Rwyf hefyd yn meddwl bod y Llywodraeth wedi dysgu gwers o'r broses a wnaed gan y pwyllgor ymlaen llaw a chyflwyno hwn, fel roedd Suzy Davies yn cyfeirio ato, fel y cam cyntaf. Rwy'n derbyn bod y Llywodraeth yn dal i feddwl, o ran egwyddor, y dylai Cymwysterau Cymru ddod yn gorff dyfarnu yn ogystal â chorff rheoleiddio. Rwyf heb gael fy mherswadio eto am hynny, mae'n rhaid i mi ddweud, ond, wrth gwrs, wrth wneud pethau fel hyn, roedd y Llywodraeth yn gallu cael mwy o gefnogaeth ar gyfer ei cham cyntaf, ac fe fydd yn ddyletswydd ar y Cynulliad nesaf i weld sut mae'r corff yma yn perfformio fel rheoleiddiwr, ac wedyn, ar gefn hynny, gweld a oes modd sefydlu'r corff fel corff dyfarnu yn ogystal. Rwyf o'r farn bod gormod o farchnadeiddio wedi digwydd yn y lle cyntaf a bod y corff rheoleiddio yn helpu yn y broses yna. Nid wyf yn siŵr a ddylai fod dim ond un corff dyfarnu er mwyn ateb y broblem yna, a dyna pam rwy'n agored i'r syniad, ond yn ymfalchïo yn y ffaith bod y Bil fel ag y mae yn defnyddio proses fwy cynyddol.

I'm also pleased that we passed the Bill in a way that allows Qualifications Wales to have the best research and the best experience, and to benchmark itself against what happens at the European level, particularly for us as a member of the European Union, and I hope that we continue to be a member of the European Union. I also feel that the Government has learnt the lesson undertaken by the committee in its pre-legislative scrutiny and, as Suzy Davies mentioned, they have introduced this as a first step. I accept that the Government still thinks that, in principle, Qualifications Wales should become an awarding body as well as a regulatory body. I am yet to be convinced about that, I have to say, but, of course, in doing things in this manner, the Government could generate more support for this first step, and the next Assembly will be duty bound to monitor how this body works as a regulator, and then, on the back of that, to see whether we can actually set up the body as an awarding body also. I am of the opinion that there has been too much marketisation initially and that the regulatory body will assist in that process. I am not sure whether there should be only one awarding body as a solution to the problem, and that's why I'm open to the idea, but I do take pride in the fact that the Bill, as currently drafted, follows a more staged process.

Mae'n bwysig, fel rydym wedi ei glywed, fod adnoddau priodol yn eu lle i sicrhau bod y corff yma yn gallu gwneud ei waith. Roedd yn siom i mi, gan fod y gwaith wedi bod cystal hyd at Gyfnod 2, fod y Llywodraeth ond wedi dihuno i'r problemau o ran delio â chymaint o gymwysterau ar ôl cyflwyno a mynd i'r pwyllgor, a chyflwyno gwelliannau eithaf sylweddol, felly—adran newydd cyfan i'r Bil—fel rhan o Gyfnod 2 y pwyllgor. Gwnaethom atal ein pleidlais yn y pwyllgor a heddiw, gan nad ydym ni wedi cael ein hargyhoeddi mai dyna yw'r ffordd fwyaf priodol ymlaen. Ond, nawr bod y Bil wedi cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad—wel, ar fin cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad—bydd Plaid Cymru yn chwarae ein rôl ni i sicrhau bod y corff yma yn llwyddiannus, ac i sicrhau bod gan Gymwysterau Cymru, a'r gwaith o sicrhau arholiadau priodol a chymwysterau priodol academaidd a galwedigaethol yng Nghymru, yn ennyn y ffydd a'r hyder mwyaf gan bawb yng Nghymru a thu hwnt.

It's important, as we've heard, that appropriate resources are in place to ensure that this body is able to carry out its functions. It was disappointing for me, given that the work had been so positive up to Stage 2, that the Government only woke up to the problems in dealing with so many qualifications after the Bill's introduction and going to committee, and then has to introduce quite significant amendments—a whole new section in the Bill—at Stage 2 in committee. We abstained at committee stage and today, because we weren't convinced that that is the most appropriate way forward. But, now that the Bill has been approved by the Assembly—or is about to be approved by the Assembly—Plaid Cymru will play its role in ensuring that this body is successful and in ensuring that Qualifications Wales, and the work of ensuring appropriate academic and vocational qualifications ion Wales, has the greatest faith and confidence from everyone in Wales and beyond.

17:16 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n ategu beth mae Suzy Davies a Simon Thomas wedi ei ddweud. Rwy'n meddwl ein bod ni wedi llwyddo heddiw i wneud y broses yn llawer iawn haws oherwydd y gwaith craffu y mae'r pwyllgor plant wedi ei wneud. A hefyd, rwyf eisiau ategu beth ddywedodd y Gweinidog: rwy'n meddwl bod y ffurf gadarnhaol ac adeiladol y mae nifer o'r gwelliannau wedi cyrraedd, yn y pen draw, yn rhywbeth sydd yn arfer da i'r Cynulliad yma. Er mae'n debyg bod nifer ohonom ni o ran y gwrthbleidiau yn siomedig nad oedd y Llywodraeth yn barod i dderbyn rhai o'n gwelliannau ni, mae'r gwelliannau yna, efo dipyn bach o newid o ran geirfa, wedi cael eu derbyn yn y pen draw ac wedi ymddangos yn enw'r Llywodraeth.

I endorse what Suzy Davies and Simon Thomas have said. I believe that we have succeeded today in making the process much easier because of the scrutiny work that the children committee did. Also, I want to endorse what the Minister said: I think that the positive and constructive form that a number of the amendments have arrived at, ultimately, is something that is good practice for the Assembly. Although many of us in the opposition parties are disappointed that the Government was not willing to accept some of our amendments, those amendments, with some changes to wording, have been accepted ultimately and have appeared in the name of the Government.

Rwy'n meddwl mai'r peth mwyaf pwysig rŵan ydy ein bod ni'n dymuno'n dda i Gymwysterau Cymru. Mae'n bwysig iawn bod gan ein plant a'n rhieni ni hyder yn y corff newydd, a bod y cymwysterau sydd yn ymddangos yn enw Cymru yn rhai sydd yn denu clod ar draws Ewrop ac ymhellach i ffwrdd. Felly, rwyf eisiau dymuno'n dda iddyn nhw, er rwy'n cytuno efo Suzy Davies fod yna nifer o gwestiynau yn codi erbyn hyn ynglŷn â'r adnoddau sydd ar gael a'r capasiti o fewn y corff wrth ystyried y gwaith mwy eang y bydd yn rhaid iddyn nhw ei wneud yn dilyn y gwelliannau a gafodd eu cyflwyno yng Nghyfnod 3. Ond rwyf yn meddwl ei bod hi'n fater rŵan i'r Llywodraeth a'r corff newydd ddangos eu bod nhw'n gallu ymdopi â'u cyfrifoldebau.

I think that the most important thing now is that we wish Qualifications Wales well. It is very important that our children and our parents have confidence in the new body, and that the qualifications that appear in the name of Wales are ones that are praised across Europe and beyond. So, I want to wish them well, although I agree with Suzy Davies that a number of questions have arisen here in terms of the resources available and the capacity within the body given the broader range of work that they will have to do following the amendments that were introduced in Stage 3. But I do think that it is a matter now for the Government and the new body to show that they can cope with their responsibilities.

Rwyf hefyd eisiau ategu sylwadau Simon Thomas. Nid ydym fel arfer yn credu ei bod hi'n arfer da i symud yn syth o Gyfnod 3 i Gyfnod 4, ond, wrth gwrs, rydym yn cydymdeimlo â sefyllfa bersonol teulu'r Gweinidog a'r Aelod dros Dorfaen, sydd wedi gwneud hynny, rwy'n meddwl, yn dderbyniol yn y sefyllfa arbennig yma. Yn y cyfamser, tra rydym yn dymuno'n dda, rwy'n meddwl hefyd y bydd angen i'r Llywodraeth ein darbwyllo ni fel gwrthbleidiau, os ydynt am symud ymlaen i greu corff dyfarnu sydd efo cyfrifoldeb, o ran Cymwysterau Cymru, dros yr holl arholiadau yng Nghymru—rwy'n meddwl nad yw'r dystiolaeth yna ar hyn o bryd wedi ei gosod allan o'm rhan i yn bersonol, ac o ran aelodau grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol.

I also want to endorse the comments of Simon Thomas. We don't usually believe that it's good practice to move straight from Stage 3 to Stage 4, but, of course, we do sympathise with the personal situation of the family of the Minister and the Member for Torfaen, which has made that, I think, acceptable in these circumstances. In the meantime, while we are wishing them well, I think also that the Government will need to convince us as opposition parties, if they want to move on to create an awarding body that has responsibility, in terms of Qualifications Wales, across all the examinations in Wales—I think that the evidence there at present has not convinced me of that personally, nor the members of the Liberal Democrats group.

17:19 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

And the Minister to reply.

A'r Gweinidog i ymateb.

17:19 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Could I extend, finally and briefly, my thanks once more to Members of all parties in terms of their contributions, now going back some months? And perhaps particularly to Ann Jones for her enthusiastic championing of the pre-legislative techniques that have, at least for this piece of legislation, I think, helped hone better law in terms of how the subsequent process then ran. My thanks also to officials who have worked so very hard—both Government officials and committee officials—and to the many stakeholders that now, as do we, invest their hopes in the good working practice of Qualifications Wales in the future. So much does depend upon Qualifications Wales doing a good job. At the centre of all our concerns here, of course, are those passports to a future that young people need to gain as part of their education, and our duty to look after them, in terms of the rock-solid reputation and passportability of those passports to their future. So, I wish Qualifications Wales well, and look forward to working with them. Thank you.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi, yn olaf ac yn gryno, ddiolch unwaith eto i Aelodau o bob plaid am eu cyfraniadau, sy'n mynd yn ôl rai misoedd erbyn hyn? Ac yn arbennig efallai i Ann Jones am ei hyrwyddo brwd o'r technegau cyn deddfu sydd wedi, o leiaf ar gyfer y darn hwn o ddeddfwriaeth, yn fy marn i, wedi helpu i hogi cyfraith well o ran sut y cyflawnwyd y broses ddilynol wedyn. Hoffwn ddiolch hefyd i swyddogion sydd wedi gweithio mor galed—swyddogion Llywodraeth a swyddogion pwyllgor—ac i'r rhanddeiliaid niferus sydd bellach, fel ninnau, yn buddsoddi eu gobeithion yn arfer gweithio da Cymwysterau Cymru yn y dyfodol. Mae cymaint yn dibynnu ar Gymwysterau Cymru'n gwneud ei waith yn dda. Yn ganolog i'n holl bryderon yn y fan yma, wrth gwrs, mae'r pasbortau hynny i ddyfodol y mae angen i bobl ifanc ei sicrhau yn rhan o'u haddysg, a'n dyletswydd ni i ofalu amdanynt, o ran enw da hynod gadarn a pasbortadwyedd y pasbortau hynny i'w dyfodol. Felly, dymunaf yn dda i Gymwysterau Cymru, ac edrychaf ymlaen at weithio gyda nhw. Diolch yn fawr.

17:21 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that the Qualifications Wales Bill be passed. Does any Member object? The Qualifications Wales Bill is agreed to in accordance with Standing Order 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid pasio Bil Cymwysterau Cymru. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Caiff Bil Cymwysterau Cymru ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:21 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And that concludes today's proceedings.

Ac mae hynny'n dod â thrafodion heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 17:21.*

*The meeting ended at 17:21.*